# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 1 RHAGFYR 2015 am 2.00 o'r gloch y prynhawn | TUESDAY 1 DECEMBER, 2015 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**ANNIBYNNOL / INDEPENDENT**

Jim Evans, Victor Hughes, G.O. Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Raymond Jones

**PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES**

Cynghorydd R.Meirion Jones (Cadeirydd/Chair), Lewis Davies, Ann Griffith a
Llinos Medi Huws

**GRWP CHWYLDROAD/REVOLUTIONIST GROUP**

Peter Rogers

**HEB YMUNO/UNAFFILIATED**

R Ll Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG GYDA PHLEIDLAIS PAN YN TRAFOD MATERION YN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS WITH A RIGHT TO VOTE WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church) a
Canon Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**

Y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd i ddiweddaru'r Pwyllgor ar unrhyw faterion yn codi.

3 **COFNODION CYFARFOD 16 TACHWEDD, 2015** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2015.

Yn codi –

**Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion**

Ystyried enwebu Aelod o'r Pwyllgor i wasanaethu ar Fwrdd Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion.

4 **MONITRO PERFFORMIAD : Y CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH 2 2015/16** (Tudalennau 9 - 24)

Cyflwyno'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2 2015/16.

5 **MONITRO PERFFORMIAD: RHEOLI POBL**

Y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) i adrodd ynghylch absenoldeb salwch.

6 **MONITRO'R GYLLIDEB : Y GYLLIDEB REFENIW CH2 2015/16** (Tudalennau 25 - 36)

Cyflwyno adroddiad monitro'r Gyllideb Refeniw am Chwarter 2 2015/16.

7 **MONITRO'R GYLLIDEB: Y GYLLIDEB GYFALAF CH2 2015/16** (Tudalennau 37 - 52)

Cyflwyno adroddiad monitro'r Gyllideb Gyfalaf am Chwarter 2 2015/16.

8 **ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL LLYFRGELLOEDD 2014/15** (Tudalennau 53 - 84)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Dysgu.

9 **GWERTHUSIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL AGGCC O'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2014/15** (Tudalennau 85 - 154)

Cyflwyno adroddiad y AGGCC ac atodiadau.

10 **GWASANAETHAU PLANT - ADOLYGIAD ACHOS PENODOL** (Tudalennau 155 - 158)

Cyflwyno adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Plant.

**11** **PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI: GWAREDU ASEDAU** (Tudalennau 159 - 190)

Cyflwyno adroddiad terfynol y Panel Canlyniad Sgriwtini ar waredu asedau.

**12** **BLAEN RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 191 - 196)

Cyflwyno Blaen Rhaglen Waith y Pwyllgor 2015/16.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd G. O. Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jim Evans, Ann Griffith, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, R. Llewelyn Jones, Peter Rogers. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr (ar ôl eitem 2)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Cynaliadwyedd<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymuned<br>Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Trawsnewid<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Pennaeth Dysgu<br>Pennaeth Tai<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br>Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd<br>Pennaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol<br>Rheolwr Rhaglen Gorfforaethol<br>Prif Syrfëwr (RH)<br>Rheolwr Sgriwtini Dros Dro (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd H. Eifion Jones (Aelod Portffolio Cyllid), Y Cynghorydd John Arwel Roberts (Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Aelod Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd y Cyngor), Y Cynghorydd Alwyn Rowlands (Aelod Portffolio ar gyfer Trawsnewid Perfformiad, Adnoddau Dynol a'r Cynllun Corfforaethol), Y Cynghorydd Kenneth Hughes (Aelod Portffolio Addysg), Y Cynghorydd Derlwyn Hughes (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio), Y Cynghorydd Alun Mummery (Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio), Prif Weithredwr Cynorthwyol (CT), Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh (JT), Y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol). |

DRAFT

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION Y CYFARFOD AR 17 MEDI 2015

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Medi 2015 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

### 3. BWRDD RHAGLEN TRAWSNEWID GWASANAETHAU PLANT

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini yn ceisio cefnogaeth y Pwyllgor i benodi Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac Arweinydd yr Wrthblaid yn aelodau o'r Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant. Roedd yr adroddiad yn rhoi

gwybodaeth gefndirol ynglŷn â sefydlu'r Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau Plant fel Bwrdd sy'n sefyll ar ei ben ei hun ynghyd â'i nodau ac amcanion.

**Penderfynodd y Pwyllgor roi ei gefnogaeth i benodi Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac Arweinydd yr Wrthblaid yn aelodau o'r Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**4. CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2016/17**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 i'r Pwyllgor ei ystyried a rhoi sylwadau arno. Roedd yr adroddiad yn ymgorffori'r gyllideb refeniw sefydlog lefel uchel ddrafft gychwynnol ar gyfer 2016/17 (Atodiad A). Roedd hefyd yn nodi'r bwlch tebygol yn y gyllideb yn seiliedig ar y setliad tebygol gan Lywodraeth Cymru ynghyd â'r cynigion arbedion (Atodiad B) a roddwyd ymlaen gan adrannau'r Cyngor i gyfrannu tuag at bontio'r bwlch ariannol.

Adroddodd Arweinydd y Cyngor ar y prif ystyriaethau fel a ganlyn:

- Mae'r Strategaeth Refeniw Tymor Canol sy'n ceisio adnabod y diffyg yn y gyllideb o ganlyniad i'r agenda llymder wedi cael ei diweddaru a chanlyniad hyn yw bod yr Awdurdod mewn sefyllfa lle bydd yn rhaid iddo wneud arbedion o tua £5.7m. Mae gwasanaethau'r Cyngor wedi adnabod arbedion gwerth £3.9m a chaiff y rhain eu rhestru yn Atodiad B.
- Disgwylir na fydd y setliad cychwynnol i Lywodraeth Leol yn cael ei gyhoeddi tan fis Rhagfyr 2015 yn ddibynnol ar ganlyniadau'r Adolygiad Gwario Cynhwysfawr ar 25 Tachwedd 2015 a disgwylir y Setliad Terfynol cyn 31 Mawrth 2016. Mae'r amserlen hon yn ei gwneud yn fwy anodd cynllunio'r gyllideb oherwydd yr ansicrwydd ynghylch union lefel y toriadau. Rydym wedi ymgorffori rhagamcan darbodus o leihad o 4.5% yn y Cyllid Allanol Cyfunol yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2016/17.
- Mae risg ariannol yn bodoli ar ffurf gostyngiadau mewn grantiau allanol. Disgwylir toriadau sylweddol yn yr holl gynlluniau grant allanol gan Lywodraeth Cymru. Dau o'r grantiau allweddol lle disgwylir lleihad yn y cyllid yw'r Grant Amgylchedd Sengl (SWMG ynghynt) a'r Grant Cymorth i Wasanaethau Bysus. Disgwylir gostyngiad o 25% i 30% yn lefel y grant cyntaf a allai olygu colled o £400-500k i'r Awdurdod ac yn achos yr ail grant, gallai adolygiad gan Lywodraeth Cymru olygu y bydd y grant yn cael ei ailddosbarthu rhwng y rhanbarthau gyda deilliant mwy ffafriol i ardaloedd trefol De Cymru.
- Byddai gostyngiad o 4.5% yn y Grant Cymorth Refeniw yn golygu setliad o thua £88.8m. Byddai cynnydd arfaethedig o 4.5% yn y Dreth Gyngor yn cynhyrchu £32.3m sy'n rhoi cyfanswm o £121.131m. Mae'r tabl ym mharagraff 2.3.4 yn rhoi lefelau amrywiol y dreth gyngor a'r arbedion fyddai eu hangen ar gyfer pob un.
- Fel rhan o'r fframwaith cynllunio gwasanaeth a chyllideb, mae strategaeth effeithlonrwydd wedi cael ei pharatoi bellach yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion craidd y mae'r broses o adnabod arbedion yn seiliedig arnynt fel yr amlinellir ym mharagraff 3.1 yr adroddiad.
- Mae bwlch cyllidol sylweddol o thua £1.652m yn weddill os caiff yr holl gynigion arbedion eu derbyn ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar ymchwilio i fesurau all gyfrannu tuag at leihau'r bwlch e.e. diswyddo gwirfoddol pan fo hynny'n ymarferol, ac edrych yn agosach ar swyddogaethau anstatudol yr Awdurdod ynghyd â ffordd amgen o ddarparu'r swyddogaeth cartrefi gofal mewnol – nid oes costau yn erbyn yr opsiwn hwn eto, ond mae dal yn opsiwn y gellir edrych arno.
- Nid yw'n fwriad tynnu ar gronfeydd wrth gefn y Cyngor er mwyn cefnogi'r gyllideb refeniw ond mae'n bosib iawn y bydd rhaid ailymweld â hyn yn ddibynnol ar fanylion y setliad terfynol.

  Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 eu bod wedi bod yn ofalus wrth ddarogan gostyngiad o 4.5% yn y Grant Cymorth Refeniw – efallai y bydd y gostyngiad yn llai sy'n golygu y byddai llai o fwlch arbedion i'w lenwi, ond fel arall efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio gwarchod gwasanaethau eraill megis Iechyd sy'n golygu y bydd llai o adnoddau ar gael i Lywodraeth Leol. Pwysleisiodd y Swyddog nad yw cynnydd o 4.5% yn y Dreth Gyngor yn cwrdd â gostyngiad o 4.5% yn y Grant Cymorth Refeniw.



DRAFFT

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd a gofynnodd am eglurhad gan y Penaethiaid Gwasanaeth ynglŷn â beth mae eu cynigion arbedion yn ei olygu o ran eu heffaith ar ddefnyddwyr a threthdalwyr a'u heffaith ar safonau gwasanaeth a'r awydd i wella, y modd o'u cyflawni a'r potensial am arbedion effeithlonrwydd pellach i gyfrannu tuag at y bwlch ariannol. Gofynnwyd cwestiynau penodol ynghylch y meysydd a ganlyn:

- **Dysgu Gydol Oes – Gostyngiad yn y gyllideb sydd wedi'i datganoli i ysgolion**

Adroddodd y Pennaeth Dysgu ar y prif effeithiau fel a ganlyn -

- Bod gwaith yn weddill i'w wneud ar y cynnig effeithlonrwydd hwn ac mae'r Gwasanaeth Cyllid yn ceisio modelu effeithiau'r amrywiol ffyrdd o weithredu'r cynnig.
- Disgwylir y bydd y cynnig yn effeithio'n waeth ar y sector uwchradd yn hytrach na'r sector cynradd oherwydd ffactorau eraill sydd eisoes wedi effeithio ar y sector uwchradd ac oherwydd bod y bylchau cyllidebol yn y sector uwchradd yn uwch a balansau'r cronfeydd wrth gefn yn is.
- Mae'r gostyngiad yn cyfateb i tua 2.5% o gyllideb yr ysgolion ac os caiff ei weithredu, yn y diwedd byddai'n arwain at golli nifer o swyddi dysgu yn ddibynnol ar y model a gaiff ei fabwysiadu. Byddai disgwyl i'r ysgolion weithredu'r toriadau o'r flwyddyn ysgol nesaf ym mis Medi ac felly byddai hynny'n dwysáu'r effeithiau ar y flwyddyn academaidd nesaf dros ddau dymor yn hytrach na dros 3 tymor. Gan gymryd cost gyfartalog swydd ddysgu, disgwylir y byddai hyn yn golygu colli tua 20 swydd ond mae'n debygol o gynyddu os caiff ei weithredu dros ddau dymor.
- Byddai'r cynnig yn golygu bod y sefyllfa ariannol yr ysgolion hynny sydd eisoes yn brin o arian yn gwaethygu oherwydd bod y toriadau'n waeth na'r disgwyl. O ran ysgolion yn y sector uwchradd byddai'n cael effaith ar nifer y staff ac ar ddewis ac amrywiaeth y cwricwlwm yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4 pan fo dewisiadau pwnc yn berthnasol.
- Disgwylir gostyngiad yn y Grant Gwella Ysgolion eleni hefyd; roedd Llywodraeth Cymru yn hawlio 10% yn ôl ar y grant hwn hanner ffordd y llynedd a rhagamcenir gostyngiad o 10% eleni hefyd. Mae'r rhagolygon ariannol ar gyfer cyllid i addysg ôl-16 hefyd yn argoeli'n ddrwg.
- Mae 4 o'r 47 o ysgolion cynradd a 2 o'r 5 ysgol uwchradd mewn sefyllfa o ddiffyg cyllidebol. Mae gan y gweddill falansau wrth gefn ac mae 15 o'r rheini wedi defnyddio eu cronfeydd wrth gefn y llynedd i gydbwyso'r gyllideb.

**Nododd y Pwyllgor y pwyntiau a ganlyn -**

- **Gallai'r cynnig arwain at ddosbarthiadau mwy o faint yn enwedig yn y sector uwchradd gan felly ei gwneud yn fwy heriol i ysgolion gynnal a gwella safonau.**
- **Efallai y bydd cynnydd yn y dosbarthiadau hynny lle caiff y pwnc ei ddysgu gan athro nad yw'n arbenigo yn y pwnc, ac yn ei dro gallai hynny effeithio ar ansawdd y dysgu.**
- **Bod darparu addysg o ansawdd uchel sy'n cael ei ariannu'n briodol yn chwarae rhan bwysig mewn symudedd cymdeithasol ac yn galluogi unigolion i sicrhau cyflogaeth sy'n talu'n well a gwell ansawdd bywyd.**

  Mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor mewn perthynas â sefyllfa gymharol yr Awdurdod o ran ei agwedd at gyllid Addysg, dywedodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151, o ystyried bod yr Awdurdod wedi ariannu'r cynnydd yn y costau yswiriant gwladol ac wedi ymgorffori'r gost Arfarnu Swyddi, fod tynnu £1m o'r gyllideb sydd wedi'i datganoli i'r ysgolion yn nhermau arian parod yn golygu bod yr Awdurdod mwy neu lai yn yr un sefyllfa, ac yn gyffredinol mae'n adlewyrchu'r modd y mae awdurdodau eraill Gogledd Cymru yn mynd i'r afael â hyn. Rydym wedi cyrraedd y pwynt lle na all yr Awdurdod Lleol gynnig yr un lefel o warchodaeth i gyllidebau'r ysgolion mwyach ag y mae wedi'i wneud yn y gorffennol yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru.

- **Dysgu Gydol Oes – Prydau Ysgol**

Dywedodd y Pennaeth Dysgu ei fod yn arferiad cynyddu pris prydau ysgol yn rheolaidd, fel arfer yn flynyddol, i adlewyrchu cost chwyddiant, prisiau bwyd a chyflogaeth trwy'r contract

gyda Caterlink.  Mae'r cynnydd hwn wedi bod yn tua 5c fesul pryd y flwyddyn ond nid yw'n adlewyrchu gwir gost y ddarpariaeth. Byddai'r cynnydd arfaethedig ar gyfer 2016/17 yn mynd â phris pryd ysgol yn y sector cynradd i £2.10 y pryd o fis Medi nesaf ymlaen ac i £2.25 y pryd yn y sector uwchradd sy'n gynnydd o 10c, ond mae hynny'n adlewyrchu'r ffaith na fu unrhyw gynnydd yn 2015/16.  Cadarnhaodd y Swyddog, o gymharu â'r mwyafrif o Awdurdodau eraill Gogledd Cymru, fod prisiau Ynys Môn tua'r canolrif oherwydd mae rhai awdurdodau yn codi mwy a rhai yn codi llai.

Cyfeiriodd y Swyddog at y plant hynny'n sy'n gymwys i hawlio prydau ysgol am ddim a dywedodd fod nifer y plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn ffactor sy'n dylanwadu ar yr adnoddau sy'n cael eu dyrannu i'r awdurdod ac yn uniongyrchol i'r ysgolion trwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion.  Eleni mae'r grant yn tua £1,000 a'r flwyddyn nesaf bwriedir y bydd yn cynyddu i tua £1,100 i bob disgybl ymhob ysgol sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.  O ran annog rhieni'r plant sy'n gymwys i dderbyn prydau am ddim i wneud hawliad, yn y gorffennol mae'r Awdurdod wedi defnyddio swyddogion lles a swyddogion eraill i godi ymwybyddiaeth a rhoi anogaeth ac mae wedi gweithio gydag ysgolion yn y ddau sector i adnabod pa deuluoedd sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.  Mae ymdrechion ar waith hefyd i gyfuno'r gwaith sy'n gysylltiedig â phrydau am ddim gyda'r gwaith y mae Adain Budd-daliadau'r Cyngor yn ei wneud gyda theuluoedd.

**Nododd y Pwyllgor y pwyntiau a ganlyn –**

- **Y gallai'r cynnydd arfaethedig yn y prisiau prydau ysgol effeithio'n andwyol ar y teuluoedd hynny sydd ar y ffin o fod yn gymwys am brydau am ddim, sy'n ychwanegu at yr effaith y gallai'r teuluoedd hynny fod yn ei wynebu hefyd o'r gostyngiad yn y Credydau Treth Gwaith a'r Credydau Treth Plant.**
- **Awgrymwyd, petai'r setliad Grant Cymorth Refeniw yn uwch na'r disgwyl, y gellid defnyddio'r arian dros ben i gadw prisiau prydau ysgol ar eu lefelau cyfredol.**
- **Ei bod yn hanfodol fod yr Awdurdod yn parhau i ymgyrchu i sicrhau bod rhieni'r holl ddisgyblion sy'n gymwys am brydau am ddim yn cyflwyno hawliad.**

- **Gwasanaethau Oedolion – Allanoli'r Ddarpariaeth Cartrefi Gofal Mewnol at y dyfodol**

Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod y cynnig wedi cael ei gynnwys am ei fod yn opsiwn arbedion posib a bod tystiolaeth yn dangos bod modd i'r sector annibynnol gomisiynu a darparu cartrefi gofal yn fwy economaidd.  Er na ddarperir unrhyw fanylion penodol, mae'r cynnig wedi cael ei gynnwys yn y cylch o fesurau arbedion eleni fel y gellir cytuno mewn egwyddor ar ymchwilio ymhellach i'r opsiynau ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn y misoedd i ddod, gyda'r bwriad o ddatblygu opsiynau penodol a dealltwriaeth o'r arbedion y gallant eu cyflawni gan hefyd gadw mewn cof sefyllfa gyfredol y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion.  Gallai'r ymchwiliad hwn fod ar ffurf darn o waith i werthuso manteision ac anfanteision yr opsiwn uchod, i'w gyflwyno wedyn i'r Pwyllgor Gwaith.

Mewn ymateb i gwestiynau yn gofyn a fyddai modd cyflymu'r broses, dywedodd y Swyddog fod y broses yn mynd ymlaen mor sydyn â phosib ac y gellir edrych ar ddewisiadau amgen wrth i'r model ddatblygu.

**Nododd y Pwyllgor fod angen gwneud penderfyniad mewn egwyddor i ddechrau a rhoi ystyriaeth i fodelau amgen i allanoli/preifateiddio. Nododd y Pwyllgor hefyd y byddai'n briodol iddo gael ei gynrychioli ar y Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion a chytunwyd y byddai eitem i'r perwyl hwnnw'n cael ei chynnwys ar Agenda'r cyfarfod nesaf.**

- **Tynnu Grantiau ar draws Gwasanaethau ar gyfer y Celfyddydau/Addysg/Digwyddiadau Mawr**

Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod £40k o arbedion wedi cael eu cynnig o'r gyllideb £90k o grantiau/ffioedd gan yr Adran Ddysgu Gydol Oes. Rhoddwyd ystyriaeth i'r sefydliadau hynny oedd yn derbyn symiau mwy sylweddol o grant a rhoddwyd ystyriaeth i dynnu'r cyfrifoldeb amdanynt i du allan i'r Cyngor. O ran un sefydliad penodol, amlygwyd bod rhaid iddo fod yn derbyn cyllid

craidd oddi wrth y Cyngor er mwyn gallu manteisio ar gyllid o ffynonellau eraill. Eglurodd y Swyddog sut maent wedi medru goresgyn y broblem hon. Yn yr achosion hynny lle cynigir y dylid tynnu cyllid yn ôl yn gyfan gwbl, yn bennaf mewn perthynas â grantiau bach, darparwyd cyngor i'r sefydliadau a effeithir ar ffyrdd amgen o gymorth e.e. gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol. Cadarnhaodd y Swyddog ei bod o'r farn bod lle i ostwng y gyllideb grantiau ymhellach os oes angen, ond gan gadw mewn cof efallai y bydd hyn yn effeithio ar sefydliadau ac y gallai gymryd mwy o amser na mis Ebrill nesaf i'w weithredu.

Adroddodd y Pennaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol bod arbedion o £6k (40%) yn cael eu cynnig o'r gyllideb o £14k ar gyfer grantiau i gefnogi digwyddiadau ar draws yr Ynys. Mae'r digwyddiadau a gefnogwyd yn y gorffennol yn cynnwys Gŵyl Bwyd Môr Porthaethwy a'r Ŵyl Gopr. Mae'r gyllideb hon wedi bod yn gostwng yn flynyddol a gobeithir y gellir sefydlu proses lle gall cyllid gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol fod ar gael i roi cymorth a phontio'r bwlch. Mae elfen o anghydraddoldeb yn rhanbarthol yn y cyswllt hwn yn yr ystyr bod Ynys Môn a Gwynedd yn lleihau eu cyllidebau ar gyfer digwyddiadau tra bod Conwy ar y llaw arall yn buddsoddi swm sylweddol i gefnogi digwyddiadau o fewn y sir. Pwysleisiodd y Swyddog fod y gyllideb yn arbennig o bwysig a'i bod yn ychwanegu gwerth wrth ddarparu cefnogaeth a helpu i sefydlu digwyddiadau newydd – wrth i'r digwyddiadau hynny ddechrau ymsefydlu gellir gostwng y cymorth grant gan y Cyngor wedyn ar sail gymesur.

**Nododd y Pwyllgor fod yna risg i enw da o ran lleihau a / neu dynnu'n ôl y gefnogaeth i fudiadau a digwyddiadau.**

O ran y gostyngiad arfaethedig yn y gefnogaeth i sefydliadau'r Trydydd Sector, dywedodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 fod y Gwasanaeth Cyllid yn gwneud ymholiadau i sefydlu pa fudiadau gwirfoddol sy'n derbyn grantiau allanol a drosglwyddir iddynt gan y Cyngor a hynny er mwyn eu tynnu allan o'r hafaliad ac edrych wedyn ar wasanaethau i fesur effaith gostyngiad canrannol yn y gyllideb hon arnynt. Rhoddwyd cyfle i Brif Swyddog Medrwn Môn roi safbwynt y Trydydd Sector a chwestiynodd y rhesymeg o doriad o 5% ar draws y bwrdd i'r cyllid ar gyfer y trydydd sector, yn arbennig o ran y sefydliadau hynny sy'n cynorthwyo i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ac awgrymodd fod angen dull mwy hyblyg. Pwysleisiodd y Swyddog hefyd fod angen hysbysu'r sector ynghylch goblygiadau adolygiadau contract a bod angen rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am gyfleoedd sy'n deillio o gynigion allanoli a rhoi gwybod hefyd am y modd y mae'r Cyngor yn bwriadu mesur effaith y toriad yn y cyllid . Adroddodd y Cyfarwyddwr Cymuned yn fanwl ar y broses gyllidebol a'r dull a fabwysiadwyd eleni gyda'r Trydydd Sector, ynghyd â'r materion allweddol a'r camau a gymerwyd i sicrhau bod y Trydydd Sector yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Disgwylir i bob gwasanaeth gysylltu â sefydliadau cyn diwedd y flwyddyn galendr ynghylch goblygiadau unrhyw gynnig penodol sy'n effeithio ar sefydliad unigol.

**Nododd y Pwyllgor fod y disgwyliadau ar y Trydydd Sector yn cynyddu tra bod y gefnogaeth ariannol yn gostwng. Oherwydd bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru yn cyflwyno newid mewn pwyslais, gan symud i ffwrdd o ofal gan yr awdurdod lleol i fwy o ofal yn y gymuned, nododd y Pwyllgor o ganlyniad fod angen i'r Awdurdod dynnu sylw at ei flaenoriaethau ar gyfer sefydliadau'r Trydydd Sector yn y Gwasanaeth Oedolion a'r Gwasanaeth Plant fel ei gilydd.**

- **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo**

Cyfeiriodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo at y cynnig i symud i gasglu gwastraff gweddilliol bob 3 wythnos neu 4 wythnos (a oedd yn destun ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd) a'r arbedion a gynhyrchid gan bob opsiwn. Cyfeiriodd y Swyddog hefyd at y targedau ailgylchu statudol, heriol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol o ran ailddefnyddio, ailgylchu ac adennill gwastraff a'r cosbau am fethu â chyrraedd y targedau hynny.(Ar gyfer Ynys Môn hyn 'roedd yn golygu dirwy o £80k am bob 1% yr oedd yn brin o'r targed ailgylchu a osodwyd).

Tra'n nodi y byddai'r arbedion mwyaf yn dod yn sgil mabwysiadu trefn i gasglu gwastraff gweddilliol bob 4 wythnos, mynegwyd barn yn y Pwyllgor y byddai hyn yn ormod o newid o fod yn casglu pob pythefnos fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth wedi argymell casglu bob 3 wythnos fel yr opsiwn yr oedd yn ei ffafrio.

**Nododd y Pwyllgor felly bod risg yn gysylltiedig â gwireddu'r cyfanswm arbedion o £300k a gynigiwyd gan yr Adain Gwastraff a bod y risg honno'n dibynnu ar ba opsiwn ar gyfer casglu gwastraff gweddilliol fydd yn cael ei gymeradwyo yn y pen draw ac ar barhau i gludo gwastraff i'w ailgylchu i St Helens a Runcorn yn hytrach nag i safle tirlenwi yn Llanddulas.** (Dywedodd y Swyddog ei fod yn hyderus y bydd y trefniant hwn yn parhau)

**Pwysleisiodd y Pwyllgor yr angen i adnewyddu a chynyddu ymdrechion i godi ymwybyddiaeth mewn ardaloedd lle mae'r cyfraddau ailgylchu'n isel ar hyn o bryd.**

- **Cynnydd 4.5% yn y Dreth Gyngor**

**O ystyried yr ansicrwydd ar hyn o bryd o ran y setliad y gallai'r Awdurdod ei dderbyn, teimlai'r Pwyllgor nad oedd mewn sefyllfa i fynegi barn ar y cynnydd arfaethedig o 4.5% yn y Dreth Gyngor. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn cytuno ei bod yn ddoethach cynllunio ar sail y sefyllfa waethaf na chodi gobeithion y cyhoedd o gael cynnydd llai. Nododd y Pwyllgor y cynnig cyfredol felly.**

Cadarnhaodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 efallai y daw opsiynau ar gael i'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor wrth i'r broses symud ymlaen ac wrth i'r sefyllfa o ran y setliad ariannol a'r bwlch ariannol ddod yn gliriach a, petai'r ffigyrau'n caniatáu, efallai y byddai cyfle i'r Pwyllgor Gwaith gyflwyno cynnig am gynnydd llai fel ei gynnig terfynol i'r Cyngor. Dyna fyddai'r adeg orau i gyflwyno sylwadau'r Pwyllgor hwn mewn perthynas â'r cynnydd yn y Dreth Gyngor.

Adroddodd y Prif Weithredwr ar y modd y mae'r Cyngor yn cyfathrebu ac yn ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y cynigion ar gyfer arbedion a'r Dreth Gyngor. Awgrymodd y Pwyllgor y dylid gwahodd y cyhoedd, fel rhan o'r broses ymgynghori, i gyflwyno barn ar flaenoriaethau'r Cyngor a chynnig opsiynau eraill / pellach i gwrdd â'r diffyg yn y gyllideb. Cynigiodd y Pwyllgor hefyd fod yr ymgynghoriad gyda'r cyhoedd yn cynnwys gwybodaeth am golli grantiau / gostyngiad mewn grantiau os yw'n hysbys, a hynny er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael cymaint o wybodaeth â phosibl am sefyllfa ariannol y Cyngor a bod yr ymgynghoriad cyhoeddus mor deg a thryloyw â phosibl.

- **Opsiynau posibl ar gyfer Adnabod Arbedion Effeithlonrwydd Pellach**

Adroddodd Arweinydd y Cyngor ar opsiynau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â gweithio'n gallach, creu incwm, mabwysiadu ymagwedd fwy masnachol tuag at rai o weithgareddau'r Cyngor a dadansoddiad manylach o swyddogaethau anstatudol y Cyngor. Nodwyd y rheini gan y Pwyllgor.

Gofynnwyd i'r Penaethiaid Gwasanaeth gadarnhau, i'r graddau mae hynny'n bosib, pa mor gyraeddadwy oedd y cynigion ar gyfer arbedion a gynigiwyd ganddynt. Amlygodd y Swyddogion y risgiau cysylltiedig o ran y rheini a fyddai'n cael yr effaith fwyaf.

**Penderfynwyd -**

- **Nodi'r cynnydd arfaethedig cyfredol o 4.5% yn y Dreth Gyngor a nodi'r bwriad i edrych arno eto ar ôl i'r ymgynghoriad cyhoeddus ddod i ben ac ar ôl derbyn gwybodaeth bellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch y setliad i Lywodraeth Leol.**
- **Nodi cynigion arbedion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith fel y cyflwynwyd nhw ynghyd â'r bwlch cyllidebol cyfredol o £1.6m.**
- **Argymell i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn ymdrechu, fel rhan o'r trefniadau ymgynghori ar y gyllideb, i geisio barn y cyhoedd ynghylch unrhyw opsiynau pellach a/neu amgen ar gyfer eu blaenoriaethau am y flwyddyn ariannol sydd i ddod.**

**5 CEISIADAU CYFALAF 2016/17**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys rhestr o geisiadau cyfalaf yr argymhellir eu cymeradwyo ar gyfer rhaglen gyfalaf 2016/17 i 2020/21 er ystyriaeth a sylw gan y Pwyllgor.

Amlygodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 fod Cynllun Tai Gofal Ychwanegol Amlwch wedi cael ei adael allan o'r rhestr o brosiectau yr argymhellir eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ac eglurodd, er bod y cynllun yn sgorio'n uwch na rhai o'r prosiectau sydd wedi cael eu cynnwys yn y rhaglen, y byddai cynnwys y cynllun wedi golygu, oherwydd ei faint, y byddai nifer o gynlluniau eraill wedi gorfod dod allan o'r rhaglen ac nad oedd y cynllun 'chwaith wedi denu buddsoddiad allanol hyd yn hyn.

Oherwydd bod cynlluniau Tai Gofal Ychwanegol yn Llangefni ac Amlwch wedi'u cynnwys yn Rhaglen Gyfalaf 2015/16 nododd y Pwyllgor fod tynnu'r cynllun yn Amlwch allan o'r rhaglen ar gyfer y flwyddyn ddilynol yn ymddangos fel petai'n anghyson. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad hefyd dros gynnwys prosiectau Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain, sef Ysgol Parc y Bont ac Ysgol Bro Rhosyr o fewn y rhaglen fel dau gais cyfalaf ar wahân pan gafwyd ar ddeall mai un cais ydyw. Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 y byddai'n adrodd yn ôl ar statws y ceisiadau hynny.

**Penderfynwyd -**

- **Nodi'r eitemau a oedd wedi'u hamlygu yn Atodiad A yr adroddiad (a oedd yn werth £26.301m) ar gyfer eu cynnwys yn Rhaglen Gyfalaf 2016/17 i 2020/21.**
- **Nodi'r eitemau ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai a oedd wedi'u hamlygu yn yr ail dabl yn Atodiad A yr adroddiad (a oedd yn werth £11.636m) i'w cyfeirio i sylw'r Bwrdd Gwasanaethau Tai i'w hystyried ar gyfer rhaglen Gyfalaf 2016/17 i 2020/21.**

**Y Cynghorydd R. Meirion Jones**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH / PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** |
| **Dyddiad:** | **30 Tachwedd / 1 Rhagfyr 2015** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2 (2015/16)** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ALWYN ROWLANDS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **SCOTT ROWLEY** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmono.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.1** Dyma'r ail gerdyn sgorio ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16.

**1.2** Mae'n dangos sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel y cawsant eu hamlinellu a'u cytuno rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth/y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor sgriwtineiddio'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

***1.3.1*** *Rheoli Pobl – parhau i sefydlu'n gadarn brosesau ac arferion rheoli da pellach o ran absenoldeb salwch gan ganolbwyntio ar achosion salwch tymor hir y gellir dylanwadu arnynt, sicrhau gwelliant o ran cynnal Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb o fewn yr amser gofynnol er mwyn gwella ymhellach ein cyfraddau salwch, costau a rheolaeth fel Cyngor.*

***1.3.2*** *Rheolaeth Ariannol – trwy'r UDA, nodi sylwadau a thrafodaeth ynghylch materion ariannol o'r adroddiad cyllid ar gyfer Ch2 a drafodwyd yn y cyfarfod hwn.*

***1.3.3*** *Rheoli Perfformiad - cydnabyddir tanberfformiad yn erbyn dangosyddion ac fe reolir hynny trwy gymryd camau lliniaru i gynorthwyo i sicrhau gwelliannau yn ystod Ch3.*

***1.3.4*** *Gwasanaeth Cwsmer – Bydd y Bwrdd Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer yn ystyried yr Archwiliad Siopwr Cudd ym mis Tachwedd a bydd unrhyw gamau'n cael eu gweithredu fel rhan o'r prosiect.*

**1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y camau lliniaru a amlinellir uchod.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| d/b |
| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| Mae'r mater hwn yn un a ddirprwyir i'r Pwyllgor Gwaith. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Ystyriwyd hyn gan yr UDA yn eu cyfarfod ar 9 Tachwedd ac mae eu sylwadau wedi eu hadlewyrchu yn yr adroddiad. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylwadau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 2, 2015/16 a'r Cerdyn Sgorio |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| • Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2015/16 – Chwarter 1 (fel y cafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2015 a'i gymeradwyo ganddo). |

**ATODIAD A: ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2 (2015/16)**

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Un o amcanion y Cyngor dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw sicrhau bod gennym ddull o dystiolaethu a chyflwyno gwelliant parhaus ar draws y sefydliad. I'r perwyl hwn, llunnir adroddiad ar berfformiad bob blwyddyn i'w gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref sy'n dangos y cynnydd a wnaed neu'r diffyg cynnydd (fel sy'n berthnasol).

**1.2** Datblygwyd y cerdyn sgorio hwn i roi gwybod i arweinwyr y Cyngor am y cynnydd a wnaed yn erbyn dangosyddion sy'n dangos yn eglur weithrediad llwyddiannus gwaith dydd i ddydd y Cyngor ac sy'n cynorthwyo i ddarparu sail dystiolaeth ar gyfer drafftio'r adroddiad ar berfformiad.

**1.3** Mae'r cerdyn sgorio yn parhau i ddatblygu a gwreiddio gan adlewyrchu'r newidiadau hynny a wnaed i systemau ac arferion traddodiadol yn y Cyngor. Penderfynwyd ar y dangosyddion a gafodd eu cynnwys yn y cerdyn sgorio eleni (fel y llynedd) trwy broses o ymgysylltu ac ymgynghori gyda'r Penaethiaid, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**1.4** Mae'r cerdyn sgorio (Atodiad 1) yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd Ch2 a bydd yn cael sylw pellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr.


## 2. YSTYRIAETHAU

**2.1** Dyma'r drydedd flwyddyn o gasglu ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad mewn dull cydlynol. Mae'r Cyngor yn awr yn gweld tueddiadau yn sefydlu eu hunain mewn perthynas â nifer o'r dangosyddion hynny ac mae sylwadau'r UDA/Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn cael effaith ar gyflawniad gweithredol.

### 2.2 RHEOLI POBL


**2.2.1** O ran Rheoli Absenoldeb, gwelwyd gostyngiad bychan (5.33 diwrnod o salwch fesul ALlC) mewn perfformiad yn Ch2 o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15 (5.12 diwrnod o salwch fesul ALlC).

**2.2.2** Mae hyn, ynghyd â'r tanberfformiad yn Ch1 yn golygu ein bod yn debygol o daro 12 diwrnod o salwch fesul ALlC eleni (Tabl 1) ac y byddwn o'r herwydd 2 ddiwrnod o salwch fesul ALlC dros ein targed o 10 diwrnod o salwch fesul ALlC. Mae hyn yn ddirywiad o 0.47diwrnod i'w gymharu a 14/15 ar gyfer y hanner flwyddyn cyntaf.




Tabl 1


**2.2.3** Mae dadansoddiad o'r data cysylltiedig yn dangos mai un o'r prif resymau am beidio â chyrraedd ein targed corfforaethol o 5 diwrnod o salwch fesul ALIC ar gyfer Ch2 oedd oherwydd cyfraddau Salwch Tymor Hir sydd wedi dirywio o gymharu â chanlyniadau Ch2 2013 a 2014. Yn ystod Ch2, collwyd oddeutu 3,700 o ddyddiau gwaith oherwydd salwch tymor hir (gweler tabl 2 isod).




Tabl 2

**2.2.4** Roedd salwch tymor hir yn cyfateb i 66% o'n cyfraddau salwch ar gyfer Ch2, cynnydd o 8% o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15 (58%).

**2.2.5** Mewn cyferbyniad llwyr, gwelwyd gwelliant o ran cyfraddau salwch tymor byr yn ystod Chwarter 2 (1922 diwrnod) o gymharu â'r un cyfnod y llynedd (2306 diwrnod). Mae hyn yn dangos fod yr argymhellion a wnaed ac a weithredwyd er mwyn mynd i'r afael â salwch tymor byr wedi arwain at welliant sylweddol (Tabl 3).





Tabl 3

**2.2.6** Er bod hwn yn gam cadarnhaol yn y cyfeiriad iawn ar gyfer salwch tymor byr, mae'r darlun mawr yn dangos perfformiad gwael o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol a gweddill yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru ac y bydd ein perfformiad yn parhau i fod yn y chwartel isaf ac efallai'n golygu bod ein safle'n disgyn eto.

**2.2.7** Yn ystod Ch2, ymwelodd y Canol Corfforaethol â phob Pennaeth Gwasanaeth i drafod opsiynau mewn perthynas â gwella Salwch Tymor Hir, gan ganolbwyntio ar yr achosion hynny o Salwch Tymor Hir y gellir dylanwadu arnynt yn unol â'n Polisi Rheoli Absenoldeb. Disgwylir y ceir tystiolaeth o'r gwelliannau hyn yn ystod Ch3 a Ch4.

**2.2.8** Mae 'rheoli' salwch yn gysylltiedig â chyfraddau salwch. Mae cydymffurfiaeth y staff gyda pholisïau salwch corfforaethol yn rhan annatod o'r broses reoli o fewn y Cyngor ac mae hynny'n cynnwys y cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith *(dangosydd 5 ar y cerdyn sgorio).*

**2.2.9** Mae'r Cyngor wedi sefydlu'r arferion gweithio hyn yn gadarn ar draws ei wasanaethau. Mae'r gwelliant hwn wedi parhau yn ystod Ch2 gyda 85% o Gyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith (CDG) yn cael eu cynnal o fewn 5 niwrnod gwaith o gymharu ag 82% am yr un cyfnod yn 14/15. (Tabl 4).




Tabl 4

**2.2.10** Mewn perthynas â 'rheoli' salwch a chydymffurfiaeth staff gyda pholisïau salwch corfforaethol, gwelwyd tystiolaeth o welliannau sylweddol o ran arferion gyda chyfweliadau dychwelyd i'r gwaith.

**2.2.11** Argymhellodd yr UDA y dylid rhoi rhagor o sylw i reoli'r achosion hynny o absenoldebau salwch tymor byr ailadroddus sy'n cyrraedd pwyntiau sbardun a lle mae'n rhaid cynnal cyfarfodydd adolygu presenoldeb (CAP). Mae'r rhain bellach wedi eu hadlewyrchu yn y cerdyn sgorio newydd ar gyfer 2015/16 ac mae targed o 85% wedi ei osod ar gyfer cwblhau cyfarfodydd adolygu presenoldeb yn ystod y flwyddyn i ddod.

**2.2.12** Roedd y ffigyrau ar gyfer Ch1 (33%) yn dangos tanberfformiad yn erbyn y targed hwn ac mae ffigyrau ar gyfer Ch2 (24%) yn dangos eto fod angen gwreiddio cyfarfodydd adolygu presenoldeb o fewn arferion gweithio'r Cyngor yn ystod y flwyddyn i ddod. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, dim ond 15 o'r 63 CAP oedd wedi cael eu cynnal o fewn yr amserlen ofynnol (2 wythnos). Cynhaliwyd 7 CAP y tu allan i'r amserlen gan roddi cyfanswm o 35% (22 allan o 63) hyd at ddiwedd Ch2.

**2.2.13** Mae'r UDA yn argymell felly -

- Parhau i wreiddio prosesau ac arferion rheolaeth dda mewn perthynas â rheoli salwch gan ganolbwyntio ar achosion tymor hir y gellir eu dylanwadu a gwelliant o ran cynnal CAP o fewn yr amserlen er mwyn gwella ein cyfraddau salwch ymhellach, gostwng costau a gwella rheolaeth fel Cyngor.

**2.2.14** Mae'r '% o staff sydd â Thystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)' (eitem 14 yn y rhan rheoli pobl) bellach yn cynnwys yr holl wasanaethau ac, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd gan 98.5% o'r staff DBS ac mae'r 1.5% sy'n weddill yn y broses o ymgeisio am DBS.

## 2.3 RHEOLAETH ARIANNOL

**2.3.1** Ar y cyfan, mae'r Cyngor, o ganlyniad i'w berfformiad ariannol yn ystod yr ail chwarter, yn rhagweld gorwariant o £0.9M erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r rhagamcan hwn yn well na'r sefyllfa yr adroddwyd arni yn chwarter 1 pryd rhagwelwyd gorwariant o £1.6m.

**2.3.2** Y prif amrywiaethau gwasanaeth sy'n cael effaith ar y gorwariant hwn a ragwelir ar ddiwedd Ch2 yw:

***Gofal Cymdeithasol i Oedolion*** – gorwariant o £265k (2.6%) ar gyfer y cyfnod a rhagwelir y bydd gorwariant o £505k (2.3%) ar gyfer y flwyddyn gyfan.

Mae'r cynnydd mwyaf sylweddol yn y gorwariant a ragwelir yn y gwasanaethau anableddau dysgu ac iechyd meddwl. Mae tanwariant rhagdybiedig o ran rheolaeth a chefnogaeth yn lleihau effaith hyn.

Mae oddeutu 59% o gyllideb y Gwasanaeth yn cael ei arwain gan y galw am wasanaethau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddarogan costau'r gyllideb hon yn y dyfodol. Mae'r rhagolwg diwedd blwyddyn ar ddiwedd bob mis yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael mewn perthynas â phob lleoliad i oedolyn. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i ddarogan y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn a gall arwain at anghysonderau mawr o un cyfnod i'r llall. Mae'r meysydd gwasanaeth ble yr ydym yn gweld gorwariant ar hyn o bryd oherwydd (i) galw sy'n uwch na'r disgwyl a (ii) phwysau costau yn cynnwys lleoliadau gofal cartref allanol (£569k), Gofal Dydd Anableddau Dysgu (£85k) a gofal preswyl allanol ar gyfer Iechyd Meddwl (£245k). Caiff lleoliadau'n gyffredinol eu rheoli drwy banelau dyrannu sy'n caniatáu i reolwyr ystyried yn fanwl y modd y mae lleoliadau'n cael eu comisiynu. Mae hyn yn sicrhau canlyniad diogel ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ond hefyd yn sicrhau'r canlyniad mwyaf cost effeithiol i'r Cyngor. Mae adolygiad penodol o Ofal Dydd AD wrthi'n cael ei gynnal ar hyn o bryd. Enghraifft o bwysau costau ar y gwasanaeth yw'r cynnydd o 1.7% mewn ffioedd ar gyfer lleoliadau preswyl allanol yn 15/16 nad oes cyllideb ychwanegol ar gael ar ei gyfer. Rydym yn amcangyfrif y bydd hyn ynddo'i hun yn costio £150k i'r gwasanaeth yn 15/16.

***Adnoddau*** – Roedd gorwariant o £213k (13.8%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd y cyfnod a rhagamcenir y bydd wedi gorwario gan £197k (25%) am y flwyddyn gyfan. Mae hyn yn waeth na'r gorwariant o £97k a ragamcanwyd yn chwarter 1. Gellir priodoli'r cynnydd hwn i'r anhawster a ragwelwyd o ran canfod arbedion ar gyfer yr ymarfer tendr banc a fydd yn cyfrannu arbedion am un flwyddyn a hynny'n bennaf yn 2016/17. Mae costau asiantaeth hefyd yn cyfrannu at y gorwariant ond bydd y rhain yn gostwng o fis Hydref 2015.

***Trawsnewid*** - Roedd tanwariant o £88k (28.7%) yn yr adain hon yn ystod y cyfnod, fodd bynnag, rhagwelir gorwariant o 170k (45%) am y flwyddyn i gyd. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o gymharu â'r tanwariant o £55k a ragamcanwyd ar gyfer chwarter 1. Disgwylir y bydd tanwariant o £130k yng nghyllideb weithredol y swyddogaeth hon. Fodd bynnag, efallai y bydd y targed arbedion o £300k ar gyfer gweithio'n gallach na fedrir o bosib ei gyflawni, yn arwain at sefyllfa o orwariant ar ddiwedd y flwyddyn. Cymerwyd camau yn y gwasanaeth i unioni'r sefyllfa drwy reoli swyddi gweigion. Fodd bynnag, mae'r targed o ran arbedion y mae angen dod o hyd iddynt yn peri risg i'r gwasanaeth oherwydd nid oes unrhyw arwydd ar hyn o bryd y bydd modd cyflawni'r arbedion hynny.

**2.3.3** Mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol parhaus yn y sector cyhoeddus nodir y gall y ffigyrau hyn newid oherwydd digwyddiadau, galw am wasanaethau a gwybodaeth a all gael effaith ar y rhagamcanion. Fodd bynnag, fe ddylai'r Penaethiaid, trwy'r UDA, ystyried yr holl opsiynau ar gyfer camau cywiro yn ystod Ch3 i geisio gostwng y gorwariant a amcangyfrifir i'r dyfodol. Rhoddir sylw i ragor o fanylion yn yr adroddiad ariannol Ch2.

## 2.4 RHEOLI PERFFORMIAD

**2.4.1** Mae'r cerdyn sgorio ar gyfer Rheoli Perfformiad wedi ei newid ar gyfer 2015/16 i ddangos perfformiad yn erbyn dangosyddion y gofynnwyd amdanynt gan yr UDA, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol. Mae'r isod yn darparu naratif yn erbyn yr heriau a'r egni sydd raid wrthynt i lwyddo ymhellach yn 2015/16.

**2.4.2** Ar ddiwedd Ch2 rydym yn nodi bod 4 o ddangosyddion yn GOCH o gymharu â'u targedau blynyddol am y flwyddyn a bod 7 o ddangosyddion yn AMBR.

**2.4.3** Mae un dangosydd o fewn y <u>Gwasanaethau Oedolion</u> yn GOCH –

(i) 03 - LI/018b - *% o ofalwyr ar gyfer Oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac sydd wedi cael asesiad neu adolygiad yn ystod y flwyddyn*. Mae hyn yn dangos yn **GOCH** ar y cerdyn. Mae'r canlyniad ar gyfer Ch2 (77.9%) yn is na'r targed o 93%. Fodd bynnag, mae'n well na'r perfformiad yn Ch1 sef 66.5%. Ers Ebrill, roedd 362 wedi gofyn am asesiad neu'n disgwyl am adolygiad ac aseswyd 282 o'r rhain. 80 yn disgwyl am asesiad neu adolygiad.

***Camau lliniaru*** – mae rhestr o adolygiadau ac asesiadau sydd angen sylw yn ogystal ag adolygiadau Ch3 wedi cael ei throsglwyddo i'r tîm gofalwyr ar gyfer gweithredu arni yn Ch3. Hefyd, cynhelir adolygiad mewnol o brosesau gyda golwg ar fireinio'r llwybr a darparu data cadarn.

**2.4.4** Mae tri dangosydd o fewn y <u>Gwasanaethau Plant</u> yn **AMBR** –

(i) SCC/002 – Yn ystod y flwyddyn, y ganran o blant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi gorfod newid ysgol unwaith neu fwy yn ystod y cyfnod y maent yn derbyn gofal a hynny am resymau nad ydynt i'w priodoli i drefniadau trosiannol– Ch2 16.67%, Targed – 15% **AMBR**. Mae hyn yn cymharu gyda pherfformiad o 5% yn Ch1.

Mae'r gwasanaeth yn ceisio sicrhau bod ein plant sy'n derbyn gofal yn gallu parhau i dderbyn addysg yn eu hysgolion cyfredol pryd bynnag y mae hynny'n bosibl. Weithiau, mae'n well i blentyn newid ysgol na theithio milltiroedd i ysgol bob bore a phrynhawn; fodd bynnag, cyn gwneud penderfyniad i newid ysgol ai peidio, edrychir ar holl agweddau cadarnhaol a negyddol newid o'r fath. Felly, mae'n anodd iawn glynu wrth y DP hwn oherwydd amgylchiadau, dymuniadau a gofynion unigryw pob plentyn. Yn Ch2, symudodd 8 o blant i ysgolion newydd ac roedd 6 o'r achosion hyn yn cydymffurfio gyda chynlluniau sefydlogrwydd y plant tra bod y gweddill wedi symud i ysgolion preswyl.

(ii) SCC/025 - *y % o ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal yr oedd angen eu cynnal yn ystod y flwyddyn ac a gynhaliwyd yn unol â rheoliadau Ch2* – 90.52%. Mae hyn yn welliant bychan o gymharu â'r perfformiad o 89.87% yn Ch1.

Mae'r ymweliadau wedi gwella rhywfaint ond ceir anhawster cydymffurfio gydag amserlenni. Mae'r methiant i gwrdd â'r targed i'w briodoli'n rhannol i absenoldeb staff; mae Rheolwyr y timau FIT a PGA yn defnyddio teclynnau tracio i atgoffa staff i gwblhau ymweliadau ond yn anffodus, nid yw'r cyfarfodydd tracio'n cael eu cynnal yn ddigon aml. Yn Ch2, roedd 18 o ymweliadau (7%) yn hwyr yn hytrach na heb eu cwblhau, ac ni chynhaliwyd 3% o ymweliadau o gwbl.

***Y Camau lliniaru*** ar gyfer gwella'r safonau hyn ar gyfer Ch3 yw:

- Adolygu capasiti'r tîm FIT oherwydd cynnydd yn y galw. Bydd Rheolydd y Gwasanaeth a'r Tîm yn parhau i roi sylw i hyn.
- Rheoli gwyliau blynyddol/absenoldeb salwch yn barhaus trwy'r gweithdrefnau a'r polisïau corfforaethol a chofnodi diweddariadau misol.
- Parhau i ddefnyddio'r system dracio bob wythnos a sefydlu system i sicrhau bod ymweliadau'n parhau i gael eu cynnal pan fo staff ar eu gwyliau neu'n absennol oherwydd salwch.

(iii) SCC/043a: Y % o asesiadau craidd gofynnol a gwblhawyd cyn pen 35 diwrnod gwaith; Ch2 – 75.8, Targed 85 - **AMBR**. Mae hyn ychydig yn is na'r perfformiad o 78.13% yn ystod Ch1.

Yn ystod y chwarter asesiadau craidd nad oeddent wedi cwrdd â'r amserlenni yn ymwneud â thri theulu. Cynhaliwyd un ddiwrnod yn hwyr a'r lleill 9 diwrnod yn hwyr.

**Camau lliniaru** – i wella'r safonau hyn yn ystod Ch3, parheir i wneud yr isod:

- Rheolwr Tîm i atgoffa staff o'r amserlenni perthnasol, cynnal trafodaethau adlewyrchol gydag aelodau unigol o staff a diweddaru'r system dracio.

**2.4.5** Mae un dangosydd yn yr <u>Adran Ddysgu'n</u> dangos tanberfformiad –

(i) 18 – LCL/004: Nifer y deunyddiau llyfrgell a roddwyd allan yn ystod y flwyddyn yn AMBR ar y cerdyn sgoriau gyda pherfformiad o 148k o ddeunyddiau a roddwyd allan o gymharu â'r targed o 153k.

Mae'r deunyddiau llyfrgell a roddwyd allan yn is na'r targed ac ychydig yn is na ffigyrau 2014/15 ond mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi gosod targed uchel (uwch na pherfformiad y llynedd) fel mecanwaith ar gyfer sicrhau gwelliant. Mae hyn yn heriol yn wyneb y realiti o safbwynt economaidd a staffio. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys e-adnoddau sydd ar gynnydd.

***Camau Lliniaru*** - er mwyn sicrhau gwelliant o ran rhannu deunyddiau yn Ch3, bydd y gwasanaeth yn -

- Parhau i hyrwyddo darllen a benthyca drwy ymgysylltu mewn Gweithgareddau Datblygu Darllenwyr.

**2.4.6** Roedd un dangosydd yn yr <u>Adran Adfywio Economaidd a Chymunedol</u> yn dangos tanberfformiad –

(i) 19 – LCS/002b – *Nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden a chwaraeon yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn lle bydd ymwelwyr yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol* – mae'n dangos yn **GOCH** ar y cerdyn sgorio. Y canlyniad oedd 207k yn erbyn targed o 248k.

Wrth ddadansoddi'r data ymhellach yn ystod Ch2, nodwyd anghysonderau rhwng yr hen system (Torex) a'r system newydd (Cascade) sy'n egluro pam na fu modd cyrraedd y targed.

***Camau Lliniaru*** – gweithredir yr isod yn ystod Ch3:

- Bydd y targedau a osodwyd ar gyfer y flwyddyn yn cael eu hadolygu i adlewyrchu'r anghysonderau a nodwyd yn ystod Ch2.

- Mae system Archebu'r Rheolwyr wrthi'n cael ei siecio yn awr gan Uwch Swyddog i weld a yw'n cynnwys unrhyw ddiffygion.

- Mae'r swyddogaeth Hamdden wedi cael dyfynbrisiau ar gyfer system Rheoli Mynediad a fyddai'n galluogi Canolfannau Hamdden i nodi'n gywirach nifer y bobl sy'n mynychu.

**2.4.7** Roedd pedwar o ddangosyddion yn y <u>Gwasanaethau Tai</u> yn dangos tanberfformiad -

(i) 20 - % o denantiaid yn fodlon gyda gwaith trwsio ymatebol; Ch2 - 88.4%, Targed 92%; **AMBR**

Roedd 410 o ymatebion i ddiwedd Ch2. O'r rhain, roedd 43 o gwestiynau heb eu hateb gyda hynny'n cael effaith negyddol ar y canlyniad.

***Camau lliniaru*** – Cynhelir adolygiad o ddychweliadau'r holl weithwyr a bydd Sgyrsiau 'Bocs Tŵls' pellach yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod yr holl ddata'n cael ei gofnodi'n gywir.

(ii) 21 - Nifer y tasgau trwsio tai ar gyfartaledd a gwblheir fesul gweithiwr fesul diwrnod; Ch2 - 3.1, Targed - 6; **COCH**
&
(iii) 22 – Cynhyrchiant y gweithlu - % yr amser sy'n cael ei gategoreiddio fel amser cynhyrchiol; Ch2 – 69.5%, Targed – 75%; **AMBR**

Mae angen adolygu'r data sy'n cael ei gofnodi er mwyn gweithio'r ffigyrau allan. Ar hyn o bryd, nid yw'r tasgau a gyflawnir ar eiddo gweigion a gwaith cynnal yn cael ei gofnodi gan weithwyr oherwydd nad oes Rhestr Gyfraddau briodol ar gael i gofnodi amser cynhyrchiol yn ei herbyn.

**Camau lliniaru –** Bydd angen cynnwys Rhestr Gyfraddau yn y system casglu data ar gyfer cofnodiadau'r dyfodol. Dylid gweld gwelliant bach yn Ch3 a gwelliant pellach yn Ch4.

(iv) Nifer y dyddiau calendr a gymer ar gyfartaledd i osod unedau llety y mae modd eu gosod (ac eithrio eiddo anodd i'w gosod): Ch2 – 38.4, Targed – 25; **COCH**

Cynhaliwyd adolygiad o'r broses ar gyfer rheoli eiddo gweigion ac mae'r argymhellion wrthi'n cael eu gweithredu.

***Camau lliniaru*** – I wella hyn yn Ch3, cymerir y camau isod -

- Bydd cyfarfodydd wythnosol i fonitro eiddo gweigion yn cael eu cynnal rhwng Swyddogion Tai a'r Uned Cynnal Adeiladau.
- Bydd DP lleol ychwanegol yn cael eu cyflwyno i fonitro camau pellach yn y broses o reoli eiddo gweigion.

Yn ychwanegol at y camau lliniaru uchod, mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, yn eu cyfarfod ar 14 Medi, wedi nodi'r angen i sefydlu Panel Canlyniad i sgriwtineiddio ymhellach y modd yr ydym yn rheoli eiddo gweigion. Gwneir y gwaith hwn yn ystod Ch4.

**2.4.8** Er bod yr holl ddangosyddion sy'n weddill ar gyfer Ch2 yn dangos yn **WYRDD** yn y rhan 'rheoli perfformiad' dylid nodi nad yw hynny'n golygu bod ein safle wedi gwella ar draws pob maes gwasanaeth ar lefel genedlaethol. Yn seiliedig ar ganlyniadau chwarterol cychwynnol 14/15 mae'n ymddangos, er bod 61% o'n gwaith sy'n ymwneud â'r dangosyddion NSI/PAM wedi gwella, bod ein safle cenedlaethol wedi dioddef oherwydd bod Cynghorau eraill yn perfformio'n well yn ystod y flwyddyn.

**2.4.9** Gellir dadansoddi mwy ar y perfformiad cyffredinol trwy'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol a gyhoeddir cyn diwedd mis Hydref ac yr adroddwyd arno i'r Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Medi.

## 2.5 GWASANAETH CWSMER

**2.5.1** O ran Rheoli Cwynion gan Gwsmeriaid, roedd 27 o gwynion wedi dod i law erbyn diwedd Ch2 a 4 o Gwynion Cam 2 yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Ymatebwyd i'r cyfan o'r cwynion ac o'r rhain, cadarnhawyd 8 ohonynt yn llawn, 3 yn rhannol a gwrthodwyd yr 16 a oedd yn weddill.

**2.5.2** Cofnodwyd 55 o bryderon rhwng Ebrill a Medi ac o'r rhain, roedd 33 yn ymwneud â Rheoli Gwastraff, 9 â Chynllunio, 9 ag Adnoddau a 4 â Hamdden. Roedd y rhan fwyaf o'r pryderon mewn perthynas â Rheoli Gwastraff yn ymwneud â galwadau ffôn yn mynd heb eu hateb oherwydd prinder staff.

**2.5.3** O'r herwydd, mae'r UDA yn argymell –

- Dylid cynnal adolygiad o'r Gwasanaethau Cwsmer Rheoli Gwastraff yn ystod Ch3 er mwyn gweld pam fod nifer uchel o bryderon ac, yn ogystal, i nodi ffyrdd addas o ddatrys y problemau sy'n cael effaith ar berfformiad cyfredol y gwasanaeth.

**2.5.4** Un dangosydd sy'n parhau i wella yw'r % o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen angenrheidiol, perfformiad o 73% ar ddiwedd Ch2 o gymharu â 59% ar gyfer Ch2 yn 2014/15, er bod hyn yn parhau i fod yn is na'r targed o 80%.

**2.5.5** Cyflwynwyd 373 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth i'r Cyngor rhwng Ebrill a Medi gyda chyfanswm o 1321 o gwestiynau yr oedd angen ymateb iddynt o fewn amserlen benodol. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol gyda'r 467 o geisiadau a 2357 o gwestiynau yr oedd angen ymateb iddynt yn ystod yr un cyfnod yn 14/15.

**2.5.6** Yn ystod Ch2, cynhaliodd y Grŵp Tenantiaid sy'n Archwilwyr (GTA) archwiliad o'r Cyngor fel rhan o'r Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer. Mae TAG yn cynnwys 10 o denantiaid Cyngor Ynys Môn sydd wedi cael hyfforddiant 'Archwilio gan Denantiaid' wedi ei hwyluso gan TPAS Cymru ac maent wedi cwblhau 5 o archwiliadau hyd yma. Nod yr ymarfer siopwr cudd oedd sicrhau bod yr holl wasanaethau yn y cyngor yn glynu wrth y Siarter Gofal Cwsmer.

**2.5.7** I archwilio'r Siarter, gwnaeth yr archwilwyr y canlynol:

- Ymwelwyd â chroestoriad o wasanaethau'r Cyngor i gynnal 28 o gysylltiadau wyneb yn wyneb

- 2 ymweliad cartref nad oeddynt yn arwain at gostau ychwanegol i'r Cyngor.
- Ffoniwyd 40 o rifau ffôn sydd ar gael yn gyhoeddus ar draws y Cyngor.
- Anfonwyd 31 o ebyst at gyfeiriadau ebost sydd ar gael yn gyhoeddus.
- Anfonwyd 30 o lythyrau i groestoriad o wasanaethau'r Cyngor.

**2.5.8** Bydd y Grŵp Tenantiaid sy'n Archwilwyr yn cyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer ym mis Tachwedd a bydd y Bwrdd yn penderfynu ar y ffordd orau o weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad ynghyd â chyfathrebu'r canfyddiadau i aelodau a staff.

**2.5.9** Yn fras, mae canlyniadau'r archwiliad yn gadarnhaol. Mae'n rhoi tystiolaeth ddogfennol bod y mwyafrif o ryngweithiadau ddinesydd â'r Cyngor yn cyd-fynd â disgwyliadau siarter cwsmeriaid. Mae eithriadau yn bodoli fel y disgwylir mewn unrhyw sefydliad mawr a adlewyrchir y rhain yn rhai o argymhellion yr adroddiad..

Mae rhai o argymhellion yr awdurdod yn cynnwys:

- Angen i swyddogion gynefino eu hunain gyda'r Siarter Gofal Cwsmer Gorfforaethol.
- Angen atgoffa swyddogion o'u hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Angen i bob gwasanaeth/swyddogion sicrhau bod ganddynt gyfleuster neges llais.
- Sefydlu ymatebion cydnabod awtomatig ar gyfer yr holl e-byst sydd ar gael yn gyhoeddus.
- Angen i swyddogion gymryd perchenogaeth o lythyrau. Mae hwn yn fater brys sydd angen sylw.
- Dylai llythyrau gael eu cydnabod gan y person neu'r gwasanaeth yr anfonwyd y llythyr ato.

**2.5.10** Mae'r UDA yn argymell –

- Y bydd yr Archwiliad Siopwr Cudd yn cael ei ystyried gan y Bwrdd Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer ym mis Tachwedd a bydd unrhyw gamau'n cael eu gweithredu fel rhan o'r prosiect.

## 3 ARGYMHELLION

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor sgriwtineiddio'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

**3.1.1** Rheoli Pobl – parhau i sefydlu'n gadarn brosesau ac arferion rheoli da pellach o ran absenoldeb salwch gan ganolbwyntio ar achosion salwch tymor hir y gellir dylanwadu arnynt i sicrhau gwelliant o ran cynnal Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb o fewn yr amser gofynnol er mwyn gwella ymhellach ein cyfraddau salwch, costau a rheolaeth fel Cyngor.

**3.1.2** Rheolaeth Ariannol – trwy'r UDA, nodi sylwadau a thrafodaeth ynghylch materion ariannol o'r adroddiad cyllid ar gyfer Ch2 a drafodwyd yn y cyfarfod hwn.

**3.1.3** Rheoli Perfformiad - cydnabyddir tanberfformiad yn erbyn dangosyddion ac fe reolir hynny trwy gymryd camau lliniaru i gynorthwyo i sicrhau gwelliannau yn ystod Ch3.

**3.1.4** Gwasanaeth Cwsmer – Bydd y Bwrdd Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer yn ystyried yr Archwiliad Siopwr Cudd ym mis Tachwedd a bydd unrhyw gamau'n cael eu gweithredu fel rhan o'r prosiect.

**3.2** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y camau lliniaru a amlinellir uchod.

Corporate Scorecard C-Q2

| Customer Service | Actual | Target | RAG | Trend | 14/15 Result |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) No of Complaints received (excluding Social Services) | 27 | 32 | Green | ↑ | 65 |
| 02) No of Stage 2 Complaints received for Social Services | 4 | - | - | - | - |
| 03) Total number of complaints upheld / partially upheld | 8 | - | - | - | 16 |
| 04) Total % of complaints acknowledged within 5 working days | 100% | 100% | Green | → | 100% |
| 05) Total % of written responses to complaints within 20 days | 100% | 100% | Green | → | 100% |
| 06) Number of concerns (excluding Social Services) | 55 | - | - | ↓ | 71 |
| 07) Number of Stage 1 Complaints for Social Services | 28 | - | - | - | - |
| 08) Number of Ombudsman referrals upheld | 0 | 1 | Green | → | 0 |
| 09) Number of Compliments | 366 | - | - | - | 521 |
| 10) % of FOI requests responded to within timescale | 73% | 80% | Amber | ↑ | 68% |
| 11) Number of FOI requests received | 359 | - | - | - | 608 |
| 12) Average 'rings' taken to answer telephone (1 Ring = 3 Sec) | 3 | 5 | Green | ↑ | 3 |
| 13) % of telephone calls not answered | 12% | 15% | Green | → | 16% |
| 14) % of written communication replied to within 15 working days of receipt (Mystery Shop - Q2) | 67% | - | - | - | - |
| 15) % of written responses in the customers language of choice (Mystery Shop - Q2) | 100% | - | - | - | - |
| 16) % of telephone calls answered bilingually (Mystery Shop - Q2) | 77% | - | - | - | - |
| 17) % of staff that took responsibility for the customer query (Mystery Shop - Q2) | 90% | - | - | - | - |

| People Management | Actual | Target | RAG | Trend | 14/15 Result |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) Sickness absence - average working days/shifts lost | 5.33 | 5 | Green | ↓ | 11.53 |
| 02) Short Term sickness - average working days/shifts lost per FTE | 1.98 | - | - | ↑ | - |
| 03) Long Term sickness - average working days/shifts lost per FTE | 3.35 | - | - | ↓ | - |
| 04) % of RTW interview held | 85% | 80% | Green | ↓ | 85% |
| 05) % of stress related sickness | 8% | 9% | Green | ↓ | 5% |
| 06) Number of employees that have hit trigger points requiring a Attendance Review Meeting (ARM) | 24% | 85% | Red | ↓ | - |
| 07) Number of staff authority wide, including teachers and school based staff (FTE) | 2321 | - | - | - | 2336 |
| 08) Number of staff authority wide, excluding teachers and school based staff(FTE) | 1316 | - | - | - | 1362 |
| 09) % of PDR's completed within timeframe | 76% | 80% | Amber | ↑ | 53% |
| 10) Local Authority employees leaving (%) (Turnover) (Annual) | 6% | - | - | - | - |
| 11) Local Authority employees made redundant (compulsory) | 7 | - | - | - | - |
| 12) Local Authority employees made redundant (voluntary) | 4 | - | - | - | - |
| 13) No. of Agency Staff | 22 | - | - | ↑ | 21 |
| 14) % of staff with DBS Certificate (if required within their role) | 98.50% | - | Green | - | - |

| Financial Management | Spend (£) | Variance (%) | RAG | Trend | 14/15 Result |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) Forecasted end of year outturn | £124,953,000 | 0.77% | Red | - | - |
| 02) Salary Year to Date Variance | £737,510 | 3.59% | Red | - | - |
| 03) % of Budget spent on Salary | - | 39.10% | - | - | - |
| 04) Cost of agency staff | £502,484 | - | Red | - | - |
| 05) Cost of consultancy | £1,309,597 | - | Red | - | - |
| 06) Notional cost of sickness absence | £1,085,721 | - | - | - | - |
| 07) Budget v Actuals (Resources) | £1,049,601 | 18.99% | Red | - | - |
| 08) Budget v Actuals (Adult Services) | £376,703 | 3.75% | Red | - | - |
| 09) Budget v Actuals (Transformation) | £111,979 | 5.65% | Red | - | - |
| 10) Achievement against efficiencies (Resources) | -£73,000 | 90.12% | Red | - | - |
| 11) Achievement against efficiencies (Adult Services) | -£80,000 | 19.66% | Amber | - | - |
| 12) Achievement against efficiencies (Highways, Waste & Property) | -£139,000 | 9.89% | Red | - | - |
| 13) Income v Targets (excluding grants) (Childrens Services) | £61,700 | 39.79% | Red | - | - |
| 14) Income v Targets (excluding grants) (Resources) | £63,500 | 81.19% | Red | - | - |
| 15) Income v Targets (excluding grants) (Adult Services) | £168,736 | 4.89% | Red | - | - |
| 16) % of Council Tax collected (for last 3 years) | - | 98.60% | - | ↑ | - |
| 17) % of Business Rates collected (for last 3 years) | - | 98.50% | - | ↑ | - |
| 18) % of Sundry Debtors collected (for last 3 years) | - | 97.10% | - | ↑ | - |
| 19) % Housing Rent collected (for the last 3 years) | - | 97.20% | - | ↑ | - |

| Performance Management | Actual | Target | RAG | Trend | 14/15 Targe | 13/14 Resul | 4/15 Quartil |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) SCA/002b: The rate of older people (aged 65 or over) whom the authority supports in care homes per 1,000 population aged 65 or over at 31 March | 21.99 | 22 | Green | ↓ | 22 | 23.28 | Lower |
| 02) SCA/018a: The percentage of carers of adults who were offered an assessment or review of their needs in their own right during the year | 94 | 93 | Green | ↓ | 93 | 92.87 | Lower Median |
| 03) LI/18b The percentage of carers of adults who requested an assessment or review that had an assessment or review in their own right during the year | 77.9 | 93 | Red | ↑ | 93 | | - |
| 04) SCA/018c: The % of carers of adults who were assessed or re-assessed in their own right during the year who were provided with a service | 96.8 | 96 | Green | → | 96 | 96 | - |
| 05) SCA/019: The % of adult protection referrals completed where the risk has been managed | 97.37 | 90 | Green | ↑ | 90 | 91.92 | Lower |
| 06) SCC/002: During the year, the percentage of children looked after at 31 March, who have experienced one or more changes of school, during the periods of being looked after, which were not due to transitional arrangements | 16.67 | 15 | Amber | ↓ | 15 | 18.5 | Lower |
| 07) SCC/025: The % of statutory visits to looked after children due in the year that took place in accordance with regulations | 90.52 | 100 | Amber | ↑ | 100 | 93.53 | Upper |
| 08) SCC/041a: The percentage of eligible, relevant and former relevant children that have pathway plans as required | 86.36 | 90 | Green | ↑ | 90 | 78.26 | Lower |
| 09) SCC/43a: The % of required core assessments completed within 35 working days | 75.81 | 85 | Amber | ↓ | 85 | 77.88 | - |
| 10) Attendance - Primary (%) | 94.7 | 94.5 | Green | ↑ | 94.5 | | TBC Q3 |
| 11) Attendance - Secondary (%) | 93.5 | 93.3 | Green | ↑ | 93.3 | | Lower Median |
| 12) No. of days lost to temp exclusion - Primary | - | - | - | - | 25 | | - |
| 13) No. of days lost to temp exclusion - Secondary | - | - | - | - | 94 | | - |
| 14) KS4 - % 15 year olds achieving L2+ (Annual) | - | - | - | - | 56 | | - |
| 15) EDU/015a: The percentage of final statements of special education need issued within 26 weeks including exceptions (Annual) | - | - | - | - | | | - |
| 16) EDU/015b: The percentage of final statements of special education need issued within 26 weeks excluding exceptions (Annual) | - | - | - | - | | | - |
| 17) LCL/001b: The no. of visits to public libraries during the year | 144k | 144k | Green | ↑ | 285k | | Lower |
| 18) LCL/004: The no. of library materials issued, during the year | 148k | 153k | Amber | → | 305k | | - |
| 19) The number of applicants with dependent children who the Council secured non-self contained bed and breakfast accommodation | 0 | - | - | - | | | - |
| 20) % tenants satisfied with responsive repairs | 88.4 | 92 | Amber | ↓ | 92 | | - |
| 21) Average number of housing repair jobs completed per operative per day | 3.1 | 6 | Red | - | 6 | | - |
| 22) Productivity of workforce- % time which is classified as productive | 69.5 | 75 | Amber | ↑ | 75 | | - |
| 23) The average number of calendar days to let lettable units of accommodation (excluding DTLs) | 38.4 | 25 | Red | ↑ | 25 | | - |
| 24) STS/005b: The percentage of highways inspected of a high or acceptable standard of cleanliness | 92.2 | 94 | Amber | - | 95 | 96.3 | Lower Median |
| 25) STS/006: The percentage of reported fly tipping incidents cleared within 5 working days | 99 | 94 | Green | ↑ | 95 | 95.9 | Lower Median |
| 26) WMT/009b: The percentage of municipal waste collected by local authorities and prepared for reuse and/or recycled | 60.37 | 58 | Green | ↓ | 58 | 55.2 | Lower Median |
| 27) WMT/004b: The percentage of municipal waste sent to landfill | 23.6 | 40 | Green | ↑ | 41 | 43.2 | Lower |
| 28) THS/011c: The % of non-principal (C) roads that are in an overall poor condition (annual) | - | - | - | - | | | THS/012 - Lower |
| 29) No. of attendances (young people) at sports development / outreach activity programmes | 53k | 35k | Green | → | 85k | 144k | - |
| 30) LCS/002b: The number of visits to local authority sport and leisure centres during the year where the visitor will be participating in physical activity | 207k | 248k | Red | ↑ | 540k | 531k | Upper Median |
| 31) No of new apprenticeships | | - | - | - | | | - |
| 32) Adult Social Care Programme | - | - | Green | → | | Green | - |
| 33) Leisure Transformation Project | - | - | Green | → | | Green | - |
| 34) Library Transformation Project | - | - | Green | → | | - | - |
| 35) School Modernisation Programme | - | - | Green | → | | Green | - |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **30 TACHWEDD 2015** |
| **Pwnc:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 2 2015/16** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>02148 751865<br>claireklimaszewski@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

## A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

**1.** Ym mis Chwefror 2015, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2015/16 gyda gwariant gwasanaethau net o £124.6m i'w ariannu o incwm o'r Dreth Gyngor, TAC a grantiau cyffredinol.

**2.** Roedd angen arbedion o £4.3m ar gyfer y gyllideb am 2015/16. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau unigol y gwasanaethau a chaiff llwyddiant neu fethiant i'w cyflawni eu hadlewyrchu yn y tanwariant/gorwariant a ddangosir.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn dangos perfformiad ariannol Gwasanaethau'r Cyngor am ail chwarter y flwyddyn ariannol sy'n berthnasol i'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 30 Medi 2015. Ceir crynodeb hefyd o'r sefyllfa a ragamcenir am y flwyddyn gyfan.

**4.** Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamcenir ar gyfer 2015/16 yw gorwariant o £980k sy'n llai nag 1% (0.78%) o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2015/16. Mae hyn yn welliant ar y gorwariant o £1.620m (1.3%) a ragwelwyd yn yr adroddiad yn chwarter 1. Mae'r esboniadau am unrhyw amrywiadau arwyddocaol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

**5.** Argymhellir y dylid nodi'r isod:-

**(i)** y sefyllfa a nodir yng nghyswllt y perfformiad ariannol hyd yma;
**(ii)** y diffyg a ragamcenir ar ddiwedd y flwyddyn; ac
**(iii)** y camau sy'n cael eu cymryd i roi sylw i hyn.

## B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

d/b

## C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

## CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydyw

## D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydyw

| DD - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Ni dderbyniwyd unrhyw sylw |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | d/b – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Ni dderbyniwyd unrhyw sylw |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldeb** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw – Chwarter 2, 2015/16 (mae'n cynnwys Atodlen A – tabl o'r alldro refeniw a ragamcenir ar gyfer 2015/16 ac Atodlen B – crynodeb o'r defnydd o gyllidebau wrth gefn).

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Refeniw 2015/16 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 16 Chwefror 2015 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 26 Chwefror 2015).

# MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 2 2015/16

## 1. Balans Cyffredinol – Sefyllfa Gychwynnol

**1.1** Roedd yr alldro answyddogol ar gyfer 2014/15 wedi arwain at falansau cyffredinol o £7.5m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol, sefyllfa fwy iach nag a ddisgwylwyd yn flaenorol.

## 2. Y cyfnod hyd at ddiwedd Chwarter 2 (y cyfeirir ato fel 'y cyfnod' o hyn ymlaen) – Perfformiad Ariannol Fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion am berfformiad ariannol yn ôl gwasanaeth am y cyfnod a'r sefyllfa alldro a ragamcenir i bob gwasanaeth i'w gweld yn Atodlen A. Y rhagolwg yw y bydd gorwariant net o £980k ar 31 Mawrth 2016. Mae hyn yn welliant ar yr alldro a amcangyfrifwyd yn yr adroddiad yn Chwarter 1, sef gorwariant o £1.62m ar y gwasanaethau. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r amrywiadau.

| **Crynodeb o amrywiadau a ragamcenir ar 31 Mawrth 2016 yn seiliedig ar wybodaeth ariannol fel ar 30 Medi 2015** | |
|---|---|
| | **(Tan)/ Gorwariant £000** |
| Dysgu Gydol Oes | 12 |
| Gofal Cymdeithasol Oedolion | 505 |
| Gofal Cymdeithasol Plant | 104 |
| Hamdden | 111 |
| Priffyrdd a Thrafnidiaeth | 160 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | (395) |
| Rheoli Gwastraff | 300 |
| Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill | (193) |
| Adnoddau – ac eithrio budd-daliadau a roddir | 197 |
| Trawsnewid | 170 |
| Arall | 9 |
| **Net** | **980** |

## 3. Eglurhad o'r Prif Amrywiadau

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Addysg Ganolog

**3.1.1.1** Roedd gorwariant o £189k (16.3%) gan y gwasanaeth hwn ar ddiwedd Chwarter 2. Y rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn yw gorwariant o £7k (llai na 1%). Mae'r gorwariant a ragwelir o ganlyniad yn bennaf i orwariant o £128k a ragamcenir ar leoliadau Integreiddio a gorwariant o £173k a ragamcenir ar gludiant ysgol. Yn groes i hyn rhagwelir tanwariant o £193k ar leoliadau Allsirol a thanwariant yn y Gwasanaethau Ieuenctid, Prydau Ysgol a Blas am Fywyd. Mae'r sefyllfa alldro wedi gwella o orwariant o £51k i orwariant amcangyfrifiedig o £7k oherwydd mwy o wybodaeth am y galw tebygol nawr bod y flwyddyn academaidd wedi cychwyn. Mae'r gorwariant a ragamcenir yn cynnwys camau adferol a gymerwyd i leihau'r gorwariant o'r lefelau cyfredol trwy lai o leoliadau allsirol. Fodd bynnag, mae hon yn gyllideb sy'n cael ei harwain gan y galw amdani ac fe all newid.

### 3.1.2 Diwylliant

**3.1.2.1** Roedd tanwariant o £26k (3.8%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod, a rhagwelir mai'r alldro ar gyfer y flwyddyn fydd gorwariant o £5k (llai na 1%). Mae hwn yr un fath â'r alldro disgwyliedig yr adroddwyd arno yn Chwarter 1. Mae'r alldro amcangyfrifiedig o ganlyniad i orwariant mewn Amgueddfeydd oherwydd targedau incwm anghyraeddadwy. I gydbwyso'r gorwariant hwn, rhagwelir tanwariant o £50k yn y Gwasanaethau Llyfrgelloedd ac incwm cynyddol o Ynys Lawd. Mae'r rhagolwg hwn yn cynnwys camau adferol a gymerwyd trwy reoli swyddi gwag i leihau effeithiau'r amgueddfeydd ar alldro'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd.

## 3.2 Cymunedau

### 3.2.1 Gofal Cymdeithasol Oedolion

**3.2.1.1** Bu gorwariant o £377k (3.8%) yn y gwasanaeth hwn am y cyfnod, a rhagwelir mai'r alldro ar gyfer y flwyddyn gyfan fydd gorwariant o £505k (2.3%).

**3.2.1.2** Yr elfennau sy'n gyfrifol am yr amrywiadau yn yr alldro a ragwelir yw:-

- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed: rhagweld gorwariant o £335k;
- Anableddau Corfforol: rhagweld tanwariant o £151k;
- Anableddau Dysgu: rhagweld gorwariant o £231k;
- Iechyd Meddwl: rhagweld gorwariant o £200k;
- Yr Uned Ddarparu: rhagweld tanwariant o £60k; a
- Rheolaeth a Chefnogaeth: rhagweld tanwariant o £50k.

**3.2.1.3** Mae'r cynnydd mwyaf arwyddocaol yn y gorwariant a ragwelir yn y gwasanaethau Anableddau Dysgu a Iechyd Meddwl. Mae'r tanwariant a ragwelir yn y maes Rheolaeth a Chefnogaeth yn lliniaru effeithiau'r rhain rywfaint.

**3.2.1.4** Mae oddeutu 59% o gyllideb y Gwasanaeth yn cael ei arwain gan y galw amdani. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus ar ddarogan costau'r dyfodol ar gyfer y gyllideb gyfnewidiol hon. Mae'r rhagolwg diwedd blwyddyn ar ddiwedd pob mis yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf ar bob lleoliad oedolion. Yn wir, gall yr amgylchiadau newid o un wythnos i'r nesaf. Mae hyn yn ei gwneud yn hynod o anodd darogan y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn a gall newid o un pegwn i'r llall rhwng dau gyfnod. Mae'r meysydd gwasanaeth lle rydym yn profi gorwariant ar hyn o bryd oherwydd (i) galw uwch na'r disgwyl a (ii) pwysau cost, yn cynnwys lleoliadau gofal cartref allanol (£569k), Gofal Dydd Anableddau Dysgu (£85k) a gofal preswyl allanol Iechyd Meddwl (£245k). Caiff y lleoliadau eu rheoli'n gyffredinol trwy baneli dyrannu sy'n gadael i reolwyr roi ystyriaeth fanwl i sut y caiff lleoliadau eu comisiynu. Mae hyn nid yn unig yn sicrhau canlyniad diogel i'r defnyddwyr gwasanaeth ond, hefyd, y canlyniad mwyaf cost effeithiol i'r Cyngor. Mae adolygiad penodol o'r gwasanaeth Gofal Dydd AD yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Enghraifft o'r pwysau cost ar y gwasanaeth yw'r cynnydd o 1.7% yn y ffioedd ar gyfer lleoliadau preswyl allanol yn 2015/16, heb unrhyw gyllideb ychwanegol. Amcangyfrifwn fod effaith hyn ar ei ben ei hun yn £150k ar draws y gwasanaeth ar gyfer 2015/16.

### 3.2.2 Gwasanaethau Plant

**3.2.2.1** Bu tanwariant o £2k (llai na 1%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod a rhagamcenir y bydd wedi gorwario o £104k (1.6%) am y flwyddyn gyfan, mae hyn yn cynnwys gorwariant amcangyfrifiedig o £314k ar gyfer Plant mewn Gofal; sy'n cynnwys lleoliad cost uchel o dan ddarpariaethau gorchymyn diogel. Mae hwn yn gynnydd bychan ar y gorwariant o £97k a ragwelwyd yn yr adroddiad yn Chwarter 1. Amcangyfrifir y bydd yr holl feysydd sy'n weddill yn y Gwasanaethau Plant yn tanwario oherwydd camau adferol megis rheoli swyddi gweigion, sy''n lleihau effaith y gorwariant ar blant mewn gofal ar sefyllfa'r gwasanaeth cyfan.

**3.2.2.2** Mae'r rhagamcanion yn seiliedig ar y dybiaeth waethaf bosib o'r galw/costau ar gyfer Plant mewn Gofal yn seiliedig ar gostau'r gwasanaeth/y galw ar y gwasanaeth/galw tebygol ar gyfer y dyfodol. Mae'r rhagamcanion ariannol yn seiliedig ar dybiaethau sy'n ymwneud â phenderfyniadau/datblygiadau ar achosion. Mae'n anodd iawn darogan y rhain, ac mae amgylchiadau unigol yn medru newid, ac yn newid. Yn ystod Chwarter 2 fe wnaed rhagor o waith ar fanylion y galw/cost/rhagamcan gan y Gwasanaeth ar y cyd â'r Adain Cyfrifeg, ac mae amgylchiadau unigol rhai plant wedi newid. Ar sail y wybodaeth sydd ar gael ar y pwynt hwn, a thybiaethau sy'n ymwneud â phenderfyniadau/datblygiadau ar achosion, fe wnaed y rhagamcaniad gorau posib. Mae hwn yn gysylltiedig â maes lle mae costau darparu uchel – lle gall y gost wythnosol amrywio o £3k - £10k. Er enghraifft, petai raid i'r Gwasanaeth letya un plentyn mewn lleoliad costau canolig am y flwyddyn ariannol hon i gyd, byddai hynny'n costio £130k. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn darogan y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

### 3.2.3 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.2.3.1** Bu tanwariant o £74k (7.4%) yn y Gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod. Rhagwelir tanwariant o £50k (5%). Mae'r tanwariant o ganlyniad i brosiectau diwygio lles a ddechreuodd yn hwyrach na'r disgwyl. Ni ddarparwyd rhagamcaniad yn ystod Chwarter 1 oherwydd ei bod yn anodd rhagweld mewn cyfnod pan oedd ailstrwythuro mawr yn digwydd yn y gwasanaeth.

### 3.2.4 Tai (CRT)

**3.2.4.1** Bu tanwariant o £10k (llai na 1%) yn ystod y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £500k (76.6%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r tanwariant o ganlyniad i gynnydd mewn incwm ac arbedion a gynhyrchwyd trwy ailstrwythuro'r Uned Cynnal a Chadw Tai (HMU). Bydd yr arian dros ben yn aros yn y CRT a chaiff ei ddefnyddio i leihau dyled y CRT.

## 3.3 Datblygu Cynaliadwy

### 3.3.1 Datblygu Economaidd

**3.3.1.1** Roedd tanwariant o £54k (7%) ar ddiwedd y cyfnod, a rhagwelir y bydd y gwariant ar gyfer y flwyddyn gyfan yn cyfateb i'r gyllideb. Mae pwysau o fewn y gwasanaeth mewn perthynas â thangyflawni ar dargedau incwm. Fodd bynnag, mae tanwariant ar gyllidebau staffio yn cydbwyso hyn. Fodd bynnag, mesur tymor byr yw hwn ac mae diffyg capasiti arbenigol yn peri risg.

### 3.3.2 Hamdden

**3.3.2.1** Bu gorwariant o £76k (10.2%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod, a rhagwelir gorwariant o £111k (4.8%) ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mae hyn yn welliant o'r gorwariant amcanol o £146k yr adroddwyd arno yn Chwarter 1. Mae'r gwelliant hwn o ganlyniad i'r ffaith fod taliadau pecynnau diswyddo yn cael eu hariannu o gronfeydd wrth gefn ar gyfer diswyddiadau, ac mae hynny wedi arwain at arbedion effeithlonrwydd. Mae'r rhesymau am y gorwariant a ragamcenir ar 31 Mawrth 2016 fel a ganlyn:-

**3.3.2.2** Roedd y cyllidebau Cyfleusterau Awyr Agored a'r Parc yn ffurfio rhan o'r arbedion effeithlonrwydd a dderbyniwyd ar gyfer 2012/13 ond nid yw'r holl safleoedd wedi cael eu hallanoli, ac mae'r gorwariant a ragwelir yn £68k (cyllideb o £0). Mae'r gwasanaeth yn bwrw ymlaen â chynigion ar gyfer allanoli er mwyn lleihau costau gorwariant yn y tymor hwy.

**3.3.2.3** Mae gorwariant o £39k wedi'i ragweld ar gyfer y cwrs golff oherwydd targedau incwm sydd wedi bod yn rhy optimistaidd yn hanesyddol. Mae'r cyfrifoldeb am y cwrs golff wedi trosglwyddo i Bartneriaeth Llangefni nawr ers mis Gorffennaf 2015.

**3.3.2.4** Disgwylir y bydd Datblygu Chwaraeon yn gorwario o £4k oherwydd costau diswyddo nad oedd cyllideb ar eu cyfer yng nghyswllt swydd oedd yn cael ei chyllido gan arian grant.

### 3.3.3 Morwrol

**3.3.3.1** Roedd tanwariant o £27k (21%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd y cyfnod. Fodd bynnag, rhagwelir gorwariant o £40k (8.7%) ar gyfer 2015/16. Adroddwyd am gyllideb gytbwys yn Chwarter 1 oherwydd ansicrwydd ynghylch penawdau incwm ar ôl i'r Swyddogaeth gynnal adolygiad arnynt. Rhagwelir y gorwariant oherwydd yr amcangyfrifir y bydd gwerthiannau olew morol yn syrthio, oherwydd y lleihad yn nifer y llongau mawr sy'n ymweld â Chaergybi ac sydd angen tanwydd. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn rhoi camau adferol ar waith ac yn parhau i wneud hynny, trwy leihau'r gwariant ar gostau staffio a threuliau rhedeg. Gobeithir y bydd yr elfennau sy'n gysylltiedig â'r Olew/Stoc yn adfer ychydig a bod potensial am danwario mewn meysydd eraill megis trwsio a chynnal a chadw, er y bydd y rhain yn dibynnu ar y tywydd wrth gwrs.

### 3.3.4 Priffyrdd

**3.3.4.1** Roedd y gwasanaeth hwn wedi gorwario £46k (1%) yn ystod y cyfnod, a rhagwelir y bydd wedi gorwario £160k (1.7%) erbyn diwedd y flwyddyn. Nid yw hyn yn cynnwys effeithiau cyllidebau'r gwaith gaeaf (traffig, goleuadau a chynnal a chadw) gan na wyddwn beth yw'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn eto, gan nad oes modd meintioli effaith y gaeaf ar y cyllidebau hyn ar yr adeg hon. Mae'r sefyllfa diwedd blwyddyn a ragamcenir fymryn yn well na'r gorwariant o £166k a ragwelwyd yn ystod Chwarter 1.

**3.3.4.2** Y prif reswm am y gorwariant a ragwelir yw bod yr incwm sy'n deillio o feysydd parcio wedi tangyflawni o £50k, ac amcangyfrifir gorwariant o £50k ar waith cynnal a chadw a gynlluniwyd oherwydd gwaith traffig, a rhagwelir gorwariant o £40k ar reoli gwaith cynnal a chadw oherwydd costau contract ac incwm sydd wedi tangyflawni. Yn ogystal, mae mân amrywiadau eraill sy'n rhoi cyfanswm o orwariant net o £20k.

### 3.3.5 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**3.3.5.1** Bu tanwariant o £114k (8.8%) gan y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd tanwariant o £395k (13.8%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hwn yn welliant sylweddol ar y gorwariant o £142k yr adroddwyd arno yn Chwarter 1.

**3.3.5.2** Disgwylir y bydd tanwariant o £34k yn y maes Gweinyddiaeth Gynllunio oherwydd swydd wag a disgwylir y bydd tanwariant yn y meysydd Rheolaeth Gynllunio a Datblygiadau Mawr gan fod yr incwm wedi bod yn uwch na'r targed yn ystod y chwarter. Mae'r costau ar gyfer yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) £41k yn is na'r disgwyl am y flwyddyn ac mae llithriad ar y Cynllun Datblygu Lleol wedi rhyddhau £258k i'w ddychwelyd i'r Canol.

**3.3.5.2** Mae Gwarchod y Cyhoedd yn rhagweld mân orwariant ar Reoli Cŵn/Pla, trwyddedau Hacni, Trwyddedau a Thrwyddedau Symud Anifeiliaid, fodd bynnag, mae pob un o'r gorwariant yma wedi lleihau oherwydd bod y sefyllfa o ran incwm wedi gwella a chostau wedi gostwng. Yn yr un modd, mae'r sefyllfa incwm wedi gwella gyda'r Cofrestryddion, Iechyd yr Amgylchedd a Marchnadoedd. Disgwylir y bydd gorwariant yn Safonau Masnach gan fod costau wedi cynyddu ac nid ydynt wedi cyflawni'r incwm.

### 3.3.6 Eiddo

**3.3.6.1** Bu tanwariant o £109k (17%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod a disgwylir y bydd wedi tanwario o £54k (8.8%) am y flwyddyn gyfan.

### 3.3.7 Rheoli Gwastraff

**3.3.7.1** Bu gorwariant o £143k (4%) yn y gwasanaeth hwn erbyn diwedd y cyfnod, a rhagwelir y bydd gorwariant o £300k (4.2%) am y flwyddyn gyfan. Mae hwn yn uwch na'r gorwariant o £256k a ragwelwyd yn yr adroddiad yn Chwarter 1. Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu oherwydd costau amcanol uwch yng Ngorsaf Drosglwyddo Penhesgyn. Mae'r rhesymau am y gorwariant a ragwelir fel a ganlyn:-

- Rhagwelir gorwariant o £200k ar y contract casglu gwastraff;
- Rhagwelir gorwariant o £200k ar Orsaf Drosglwyddo Penhesgyn;
- Rhagwelir tanwariant o £100k ar y contract gwaredu gwastraff.

## 3.4 Dirprwy Brif Weithredwr

### 3.4.1 Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill

**3.4.1.1** Bu tanwariant o £237k (35.9%) yn y gyllideb hon yn ystod y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £193k (7.2%) am y flwyddyn gyfan. Mae hyn yn welliant sylweddol ar y gorwariant o £176k yr adroddwyd arno yn Chwarter 1. Y prif reswm am y gwelliant hwn yw oherwydd trosglwyddiad gan y cyfrifwyr o £262k o'r fantolen i refeniw mewn perthynas â thrafodyn yn y flwyddyn flaenorol.

### 3.4.2 Corfforaethol a Democrataidd

**3.4.2.1** Bu gorwariant o £4k (1%) yn y maes cyllideb hwn yn ystod y cyfnod, a rhagwelir y bydd gorwariant o £2k (llai na 1%) am y flwyddyn gyfan.

### 3.4.3 Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr

**3.4.3.1** Roedd tanwariant o £31k (8.6%) yn y gyllideb yn ystod y cyfnod ond rhagwelir y bydd gorwariant o £34k (153%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn welliant o £50k o gymharu â'r gorwariant o £84k yr adroddwyd arno ar ddiwedd Chwarter 1. Mae'r gorwariant oherwydd targedau arbedion nad oedd modd eu cyflawni. Mae'r gwelliant fodd bynnag oherwydd arbedion ar gyfer rhan o'r flwyddyn a oedd yn codi o'r ailstrwythuro rheolwyr.

### 3.4.4 Adnoddau – Heb gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd

**3.4.4.1** Roedd gorwariant o £213k (£13.8%) ar ddiwedd y cyfnod, a rhagwelwyd gorwariant o £197k (24.7%) am y flwyddyn yn ei chyfanrwydd. Mae hyn yn waeth na'r gorwariant o £97k a ragwelwyd ar ddiwedd Chwarter 1. Mae'r cynnydd hwn oherwydd yr anawsterau yr oedd disgwyl eu cael i gyflawni'r arbedion ar gyfer yr ymarfer tendr banc a fydd, yn hytrach, yn cyfrannu arbedion ar gyfer un flwyddyn, yn bennaf 2016/17. Mae costau asiantaeth hefyd yn cyfrannu at y gorwariant ond bydd y rhain yn gostwng o fis Hydref 2015.

### 3.4.5 Adnoddau – Budd-daliadau a Roddwyd

**3.4.5.1** Mae'r gorwariant a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yn £50k (llai na 1%). Gellir adennill rhan helaeth o'r gorwariant cyfredol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau drwy gynnydd mewn grant er na fydd yn cwrdd â'r costau yn eu cyfanrwydd.

### 3.4.6 Adnoddau Dynol

**3.4.6.1** Bu gorwariant o £250k (51.8%) yn yr adain hon yn ystod y cyfnod ond rhagwelir y bydd tanwariant o £30k (15.2%) am y flwyddyn gyfan. Roedd £163k o'r gorwariant yn y cyfnod yn gysylltiedig ag Arfarnu Swyddi, a gwnaed cais am gyllid o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer hyn. Mae'r tanwariant oherwydd camau cywiro a gymerwyd trwy reoli swyddi gweigion.

### 3.4.7 TGCh

**3.4.7.1** Roedd tanwariant o £20k (2.4%) yn yr adain yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd cyllideb gytbwys erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd yr adain yn flaenorol wedi dweud ei fod yn rhagweld tanwariant o gwmpas £26k yn Chwarter 1. Fodd bynnag, nid yw'n rhagweld tanwariant mwyach oherwydd bod yr adain yn comisiynu ymgynghorwyr i gefnogi prosiectau penodol a gyllidir gan y tanwariant ar gyllidebau staffio oherwydd swyddi gweigion a swyddi y penodwyd iddynt yn hwyr.

### 3.4.8 Cyfreithiol a Phwyllgorau

**3.4.8.1** Roedd tanwariant o £1k (llai na 1%) yn ystod y cyfnod a rhagwelir gorwariant o £37k (27.2%) erbyn diwedd y flwyddyn. Adroddwyd ar orwariant o £7k ar gyfer Chwarter 1. Y prif reswm am y gorwariant yw oherwydd £47k o gostau ymgyfreithiad tir yn 2014/15.

### 3.4.9 Trawsnewid

**3.4.9.1** Roedd tanwariant o £88k (28.7%) yn yr adain yn ystod y cyfnod ond rhagwelir gorwariant o £170k (45%) am y flwyddyn yn ei chyfanrwydd. Mae hwn yn gynnydd sylweddol o gymharu â'r tanwariant o £55k a ragwelwyd ac yr adroddwyd arno yn Chwarter 1. Mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar y prosiectau Gweithio'n Gallach lle mae swyddi ac arbedion effeithlonrwydd yn cael eu nodi. Fodd bynnag, mae swyddi gweigion yn y tîm wedi golygu oedi gyda rhai o'r prosiectau hyn ond mae'r materion hynny bellach wedi cael sylw i gefnogi cyflawni'r rhaglen drawsnewid. Mae hyn wedi arwain at oedi wrth gyflawni rhai o'r targedau arbedion.

### 3.4.10 Archwilio

**3.4.10.1** Roedd tanwariant o £19k (14.4%) yn yr adain hon yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd tanwariant o £20k ar 31 Mawrth 2016 oherwydd arbedion yn sgil ailstrwythuro. Mae hyn yn welliant o gymharu â Chwarter 1 pryd adroddwyd ar gyllideb gytbwys.

### 3.4.11 Adnoddau Corfforaethol

**3.4.11.1** Mae'r pennawd cyllideb hwn yn cynnwys nifer o feysydd megis incwm o fuddsoddiadau, costau cyllido a chronfeydd wrth gefn. Mae'n rhy fuan ceisio rhagweld yr alldro mewn perthynas ag incwm buddsoddi a chostau cyllido ar hyn o bryd oherwydd yr ansicrwydd a fedr godi gyda'r mathau hyn o wariant. Roedd y cyllidebau wrth gefn yn £2.124m ar ddechrau'r flwyddyn a disgwylir iddynt fod ar darged ar gyfer y flwyddyn yn ei chyfanrwydd. Mae £0.399m wedi cael ei drosglwyddo i wasanaethau yn unol â phwrpas gwreiddiol y cronfeydd wrth gefn. Mae £1.5m ychwanegol hefyd wedi ei ymrwymo hyd yma. Mae'r gronfa wrth gefn ar gyfer cyflogau a graddfeydd wedi ei gorymrwymo gan £54k. Bydd angen gwrthbwyso hynny gyda gwariant llai o'r gronfa wrth gefn cyffredinol. Amcangyfrifir y bydd £0.554m yn cael ei wario ar daliadau diswyddo o gronfeydd wrth gefn. Mae Atodlen B isod yn rhoi crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn.

## 4. Casgliad

**4.1** Mae'r gwariant refeniw net a gafodd yr Awdurdod hyd at ddiwedd mis Medi 2015 a'r rhagolygon ar gyfer sefyllfa ariannol pob gwasanaeth wedi'u hamlinellu uchod a'u cynnwys yn Atodlen A. Amcangyfrifir gorwariant o £0.980m gan wasanaethau ar hyn o bryd. Gall y ffigwr hwn newid yn y dyfodol oherwydd digwyddiadau, galwadau am wasanaethau a gwybodaeth a all gael effaith ar y rhagolygon. Mae'r sefyllfa a ragwelir yn well na'r sefyllfa yr adroddwyd arni yn Chwarter 1, pryd amcangyfrifwyd gorwariant o £1.6m. Mae'r adroddiad yn amlygu mai'r gorwariannau mwyaf sylweddol a amcangyfrifir yw (£505k) yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion; (£104k) yn y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Blant; Hamdden (£111k); Priffyrdd a Thrafnidiaeth (£160k); Adnoddau (£197k) a Thrawsnewid (£170k). Eglurir y rhesymau am y gorwariannau tybiedig hyn uchod. Mae'r UDA yn monitro'r sefyllfa'n rheolaidd ac mae'n annog gwasanaethau i gymryd camau adfer i ostwng gorwariannau.

## Chwarter 2 – Perfformiad Ariannol Refeniw a Ragamcanir 2015/16

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol | Cyllideb Ch2 | Gwariant Gwirioneddol ac Ymrwymedig Ch2 | Amrywiad Ch2 | Amcan o'r Gwariant Ch2 at 31 Mawrth 2016 | Amcan o'r Alldro Ch2 31 Mawrth 2016 | Amcan o'r Alldro Ch1 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £,000 | £'000 | £,000 |
| | | | | | | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | |
| Cyllideb Ysgolion wedi'i Datganoli | 43,770 | 23,125 | 23,125 | **0** | **43,770** | **0** | 0 |
| Addysg Ganolog | 8,099 | 1,157 | 1,852 | **189** | **8,106** | **7** | 51 |
| Diwylliant | 1,728 | 689 | 662 | **-26** | **1,733** | **5** | 5 |
| | | | | | | | |
| **Cymunedau** | | | | | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 21,914 | 10,048 | 10,425 | **377** | **22,419** | **505** | 452 |
| Gwasanaethau Plant | 6,673 | 3,352 | 3,349 | **-2** | **6,777** | **104** | 97 |
| Tai | 994 | 997 | 923 | **-74** | **944** | **-50** | 0 |
| | | | | | | | |
| **Datblygu Cynaliadwy** | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd (gan gynnwys Morwrol) | 1,716 | 873 | 792 | **-81** | **1,756** | **40** | 0 |
| Hamdden | 2,293 | 746 | 822 | **76** | **2,404** | **111** | 146 |
| Priffyrdd a Thrafnidiaeth | 9,232 | 4,596 | 4,642 | **46** | **9,392** | **160** | 166 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,867 | 1,297 | 1,183 | **-114** | **2,472** | **-395** | 142 |
| Eiddo | 612 | 642 | 534 | **-109** | **558** | **-54** | 0 |
| Gwaith y Codir Amdano | 0 | 132 | 106 | **-25** | **0** | **0** | 0 |
| Rheoli'r Gyfadran | 58 | 29 | 20 | **-10** | **58** | **0** | 0 |
| Gwastraff | 7,063 | 3,587 | 3,731 | **143** | **7,363** | **300** | 256 |
| | | | | | | | |
| **Dirprwy Brif Weithredwr** | | | | | | | |
| Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill | 2,687 | 661 | 424 | **-237** | **2,494** | **-193** | 176 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 2,233 | 411 | 415 | **4** | **2,235** | **2** | 2 |
| Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr | -64 | 361 | 330 | **-31** | **-30** | **34** | 84 |
| Cyllid – ac eithrio Budd-daliadau a Gymeradwywyd | 798 | 1,545 | 1,758 | **213** | **995** | **197** | 97 |
| Cyllid – Budd-daliadau a Gymeradwywyd | 5,918 | 3,851 | 4,706 | **855** | **5,968** | **50** | 50 |
| Adnoddau Dynol | 198 | 482 | 733 | **250** | **168** | **-30** | -30 |
| TGCh | -6 | 832 | 812 | **-20** | **-6** | **0** | -26 |
| Cyfreithiol a Phwyllgorau | 136 | 686 | 686 | **-1** | **173** | **37** | 7 |
| Trawsnewid | 377 | 307 | 219 | **-88** | **547** | **170** | -55 |
| Archwilio | 0 | 132 | 113 | **-19** | **-20** | **-20** | 0 |
| Cyllid Corfforaethol | 4,695 | 1,515 | 1515 | **0** | **4,695** | **0** | 0 |
| **Cyfanswm Cronfa'r Cyngor** | **123,994** | **62,559** | **63,877** | **1,318** | **124,974** | **980** | **1,620** |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol | Cyllideb Ch2 | Gwariant Gwirioneddol ac Ymrwymedig Ch2 | Amrywiad Ch2 | Amcan o'r Gwariant Ch2 at 31 Mawrth 2016 | Amcan o'r Alldro Ch2 31 Mawrth 2016 | Amcan o'r Alldro Ch1 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£,000** | **£'000** | **£,000** |
| CRT | 653 | -5,005 | -5,015 | **-10** | **153** | **-500** | 0 |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cronfa'r Cyngor a CRT** | **124,646** | **57,555** | **37,102** | **-17,690** | **125,126** | **480** | **1,620** |
| | | | | | | | |
| **ARIENNIR GAN** | | | | | | | |
| Trethi Cenedlaethol Annomestig | 21,986 | | | | | | |
| Treth Gyngor | 30,955 | | | | | | |
| Grant Cytundeb Canlyniadau | 725 | | | | | | |
| Grant Cymorth Refeniw | 70,980 | | | | | | |
| | **124,646** | | | | | | |
| | | | | | | | |

## CYLLIDEBAU WRTH GEFN 2015/16

| Cyllideb Wrth Gefn ar 1 Ebrill 2015 | Cyllideb Wreiddiol £ | Trosglwyddiadau £ | Cyllideb Ddiwygiedig £ | Wedi'i ymrwymo hyd yma (30/09/15) £ | Y gweddill sydd heb ei ymrwymo ar hyn o bryd |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwelliant | 190,000.00 | 0.00 | 190,000.00 | 190,000.00 | 0.00 |
| Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn | 394,197.00 | -27,350.00 | 366,847.00 | 118,000.00 | 248,847.00 |
| Cyflogau a Graddfeydd | 500,000.00 | -153,690.00 | 346,310.00 | 400,710.00 | -54,400.00 |
| Arfarnu Swyddi | 600,000.00 | 0.00 | 600,000.00 | 600,000.00 | 0.00 |
| Cost Newid | 220,000.00 | -48,000.00 | 172,000.00 | 159,850.00 | 12,150.00 |
| NNDR – graddfa ddisgownt | 50,000.00 | 0.00 | 50,000.00 | 50,000.00 | 0.00 |
| Addysg – Brecwast yn yr Ysgolion | 170,000.00 | -170,000.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Wrth Gefn** | **2,124,197.00** | **-399,040.00** | **1,725,157.00** | **1,518,560.00** | **206,597.00** |

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **30 TACHWEDD 2015** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB – AIL CHWARTER 2015/16 – CYFALAF** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**RHIF FFÔN:**<br>**E-BOST:** | **GARETH ROBERTS**<br>**01248 752675**<br>**GarethJRoberts@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

- Roedd y gwariant ar gynlluniau cyffredinol hyd at ddiwedd mis Medi 2015 yn £6.3m (29%) o'r gyllideb gyfan ar gyfer cynlluniau cyffredinol). Gwariwyd £2.9m ar gynlluniau tai (24% o'r gyllideb ar gyfer tai) hyd at fis Medi 2015. Roedd cyfanswm y gwariant yn 27% o'r gyllideb gyfan, gan fod nifer o'r cynlluniau mawr yn digwydd tuag at ail hanner y flwyddyn.
- Argymhellir y dylid nodi'r cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf am ail chwarter y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Ni dderbyniwyd unrhyw sylw |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | d/b – hwn yw adroddiad y Swyddog Adran 151 |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E –** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 2 2015/16<br>Atodiad B – Gwariant Cyfalaf yn erbyn proffil cyllideb Chwarter 2 2015/16<br>Atodiad B – Cyllideb Gyfalaf 2015/16 – Crynodeb o'r Gwariant Cyfalaf yn erbyn Cyllideb y Cyngor 2015/16 |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| • Cyllideb Gyfalaf 2015/16 fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 16 Chwefror 2015; a<br>• Rhaglen Fuddsoddi mewn Tai Sector Cyhoeddus 2015/16 (fel y cyflwynwyd, a chymeradwywyd, gan y Pwyllgor hwn ar 20 Ebrill 2015); a<br>• Adroddiad Monitro Cyfalaf 2015/16 ar gyfer chwarter cyntaf 2015/16. |

## 1. CEFNDIR

**1.1** Dyma adroddiad monitro'r gyllideb gyfalaf ar gyfer ail chwarter y flwyddyn ariannol. Yn Atodiad B, ceir crynodeb o'r gwariant yn erbyn y gyllideb hyd at ddiwedd mis Medi 2015.

**1.2** Ym mis Chwefror 2015, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf gwerth £15.150m at wasanaethau ar wahân i wasanaethau tai ar gyfer 2015/16. Ym mis Ebrill 2015, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai gwerth £8.589m. Dyfarnwyd Grantiau newydd yn 2015/16 oedd yn rhoi cyfanswm o £5.960m, a daethpwyd ag Ymrwymiadau Cyfalaf gwerth £4.029m ymlaen o 2014/15. Mae hyn yn rhoi cyfanswm Cyllideb Gyfalaf o £33.728m ar gyfer 2015/16.

## 2. CYNNYDD

**2.1** Roedd y gwariant at ddiwedd mis Medi 2015 yn £6.3m (£3.8m yn 2014/15) ar gynlluniau cyffredinol, sy'n cyfateb i 29% (30% yn 2014/15) o gyfanswm y gyllideb ar gyfer cynlluniau cyffredinol. Y rheswm am hyn yw bod yr arian yn y mwyafrif o'r cynlluniau Cyfalaf yn cael ei wario tuag at ail hanner y flwyddyn ariannol. Mae'r gyllideb a broffiliwyd am y ddau chwarter cyntaf (fel y dengys Atodiad B) yn £8.962m, sy'n cyfateb i 27% o gyfanswm y gyllideb flynyddol. Enghraifft o brosiect o'r math hwn yw'r Grant Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, lle mae'r rhan fwyaf o'r gyllideb o £2.4m yn cael ei gwario tuag at y chwarter olaf.

**2.2** Roedd y gwariant hyd ddiwedd mis Medi ar gynlluniau Cyfalaf tai yn £2.9m (£2.5m 2014/15).

**2.3** Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gynlluniau a gyllidir gan grantiau a phrosiectau eraill lle gall bod risg sylweddol os bydd y prosiectau'n llithro neu os bydd gorwariant. Fel yr adroddwyd eisoes, mae nifer y prosiectau a ariennir gan grantiau wedi lleihau yn dilyn toriadau yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru, er bod rhai prosiectau mawr a ariennir gan Grantiau Ewropeaidd ar y gweill (sef y prosiect Safleoedd ac Adeiladau ac Amgylchedd Arfordirol Môn). Hefyd, mae 7 (4 yn parhau o 2014/15) o brosiectau a ariennir gan Lywodraeth Cymru wedi cychwyn, a'r mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw'r Grant Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

**2.3.1** Y pedwar prosiect amlycaf o ran risg yw:-

**2.3.1.1** Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi sicrhau arian grant o £7.490m gan Raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru am gyfnod o dair blynedd, o 2014/15 tan 2015/16. Mae cyfanswm y gyllideb Gyfalaf a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2015/16 yn £2.411m. Mae'r gyllideb hon o £2.411m wedi ei rhannu dros chwe chategori, Galluogi Cartrefi Newydd (£0.371m), Galluogi Cartrefi mewn Trefi (£0.576m), Canol Trefi Hyfyw (£0.411m), Hyb Neuadd y Farchnad (£0.09,), Swyddi a Busnes (£0.392m), Cymuned Weithgar (£0.571m). Fodd bynnag, ar ddiwedd yr ail chwarter, dim ond £0.474m oedd wedi cael ei wario ar y rhaglen hon. Mae'r rhan fwyaf o wariant y grant hwn wedi cael ei broffilio ar gyfer chwarter 4, fodd bynnag os bydd llithriad, mae risg sylweddol y byddwn yn colli'r cyllid. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd LlLlLlA yn monitro'r gwariant yn agos gyda'r nod o ailddyrannu unrhyw danwariant posib yng nghyfarfodydd y bwrdd ym mis Rhagfyr a mis Ionawr. Mae rhestr o gynlluniau wrth gefn yn cael ei datblygu i ddefnyddio unrhyw danwariant posib. Mae'r bwrdd yn hyderus y bydd y dyraniad grant ar gyfer 2015/16 wedi cael ei ddefnyddio'n llawn.

**2.3.1.2** Mae'r rhaglen gwelliannau mân-ddaliadau yn ei chweched blwyddyn sef ei blwyddyn derfynol, a chaiff ei hariannu o'r derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd o werthu mân-ddaliadau ac o incwm rhent. Mae'r gwariant ar y rhaglen hon dal yn uwch na'r cyllid a geir trwy werthiannau ac incwm rhent. Daethpwyd â diffyg o £1.393m ymlaen o 2014/15, roedd y derbyniadau cyfalaf at ddiwedd yr ail chwarter yn dod i £0.814m, a bu gwariant o £0.356 hyd yma. O ganlyniad mae'r diffyg bellach yn £0.935m. Rhagamcanir rhagor o werthiannau ar gyfer 2015/16 a 2016/17, a bydd y gwerthiannau hyn yn ddigon i gwrdd â'r diffyg cyfredol.

**2.3.1.3** Mae nifer o brosiectau a chynlluniau sy'n gysylltiedig â thrawsnewid gwasanaeth a thrawsnewid corfforaethol eisoes wedi cychwyn neu'n mynd i gychwyn yn y tymor byr / canol; mae hyn yn cynnwys y gymeradwyaeth ddiweddar, mewn egwyddor, ar gyfer Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif, Band A, a phrosiectau'n ymwneud â gofal cymdeithasol i oedolion hŷn. Bydd y prosiectau a'r cynlluniau hyn yn gofyn am arian cyfalaf sylweddol gan yr Awdurdod hwn a bydd angen i'r cynlluniau rheoli asedau statudol corfforaethol fod wedi eu halinio'n agos i ddarparu'r derbyniadau cyfalaf sydd eu hangen er mwyn lleihau'r angen i fenthyca. Bydd unrhyw fenthyca a wneir yn cynyddu'r pwysau ar y cyllidebau yn y dyfodol ac yn cynyddu'r risgiau cyffredinol sy'n gysylltiedig â dyled.

**2.3.1.4** Mae tri o gynlluniau Grant Cyfalaf lle bu'r gwariant yn brin arnynt yn erbyn y gyllideb erbyn diwedd Chwarter 2. Mae gan gynllun Ffordd Gyswllt Llangefni gyllideb o £1.936m, ond dim ond £0.119m a wariwyd hyd yma (6%). Mae gan y cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau wariant o £0.001m yn erbyn cyllideb o £0.174m (1%), ac mae'r gwariant ar y Grant Diogelwch y Ffyrdd yn ddim yn erbyn cyllideb o £0.191m. Fodd bynnag, ni ddylai'r rhain beri pryder mawr ar hyn o bryd, gan fod y gwariant wedi'i broffilio tuag at y chwarter olaf, ond os bydd llithriad, mae risg sylweddol y byddwn yn colli'r cyllid.

**2.4** Ni fydd y prosiect Rheoli Gwastraff arfaethedig, oedd â chyllideb o £119k, yn mynd yn ei flaen bellach, a bydd y gwariant a wnaed hyd yma yn cael ei drosglwyddo i refeniw. Mae'r gwariant cyfredol ar y prosiect yn £3,450, ond mae mwy o gostau i ddilyn ar gyfer ffioedd dylunio, caffael ac ymchwiliad safle, er nad yw'r costau hyn wedi cael eu cadarnhau eto. Nid oes cyllideb refeniw ar gyfer hyn.

## 3. ADNODDAU

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Derbyniwyd grant Dechrau'n Deg o £5,000 i greu ardal newid babanod yn Llanfawr.

**3.1.2** Yn ystod y chwarter, cwblhawyd y gwaith Cyfalaf ar Ganolfan Jesse Hughes, ac agorwyd y ganolfan. Nid yw'r Grant Cyfalaf wedi cael ei wario'n llawn eto gan fod yna dal anfonebau i'w prosesu, ond bydd y grant wedi cael ei wario'n llawn pan dderbynnir yr anfonebau hyn.

**3.1.3** Mae dau gynllun a ariannwyd trwy grant y Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd wedi'u cwblhau bellach. Y cynlluniau hyn oedd y prosiect Safleoedd ac Adeiladau Isadeiledd Strategol a phrosiect Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn. Fe greodd y prosiect Safleoedd ac Adeiladau 910m$^2$ o arwyneb llawr diwydiannol newydd trwy saith o unedau busnes pwrpasol sy'n cyrraedd safon "Rhagorol" BREEAM yn safle Pen yr Orsedd yn Llangefni. Mae pob un o'r saith uned wedi cael eu gosod ar les tymor hir i denantiaid erbyn hyn gan greu cyfleoedd cyflogaeth newydd ar Ynys Môn ac yn dangos yr angen am fuddsoddiad parhaus yn ein hisadeiledd. Roedd prosiect Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn yn werth £6.9m trwy'r Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd a'i nod oedd cyfoethogi a datblygu nodweddion arfordirol unigryw'r Ynys er mwyn manteisio ar lefelau hamdden a thwristiaeth nawr ac yn y dyfodol. Ar ôl cwblhau'r prosiect, llwyddwyd i wella'r isadeiledd arfordirol mewn 22 o safleoedd ar draws yr Ynys gan wneud y mwyaf o'r buddion economaidd a'r effeithiau yn sgil arfordir Ynys Môn.

### 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Mae'r derbyniadau cyfalaf am y flwyddyn hon hyd yma fel a ganlyn:-

| | Cyllideb 2015/16 £'000 | Derbyniwyd hyd at 30 Medi 2015 £'000 |
|---|---|---|
| Tai – CRT | | |
| Gwerthiannau Hawl i Brynu | 170 | 375 |
| Gwerthu Tir | 0 | 0 |
| Tai Sector Preifat | | |
| Gwerthu Plotiau | 0 | 0 |
| Taliadau a ad-dalwyd | 0 | 105 |
| Grantiau a ad-dalwyd | 5 | 10 |
| Cronfa'r Cyngor : | | |
| Mân-ddaliadau | 2,739 | 814 |
| Cyffredinol | 1,540 | 414 |
| Diwydiannol | 2 | 0 |
| Ysgolion | 190 | 0 |
| **Cyfanswm** | 4,646 | **1,718** |

**3.2.2** Roedd y Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer Chwarter 2 fymryn tu ôl i'r proffil, ond disgwylir i hyn wella dros y ddau Chwarter nesaf. O ran gwaredu eiddo, mae nifer wedi cyrraedd camau olaf y broses gyfreithiol a byddant yn cael eu cwblhau'n fuan.

**3.2.3** Cymerwyd y gyllideb ar gyfer gwerthiannau hawl i brynu y CRT o gynllun 30 blynedd y CRT ar y dybiaeth y byddai 3 o eiddo'n cael eu gwerthu yn ystod 2015/16. Hyd yma, llwyddwyd i werthu 5 o eiddo.

## 4. EDRYCH YMLAEN

**4.1** Yr eitemau arwyddocaol y mae'n werth sôn amdanynt yma yw:-

**4.1.1** Ysgol Newydd Caergybi – mae'r Achos Busnes Llawn wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae manylion terfynol y Contract wrthi'n cael eu cytuno gyda'r prif gontractwr ar hyn o bryd cyn arwyddo'r Contract. Cytunwyd i amserlennu dyddiad cychwyn o 16 Tachwedd – bydd hynny'n amodol ar dderbyn Caniatâd Adeilad Rhestredig ac ar arwyddo'r contract. Dylai'r Caniatâd Adeilad Rhestredig gael ei ryddhau yn yr wythnos nesaf.

Cyflwynwyd y Cais Cynllunio Llawn ym mis Ebrill. Caiff y cais ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio ddiwedd mis Gorffennaf. Cyflwynwyd Cais Cynllunio Adeilad Rhestredig i adnewyddu Bloc Cybi ym mis Gorffennaf.

**4.1.2** Ysgol Ardal Newydd yng ngogledd-orllewin Ynys Môn (Ysgol y Llannau) – derbyniodd y cynllun Ganiatâd Cynllunio llawn ar 7 Hydref. Rydym wedi dod i gytundeb gyda pherchennog y tir ynglŷn â phrynu'r tir.

Mae rhagor o waith cloddio archeolegol wedi cael ei gwblhau ar y safle. Derbyniwyd tendrau ar gyfer y gwaith adeiladu ar 30 Hydref ac roeddynt yn uwch na'r gyllideb. Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i ddod â'r gost i lawr at y gyllideb. Petai'r cynllun yn dal i fod yn uwch na'r gyllideb byddai angen rheoli hyn oddi mewn i'r gyllideb gyfan ar gyfer y rhaglen Band A. Fe allai hynny gael effaith ar ysgolion eraill sydd yn y rhaglen. Disgwylir y bydd y gwaith yn cychwyn ar y safle ym mis Chwefror 2016 – gyda chyfnod adeiladu o 12 mis – i'w gwblhau ym mis Chwefror 2017.

**4.2** Mae'r adrannau wedi cyflwyno eu bidiau Cyfalaf ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2016/17. Mae'r bidiau hyn wedi cael eu sgorio yn erbyn set o feini prawf penodol gan y Grŵp Asedau Cyfalaf ac mae wedi gosod y bidiau yn nhrefn eu sgôr. Yna rhoddodd y Grŵp ei argymhellion yn seiliedig ar y sgoriau i'r pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 9 Tachwedd.

**4.3** Ers i'r chwarter ddod i ben, mae'r setliad ar gyfer Pier Biwmares wedi cael ei dalu i'r contractwr. Mae'r mater wedi cael ei gwblhau erbyn hyn.

| | Cyllideb Flynyddol | Cyllideb wedi ei Phroffilio – Cyfnod 6. | Gwirioneddol hyd at Gyfnod 6 | Ymrwymwyd | Cyfanswm | Amrywiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gronfa Gyffredinol - Tai** | | | | | | | |
| Troi tai yn gartrefi i'w gosod | 97,890 | 97,890 | 94,908 | 0 | 94,908 | -2,982 | |
| Benthyciad Gwella Cartref | 90,000 | 90,000 | 88,945 | 0 | 88,945 | -1,055 | |
| Cyllideb heb ei dyrannu ar gyfer Tai Tref - Grant LlLlA | 518,820 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Cyllideb LlLlA sydd heb ei dyrannu yw hon felly nid oes proffil |
| Astudiaeth Tai a Ffioedd LlLlA | 17,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Grant Tai 1 LlLlA | 20,000 | 20,000 | 19,963 | 0 | 19,963 | -37 | |
| Grant Tai 2 LlLlA | 20,000 | 10,000 | 3,672 | 0 | 3,672 | -6,328 | |
| Pryniant Gorfodol - Cynllun Peilot | 180,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 846,000 | 306,000 | 303,239 | 0 | 303,239 | -2,761 | |
| Grantiau i Brynwyr tro Cyntaf | 10,000 | 5,000 | 5,000 | 0 | 5,000 | 0 | |
| Cyllideb sydd heb ei dyrannu - galluogi Cartrefi Newydd - Grant LlLlA | 23,660 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | Cyllideb LlLlA sydd heb ei dyrannu yw hon felly nid oes proffil |
| Grant LlLlA Tai Cymdeithasol Ffordd Cyttir | 186,900 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| LlLlA Bwlch Alltran | 160,530 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Cronfa Hapddigwyddiadau a ddygwyd ymlaen o 2014/15 ar gyfer Tai Fforddiadwy | 305,070 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| **Cyfanswm** | **2,475,870** | **528,890** | **515,727** | **0** | **515,727** | **-13,163** | |
| **CRT Tai** | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 250,000 | 0 | 331 | 0 | 331 | 331 | |
| Contract Gwaith Cynnal a Raglennwyd | 5,087,000 | 2,025,000 | 1,776,782 | 152,515 | 1,929,297 | -95,703 | |
| Cerbydau UCA 15/16 | 370,000 | 320,900 | 342,451 | 0 | 342,451 | 21,551 | |
| Gwaith Amgylcheddol | 500,000 | 60,000 | 21,959 | 12,997 | 34,956 | -25,044 | |
| Rheoli Risg Tân | 250,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Ailfodelu'r Stoc Gyfredol | 1,530,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Prynu Eiddo | 1,372,000 | 548,800 | 0 | 0 | 0 | -548,800 | |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 150,000 | 60,000 | 54,570 | 2,243 | 56,813 | -3,187 | |
| Pecyn Gwaith Mewnol SATC | 750,000 | 375,000 | 0 | 0 | 0 | -375,000 | |
| **Cyfansymiau ar gyfer: CRT Tai** | **10,259,000** | **3,389,700** | **2,196,093** | **167,755** | **2,363,848** | **-1,025,852** | |

| | Cyllideb Flynyddol | Cyllideb wedi ei Phroffilio – Cyfnod 6. | Gwirioneddol hyd at Gyfnod 6 | Ymrwymwyd | Cyfanswm | Amrywiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg** | | | | | | | |
| Adnewyddu Toiledau Ysgol | 198,490 | 158,792 | 135,575 | 0 | 135,575 | -23,217 | |
| Ailweirio Adeiladau Addysg | 253,010 | 198,000 | 332,013 | 0 | 332,013 | 134,013 | |
| Gostwng Risg Tân | 148,800 | 118,800 | 111,643 | 0 | 111,643 | -7,157 | |
| Grant Datblygu Canolfan Bro Alaw | 58,843 | 29,422 | 27,454 | 0 | 27,454 | -1,968 | |
| Ysgolion 21ain Ganrif - BAND A1 - Caergybi | 5,728,000 | 220,000 | 191,597 | 36,799 | 228,396 | 8,396 | Ni fydd y gyllideb wedi ei gwario'n llawn ac felly bydd llithriad |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Llannau | 3,431,000 | 190,000 | 96,900 | 125,710 | 222,610 | 32,610 | Ni fydd y gyllideb wedi ei gwario'n llawn ac felly bydd llithriad |
| Grant Cyfalaf Dechrau'n Deg 2014/15 | 441,830 | 441,830 | 302,826 | 398 | 303,224 | -138,606 | |
| Grant Cyfalaf Dechrau'n Deg Llanfawr | 5,000 | 5,000 | 4,277 | 0 | 4,277 | -723 | |
| Grant Cyfalaf Dechrau'n Deg - Caergybi | 189,350 | 160,000 | 161,592 | 0 | 161,592 | 1,592 | |
| **Cyfanswm** | **10,454,323** | **1,521,844** | **1,363,877** | **162,907** | **1,526,784** | **4,941** | |
| **Hamdden** | | | | | | | |
| Uwchraddio Canolfan Hamdden Plas Arthur | 85,000 | 42,500 | 73,129 | 0 | 73,129 | 30,629 | |
| Uwchraddio Canolfan Hamdden Amlwch | 85,000 | 42,500 | 3,808 | 254 | 4,062 | -38,438 | |
| Cyllideb Heb ei Dyrannu - Cymuned Egnïol - Grant LILIA | 102,210 | 42,420 | 0 | 0 | 0 | | Cyllideb LILIA sydd heb ei dyrannu yw hon Felly nid oes proffil |
| Uwchraddio Canolfan Hamdden Caergybi | 70,380 | 70,380 | 92,215 | 0 | 92,215 | 21,835 | Gorwariant i'w gyllido o'r cronfeydd wrth gefn |
| **Cyfanswm** | **342,590** | **197,800** | **169,152** | **254** | **169,406** | **14,026** | |

| | Cyllideb Blynyddol | Cyllideb wedi ei Phroffilio - Cyfnod 6 | Gwirioneddol hyd at Gyfnod 6 | Ymrwymwyd | Cyfanswm | Amrywiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Datblygu Economaidd** | | | | | | | |
| Cyllideb heb ei Dyrannu - Swyddi a Busnes - Grant LlLlA | 109,220 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Cyllideb LlLlA sydd heb ei dyrannu yw hon Felly nid oes proffil |
| Cronfa Buddsoddi mewn Busnes yng Nghaergybi - Grant LlLlA | 145,000 | 72,500 | 45,259 | 0 | 45,259 | -27,241 | |
| Safleoedd ac Adeiladau (SCEC) Cam 1 | 446,930 | 446,930 | 779,845 | 0 | 779,845 | 332,915 | Wedi ei gyllido gyda Grant. Rhaglen sawl blwyddyn, gorwariant dim ond yn 2015/16 |
| Cyllideb heb ei Dyrannu - Cyllid Partneriaeth | 58,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Cyllideb sydd heb ei dyrannu yw hon felly nid oes proffil |
| Toiledau Cyhoeddus | 86,000 | 43,000 | 34,728 | 0 | 34,728 | -8,272 | |
| Prosiect Amgylchedd Arfordirol Môn | 244,120 | 244,120 | 318,658 | 0 | 318,658 | 74,538 | Wedi ei gyllido gyda Grant. Rhaglen sawl blwyddyn, gorwariant dim ond yn 2015/16 |
| Toiledau Cemaes | 5,000 | 5,000 | 3,371 | 0 | 3,371 | -1,629 | |
| Uwchraddio Unedau Penrhos - Grant LlLlA | 120,000 | 6,000 | 6,494 | 95 | 6,589 | 589 | |
| Ymestyn HAWFC Grant LlLlA | 30,000 | 28,000 | 28,000 | 0 | 28,000 | 0 | |
| Caban Kingsland Grant LlLlA | 50,220 | 47,178 | 47,178 | 0 | 47,178 | 0 | |
| Clwb Gymnasteg Ynys Môn Grant LlLlA 14/15 | 1,440 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Grant LlLlA Datblygu Cymuned Egniol | 47,900 | 5,695 | 5,695 | 0 | 5,695 | 0 | |
| Grant LlLlA Canolfan Cymunedol Kingsland | 69,360 | 55,624 | 55,627 | 0 | 55,627 | 3 | |
| **Cyfanswm** | **1,413,190** | **954,047** | **1,324,855** | **95** | **1,324,950** | **370,903** | |
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | |
| Gwella Stryd y Farchnad - Grant LlLlA | 15,840 | 3,583 | 4,737 | 1,300 | 6,037 | 2,454 | |
| Meysydd Parcio | 45,300 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Cerbydau | 537,450 | 329,700 | 169,120 | 307,992 | 477,112 | 147,412 | |
| Menter Benthyca Darbodus Sirol | 2,000,000 | 1,000,000 | 1,296,225 | 0 | 1,296,225 | 296,225 | |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Miwmares (LIC) | 900,000 | 450,000 | 398,594 | 0 | 398,594 | -51,406 | |
| Arwyddion i Ymwelwyr a Mesuryddion Parcio LlLlA | 18,240 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Ffordd Gyswllt Llangefni | 1,936,000 | 151,653 | 117,411 | 1,898 | 119,309 | -32,344 | |
| Mapio Teithio Llesol | 5,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| SRIC 15/16 | 174,000 | 0 | 0 | 1,100 | 1,100 | 1,100 | |
| Grant Diogelwch Ffyrdd | 191,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| **Cyfanswm** | **5,822,830** | **1,934,936** | **1,986,087** | **312,290** | **2,298,377** | **363,441** | |

| | Cyllideb Blynyddol | Cyllideb wedi ei Phroffilio - Cyfnod 6 | Gwirioneddol hyd at Gyfnod 6 | Ymrwymwyd | Cyfanswm | Amrywiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | |
| Compownd Cynwysyddion Gwastraff | 118,520 | 0 | 3,450 | 0 | 3,450 | 3,450 | Nid yw'r Cynllun yn mynd ymlaen bellach, bydd y gwariant hyd yma yn cael ei drosglwyddo i Refeniw |
| **Cyfanswm** | **118,520** | **0** | **3,450** | **0** | **3,450** | **3,450** | |
| **Eiddo** | | | | | | | |
| Gwaith Rheoli Risg Adeiladau | 122,570 | 0 | 48,035 | 0 | 48,035 | 48,035 | |
| Doc Pysgod Caergybi | 96,340 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Mynwent Llanbedrgoch | 105,740 | 20,000 | 9,675 | 4,575 | 14,250 | -5,750 | |
| Mynwent Llanddona | 112,370 | 5 | 1,150 | 3,300 | 4,450 | 4,445 | Gwariant ychwanegol o 25k ym mis Rhagfyr a Ionawr ond mae'r Cynllun wedi ei roi o'r neilltu erbyn hyn |
| Mân-ddaliadau | 0 | 0 | 330,857 | 25,430 | 356,287 | 356,287 | I'w gyllido gan dderbyniadau cyfalaf a glustnodwyd i'r pwrpas |
| **Cyfanswm** | **437,020** | **20,005** | **389,717** | **33,305** | **423,022** | **403,017** | |
| **Corfforaethol** | | | | | | | |
| Cyfalaf Gweithio'n Gallach | 1,125,000 | 0 | 6,319 | 64,453 | 70,772 | 70,772 | |
| Cronfa Hapddigwyddiadau Strategaeth TGCh | 23,960 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | Cyllideb sydd heb ei dyrannu yw hon felly nid oes proffil |
| SYSTEM WRTH GEFN TG | 150,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | Cwblheir y cynllun ym Mawrth 2016 ond mae risg bychan o lithriad. |
| MICROSOFT EXCHANGE TG | 21,830 | 21,830 | 21,830 | 0 | 21,830 | 0 | |
| TG ADNEWYDDU MASNACHOL | 50,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| TG SYSTEM WRTH GEFN YCHWANEGOL | 20,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| TG AMNEWID SERFWYR 2003 | 100,000 | 70,000 | 0 | 70,000 | 70,000 | 0 | |
| TG DARPARIAETH AR GYFER TRWYDDED MICROSOFT AC ORACLE | 15,210 | 15,210 | 15,210 | 0 | 15,210 | 0 | |
| TG Uwchraddio CMS | 15,000 | 14,218 | 14,218 | 0 | 14,218 | 0 | |
| TG - Gwella Isadeiledd | 40,000 | 20,000 | 0 | 11,000 | 11,000 | -9,000 | Mae hwn yn gynllun newydd a gymeradwywyd yn ystod y chwarter a gyllidir o'r cronfeydd wrth gefn |
| **Cyfanswm** | **1,561,000** | **141,258** | **57,577** | **145,453** | **203,030** | **61,772** | |

| | Cyllideb Blynyddol | Cyllideb wedi ei Phroffilio - Nghyfnod 6 | Gwirioneddol hyd at Gyfnod 6 | Ymrwymwyd | Cyfanswm | Amrywiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynllunio** | | | | | | | |
| Cronfa Treftadeth y Loteri | 350,000 | 210,000 | 208,885 | 0 | 208,885 | -1,115 | |
| Astudiaeth o Barc y Morglawdd LILIA | 10,000 | 10,000 | 10,000 | 0 | 10,000 | 0 | |
| Cyllideb sydd heb ei dyrannu - Hyb Neuadd y Farchnad - Grant LILIA | 9,290 | | 0 | 0 | 0 | 0 | Cyllideb LILIA sydd heb ei dyrannu yw hon felly nid oes proffil |
| Astudiaeth o Neuadd y Farchnad Grant LILIA | 80,710 | 1,072 | 1,072 | 86,930 | 88,002 | 86,930 | |
| Ffioedd Datblygu Menter Treftadaeth Treflun Cam 2 LILIA | 59,000 | 24,485 | 14,149 | 48,877 | 63,026 | 38,541 | |
| Menter Treftadaeth Treflun - Cam 2 Gweithredu | 336,000 | 28,298 | 0 | 0 | 0 | -28,298 | |
| **Cyfanswm** | **845,000** | **273,855** | **234,106** | **135,807** | **369,913** | **96,058** | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **33,729,343** | **8,962,335** | **8,240,641** | **957,866** | **9,198,507** | **278,593** | |

## ATODIAD C

| Llithriad 2014/15 £'000 | Cyllideb 2015/16 £'000 | GWASANAETH | Gwariant Cyfalaf a gynlluniwyd | Swm y Gyllideb ('000) | Cyllid Allanol (grantiau penodol a chyfraniadau) ('000) | Y gost i CSYM ('000) | Gwariant yn Ch2 (£000) | % Gwariant o'r gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Tai** | | | | | | |
| | | **Tai Sector Cyhoeddus** | | | | | | |
| 1,300 | **8,959** | Rhaglen Gyfalaf Cyfrif Refeniw Tai | Gwaith Cynnal a Chadw wedi'i gynllunio ar Dai'r Cyngor | 5,087 | 2,650 | 2,437 | 1,929 | 38 |
| | | | Gwaith Gwres Canolog | 250 | | 250 | 0 | 0 |
| | | | Gwaith Amgylcheddol | 500 | | 500 | 35 | 7 |
| | | | Pecyn Gwaith Mewnol a Rheoli Asbestos SATC | 750 | | 750 | 69 | 9 |
| | | | Rheoli Risg Tân | 250 | | 250 | 0 | 0 |
| | | | Ailfodelu'r Stoc Bresennol (Llawr y Dref) | 1,530 | | 1,530 | 0 | 0 |
| | | | Caffael Eiddo sy'n Bodoli | 1,372 | | 1,372 | 0 | 0 |
| | | | Addasiadau Sector Cyhoeddus | 150 | | 150 | 57 | 38 |
| | | | Prynu Cerbydau ar gyfer yr UCA | 370 | | 370 | 342 | 92 |
| | | **Cynlluniau Tai Sector Preifat:** | | | | | | |
| | 98 | Cynlluniau Benthyciadau a Grantiau Tai Sector Preifat | Cynllun Gosod Troi Tai'n Gartrefi | 98 | 98 | | 95 | 97 |
| | 90 | | Benthyciad Gwella Cartrefi | 90 | 90 | | 89 | 99 |
| | 10 | | Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf | 10 | | 10 | 5 | |
| 30 | 816 | | Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 846 | | 846 | 303 | 36 |
| | 180 | | Cynllun Peilot Prynu Gorfodol | 180 | | 180 | 0 | 0 |
| | 20 | | Grant Tai 1 LlLlLlA | 20 | 20 | | 20 | 100 |
| | 20 | | Grant Tai 2 LlLlLlA | 20 | 20 | | 4 | 20 |
| | 17 | | Astudiaeth Tai a Ffioedd, Grant LlLlLlA | 17 | 17 | | 0 | 0 |
| | 187 | | Tai Cymdeithasol Lôn Cyttir, Grant LlLlLlA | 187 | 187 | | 0 | 0 |
| | 161 | | Bwlch Alltran, Grant LlLlLlA | 161 | 161 | | 0 | 0 |
| 305 | | Cynlluniau Tai Fforddiadwy | | 305 | | 305 | 0 | 0 |
| **1,635** | **10,558** | **Cyfanswm Tai** | | **12,193** | **3,243** | **8,950** | **2,879** | **24** |
| | | **Addysg** | | | | | | |
| | 442 | Rhaglen Ehangu Cyfalaf Dechrau'n Deg | Addasiad i Adeilad Dechrau'n Deg, Caergybi | 442 | 442 | | 303 | 69 |
| | 189 | Grant LlLlLlA Dechrau'n Deg | | 189 | 189 | | 162 | 86 |
| | 5 | Grant Dechrau'n Deg – Llanfawr | | 5 | 5 | | 4 | 80 |
| | 9,159 | Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif | Ysgol Caergybi | 5,728 | 2,864 | 2,864 | 228 | 4 |
| | | | Ysgol Llannau | 3,431 | 1,716 | 1,715 | 223 | 6 |
| | 198 | Ysgolion – Adnewyddu | Ysgol Gynradd Moelfre | 22 | | 22 | 0 | 0 |
| | | | Ysgol Gynradd Pentraeth | 16 | | 16 | 17 | 106 |
| | | | Ysgol Gynradd Llanfairpwll | 19 | | 19 | 28 | 147 |
| | | | Ysgol Gynradd Talwrn | 13 | | 13 | 20 | 154 |
| | | | Ysgol David Hughes | 53 | | 53 | 29 | 55 |
| | | | Ysgol Uwchradd Caergybi | 31 | | 31 | 21 | 68 |
| | | | Ysgol Rhoscolyn | 24 | | 24 | 20 | 83 |
| | | | Ysgol Gynradd Cemaes | 20 | | 20 | 0 | 0 |
| | 253 | Ailweirio Adeiladau Addysg | Ysgol Uwchradd Caergybi | 55 | | 55 | 70 | 127 |
| | | | Ysgol Gynradd Bodffordd | 83 | | 83 | 59 | 71 |
| | | | Ysgol Gynradd Moelfre | 115 | | 115 | 141 | 123 |

| Llithriad 2014/15 £'000 | Cyllideb 2015/16 £'000 | GWASANAETH | Gwariant Cyfalaf a gynlluniwyd | Swm y Gyllideb (’000) | Cyllid Allanol (grantiau penodol a chyfraniadau) (’000) | Y gost i CSYM (’000) | Gwariant yn Ch2 (£000) | % Gwariant o’r gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ysgol Gynradd Cemaes | | | | 23 | |
| | | | Ysgol Uwchradd Bodedern | | | | 39 | |
| | 149 | Lleihau Risg Tân yn Adeiladau’r Cyngor | Ysgol David Hughes | 59 | | 59 | 112 | 189 |
| | | | Pob Ysgol | 24 | | 24 | 0 | 0 |
| | | | Ysgol Gynradd Penysarn | 11 | | 11 | 0 | 0 |
| | | | Ysgol Uwchradd Bodedern | 55 | | 55 | 0 | 0 |
| | 59 | Grant Datblygu Canolfan Bro Alaw | Datblygu Canolfan Bro Alaw | 59 | 59 | | 27 | 46 |
| | **10,390** | **Is-gyfanswm** | | **10,454** | **5,275** | **5,179** | **1,526** | **15** |
| | | **Hamdden** | | | | | | |
| 85 | | Uwchraddio Canolfan Hamdden Plas Arthur | | 85 | | 85 | 73 | 86 |
| 85 | | Uwchraddio Canolfan Hamdden Amlwch | | 85 | | 85 | 4 | 5 |
| | 70 | Uwchraddio Canolfan Hamdden Caergybi, Grant LlLlLlA | | 70 | 70 | | 92 | 131 |
| **170** | **70** | **Is-gyfanswm** | | **240** | **70** | **170** | **169** | **70** |
| | | **Datblygu Economaidd** | | | | | | |
| 447 | | Isadeiledd Strategol ar Ynys Môn – Safleoedd ac Eiddo | | 447 | 447 | | 780 | 174 |
| **86** | | Cyfleusterau Cyhoeddus | | 86 | | 86 | 35 | 41 |
| | | Toiledau Cemaes | | | | | 3 | |
| 244 | | Prosiect Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn | | 244 | 244 | | 318 | 130 |
| 63 | | Cyllid heb ei ddyrannu | | 63 | | 63 | 0 | |
| | **145** | Cronfa Buddsoddi mewn Busnes Caergybi, Grant LlLlLlA | | 145 | 145 | | 45 | 31 |
| | **120** | Uwchraddio Unedau Penrhos, Grant LlLlLlA | | 120 | 120 | | 7 | 6 |
| | **30** | Estyniad HAWFC, Grant LlLlLlA | | 30 | 30 | | 28 | 93 |
| | **50** | Caban Kingsland, Grant LlLlLlA | | 50 | 50 | | 47 | 94 |
| | **1** | Clwb Gymnasteg Ynys Môn, Grant LlLlLlA | | 1 | 1 | | 0 | 0 |
| | **48** | Datblygu Cymunedau Gweithgar, Grant LlLlLlA | | 48 | 48 | | 5 | 10 |
| | **69** | Canolfan Gymunedol Kingsland, Grant LlLlLlA | | 69 | 69 | | 56 | 81 |
| 840 | **463** | **Is-gyfanswm** | | **1,303** | **1,154** | **149** | **1,324** | **102** |

| Llithriad 2014/15 £'000 | Cyllideb 2015/16 £'000 | GWASANAETH | Gwariant Cyfalaf a gynlluniwyd | Swm y Gyllideb ('000) | Cyllid Allanol (grantiau penodol a chyfraniadau) ('000) | Cost i CSYM ('000) | Gwariant yn Ch1 (£000) | % Gwariant o'r gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Priffyrdd** | | | | | | |
| 45 | | Meysydd Parcio | | 45 | | 45 | 0 | 0 |
| 387 | 150 | Cerbydau | | 537 | | 537 | 477 | 89 |
| | 2,000 | Menter Fenthyca Darbodus y Sir | Brynteg, Ffordd Gorad, Y Fali | 17 | | 17 | 18 | 106 |
| | | | Lôn Pandy Llywenan, Llanfigael | 44 | | 44 | 23 | 52 |
| | | | Lôn Fferm Bodloigan, Llanfigael | 52 | | 52 | 52 | 100 |
| | | | Lôn Glanrafon, Llanfechell | 42 | | 42 | 41 | 98 |
| | | | Stad Nant y Mynydd, Llanfechell | 27 | | 27 | 29 | 107 |
| | | | Breeze Hill, Benllech | 40 | | 40 | 50 | 125 |
| | | | Sgwâr Moelfre at yr Arhosfan Bws | 20 | | 20 | 21 | 105 |
| | | | Maes Hyfryd, Lôn Newydd, Moelfre | 30 | | 30 | 35 | 117 |
| | | | Nebo i Llys Dulas, Penysarn | 30 | | 30 | 35 | 117 |
| | | | Maenaddwyn i Frynteg, Brynteg | 100 | | 100 | 103 | 103 |
| | | | Allt Ednyfed / Bonc yr Odyn, Amlwch | 31 | | 31 | 1 | 3 |
| | | | Hen Swyddfa Bost, Brynrefail | 15 | | 15 | 0 | 0 |
| | | | Pengraigwen | 20 | | 20 | 1 | 5 |
| | | | Lôn Fferam Uchaf, Llansadwrn | 40 | | 40 | 39 | 98 |
| | | | Lôn Pen Nebo, Porthaethwy | 44 | | 44 | **1** | 2 |
| | | | Biwmares i Gyffordd Lairds, Llanfaes | 80 | | 80 | **0** | 0 |
| | | | Hendre Hywel, Pentraeth | 24 | | 24 | 1 | 4 |
| | | | Stad Maes y Coed, Talwrn | 15 | | 15 | 21 | 0 |
| | | | Lôn Bryn Ceinwen (The Outbuildings) | 23 | | 23 | 26 | 104 |
| | | | Stad Brig y Nant, Llangefni | 24 | | 24 | 0 | 0 |
| | | | Pentref Llanddaniel | 30 | | 30 | 0 | 0 |
| | | | Capel Mawr i Pont Marquis | 30 | | 30 | 52 | 173 |
| | | | Pentref Bethel | 34 | | 34 | 0 | 0 |
| | | | Lôn Tre Dryw, Brynsiencyn | 22 | | 22 | 23 | 105 |
| | | | Dolwerdd, Llangefni | 55 | | 55 | 33 | 60 |
| | | | Ffordd Kingsland, Caergybi | 62 | | 62 | 60 | 97 |
| | | | Lôn Tŷ Main, Caergeiliog | 34 | | 34 | 36 | 106 |
| | | | Pontrhydybont, Trearddur | 123 | | 123 | 0 | 0 |
| | | | Cyffordd Seacroft, Beach Road | 50 | | 50 | 0 | 0 |
| | | | Wynebu Cylchfan Turnpike Nant | 100 | | 100 | 0 | 0 |
| | | | Allt Goch, Draenio ym Miwmares | 70 | | 70 | 0 | 0 |
| | | | Draeniad Cwlfert Llanfairynghornwy | 100 | | 100 | 15 | 15 |
| | | | Gwaith wyneb – amrywiol leoliadau | 572 | | 572 | 581 | 102 |
| | 900 | Lliniaru Llifogydd Biwmares | Lleihau'r risg o lifogydd ym Miwmares | 900 | 765 | 135 | 399 | 44 |
| | 1,936 | Ffordd Gyswllt Llangefni | | 1,936 | 1,867 | 69 | 119 | 6 |
| | 5 | Mapio Teithio Llesol | | 5 | 5 | | 0 | 0 |
| | 174 | Llwybrau Diogel mewn Cymunedau | Gwella hygyrchedd a diogelwch ac annog cerdded a beicio mewn cymunedau ym mhentref Talwrn | 174 | 174 | | 1 | 1 |
| | 191 | Grant Diogelwch Ffyrdd | B4419 Pentre Berw i Langaffo | 42 | 42 | | 0 | 0 |
| | | | A4080 Brynsiencyn i Niwbwrch | 82 | 82 | | 0 | 0 |
| | | | A4080 Engedi i Aberffraw | 67 | 67 | | 0 | 0 |
| | 16 | Gwella Stryd y Farchnad, Grant LlLlLlA | | 16 | 16 | | 6 | 38 |

| Llithriad 2014/15 £'000 | Cyllideb 2015/16 £'000 | GWASANAETH | Gwariant Cyfalaf a gynlluniwyd | Swm y Gyllideb ('000) | Cyllid Allanol (grantiau penodol a chyfraniadau) ('000) | Cost i CSYM ('000) | Gwariant yn Ch1 (£000) | % Gwariant o'r gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 18 | Arwyddion i Ymwelwyr a Pheiriannau Talu i Barcio, Grant LlLlLlA | | 18 | 18 | | 0 | 0 |
| 432 | **5,390** | **Is-gyfanswm** | | **5,822** | **3,036** | **2,786** | **2,299** | **39** |
| | | **Rheoli Gwastraff** | | | | | | |
| 119 | | Compownd Cynwysyddion Gwastraff | | 119 | | 119 | 3 | 3 |
| **119** | | **Is-gyfanswm** | | **119** | | **119** | **3** | **3** |
| | | **Eiddo** | | | | | | |
| 123 | | Gwaith Rheoli Risg Adeiladu | | 123 | | 123 | 48 | 39 |
| 96 | | Doc Pysgod Caergybi | | 96 | | 96 | 0 | 0 |
| 106 | | Mynwent Llanbedrgoch | | 106 | | 106 | 14 | 13 |
| 112 | | Mynwent Llanddona | | 112 | | 112 | 4 | 4 |
| | | Mân-ddaliadau | | | | | 356 | |
| **437** | | **Is-gyfanswm** | | **437** | | **437** | **422** | **97** |
| | | **Corfforaethol** | | | | | | |
| | 1,125 | Gweithio'n Gallach | Derbynfa | 77 | | 77 | 0 | 0 |
| | | | Costau Cysylltiedig TGCh - Derbynfa | 9 | | 9 | 0 | 0 |
| | | | Cefnogaeth Broffesiynol | 103 | | 103 | 63 | 61 |
| | | | Y Prif Adeilad | 588 | | 588 | 0 | 0 |
| | | | Neuadd y Sir | 33 | | 33 | 1 | 3 |
| | | | Costau Cysylltiedig TGCh – Prif Adeilad | 34 | | 34 | 0 | 0 |
| | | | Costau Cysylltiedig TGCh – Neuadd y Sir | 11 | | 11 | 7 | 64 |
| | | | Unified Comms Solution (MS Lync) | 8 | | 8 | 0 | 0 |
| | | | Mynediad o Bell | 54 | | 54 | 0 | 0 |
| | | | Storfa Ychwanegol ar gyfer Rheoli Cofnodion | 29 | | 29 | 0 | 0 |
| | | | Offer Clywedol / Sain ar gyfer Ystafelloedd Cyfarfod | 5 | | 5 | 0 | 0 |
| | | | Effeithlonrwydd Ynni: Ffitiadau Golau LED | 151 | | 151 | 0 | 0 |
| | | | System Fflecsi Newydd | 21 | | 21 | 0 | 0 |
| | | | Meddalwedd Adnabod Llais | 2 | | 2 | 0 | 0 |
| 396 | | TGCh | System wrth gefn TGCh | 150 | | 150 | 0 | 0 |
| | | | Microsoft Exchange | 22 | | 22 | 22 | 100 |
| | | | 3Comm Refresh | 50 | | 50 | 0 | 0 |
| | | | Cost Ychwanegol ar gyfer Systemau Wrth Gefn | 20 | | 20 | 0 | 0 |
| | | | Amnewid gweinyddwyr 2003 | 100 | | 100 | 70 | 70 |
| | | | Darpariaeth ar gyfer costau trwyddedu Microsoft ac Oracle | 15 | | 15 | 15 | 100 |
| | | | Cyllid TGCh wrth gefn | 24 | | 24 | 0 | 0 |
| | | | Uwchraddio CMS | 15 | | 15 | 14 | 93 |
| | 40 | | Gwella'r Isadeiledd | 40 | | 40 | 11 | 28 |
| **396** | **1,165** | **Is-gyfanswm** | | **1,561** | | **1,561** | **203** | **13** |

| Llithriad 2014/15 £'000 | Cyllideb 2015/16 £'000 | GWASANAETH | Gwariant Cyfalaf a gynlluniwyd | Swm y Gyllideb (‘000) | Cyllid Allanol (grantiau penodol a chyfraniadau) (‘000) | Cost i CSYM (‘000) | Gwariant yn Ch1 (£000) | % Gwariant o’r gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cynllunio** | | | | | | |
| | **350** | Cronfa Treftadaeth y Loteri | | 350 | 350 | | 209 | 60 |
| | 10 | Parc Morglawdd, Grant LlLlLlA | | **10** | **10** | | 10 | 100 |
| | 81 | Astudiaeth Neuadd y Farchnad, Grant LlLlLlA | | **81** | **81** | | 88 | 109 |
| | 59 | Ffioedd Datblygu, Grant LlLlLlA | | **59** | **59** | | 63 | 107 |
| | 336 | THI Gweithredu Cam 2, Grant LlLlLlA | | **336** | **336** | | 0 | 0 |
| | 486 | **Is-gyfanswm** | | **836** | **836** | | **370** | **44** |
| | | **Grantiau LlLlLlA eraill** | | | | | | |
| | 102 | Cymuned Weithgar – heb ei ddyrannu | | 102 | 102 | | | |
| | 9 | Hyb Neuadd y Farchnad – heb ei ddyrannu | | 9 | 9 | | | |
| | 109 | Swyddi a Busnes – heb ei ddyrannu | | 109 | 109 | | | |
| | 559 | Cartrefi mewn Trefi – heb ei ddyrannu | | **519** | **519** | | | |
| | 24 | Galluogi Cartrefi Newydd – heb ei ddyrannu | | **24** | **24** | | | |
| | **803** | **Is-gyfanswm** | | **763** | **763** | | | |
| **2,394** | **19,141** | **Cyfanswm – Cyffredinol** | | **21,535** | **11,134** | **10,401** | **6,316** | **29** |
| **4,029** | **29,699** | **CYFANSWM Y GYLLIDEB** | | **33,728** | **14,377** | **19,351** | **9,195** | **27** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol 2014/2015Llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth: Pumed fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-2017 :.<br><br>• Adrodd ar asesiad (MALD) Adroddiad Blynyddol Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru o'r Gwasanaethau Llyfrgelloedd 2014 /15, a'r materion sy'n codi.<br><br>• Adnabod cryfderau a gwendidau perthynol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth fel yr adnabuwyd yn adroddiad blynyddol drafft 2014/2015. |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Kenneth Hughes** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Delyth Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Rachel Rowlands**<br>**01248 752094**<br>**rfxlh@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol i bob un** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Argymhellion:**

• Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2014/15

• Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi asesiad (MALDL) Llywodraeth Cymru o Adroddiad Llyfrgelloedd Blynyddol y Gwasanaethau Llyfrgell 2014 /15, a'r materion sy'n codi.

**Prif ddarganfyddiadau adroddiad MALD**:

1.1 Mae'r Asesiad yn dangos bod y gwasanaeth yn perfformio'n dda ac yn cadw 14 o'r 18 hawl graidd yn llawn, ac wedi cyflawni 4 yn rhannol. O'r saith dangosydd

| |
|---|
| ansawdd sydd â thargedau, mae Ynys Môn wedi cyflawni 4 yn llawn, a 3 yn rhannol., fodd bynnag mae MALD yn mynegi pryderon mewn rhai mannau. Atodir yr asesiad fel Atodiad 3.<br><br>1.2 Mae Llywodraeth Cymru (LlC) drwy ei hadran bolisi MALD (Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyflwyno Adroddiad Blynyddol ar berfformiad Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.<br><br>1.3 Mae'r adroddiad blynyddol yn cynnwys crynodeb o berfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yn ystod 2014/15 ac mae wedi ei gyflwyno i MALD ar ffurf drafft oherwydd yr amserlen asesu. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn atodedig fel atodiad 2. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| N/A |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol ar gyfer Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014/15. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| N/A |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |

| | | |
|---|---|---|
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1. Adroddiad Rheolwr y Gwasanaeth Llyfrgelloedd.<br>Atodiad 2. Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru Ynys Môn 2014/15<br>Atodiad 3. Asesiad 2014-15 Adroddiad Blynyddol Ynys Môn |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| MALD : Llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth : Pumed fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-2017<br><br>http://gov.wales/topics/cultureandsport/museums-archives-libraries/libraries/public-library-standards/?skip=1&lang=cy |

**Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru Ebrill 2014 – Mawrth 2015**

**Adroddiad Rheolwr y Gwasanaeth Llyfrgell**

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1 Mae Llywodraeth Cymru (LlC) drwy ei hadran bolisi MALD (Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyflwyno Adroddiad Blynyddol ar berfformiad Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

1.2 Mae'r adroddiad blynyddol yn cynnwys crynodeb o berfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yn ystod 2014/15 ac mae wedi ei gyflwyno i MALD ar ffurf drafft oherwydd yr amserlen asesu. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn atodedig fel atodiad 2.

1.3 Mae'r Asesiad yn dangos bod y gwasanaeth yn perfformio'n dda ac yn cadw 14 o'r 18 hawl graidd yn llawn, ac wedi cyflawni 4 yn rhannol. O'r saith dangosydd ansawdd sydd â thargedau, mae Ynys Môn wedi cyflawni 4 yn llawn, a 3 yn rhannol., fodd bynnag mae MALD yn mynegi pryderon mewn rhai mannau. Atodir yr asesiad fel Atodiad 3.

## 2.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

2.1 Cyflwynwyd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Statudol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC/ WAG) yn Ebrill 2002 i ddynodi lefelau lleiafsymiol darparriaeth llyfrgell a bwriedir hwy i ddarparu mesuriadau perfformiad cymharol i arwain gwelliannau gwasanaeth. Mae Deddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol "ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd cyfansawdd ac effeithlon i bob un sy'n dymuno gwneud defnydd ohono". Gan nad yw'r termau "cyfansawdd ac effeithlon" wedi eu diffinio yn y Ddeddf, cyflwynodd LlCC y Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus i ddiffinio lefelau gwasanaeth a chynorthwyo'r Gweinidog perthnasol (ar hyn o bryd y Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth) "i oruchwylio, a hybu gwella'r gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus".

Mae'r 5ed Fframwaith Llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth: Pumed fframwaith ansoddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-17 yn arwyddocaol wahanol i'r 4ydd fframwaith ac yn gosod mwy o bwyslais ar ddeilliannau ac effeithiau a manteision eang eu hystod a gaiff y gwasanaeth ar drigolion Ynys Môn. Mae hyn yn ei gwneud hyd yn oed yn bwysicach bod anghenion cwsmeriaid yn ganolog i'r cyfan sydd gan y Llyfrgell i'w gynnig.

## 3.0 Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd 2013 – 2014 : Adroddiad

***Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd***

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Ynys Môn ar gyfer 2014-15. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf.

| Dangosydd perfformiad | Ynys Môn | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) sgiliau newydd | amherthnasol | | 55% | 72% | 93% |
| c) iechyd a lles | amherthnasol | | 29% | 58% | 91% |
| d) lle diogel a chroesawgar | amherthnasol | | 84% | 97% | 98% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriad | | | | | |
| a) 'dewis da iawn neu da o lyfrau | amherthnasol | | 82% | 89% | 97% |
| b) 'gofal cwsmeriaid da iawn neu da | amherthnasol | | 93% | 98% | 99% |
| c) 'da iawn neu da yn gyffredinaol | amherthnasol | | 94% | 96% | 99% |
| d) sgor plant allan o ddeg | amherthnasol | | 8.0 | 9.2 | 9.4 |
| DA 4 Hyfforddiant i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) mynychwyr fesul pen y boblogaeth | 11 | *17* | 2 | 24 | 278 |
| c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen y boblogaeth | 174 | *9 / 21* | 16 | 162 | 484 |
| DA 6 Defnyddio'r llyfrgell | | | | | |
| a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth | 4,166 | *12* | 2,637 | 4,177 | 5,955 |
| b) ymweliadau rithwir fesul pen y boblogaeth | 1,555 | *3* | 212 | 923 | 2,449 |
| c) benthycwyr gweithredol fesul pen y boblogaeth | 155 | *12* | 71 | 155 | 288 |
| DA 7 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth | 202 | *11* | 21 | 192 | 464 |
| DA 11 Defnyddio TGCh % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd | | | | | |
| a) offer | 51% | *3* | 23% | 36% | 70% |
| b) Gwasanaeth Wi-Fi | n/k | | 4% | 37% | 74% |
| DA 12 Cyflenwi ceisiadau | | | | | |
| a) % ar gael o fewn 7 diwrnod | 65% | *21* | 62% | 69% | 81% |
| b) % ar gael o fewn 15 diwrnod | 84% | *12* | 74% | 84% | 94% |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau | | | | | |
| (v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr | 13 | *12* | 0 | 14 | 74 |
| b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr | 236 | *15* | 0 | 527 | 2696 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant fesul pen y boblogaeth | £14,160 | *11* | £8,966 | £14,054 | £20,796 |
| b) % ar staff, | 51% | *16* | 45% | 57% | 77% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 12% | *15* | 5% | 13% | 21% |
| % ar offer ac adeiladau | 9% | *6* | 0% | 4% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill; | 28% | *8* | 4% | 22% | 37% |
| c) gwariant cyfalaf fesul pen y boblogaeth | £2,126 | *1* | £0 | £266 | £2,126 |
| DA 15 Cost am bob ymweliad | £2.47 | *16* | £2.07 | £2.87 | £3.92 |
| DA 16 Oriau agor *(gweler y nodyn)* | | | | | |
| (ii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllynio gwneud hynny | 0.04% | *14* | 0.0% | 0.02% | 0.52% |
| b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon I'r cartef a fethwyd | 0% | *1 / 19* | 0.0% | 0.4% | 5.4% |

Nodyn: Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf

### 3.2 Meysydd o Gryfder

3.2.1 Mae holl boblogaeth Ynys Môn o fewn 3 milltir i lyfrgell sefydlog neu ¼ milltir i arhosfan llyfrgell deithiol, a dyma'r unig awdurdod i gyflawni'r targed am fynediad rhwydd i fannau gwasanaeth drwy gael 100% o fewn cyrraedd.

3.2.2 Cafwyd cynnydd bychan yn nifer yr ymweliadau â llyfrgell o'i gymharu â llynedd, a hynny i'w ganmol gan fod y dangosydd hwn wedi gostwng yn y rhan fwyaf o awdurdodau eraill. Ymweliadau rhithwir fesul pen y boblogaeth yw'r trydydd uchaf yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn cynnig rhaglen ddigwyddiadau a gweithgareddau helaeth sy'n cael cefnogaeth dda.

3.2.3 Mae Ynys Môn yn cyrraedd y targed am dderbyniadau drwy gynnwys e-lyfrau a stoc y gwasanaeth llyfrgell i ysgolion, ac mae'n cofnodi cynnydd o'i gymharu â 2013-14.

3.3.3 Mae Ynys Môn yn cyrraedd y targed am brynu deunydd yn y Gymraeg gyda 7.4% o'r gyllideb deunyddiau, ond oherwydd bod cyfran uchel o bobl sy'n gallu siarad a darllen Cymraeg yn y sir mae'n methu'r targed am y gwariant fesul pen y boblogaeth, ac mae'n is na'r canolrif ar gyfer Cymru.

3.3.4 Cyflwynodd Ynys Môn naratif clir yn cysylltu gwasanaethau a gweithgareddau llyfrgell â blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ym meysydd dysgu, darllen a llythrennedd, lles cymunedol, sgiliau ac adfywio economaidd, cynhwysiant digidol, iechyd a lles, hunaniaeth ddiwylliannol a thlodi.

### 4.0 Asesiad CyMAL (Gweler : Atodiad 3.)

4.1 Mae'r asesiad ffurfiol o berfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth ar gyfer y flwyddyn 2014/15 yn cyfrifo bod yr Awdurdod yn cyflawni 14 o'r 18 hawl graidd yn llawn, ac wedi cyflawni 4 yn rhannol. O'r saith dangosydd ansawdd sydd â thargedau, mae Ynys Môn wedi cyflawni 4 yn llawn, a 3 yn rhannol.

4.2 Nid yw'r safon berthynol i gyfanrif staff y sefydliad a staff proffesiynol fesul pen y boblogaeth wedi ei chyfarfod (DA13). Noda MALD ; *Mae lefelau staffio yn is na'r safonau a osodwyd, ac mae cwtogi wedi cael effaith ar y gwasanaethau sydd ar gael. Mae hyn yn destun pryder i ddatblygiad y gwasanaeth.*

4.3 Mae cyfanswm y gwariant fesul pen y boblogaeth yn agos at y canolrif ar gyfer Cymru. Mae'r gwariant ar gyfalaf a nodwyd yn cynnwys taliadau cyfalaf o ddibrisiant ac ailbrisio ar i lawr, heb unrhyw wariant cyfalaf yn y flwyddyn gyfredol. Y gost gyfartalog am bob ymweliad yn 2014-15 oedd £2.47.

4.4 Wrth gymharu â gweddill Cymru, mae Ynys Môn yn perfformio'n dda ar ddangosyddion yn ymwneud â darparu mannau gwasanaeth, ac ym maes eang *Dysgu am oes*. Mae perfformiad mewn meysydd eraill yn fwy cymysg, gyda nifer o ddangosyddion o gwmpas, neu is na, y canolrif, ar gyfer Cymru.

4.5 Mae’r asesiad yn dod i gasgliad yr:

*Mae Ynys Môn yn enghraifft o wasanaeth sydd â meysydd perfformiad cryf a gwan. Byddai unrhyw dorri pellach ar y gyllideb yn gadael y gwasanaeth mewn sefyllfa fregus ac mewn perygl o arwain at ostyngiad yn ei berfformiad.*

| **Data cyd-destunol** | **Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2015** |
|---|---|
| Awdurdod | **Ynys môn** |
| Nifer trigolion | 70,091 |
| Canran y boblogaeth o dan 16 oed | 17.2% |
| Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg | 57.2% |
| Nifer y mannau gwasanaeth sefydlog sydd ar agor 10+ awr yr wythnos | 9 |
| *O'r rhain: faint sydd wedi'u rheoli gan y gymuned* | *0* |
| *faint sydd wedi'u cefnogi gan y gymuned* | *0* |
| *faint sy'n llyfrgelloedd cymunedol wedi'u comisiynu* | *0* |
| Nifer y mannau gwasanaeth sefydlog sydd ar agor am lai na 10+ awr yr wythnos | 1 |
| *O'r rhain: faint sydd wedi'u rheoli gan y gymuned* | *0* |
| *faint sydd wedi'u cefnogi gan y gymuned* | *0* |
| *faint sy'n llyfrgelloedd cymunedol wedi'u comisiynu* | *0* |
| Nifer y llyfrgelloedd teithiol | 1 teithiol, 1 caeth iw tai, 1 ysgolion |
| Nifer y Llyfrgelloedd Cymunedol Annibynnol | 0 |

<u>Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau ynghylch y ffurflen hon</u>

| | |
|---|---|
| Enw | Rachel Rowlands |
| Rhif ffôn | 01248 752094 |
| E-bost | rfxlh@ynysmon.gov.uk |

| | |
|---|---|
| A yw'r Ffurflen Datganiad Blynyddol hon wedi'i chymeradwyo gan yr awdurdod cyn ei chyflwyno i CyMAL? | Nac ydi |

Os do, gan bwy? Y cyngor llawn, cabinet/gweithrediaeth, deiliad portffolio, pwyllgor craffu, rhywun arall (manylwch)

Dyddiad ei chymeradwyo

Pryd y disgwylir y caiff ei gymeradwyo?

Pryd caiff y fersiwn derfynol ei chyflwyno i CyMAL?

## Cydymffurfio â Hawliau Craidd

**Ynys môn**

| | Hawl | Cydymffurfio (dewiswch) | Sylwadau'r awdurdod |
|---|---|---|---|
| | **Cwsmeriaid a chymunedau** | | |
| 1 | Sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwys wrth law i helpu. | Cyflawni'n llawn | Mae ardderchowgrwydd cwsmer yn hollbwysig i'r Gwasanaeth Llyfrgell , ac mae staff yn sicrhau amgylchedd cyfeillgar a chroesawgar. Mae hyfforddiant a datblygiad staff yn bwysig i'r gwasanaeth, ac mae hyfforddiant mewn topigau megis cynhwysiad digidol, newid dulliau rhyngweithio gyda'r llyfrgell wedi cymryd blaenoriaeth dros y flwyddyn a aeth heibio. |
| 2 | Cynnal amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi dysgu, mwynhad a galluogi defnyddwyr i gael y budd mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael. | Cyflawni'n llawn | Mae'r adroddiad hwn yn arddangos bod y gwasanaeth wedi cyflwyno ystod lawn o weithgareddau yn ystod 2014-15 i bob ystod oedran. Mase hyfforddiant Sgiliau Digidol, gweithgareddau oedolion a phlant a gweithgareddau dartblygu'r darllenydd i gyd wedi cyfoethogi'r profiad llyfrgell ac wedui ychwanegu gwerth at y gwasanaeth llyfrgell. Mae bod hyn wedi ei gyflawni gydag adnoddau a chapasiti staff cyfyngedig yn gredyd i'n holl staff. |
| 3 | Darparu mynediad i ystod o wasanaethau ac adnoddau i gefnogi dysgu gydol oes, lles a datblygiad personol, a chyfranogiad cymunedol. | Cyflawni'n llawn | Mae'r Gwasanaeth yn cyfarfod yn llawn â'r hawl hwn, ac yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr ac asiantaethau eraill. Mae'r Cydlynydd Dysgu Gydol Oes (aelod o'r tîm proffesiynol) yn ychwaneegu gwybodaeth a gwerth amhrisiadwy at y maes hwn. |
| | **Mynediad i bawb** | | |
| 4 | Llyfrgelloedd ar agor i holl aelodau eu cymunedau | Cyflawni'n llawn | Mae lledaeniad daearyddool ein llyfrgelloedd sefydlog yn sicrhau bod mwyafrir ein preswylwyr yn gallu cael mynediad i lyfrgell sefydlog. Mae'r llyfrgell Symudol yn cwmpasu'r ardal sydd ar ôl. Mae'r gwasanaeth Caeth i'r cartref yn darparu gwasanaeth amhrisiadwy i'r rhai nad ydynt yn gallu ymweld â llyfrgell sefydlog neu'r symudol. Mae ein holl adeiladau'n hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf DDA 1995. Mae'r faniau Symudol a chaeth i'r Cartref wedi eu ffitio gyda lifft. |
| 5 | Yn rhad ac am ddim i ymuno â hwy | Cyflawni'n llawn | Mae Gwasanaeth Llyfrgell Môn yn rhad ac am ddim i ymuno ag ef. |
| 6 | Darparu llecyn diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas | Cyflawni'n rhannol | Mae gan Wasanaeth Llyfrgell Môn adeiladau llyfrgell sydd mewn cyflwr da iawn, sy'n ddeniadol, yn gyfoes ac yn groesawgar. Nodir bod yr hawl hwn wedi ei gyfarfod yn rhannol oherwydd cyflwr ffisegol Llyfrgell Caergybi. Mae Llyfrgell Caergybi yn un strategol ond mae angen ei diweddaru. Mae'r Awdurdod wedi sicrhau Arian Loteri Treftadaeth i adfer defnydd o'r hen Neuadd Farchnad yng Nghaergybi. Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn denant angor anchor tenant yn y prosiect hwn a fydd yn darparu llyfrgell 21 ain ganrif ar gyfer Caergybi a'r cyffiniau. Mae'r oriau agor yn addas ym mhob un ond 1 llyfrgell . Mae llyfrgell Niwbwrch yn agored am 7 awr yr wythnos, ac o gael cyllid ychwanegol byddem yn ymestyn yr oriau yn arbennig gan fod gweithio agos gyda'r ysgolion cynradd wedi gweld cynnydd mewn plant yn ymweld â'r llyfrgell. |

| Cydymffurfio â Hawliau Craidd | | | Ynys môn |
|---|---|---|---|
| 7 | Darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig | Cyflawni'n llawn | Mae ein holl wasanaethau'n hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf DDA 1995. Darparodd 9/10 llyfrgell (pob un sy'n agored am dros 10 awr yr wythnos) o leiaf un CP mynediad cyhoeddus gyda meddalwedd testun rhagfynegol, cymorthyddion megis llygoden pêl dracio a bysellfyrddau cynorthwyol ar gael ym mhob llyfrgell, Mae gan y llyfrgelloedd mwy ddesgiau a seddau y gellir eu haddasu. Mae Aladdin Magnifiers ar gael ac mae mwyhau drwy lungopïo ar gael yn Llyfrgelloedd Caergybi a Llangefni . |
| **Dysgu am oes** | | | |
| 8 | Benthyca llyfrau am ddim. | Cyflawni'n llawn | Rhoddir llyfrau, Llyfrau Clywedol as thapiau iaith ar fenthyg yn ddi-dâl |
| 9 | Cynnig mynediad am ddim i wybodaeth. | Cyflawni'n llawn | Mae pob mynediad i wybodaeth yn rhad ac am ddim. Mae modd y bydd tâl bychan am argraffu neu lungopïo. |
| 10 | Darparu defnydd am ddim o'r Rhyngrwyd a chyfrifiaduron, gan gynnwys diwifr. | Cyflawni'n llawn | Mae defnydd o'r rhyngrwyd a chyfrifiaduron a Wi-Fi yn ddi-dâl. Codir tâl am argraffu. |
| 11 | Cynnig defnydd am ddim o adnoddau gwybodaeth ar-lein 24 awr y dydd. | Cyflawni'n llawn | Mae catalog y Wefan a'r llyfrgell ar gael 24/7. Mae adroddau ar-lein e.e Iaith Dryloyw Ar-lein, ac e-lyfrau hefyd ar gael 24/7. |
| 12 | Darparu mynediad at adnoddau o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys rhai yn yr iaith Gymraeg, ac yn adlewyrchu ffurfiau newidiol cyhoeddi. | Cyflawni'n llawn | Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn gweithio'n galed i ddarparu adnoddau o ansawdd mewn ystod eang o fformatau. Mae consortia prynu llyfrau Cymru gyfan yn gaslluogi i'r gwasanaeth gyflawni arbedion mwy na phe baem yn gweithredu ar ein pennau ein hunain. Mae partneriaeth TalNET yn dod ag arbedion hefyd. |
| 13 | Rhannu eu catalogau, er mwyn i ddefnyddwyr fedru gwneud un chwiliad drwy holl adnoddau llyfrgelloedd Cymru. | Cyflawni'n llawn | Mae Catalog Llyfrgell TalNET yn llwyr hygyrch. |
| **Arweinyddiaeth a datblygu** | | | |
| 14 | Hyrwyddo llyfrgelloedd er mwyn denu rhagor o bobl i elwa o'u gwasanaethau. | Cyflawni'n rhannol | Nodwn bod hyn wedi ei gyfarfod yn rhannol oherwydd materion ariannu. Mae'r Tîm Datblygu Cynulleidfa yn Wrecsam yn amhrisiadwy yn y maes hwn, ond mae capasiti staffio yn y gwasanaeth yn gallu cyfyngu cyrhaeddiad. Mae'r Gwasanaeth wedi cyflwyno cynllun busnes ar gyfer presenoldeb cyfryngau cymdeithasol un pwrpas gan y cydnabyddir er bod y swyddog cyfathrebu Corfforaethol yn gweithio'n galed ar ein rhan, mae'r dull corfforaethol yn gyfyngedig. |

| Cydymffurfio â Hawliau Craidd | | Ynys môn |
|---|---|---|
| **15** Ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol. | Cyflawni'n rhannol | Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell wedi ymgynghori'n Ffurfiol gyda'i Ddefnyddwyr o Oedolion ym Mawrth 2014, a bydd yn ymgynghori eto gyda'r Fframwaith Oedolion a Phobl Ifanc sydd ar ddod . Bydd 2014-15 yn gweld ymgynghoriad manwl a sensitif gyda defnyddwyr, rhai nad ydynt yn defnyddio, cydranddalwyr a Phartneriaid y gwasanaeth a'i gyfeiriad/strwythur pellach. |
| **16** Gweithio mewn partneriaeth i agor mynediad at adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru. | Cyflawni'n llawn | Mae Gwasanaeth Llyfrgell Môn yn cyfrannu at weithgareddau / agenda Partneriaeth Llyfrgell Gogledd Cymru (Cyhoeddus, Academaidd ac AB) ac maent yn cydweithreddu'n llawn gyda chynllun LINC y Gogledd. |
| **17** Darparu mynediad at strategaeth, polisïau, amcanion a gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgell, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned. | Cyflawni'n rhannol | Mae strategaeth, polisïau, nodau a gweledigaeth y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ar gael yn llawn wedi ei argraffu, yn llwyr ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg . Nid ydynt ar gael ar hyn o bryd ar y wefan gan eu bod wedi eu symud dros dro oherwydd eu bod yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn rhan o'r Arolwg Gwasanaeth Llyfrgell a'r broses gydgordio cyn cyflwyno RhLG (LMS) Gogledd Cymru. |
| **18** Darparu proses gwyno sy'n glir, yn amserol ac yn dryloyw ar gyfer adegau pan fo rhywbeth yn mynd o'i le. | Cyflawni'n llawn | Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn gweithredu polisi Canmol a Chwyn, proses glir,tryloyw ac amserol. yn chwarterol ar gyfer Sgriwtini. Ymdrinnir â phob mater yn uniongyrchol a rhaeadrir yr arfer dda/ y gwersi a ddysgwyd yn uniongyrchol i bob pwynt gwasanaeth. |

Tudalen 64

# Dangosyddion Ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

## *Cwsmeriaid a chymunedau* — *Ynys môn*

| DASLICC 1 Gwneud gwahaniaeth | 2014-15 | | |
|---|---|---|---|
| Canran yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | **ang** | | |
| Canran yr oedolion sydd wedi cael gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch iechyd a lles yn y llyfrgell | **ang** | | |
| Canran yr oedolion sydd yn teimlo bod y llyfrgell yn lle diogel a chroesawgar i ymweld â hi | **ang** | | |
| Canran yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau | **ang** | *Dyddiad yr arolwg (mis a blwyddyn)* | *ang* |

Sylw'r Awdurdod:

Nid arweiniwyd yr arolwg yn ystod eleni. Mae'n debygol yr arweinir yr Arolygon yn ystod 2015-16 i lywio penderfyniadau ynghylch cyfeiriad pellach y gwasanaeth.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Canran y plant 7-16 oed sy'n meddwl bod defnyddio'r llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau | **ang** | | |
| Canran y plant 7-16 oed sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau | **ang** | *Dyddiad yr arolwg (mis a blwyddyn)* | *ang* |

Sylw'r Awdurdod:

Nid arweiniwyd yr Arolwg yn ystod eleni. Mae'n debygol yr arweinir yr arolygon yn ystod 2015-16 i lywio penderfyniadau ynghylch cyfeiriad pellach y gwasanaeth..

| DASLICC 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | 2014-15 | *2013-14* |
|---|---|---|
| Canran yr oedolion sy'n credu bod y dewis o lyfrau yn 'dda iawn' neu'n 'dda' | **ang** | *ang* |
| Canran yr oedolion sy'n credu bod safon y gofal cwsmeriaid yn 'dda iawn' neu'n 'dda' | **ang** | *ang* |
| Canran yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell yn 'dda iawn' neu'n 'dda' yn gyffredinol | **ang** | *ang* |
| *Dyddiadau'r arolwg (mis a blwyddyn)* | *ang* | *ang* |

Sylw'r Awdurdod:

Nid yw'r Arolwg wedi ei arwain yn ystod eleni. Mae'n debygol yr arweinir yr Arolygon yn ystod 2015-16 i lywio penderfyniadau ynghylch cyfeiriad pellach y gwasanaeth .

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sgôr gyffredinol allan o ddeg ar gyfartaledd a roddwyd gan ddefnyddwyr 7-16 oed i'r llyfrgell maent yn eu defnyddio | **ang** | *Dyddiad yr arolwg (mis a blwyddyn)* | *ang* |

Sylw'r Awdurdod:

Nid yw'r Arolwg wedi ei harwain yn ystod eleni. Mae'n debygol yr arweinir yr Arolygon yn ystod 2015-16 i lywio penderfyniadau ynghylch cyfeiriad pellach y gwasanaeth.

| DASLICC 3 Cymorth ar gyfer datblygiad unigol | 2014-15 | % y cyfanswm | 2013-14 % y cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Nifer o fannau gwasanaeth sefydlog sydd ar agor am 10 awr a mwy sy'n darparu: | | | |
| Cymorth sylfaenol i ddefnyddio'r seilwaith TGCh a gynigir (gan gynnwys y rhwydwaith diwifr) a chymorth i gael gafael ar y rhychwant o adnoddau gwybodaeth electronig sydd ar gael. | 9 | 100% | 100% |
| Hyfforddiant i wella llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol. | 6 | 67% | 67% |
| Sesiynau llythrennedd gwybodaeth i ddefnyddwyr. | 9 | 100% | 100% |
| Cymorth i ddefnyddwyr i gael gafael ar adnoddau e-lywodraeth lleol a chenedlaethol. | 9 | 100% | 100% |
| Rhaglenni/gweithgareddau datblygu darllenwyr ar gyfer oedolion a phlant | 9 | 100% | 100% |

Nid yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Ychwanegwch unrhyw sylwadau isod:

Mae rhaglen lawn o sesiynau sgiliau digidol wedi rhedeg yn y 6 llyfrgell fwy, mewn partneriaeth â'r Cydlynydd Dysgu Gydol Oes yn yr adran. Mae sesiynau sgiliau digidol anffurfiol wedi digwydd yn y llyfrgelloedd a oedd ar ôl, ond nid yw nifer y cyfrifiaduron sydd ar gael yn y llyfrgelloedd hyn yn addas ar gyfer sesiynau ffurfiol.

| DASLICC 4 Hyfforddiant i ddefnyddwyr | 2014-15 | Fesul 1,000 o'r boblgth |
|---|---|---|
| Cyfanswm y nifer yn mynychu sesiynau hyfforddi defnyddwyr wedi'u trefnu ymlaen llaw gan y llyfrgell | 792 | 11 |
| Canran y mynychwyr a ddywedodd fod mynychu wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion | 91% | |
| Nifer y cwsmeriaid sydd wedi cael cymorth drwy gael hyfforddiant anffurfiol yn ystod y flwyddyn | 12,200 | 174 |

Sylw'r Awdurdod (gan gynnwys nodyn ar y dull i'w ddefnyddio i gyfrifo'r canlyniadau):

Mae hyfforddiant defnyddwyr anffurfiol yn arwyddocaol uwch na hyfforddiant ffurfiol. Mae pob sesiwn hyfforddi a drefnwysd ymlaen llaw wedi eu harwain gan diwtor. Mae hyfforddiant anffurfiol yn cynnwys pynciau megis cynorthwyo i gael mynediad i adnoddau digidol, hyfforddiant ad hoc yn y defnydd o TG, defnydd o'r llyfrgell a'r defnydd o gatalog ar-lein.

## *Mynediad i bawb* — *Ynys môn*

| DASLICC 5 Lleoliad mannau gwasanaeth | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| Dwysedd y boblogaeth (person yr hectar) | 1.0 | |
| % yr aelwydydd o fewn 3 milltir (neu 15 munud o amser teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus) i fan gwasanaeth sefydlog, neu o fewn ¼ milltir i arhosfan llyfrgell deithiol | 100% | 100% |

Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd.

77.8% of Angleseys population live within a 3 mile buffer of a static library. This is information provided by our colleagues in Gwynedd using the GIS system. A simple 3 mile radius was used for the calculation. The figure would be lower is travelling time by public transport was used, due to the rural nature of the island. 23% of the population live within 1/4 mile of a mobile library stop.

| DASLICC 6 Defnyddio'r llyfrgell | 2014-15 | Fesul 1,000 o'r boblgth | 2013-14 Fesul 1,000 o'r boblgth |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr ymweliadau i lyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn | 292,025 | 4,166 | 4,145 |
| Nodwch y dull a ddefnyddiwyd i gyfrifo hwn | Cyfrifiad am y flwyddyn gyfan | | |
| Cyfanswm nifer yr ymweliadau allanol i wefan llyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn | 109,000 | 1,555 | |
| Cyfanswm nifer y benthycwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn | 10,839 | 155 | |
| Cyfanswm y nifer sy'n aelodau o'r llyfrgell | 18,638 | | |
| Cyfanswm nifer y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant wedi'u cyfuno) | 275,594 | | |
| Cyfanswm nifer y deunydd clyweledol ac electronig a fenthycwyd/lawrlwythwyd | 18,081 | | |

Sylw'r Awdurdod (gan gynnwys enwau unrhyw fannau gwasanaeth a rennir ac sy'n rhannu dulliau cyfrif, a dyddiad y glanhau diwethaf ar ddata aelodaeth):

Dyddiad glanhau data aelodaeth diwethaf oedd 01/04/2013. Rydym yn cydnabod nad yw ein hymweliadau allanol â'r safle we yn 100% o gadarn ac rydym yn cryfhau'r mecanaethau cyfrif ar gyfer 2015/16, mae data wedi ei golli yn ystod y cyfnod adrodd ac mae'r ffigwr hwn yn cynnwys elfen o allosodiad.

| DASLICC 7 Presenoldeb defnyddwyr yn nigwyddiadau'r llyfrgell | 2014-15 | Fesul 1,000 o'r boblgth | 2013-14 Fesul 1,000 o'r boblgth |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y nifer yn mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi'u trefnu gan y llyfrgell | 14,713 | 210 | 127 |

Sylw'r Awdurdod:

yn ôl 1,000 y boblogaeth = 210 Mae'r gwasanaeth yn falch o'i ddigwyddiadau helaeth a rhaglen o weithgareddau yn arbennig yng nghyd-destun ei lefelau staffio ac mae adnoddau cyllidebol, gweithgareddau digwyddiadau a gwaith allgyrraedd yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth ac mae'r staff yn ymdrechu i allu eu cynnig.

## *Dysgu am oes* — *Ynys môn*

| DASLICC 8 Deunydd darllen cyfoes | 2014-15 | Fesul 1,000 o'r boblgth | 2013-14 Fesul 1,000 o'r boblgth |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr eitemau a dderbyniwyd | 19,474 | 278 | 221 |
| Cyfanswm gwariant ar ddeunyddiau (o DASLICC 14) | £120,320 | £1,717 | £1,583 |

Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd.

Mae caffaeliadau i fyny ar 2013/14 13,961 Mae cynnwys teitlau e-lyfrau (4426) yma'n gwneud y gwahaniaeth rhwng cyflawni'r targed neu beidio â chyflawni'r targed. Mae'r gwasanaeth yn ceisio lliniaru effeithiau gwariant isel drwy brynu llyfrau câs papur a chynigion, fodd bynnag rydym yn ystyried bod yn rhaid cynnal safon y stoc. Rydym yn cyfyngu nifer y copïau lluosog yr ydym yn gallu eu prynu a phrin y byddwn yn prynu mwy na 4 llyfr sy'n gwerthu orau a dim ond 1 neu 2 gopi ar gyfer teitlau eraill. Rydym wedi cynnwys ein stoc llyfrgell ysgolion yma; mae'r dffigwr heb hyn islaw'r safon ar 241 y 1000 o boblogaeth.

| | | |
|---|---|---|
| Stoc benthyca ar ddechrau’r flwyddyn | 154,988 | *2013-14* |
| Cyfanswm deunydd i’w fenthyca a dderbyniwyd | 19,474 | |
| Cyfradd adnewyddu | **12.6%** | *n/a* |

Mae’r targed hwn wedi'i gyrraedd.

O roi'r gronfa lyfrau bresennol mae'r targed hwn yn her arwyddocaol. Rydym wedi cynnwys stoc ein Gwasanaeth llyfrgell Ysgolion yn y ddau ffigwr uchod. Mae'n gasgliad ar wahân ond yn llwyr hygyrch gan staff a thrwy'r gyfundrefn gais ac ar gael i'w benthyca er nad ydynt ar y silffoedd agored. Mae'r raddfa ailgyflenwi heb stoc llyfrgelloedd ysgolion yn uwch ar 14.2% yn bennaf oherwydd maint y stoc a ddelir. Mae ein haelodau staff yn gweithio'n galed i sicrhau'r gwerth gorau yn nhermau'r llyfrau y mmaent yn eu prynu ac mae consortia Cenedlaethol yn bendant yn talu rhan sylweddol mewn lleihau costau yn y maes hwn.

| DASLICC 9 Deunydd darllen priodol | 2014-15 | | *2013-14* |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm gwariant ar ddeunyddiau i blant | £34,720 | | |
| Canran gwariant ar ddeunyddiau i blant | **29%** | | |

Nid yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Ychwanegwch unrhyw sylwadau isod:

Credaf bod y fformiwla hon yn anghywir % poblogaeth plant preswyl = 17.2%. Mae stoc llyfrgell ysgol yn chwyddo'r ffigwr. Mae'r % a werir heb gynnwys stoc llyfrgelloedd ysgolion yn 19%. Gwasanaeth tanysgrifio yw gwasanaeth Llyfrgell ysgolion ond nid yw tanysgrifiadau'n ddigonol i gwmpasu'r costau i gyd. Mae plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth ar gyfer y Gwasanaeth fel yr adlewyrchir yn ein Strategaeth. (Mae e- lyfrau wedi eu cynnwys)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg | £8,891 | | |
| Canran gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg | **7.4%** | | |
| Gwariant am bob 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg | **£222** | | |

Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd.

Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu caisam sicrhau ac ymroddiad i sicrhau bod deunyddiau Cymraeg ar gael ac yn weledol i'n darllenwyr ar draws Ynys Môn. Mae gan Ynys Môn ganran uchel o boblogaeth breswyl Cymraeg eu hiaith pe baem i gyflawni lleiafswm yr elfen wariant byddem yn cynyddu ein gwariant i £30,000 yn fras neu 25% o'n gwariant cyfanswm gwariant deunyddiau. Rydym yn prynu'r holl stoc sydd ar gael yn y Gymraeg ac yn hapus gyda lefelau'r stoc. (mae elyfrau

| DASLICC 10 Mynediad ar-lein | 2014-15 | Fesul 10,000 o'r boblgth | *2013-14 Fesul 10,000 o'r boblgth* |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y cyfrifiaduron â mynediad i'r cyhoedd sydd ar y rhwydwaith | 74 | **10.56** | |

Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd.

| | |
|---|---|
| A yw pob llyfrgell sefydlog a theithiol yn darparu o leiaf un ddyfais sy'n rhoi mynediad i'r cyhoedd at y Rhyngrwyd ac at gynnwys digidol ar y rhwydwaith? | **Ydi** |

Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd.

| | | |
|---|---|---|
| Os yw'n berthnasol, cofnodwch nifer y safleoedd sefydlog nad oes ganddynt fynediad i'r rhwydwaith | £ | - |
| Os yw'n berthnasol, cofnodwch nifer y llyfrgelloedd symudol nad oes ganddynt fynediad i'r rhwydwaith | £ | 1 |

Nid yw'r llyfrgell symudol yn darparu mynediad i'r rhyngrwyd ar hyn o bryd. ar hyn o bryd o roi materion cysylltedd ar Ynys Môn ni ragwelir y bydd hyn yn bosibl yn y byrdymor oherwydd y buddsoddiad sylweddol a fyddai ei angen. Mae fodd bynnag wedi llywio trafodaeth yn ein harolwg gwasanaeth ac ailymwelir ag ef yn barhaus. Ychwanegir at Gyfrifiaduron pen desg gan Dabedi ym mhob llyfrgell. Mae gan bob llyfrgell Wi-Fi.

| | |
|---|---|
| A yw'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn darparu mynediad diwifr i'r cyhoedd er mwyn iddynt ddefnyddio eu dyfeisiau eu hunain? | **Ydi** |

Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd.

## Dangosyddion Ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

Darperir y mynediad Wi-Fi yn Llyfrgell Niwbwrch gan Athrofa /Institiwt Prichard Jones yr ydym yn rhentu ystafell ganddynt. Ni reolir ef gan y Gwasanaeth Llyfrgell.

| DASLICC 11 Defnyddio TGCh | 2014-15 | % a ddefnyddiwyd | 2013-14 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr oriau sydd ar gael i'w defnyddio ar gyfleusterau TGCh sydd â mynediad i'r cyhoedd yn ystod y flwyddyn | 65,154 | | |
| Nifer yr oriau a gofnodwyd o ddefnyddio cyfleusterau TGCh gan y cyhoedd yn ystod y flwyddyn | 33,254 | 51% | *49%* |
| Nifer yr oriau ar gael i ddefnyddio rhwydweithiau diwifr gan y cyhoedd yn ystod y flwyddyn | 9,875 | | |
| Nifer yr oriau a gofnodwyd o'r cyhoedd yn defnyddio rhwydweithiau diwifr yn ystod y flwyddyn | ang | | |

Sylw'r Awdurdod:

Mae'r defnydd o TGaCh yn cynyddu gyda newidiadau Diwygio Lles sy'n dechrau cael effaith ar y galw. Nid ydym ar hyn o bryd yn gallu cofnodi'r defnydd o'n rhwydwaith Wi-Fi. Mae hon yn broblem yr ydym wedi gofyn i'n hadran TG edrych arni. Mae defnydd oWi-Fi yn gryf ym mhob cangen yn arbennig ar draws misoedd yr haf gyda thwristiaid a phreswylwyr tymhrtol.

| DASLICC 12 Cyflenwi ceisiadau | 2014-15 | % | 2013-14 % |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y ceisiadau am eitemau unigol a wnaed yn ystod y flwyddyn | 17,191 | | |
| Nifer y ceisiadau yr hysbysir y defnyddiwr eu bod ar gael o fewn 7 diwrnod calendr i wneud y cais | 11,161 | 65% | *64%* |
| Nifer y ceisiadau yr hysbysir y defnyddiwr eu bod ar gael o fewn 15 diwrnod calendr i wneud y cais | 14,480 | 84% | *82%* |

Sylw'r Awdurdod:

Mae'r Gwasanaeth yn falch o nodi'r gwelliant yn y maes hwn, sy'n un yr ydym wedi brwydro ag ef mewn blynyddoedd blaenorol. Mae Linc y Gogledd a phartneriaeth TalNET yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad ac mae ein staff yn gweithio'n galed i sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau yn effeithiol ac yn effeithlon yn brwydro i gyflwyno troi drosodd cyflym ar gyfer ein cwsmeriaid.

## *Arweinyddiaeth a datblygu* — *Ynys môn*

| DASLICC 13 Lefelau staffio a chymwysterau | 2014-15 | Fesul 10,000 o'r boblgth | *2013-14 Fesul 10,000 o'r boblgth* |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y staff (FTE) | 21.1 | 3.01 | |

Sylw'r Awdurdod (gan gynnwys gwybodaeth am staff sy'n cael eu rhannu):

Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys staff a rennir yn yr uned fywgraffyddol (ar 22% o'u cyfanswm lefel staffio). Rydym eto wedi cynnwys oriau'r Cydlynydd Dysgu Gydol Oes, llyfrgellydd proffesiynol, a ariennir drwy'r Adran Addysg ac nid a gyflogir gan Gyllideb y Gwasanaeth Llyfrgell; mae'r swydd hon yn rhan o'r Tîm Proffesiynol ac mae iddi feysydd penodol o gyfrifoldeb o fewn y gwasanaeth yn ogystal â'r rôl dysgu gydol oes integredig. Mae ein Llyfrgellydd Cynorthwyol: Plant ac Ysgolion yn cwblhau ei chymhwyster ôl-radd, mae hefyd yn athrawes gymwysedig ond nid yw wedi ei chyfrif fel proffesiynolyn yn y dychweliad hwn gan nad oes ar y swydd angen y cymhwyster hwn fel hanfodol. Gwelodd 2014/15 2 swydd wag yn cael eu dileu o'r sefydliad oherwydd arbedion effeithlonrwydd, un swydd ac un swydd rheoli stoc clerigol. Ni cheir amheuaeth bod dileu'r swyddi hyn wedi effeithio'n sylweddol ar gapasiti'r gwasanaethau yn nhermau cyrraedd ac effaith.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer y staff sydd â chymwysterau cydnabyddedig yn gysylltiedig â llyfrgelloedd (FTE) (gan gynnwys me | 4.4 | 0.63 | *5.40* |
| Nifer y staff sydd â chymwysterau mewn meysydd cytras (FTE) | 0.0 | | |
| Nifer y swyddi sy'n gofyn am gymwysterau llyfrgellyddiaeth | 5.4 | | |
| Nifer y staff â chymwysterau llyfrgellyddiaeth mewn swyddi nad oes angen cymhwyster llyfrgellyddiaeth | 1.0 | | |

Nid yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Ychwanegwch unrhyw sylwadau isod:

| | | |
|---|---|---|
| A yw rheolwr gweithredol dynodedig y gwasanaeth llyfrgell yn meddu ar gymhwyster ffurfiol mewn llyfrgellyddiaeth, gwyddor gwybodaeth neu reoli gwybodaeth? | **Ydi** | Ydi |

Rhowch fanylion am y cymwysterau cyfredol sydd ganddo/ganddi: Diploma ôl-radd in Gwybodaeth ac Astudiaethau Llyfrgell (DIPLibInfSt)

Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd.

Ymhle y mae safle'r swydd hon yn strwythur rheoli'r awdurdod lleol? Yn adrodd yn uniongyrchol I'r Pennaeth Gwasanaeth : Dysgu

| | |
|---|---|
| Beth yw swydd y llyfrgellydd proffesiynol uchaf ei safle (os yw'n wahanol i'r uchod)? | Fel uchod  (Rheolwr Gwasanaeth Llyfrgell) |
| Ymhle y mae swydd y llyfrgellydd proffesiynol uchaf ei safle yn strwythur rheoli'r awdurdod lleol (os yw'n wahanol i'r uchod)? | Fel uchod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm oriau gweithio staff yn ystod y flwyddyn | 36,500 | | | |
| Nifer oriau staff sydd wedi'u treulio mewn hyfforddiant neu ddatblygiad personol/proffesiynol | 385 | | | |
| % yr amser a dreuliwyd mewn hyfforddiant a datblygiad personol/proffesiynol | **1.1%** | | | |
| Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd. | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y gwirfoddolwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn | **13** | | *2013-14* | *8* |
| Cyfanswm nifer oriau gweithio gwirfoddolwyr yn ystod y flwyddyn | **236** | | *2013-14* | *199* |
| A yw'r achrediad Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwr gennych o ran y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol/NOS? | **Ddim yn gwybod** | | | |

Sylw'r Awdurdod:

Yn gryno, disgrifiwch yr hyfforddiant a'r cymorth a gynigir i wirfoddolwyr.

Mae mwyafrif y gwirfoddolwyr a dderbyniwn ar brofiad gwaith o ysgolion lleol,myfyrwyr Baccalauriate alleoliadau Dychwelyd i'r Gwaith. Byddem yn hoffi gallu derbyn mwy o wirfoddolwyr a gweithio gyda hwy fodd bynnag mae problemau capasiti o fewn ein strwythur ein hunain yn gweithio yn erbyn i hyn fod yn bosibilrwydd. Rhoddir digon o hyfforddiant i wirfoddolwyr i gwblhau'r tasgau a osodwn iddynt, fodd bynnag cydnabyddir y gallai'r gwasanaeth ac y byddai arno eisiau yn wir wneud mwy o waith gyda gwirfoddolwyr. Rydym wedi bod mewn trafodaethau cychwynnol gyda'r Ganolfan Waith ynghylch rolau gwirfoddolwyr ar gyfer eu cleientiaid ym maes cynhwysiad digidol.

| DASLICC 14 Gwariant gweithredol | 2014-15 | % y cyfanswm | *2013-14* | *% y cyfanswm* |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant ar staff | £503,935 | *51%* | | |
| Cyfanswm gwariant ar ddeunyddiau | £120,320 | *12%* | | |
| Gwariant ar gynnal a chadw, atgyweirio ac adnewyddu offer ac adeiladau | £90,331 | *9%* | | |
| Cyfanswm costau gweithredol eraill | £277,888 | *28%* | | |
| Cyfanswm y gwariant refeniw | £992,474 | *100%* | | |
| Cyfanswm y gwariant refeniw am bob 1,000 o'r boblogaeth | **£14,160** | | | |
| Cyfanswm gwariant cyfalaf | £149,008 | | | |
| Cyfanswm gwariant cyfalaf am bob 1,000 o'r boblogaeth | **£2,126** | | | |

Sylw'r Awdurdod:

Mae gwariant cyfalafol yn cynnwys  codiadau cyfalafol  colli gwerth  ac ailbrisuio tuag i lawr. Ni fu unrhyw  wariant cyfalafol yn y cyfnod hwn.

| DASLICC 15 Cost am bob ymweliad | 2014-15 | Cymhareb | *2013-14* |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y gwariant refeniw | £ 992,474 | | |
| Cyfanswm nifer yr ymweliadau i safleoedd y llyfrgell yn ystod y flwyddyn | 292,025 | | |
| Cyfanswm nifer yr ymweliadau allanol i wefannau'r llyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn | 109,000 | £2.47 | |
| Sylw'r Awdurdod: | | | |

| DASLICC 16 Oriau agor | 2014-15 | Fesul 1,000 o'r boblgth | *2013-14 Fesul 1,000 o'r boblgth* |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm oriau agor blynyddol yr holl fannau gwasanaeth | 10,462 | 149 | |
| Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd. | | | |

| | | % y cyfanswm | *2013-14 % y cyfanswm* |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny neu mewn argyfwng oherwydd diffyg yn yr adeilad neu staff ddim ar gael | 4 | | |
| Cyfanswm oriau agor a gynlluniwyd ar gyfer yr holl fannau gwasanaeth sefydlog | 9,900 | 0.0% | *0%* |
| Cyfanswm nifer yr arosfannau llyfrgell deithiol ac achlysuron cludo i'r cartref a gollwyd o ganlyniad i ddiffyg yn y cerbyd neu staff ddim ar gael | 0 | | *0* |
| Cyfanswm arosfannau'r llyfrgell deithiol ac achlysuron cludo i'r cartref a drefnwyd | 1,872 | 0.0% | |
| Sylw'r Awdurdod: | | | |

Roedd cau heb ei gynllunio pwynt gwasanaeth oherwydd aelod o staff llanw heb droi i fyny i'r gwaith. Yn anffodus nid oedd unrhywun arall ar gael ar fyr rybudd ( yn cynnwys staff parhaol) i lenwi'r diffyg.

Tudalen 76

| Cwymplenni: | | | Blwyddyn yn gorffen | 31 Mawrth 2015 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflawni'n llawn | Ydi | Wedi'i gyflawni | % yr aelwydydd o fewn 2 milltir i fan gwasanaeth sefydlog | Cyfrifiad am y flwyddyn gyfan |
| Cyflawni'n rhannol | Nac ydi | Yn mynd rhagddo | % yr aelwydydd o fewn 2.5 milltir (neu 10 munud o amser teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus) i fan gwasanaeth sefydlog, neu o fewn ¼ milltir i arhosfan llyfrgell deithiol | Sampl o un wythnos neu fwy, wedi ei grosio i fyny |
| Ddim wedi'i gyflawni | Ddim yn gwybod | Nac ydi | % yr aelwydydd o fewn 3 milltir (neu 15 munud o amser teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus) i fan gwasanaeth sefydlog, neu o fewn ¼ milltir i arhosfan llyfrgell deithiol | Cyfuniad o'r dulliau hyn |
| | | Ddim yn gwybod | | |
| | | Amherthnasol | | |

| Targed | Disgrifiad | DA SLICC | Ymadroddion stoc a ddefnyddir yn y fformiwlâu: |
|---|---|---|---|
| 95% | % yr aelwydydd o fewn pellter penodol o lyfrgell, yn ôl dwysedd poblogaeth | 5 | Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd. |
| 75% | | 5 | Nid yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Ychwanegwch unrhyw sylwadau isod: |
| 70% | | 5 | Cofnodwch ddwysedd eich poblogaeth uchod. |
| 243 | Derbyniadau y pen | 8 (i) | Disgrifiwch yn gryno'r hyfforddiant a'r cymorth a gynigir i wirfoddolwyr. |
| £2,180 | Gwariant y pen ar ddeunyddiau | 8 (i) | Dewiswch o'r gwymplen |
| 11% | Cyfradd cyflenwadau newydd | 8 (ii) | Nodwch a gafwyd cymeradwyaeth gan: |
| 4% | % y gyllideb deunyddiau ar y Gym | 9 (i) | Cyngor Llawn |
| £750 | Gwariant y pen ar y Gymraeg | 9 (i) | Cabinet/Gweithrediaeth |
| 0.9 | Cyfrifiaduron y pen | 10 (i) | Aelod â'r Portffolio |
| 3.6 | Staff y pen | 13 (i) | Arall (nodwch y teitl) |
| 0.65 | Staff proffesiynol y pen | 13 (ii) | Dyddiad y cafodd ei gymeradwyo |
| 1.00% | Canran DPP | 13 (iv) | Pryd y disgwylir y caiff ei gymeradwyo? |
| 120 | Oriau agor y pen | 16 (i) | Pryd caiff y fersiwn derfynol ei chyflwyno i CyMAL? |
| | | | Rhowch gymhariaeth â llynedd; a'r cynllun ar gyfer datblygu: |
| Change these values if the targets change | | | Rhowch sylwadau isod: |
| | | | A yw ef/hi wedi gwneud unrhyw hyfforddiant perthnasol yn ymwneud â rheolaeth llyfrgell yn ystod y tair blynedd diwethaf? |
| Change the dates each year | | | Rhowch fanylion unrhyw hyfforddiant a wnaed |
| 2014-15 | 2013-14 | | Yn gryno, disgrifiwch yr hyfforddiant a'r cymorth a gynigir i wirfoddolwyr. |

# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-17

## Cyngor Sir Ynys Môn

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2014-15

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen flynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Ynys Môn i Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

Ni chymeradwywyd y ffurflen hon gan yr awdurdod cyn ei chyflwyno.

### 1) Crynodeb gweithredol

Cofnododd Ynys Môn ei bod wedi cyflawni 14 o'r 18 hawl graidd yn llawn, ac wedi cyflawni 4 yn rhannol.

O'r saith dangosydd ansawdd sydd â thargedau, mae Ynys Môn wedi cyflawni 4 yn llawn, a 3 yn rhannol.

Mae Ynys Môn yn enghraifft o wasanaeth sydd â meysydd perfformiad cryf a gwan. Byddai unrhyw dorri pellach ar y gyllideb yn gadael y gwasanaeth mewn sefyllfa fregus ac mewn perygl o arwain at ostyngiad yn ei berfformiad.

- Roedd Ynys Môn wedi cyflwyno tystiolaeth gref o effaith elfennau gwahanol y gwasanaeth ar nifer o ddefnyddwyr unigol.
- Mae'r hyfforddiant i ddefnyddwyr wedi cael ymateb da, ac mae gan hyfforddiant anffurfiol ran bwysig, yn enwedig mewn llyfrgelloedd llai o faint lle nad oes capasiti i gynnig sesiynau mwy ffurfiol.
- Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r safonau ar gyfer mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth, ac mae'n cynnig amrediad o ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n cael cefnogaeth dda. Yr ymweliadau rhithwir fesul pen y boblogaeth yw'r trydydd uchaf yng Nghymru.
- Mae lefelau derbyniadau yn gyffredinol ac yn y Gymraeg yn cyrraedd y safonau a osodwyd, er bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ddeunydd ar gyfer plant gyda data gwasanaeth llyfrgell ysgolion wedi'u cynnwys yn y ffigyrau. Mae defnydd da ar y cyfleusterau TGCh, er bod darparu mynediad i'r rhyngrwyd drwy'r llyfrgell deithiol yn broblem. Cafwyd gwelliant pellach yng nghyflymder cyflenwi ceisiadau.
- Mae lefelau staffio yn is na'r safonau a osodwyd, ac mae cwtogi wedi cael effaith ar y gwasanaethau sydd ar gael. Mae hyn yn destun pryder i ddatblygiad y gwasanaeth. Byddai Ynys Môn yn hoffi defnyddio rhagor o wirfoddolwyr, ond yn teimlo nad oes ganddo'r capasiti i wneud hynny.
- Wrth gymharu â gweddill Cymru, mae Ynys Môn yn perfformio'n dda ar ddangosyddion yn ymwneud â darparu mannau gwasanaeth, ac ym maes eang *Dysgu am oes*. Mae perfformiad mewn meysydd eraill yn fwy cymysg, gyda nifer o ddangosyddion o gwmpas y canolrif ar gyfer Cymru.
- Mae problem lefelau staff isel yn parhau, ac mae adroddiadau blaenorol yn nodi bod perfformiad y gwasanaeth yn ddigyfnewid gan mwyaf. Mae'r ffurflen flynyddol hon

yn dangos darlun sy'n fwy cymysg.

## 2) Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn yr hawliau craidd, y dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, y dangosyddion ansawdd sy'n dangos perfformiad yn erbyn awdurdodau eraill, a mesurau effaith. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

### *a) Hawliau craidd*

Roedd Ynys Môn yn fwy adfyfyriol na rhai awdurdodau eraill yn ei hunanasesiad ar ei berfformiad yn erbyn yr hawliau craidd, gan nodi ei fod wedi cyflawni 14 o'r 18 yn llawn, a chyflawni 4 yn rhannol. Mae dau faes lle na chaiff yr hawliau craidd eu cyflawni'n llawn. Yn *Mynediad i bawb*, noda Ynys Môn fod angen moderneiddio llyfrgell Caergybi a chyllid Cronfa Treftadaeth y Loteri wedi'i ennill ar gyfer hyn. Mae'n nodi hefyd y byddai'n dymuno estyn yr oriau agor mewn llyfrgell arall pan fo cyllid yn caniatáu. Yn *Arweinyddiaeth a datblygu*, mae cyllid unwaith eto yn ystyriaeth o ran hyrwyddo'r gwasanaeth. Bwriedir ymgynghori â defnyddwyr ac eraill yn y flwyddyn i ddod. Nid yw dogfennau strategol y llyfrgell ar gael ar y wefan ar hyn o bryd, gan eu bod wrthi'n cael eu hadolygu.

### *b)* Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith. O'r 7 sydd â thargedau, mae Ynys Môn yn cyflawni 4 yn llawn, a 3 yn rhannol:

| Dangosydd Ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| DA 3 Datblygiad unigol: | | Cyflawni'n rhannol |
| a) Cymorth TGCh | ✔ | |
| b) Hyfforddiant sgiliau | ✘ | |
| c) Llythrennedd gwybodaeth | ✔ | |
| d) Cymorth e-lywodraeth | ✔ | |
| e) Datblygu darllenwyr | ✔ | |
| DA 5 Lleoliad mannau gwasanaeth | ✔ | Cyflawni'n llawn |
| DA 8 Deunydd darllen cyfoes: | | Cyflawni'n llawn |
| a) Derbyniadau fesul pen y boblogaeth | ✔ | |
| <u>neu</u> wariant ar ddeunyddiau fesul pen | ✘ | |
| b) Cyfradd adnewyddu | ✔ | |
| DA 9 Deunydd darllen priodol: | | Cyflawni'n rhannol |
| a) % y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar blant | ✘ | |
| b) % y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg | ✔ | |
| <u>neu</u> wariant ar y Gymraeg fesul pen y boblogaeth | ✘ | |
| DA 10 Mynediad ar-lein: | | Cyflawni'n llawn |
| a) Pob man gwasanaeth | * | |
| Cyfrifiaduron fesul pen y boblogaeth | ✔ | |
| b) Darpariaeth Wi-Fi | ✔ | |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau: | | Cyflawni'n rhannol |
| a) Staff fesul pen y boblogaeth | ✘ | |

| Dangosydd Ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| b) Staff proffesiynol fesul pen y boblogaeth | ✗ | |
| c) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | ✔ | |
| d) Canran DPP | ✔ | |
| DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth | ✔ | Cyflawni'n llawn |

** Ym mlwyddyn gyntaf hon y fframwaith newydd, cytunodd yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd na fyddai awdurdodau yn cael eu cosbi ar y dangosydd hwn os oedd yr holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig mynediad i'r rhyngrwyd, er nad oedd eu gwasanaethau teithiol yn gwneud hynny.*

## c) Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio casglu tystiolaeth o'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Drwy'r dangosyddion hyn a rhai eraill, mae'n bosibl gweld sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu tuag at agendâu addysgol, cymdeithasol, economaidd ac iechyd a lles, yn lleol a chenedlaethol. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn. Nid oedd pob awdurdod wedi casglu data ar gyfer y dangosyddion effaith, ac mae'r safleoedd felly wedi'u cynnwys yn ôl nifer yr ymatebwyr a nodir, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

| Dangosydd perfformiad | Ynys Môn | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | *amherthnasol* | | 63% | 93% | 95% |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywyd: | *amherthnasol* | | 73% | 87% | 92% |
| % y plant sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | *amherthnasol* | | 43% | 79% | 90% |
| DA 4 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi eu helpu i gyflawni eu hamcanion: | 91% | *10 / 16* | 80% | 93% | 100% |

Ni chynhaliodd Ynys Môn arolwg ar effaith yn 2014-15. Disgrifiodd yr awdurdod dair astudiaeth achos ar effaith:

- Aelod o grŵp darllen dysgwyr Cymraeg sydd wedi ennill hyder i gymryd rhan yn ei gymuned leol;
- adborth o sesiynau sgiliau digidol galw-draw yn rhoi sylwadau am y sgiliau newydd a ddysgwyd; a
- gwerth y gwasanaeth caeth i'w tai yn ôl sylwadau rhai o'i gwsmeriaid.

## d) Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i gymharu perfformiad rhwng awdurdodau. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Ynys Môn ar gyfer 2014-15. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. (Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn dod o arolygon cwsmeriaid sydd ond angen eu cynnal unwaith yn ystod y cyfnod fframwaith tair blynedd, neu ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau.)

| Dangosydd perfformiad | Ynys Môn | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) sgiliau newydd | *amherthnasol* | | 55% | 72% | 93% |
| c) iechyd a lles | *amherthnasol* | | 29% | 58% | 91% |
| d) lle diogel a chroesawgar | *amherthnasol* | | 84% | 97% | 98% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) 'dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau | *amherthnasol* | | 82% | 89% | 97% |
| b) 'gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da' | *amherthnasol* | | 93% | 99% | 99% |
| c) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;; | *amherthnasol* | | 94% | 96% | 99% |
| d) sgôr plant allan o ddeg | *amherthnasol* | | 8.0 | 9.2 | 9.4 |
| DA 4 Hyfforddiant i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) mynychwyr fesul pen y boblogaeth | 11 | *18* | 2 | 26 | 278 |
| c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen y boblogaeth | 174 | *9 / 21* | 16 | 162 | 484 |
| DA 6 Defnyddio'r llyfrgell | | | | | |
| a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth | 4,166 | *12* | 2,637 | 4,177 | 5,955 |
| b) ymweliadau rhithwir fesul pen y boblogaeth | 1,555 | *3* | 212 | 923 | 2,449 |
| c) benthycwyr gweithredol fesul pen y boblogaeth | 155 | *12* | 71 | 155 | 288 |
| DA 7 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth | 202 | *11* | 21 | 192 | 464 |
| DA 11 Defnyddio TGCh - % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd | | | | | |
| a) offer | 51% | *3* | 23% | 36% | 70% |
| b) gwasanaethau Wi-Fi | *ni wyddys* | | 4% | 37% | 79% |
| DA 12 Cyflenwi ceisiadau | | | | | |
| a) % ar gael o fewn 7 diwrnod | 65% | *21* | 62% | 69% | 81% |
| b) % ar gael o fewn 15 diwrnod | 84% | *12* | 74% | 84% | 94% |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau | | | | | |
| (v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr | 13 | *12* | 0 | 14 | 74 |
| b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr | 236 | *15* | 0 | 527 | 2696 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant fesul pen y boblogaeth | £14,160 | *11* | £8,966 | £14,054 | £20,796 |
| b) % ar staff | 51% | *16* | 45% | 57% | 77% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 12% | *15* | 5% | 13% | 21% |
| % ar offer ac adeiladau | 9% | *6* | 0% | 4% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill; | 28% | *8* | 4% | 22% | 37% |
| c) gwariant cyfalaf fesul pen y boblogaeth | £2,126 | *1* | £0 | £266 | £2,126 |
| DA 15 Cost am bob ymweliad | £2.47 | *16* | £2.07 | £2.87 | £3.92 |
| DA 16 Oriau agor *(gweler y nodyn)* | | | | | |
| (ii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | 0.04% | *14* | 0.0% | 0.02% | 0.52% |
| b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd | 0% | *1 / 19* | 0.0% | 0.4% | 5.4% |

*Nodyn: Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf*

## 3) Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi cael eu rhannu yn bedwar maes

allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn erbyn y dangosyddion ansawdd yn y pedwar maes hynny.

### *a)* Cwsmeriaid a chymunedau

Ni chynhaliodd Ynys Môn arolwg cwsmeriaid yn ystod 2014-15, ond mae'n disgwyl gwneud hynny yn 2015-16. Mae ystod lawn o wasanaethu i gefnogi datblygiad unigol yn cael eu cynnig yn y llyfrgelloedd mwy o faint, ond mae'r awdurdod yn nodi nad oes gan y tair llyfrgell llai o faint ddigon o gyfrifiaduron i gynnal sesiynau ffurfiol ar sgiliau digidol. Mae hyfforddiant anffurfiol i ddefnyddwyr ar lefel sylweddol uwch na hyfforddiant ffurfiol, ac yn uwch na'r canolrif ar gyfer Cymru gyfan.

### *b)* Mynediad i bawb

Mae holl boblogaeth Ynys Môn o fewn 3 milltir i lyfrgell sefydlog neu ¼ milltir i arhosfan llyfrgell deithiol, a dyma'r unig awdurdod i gyflawni'r targed am fynediad rhwydd i fannau gwasanaeth drwy gael 100% o fewn cyrraedd. Cafwyd cynnydd bychan yn nifer yr ymweliadau â llyfrgell o'i gymharu â llynedd, a hynny i'w ganmol gan fod y dangosydd hwn wedi gostwng yn y rhan fwyaf o awdurdodau eraill. Ymweliadau rhithwir fesul pen y boblogaeth yw'r trydydd uchaf yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn cynnig rhaglen ddigwyddiadau a gweithgareddau helaeth sy'n cael cefnogaeth dda.

### *c) Dysgu am oes*

Mae Ynys Môn yn cyrraedd y targed am dderbyniadau drwy gynnwys e-lyfrau a stoc y gwasanaeth llyfrgell i ysgolion, ac mae'n cofnodi cynnydd o'i gymharu â 2013-14. Mae'r holl ddeunydd a gafwyd ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell i ysgolion yn ystod y flwyddyn ar gael i'r cyhoedd eu benthyg, felly maent wedi cael eu cynnwys yn y ffurflen flynyddol a hynny'n golygu bod yr awdurdod wedi gwario 29% o'i gyllideb deunyddiau ar stoc i blant, o'i gymharu â 17% o'r boblogaeth. Mae Ynys Môn yn cyrraedd y targed am brynu deunydd yn y Gymraeg gyda 7.4% o'r gyllideb deunyddiau, ond oherwydd bod cyfran uchel o bobl sy'n gallu siarad a darllen Cymraeg yn y sir mae'n methu'r targed am y gwariant fesul pen y boblogaeth, ac mae'n is na'r canolrif ar gyfer Cymru.

Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn darparu cyfrifiaduron a mynediad i'r rhyngrwyd i'r cyhoedd; mae'r awdurdod yn nodi bod problemau cysylltu â'r rhyngrwyd ar yr ynys ac felly nid yw'n disgwyl gallu darparu hyn ar y gwasanaeth teithiol yn y tymor byr. Mae defnydd da ar y cyfleusterau TGCh, a'r defnydd arnynt yn cynyddu. Credir bod y defnydd ar Wi-Fi yn gryf, ond ni ellir ei gofnodi ar hyn o bryd.

Cafwyd gwelliant bychan yng nghyflymder cyflenwi ceisiadau o'i gymharu â 2013-14, ond dim ond un awdurdod a gofnododd canran is o ran cyflenwi o fewn 7 diwrnod yn 2014-15.

### *d) Arweinyddiaeth a datblygu*

Yn ystod 2014-15 cafodd dwy swydd, gan gynnwys swydd broffesiynol, eu dileu oherwydd arbedion effeithlonrwydd, ac mae'r awdurdod yn methu â chyflawni'r safon yn y maes hwn. Mae'r awdurdod yn nodi bod hyn wedi cael cryn effaith ar gapasiti. Mae gwirfoddolwyr yn bennaf ar leoliadau profiad gwaith o ysgolion lleol ac yn dychwelyd ar gyfer lleoliadau gwaith. Byddai'r awdurdod yn dymuno gweithio â rhagor o wirfoddolwyr, ond nid yw'r capasiti staff ganddo i wneud hyn yn effeithiol.

Mae cyfanswm y gwariant fesul pen y boblogaeth yn agos at y canolrif ar gyfer Cymru; ni roddwyd ffigyrau ar gyfer 2013-14 er mwyn gallu cymharu. Mae'r gwariant ar gyfalaf a

nodwyd yn cynnwys taliadau cyfalaf o ddibrisiant ac ailbrisio ar i lawr, heb unrhyw wariant cyfalaf yn y flwyddyn gyfredol. Y gost gyfartalog am bob ymweliad yn 2014-15 oedd £2.47.

Roedd yr oriau agor yn cyrraedd y safon, ac ni fethwyd unrhyw arhosfan y gwasanaeth teithiol yn ystod y flwyddyn.

### 4) Cyd-destun strategol

Cyflwynodd Ynys Môn naratif clir yn cysylltu gwasanaethau a gweithgareddau llyfrgell â blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ym meysydd dysgu, darllen a llythrennedd, lles cymunedol, sgiliau ac adfywio economaidd, cynhwysiant digidol, iechyd a lles, hunaniaeth ddiwylliannol a thlodi.

### 5) Casgliad

Mae Ynys Môn yn enghraifft o wasanaeth sydd â meysydd perfformiad cryf a gwan. Byddai unrhyw dorri pellach ar y gyllideb yn gadael y gwasanaeth mewn sefyllfa fregus ac mewn perygl o arwain at ostyngiad yn ei berfformiad.

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MôN** | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Pwyllgor Craffu |
| **DYDDIAD:** | 1.12.2015 |
| **PWNC :** | Adroddiad Gwerthuso Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn 2014/15 |
| **AELODAU PORTFOLLIO( AU):** | Aled Morris Jones |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | Gwen Carrington Cyfarwyddwr Cymuned |
| **AWDUR YR ADRODDIAD**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Presenoldeb gan Marc Roberts, yn cynrychioli AGGCC wrth gyflwyno'r Adroddiad |

## 1.0 ARGYMHELLION

1.1 Gofynnir i aelodau dderyn y llythyr ar adroddiad, gyda cyfle i ofyn unrhyw elgurhad ychwanegol ar ei gynnwys.

1.2 Bod y pwyllgor craffu yn ystyried y wybodaeth sy'n cael ei gyflwyno gan AGGCC ac yn gosod amserlen er mwyn derbyn adborth ar gynnydd ar faterion blaenoriaeth.

## 2.0 RHESWM

2.1 Mae'r fframwaith Adroddiad Blynyddol y Cyghorau y un cytunedig ar draws Cymru er mwyn gwerth~~uo~~so perfformiad mewn ffordd gyhoeddus a thryloyw wrth ymwneud a pherfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn Awdurdodau lleol.

2.1 Cyflwynwyd yr adroddiad eleni gan y Cyfarwyddwr Cymuned i'r Pwyllgor Gwaith eleni ar y 14ddeg Orffennaf 2015.

2.2 Mae'r arolygaeth AGGCC, fel rhan o'r rhaglen genedlaethol, yn ymateb yn ffurfiol trwy lythyr a'r adroddiad atodol i bob sir. Mae'r adroddiadau yma'n rhai cyhoeddus.

2.3 Mae'n ofynnol, ac yn ddymunol, bod y materion dan sylw yn derbyn ystyriaeth gan aelodau a'r cyhoedd er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth a pherchnogaeth o'r cyfrifoldebau gweithredu a'r negeseuon allweddol. Ceir neges gyson bod materion gwasanaethau cymdeithasol yn rhai cyngor cyfan gyda'r angen am berchnogaeth ar y lefel uchaf. Mae hyn yn gynyddol berthnasol wrth ystyried gofynion a disgwyliadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) lle mae pwyslais ar waith arbedol fydd yn rhan o gyfrifoldebau pob adran o fewn y cyngor.

2.4 Croesawir y cyfle i hwyluso dealltwriaeth ar y cyd wrth ystyried ymateb AGGCC. Mi fydd y broses yn cyfoethogi'r broses craffu ar gyfer perfformiad eleni a hefyd yn cyfrannu at y rhaglen cynllunio wrth gadarnhau cynlluniau busnes a rhaglen waith y cyngor ar gyfer 2016.

2.5 Yn barod o fewn Cyngor Sir Ynys Môn, cynhaliwyd sesiynau brifo ar gyfer aelodau gan gyplysu cyflwyno'r Ddeddf a'r adroddiad blynyddol.

**3.0 Sylwadau cychwynnol gan Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaeth Plant & Gwasanaeth Oedolion yn benodol**)

3.1 Wrth ystyried yr adroddiad gan AGGCC cynhigir bod angen ystyried:

i. Oes gan y Cyngor a'r gwasanaethau'r gallu i hunan arfarnu mewn ffordd gytbwys a phroffesiynol, yn ogystal
ii. Oes cytundeb ynglŷn â'r meysydd gwella a'r rhaglen waith ac yn olaf,
iii. Weledigaeth gyffredin ynglŷn â'r anghenion wrth edrych ymlaen a hyder bod y gallu a'r budd i gyflawni.

3.2 Y gallu i hunan arfarnu

i. Croesawir y neges sy'n gyson trwy'r adroddiad bod AGGCC o'r farn bod y Cyngor yn ymwybodol o'r risgiau. Yn ogystal bod y gweithdrefnau'n sicrhau mewnbwn priodol aelodau a bod y trefniadau wedi cyfrannu at wella perfformiad o fewn i'r cyfnod dan sylw.

ii. Gwelir tystiolaeth bod sicrhau blaenoriaethau clir ar lefel cyngor cyfan wedi cael effaith uniongyrchol ar wella ymarfer. Yn ystod 2014/15 rhoddwyd blaenoriaeth gan y rhaglen trawsnewid i gefnogi'r rhaglen ym maes oedolion. Yn ystod 2015/16 cytunwyd ar fuddsoddiad adnodd trawsffurfio ar gyfer y maes plant, ac erbyn hyn mae'r rhaglen yma yn mynd rhagddo ac wedi dod gerbron y pwyllgor craffu yn ystod mis Tachwedd ar gyfer cymeradwyaeth.

iii. Croesawir y gydnabyddiaeth bod cynnydd wedi ei dystio ar draws oedolion a phlant a bod dangosyddion perfformiad yn adlewyrchu ymrwymiad i hyrwyddo a chynnal safonau ymarfer uchel. Nid yw'r gwasanaeth yn cytuno'n llwyr a'r arolygaeth o ran y gwasanaeth plant. Ceir cytundeb diamod bod y rhaglen wella o fewn y gwasanaeth plant yn un parhaus a heb ei gwblhau ond, wedi ystyried y wybodaeth i law rydym o'r farn bod y gwasanaeth bellach wedi tystio dygnwch wrth ymdrin â heriau wrth gyflwyno gwasanaethau. Mae anghytuned ynglŷn â'r gair "bregus" er yn gytûn ynglŷn â'r rhaglen gweithredu.

3.3 Cytundeb ynglŷn â'r meysydd gwella

Yn gyffredinol ceir cytundeb gyda'r arolygaeth ynglŷn â'r meysydd gwella.

i. O fewn i'r maes plant mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno cynllun gweithredu sydd wedi ei gyflwyno o fewn trefniadau'r cyngor er mwyn gwella cysondeb ymarfer a chynyddu hyder proffesiynol y swyddogion a rheolwyr. Bu hyn ar sail hunan asesiad a threfniadau rheoli perfformiad o fewn i'r gwasanaeth a'r Cyngor. Gwelir effaith her i ymarfer achos hanesyddol penodol o fewn i'r gwasanaeth. Mae hyn yn tystio effaith y gwasanaeth ar fywydau unigol a pham bod rhaid sicrhau ymarfer cyson o'r safon uchaf.

ii. Mae'r gwasanaeth o'r farn bod trefniadau addas yn eu lle er mwyn hwyluso trawsnewid rhwng y gwasanaeth plant ac oedolion. Fodd bynnag, derbynnir efallai nad oedd y llwybr tystiolaeth yn galluogi'r arolygaeth i gadarnhau fel y dymunwyd.

iii. Cytunir hefyd ynglŷn â'r angen i wella trefniadau busnes o fewn i'r maes oedolion a phlant. Yn ystod y flwyddyn flaenorol ymdrechwyd i ymateb i'r sefyllfa ac erbyn hyn mae'r Cyngor wedi rhyddhau swydd rheolwr busnes ar gyfer y maes gwaith. Disgwylir i'r trefniadau fod yn eu lle yn ystod chwarter olaf 2015/16.

iv. Mae adroddiad AGGCC yn cyfeirio at yr angen i dystio gwaith arbedol y cyngor ym maes oedolion. Mae'r cyngor, ar Gwasanaeth Oedolion yn benodol, wedi bod yn effeithiol wrth ddatblygu a chefnogi ystod darpariaeth yn y gymuned. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys "Heneiddio'n Dda", cynllun prydau cymunedol a brocer cymunedol. Derbynnir dymuniad AGGCC ein bod yn gallu adrodd ar argaeledd a pherfformiad yr ystod darpariaethau yma. Mi fydd y penodiad rheolwr busnes yn fodd i rymuso ac adolygu trefniadau mewnol o fewn i'r Cyngor ond rhaid datgan na fydd modd adrodd yn llawn ar y rhaglenni gwaith yma heb gyflwyno trefniadau gweinyddol ychwanegol

gyda'n partneriaid.  Efallai na fydd dymuniad cyflwyno gwybodaeth gan fod nifer ohonynt bellach yn gweithredu'n annibynnol heb gyfraniad uniongyrchol gan y Cyngor.

3.4 Weledigaeth gyffredin ynglŷn â'r anghenion wrth edrych ymlaen a hyder bod y gallu a'r budd i gyflawni.

i. Yn gyffredinol mae'r gwasanaeth yn cytuno gyda'r arolygaeth ynglŷn â'r anghenion cyflawni ar gyfer y dyfodol.  Nodir bod AGGCC o'r farn bod darpariaethau'r Cyngor yn gyson hyrwyddo amcanion y Ddeddf fydd yn weithredol o'r 6ef Ebrill 2016.

ii. Cyfeirir yn gyson yn yr adroddiad ynglŷn â lefel capasiti'r gwasanaeth a'r Cyngor.  Bu i'r adroddiad blynyddol adrodd mai Cyngor Sir Ynys Môn sy'n gwario lleiaf ar ddarpariaeth maes gofal yng Nghymru.  Rhaid cadarnhau bod y trefniadau monitro gwasanaeth o ran perfformiad a gwariant eleni'n adrodd yn glir iawn bod y gwasanaeth dan bwysau.  Derbynnir bod rhaid ystyried hyn o fewn cyd-destun ariannol y Cyngor lle mae'r angen i adnabod arbedion pellach yn heriol iawn.  Yn sicr, mae adroddiad AGGCC yn cyd-fynd a'r Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd yn cadarnhau'r angen i sicrhau clirdeb blaenoriaethau ar angen i weithredu ar fyrder gyda chynlluniau newid fydd yn gyson a hyrwyddo annibyniaeth a chyfrannu at leihau costau i'r cyngor a'r darparwr yn dilyn y cyfnod trawsnewid a buddsoddiad cychwynnol.

iii. Mi fydd yn hanfodol sicrhau clirdeb o ran disgwyliadau a gallu i ddiwallu wrth ystyried oblygiadau toriadau pellach yn yr adnodd sydd ar gael ar draws y maes gwaith, gan gynnwys y ddarpariaeth sector annibynnol a gwirfoddol.  Mi fydd rhaid ystyried effaith hyn ar argaeledd ac ansawdd gwasanaethau o fewn i'r maes gofal ym Môn.  Yn sicr mae'r pwysau gwaith a'r risgiau'n cynyddu.

4.0 Meysydd y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arnynt y flwyddyn nesaf (2015/16)

4.1 Mae'r gwasanaethau yn adrodd bod y meysydd gwaith penodol a gyfeirir atynt wedi eu cynnwys o fewn i'r rhaglenni gwaith a chynlluniau busnes ar gyfer 2015/16. Mae cysylltiad cyson gyda'r arolygaeth yn ystod y flwyddyn er mwyn hwyluso gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â rhaglenni gwaith penodol.

4.2 Mi fydd presenoldeb AGGCC  wrth gyflwyno'r adroddiad yn gyfle i dderbyn gwybodaeth ynglŷn â'r rhaglen waith cyfredol o fewn y meysydd sydd wedi eu hadnabod ar gyfer dilyniant, megis:

- Effaith y newidiadau ar oedolion
- Moderneiddio gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu
- Cydweithio a chyllidebau ar y cyd ym maes iechyd meddwl
- Gwelliannu mewn gwasanaethau plant
- Ystod o leoliadau i blant sy'n derbyn gofal

Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i gyflawni ac yn glir ynglŷn â'r meysydd blaenoriaeth, sef:
gwella cysondeb ymarfer ym maes plant trwy
gyrru ar integreiddio pellach gyda'r agenda llesiant yn fewnol, o fewn trefniadau Cyngor a gyda'n partneriaid allweddol. Hyn er mwyn hyrwyddo darpariaethau arbedol ac uchafu effeithlonrwydd adnoddau. Mae hyn yn berthnasol ar gyfer y maes plant ac oedolion

3 Atodiadau:

Llythyr AGCC
Adroddiad AGCC

Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2014/15

Awdur: Gwen Carrington
Teitl Swydd: Cyfarwyddraig Cymunedol
Dyddiad: 24.11.15

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Gwen Carrington
Director of Community
Isle of Anglesey County Council
Community Department
Council Offices
Llangefni
LL77 7PY

Ein cyf / Our ref:

Eich cyf / Your ref:

Dyddiad / Date: : 28/10/2015

Annwyl Gyfarwyddwr,

**Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol AGGCC ar gyfer 2014-2015**

Gweler yn atodedig gopi Embargo o'ch adroddiad terfynol sy'n nodi lle bu cynnydd a'r meysydd sydd i'w gwella mewn gwasanaethau cymdeithasol yn eich cyngor, ar gyfer y flwyddyn 2014-15, bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ar 30 Hydref, 2015.

Rydyn ni wedi ystyried y ffynonellau tystiolaeth a oedd ar gael, gan gynnwys adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol a'r dystiolaeth sylfaenol a roddwyd i ni i gefnogi'r adroddiad hwnnw. Rydyn ni hefyd wedi ystyried y dystiolaeth sydd ar gael o'n harolygiadau, ein hadolygiadau a'n hymchwiliadau, gan gynnwys y dystiolaeth sydd ar gael o'n gwaith mewn lleoliadau wedi'u rheoleiddio. Mae safbwyntiau cyrff archwilio ac arolygu eraill hefyd wedi cyfrannu at yr adroddiad.

Fel y nodwyd mewn gohebiaeth gynharach, rydyn ni'n bwriadu cyflwyno'r adroddiadau terfynol i bwyllgor(au) craffu perthnasol pob cyngor. Byddwn yn ddiolchgar petai modd i chi wneud y trefniadau angenrheidiol gyda'ch pwyllgor craffu ar y cyfle cyntaf. Os yw'n bosibl, byddem yn hoffi gwneud ein cyflwyniad cyn 31 Rhagfyr 2015.

Yn gywir

Imelda Richardson
Prif Arolygydd
AGGCC – Arolygaiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

AGGCC
Swyddfeydd Cenedlaethol
Swyddfeydd y Llywodraeth
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
www.aggcc.org.uk

0300790 0126
cssiw@wales.gsi.gov.uk

CSSIW
National Office
Government Buildings
Rhydycar Business Park
Merthyr Tydfil
CF48 1UZ
www.cssiw.org.uk

AGGCC
CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014–15

## Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn



Hydref 2015

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn 2014–15

© Hawlfraint y Goron 2015
WG26666 ISBN digidol 978 1 4734 4894 0

## Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014 - 2015

**Awdurdod Lleol:** **Cyngor Sir Ynys Môn**

**Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Sir Ynys Môn wrth gyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.**

### 1. Crynodeb

1.1. Mae'r cyngor yn gwneud defnydd da o'r adnoddau sydd ar gael o fewn gwasanaethau i oedolion ac yn cyflawni ei nod o gefnogi pobl i fod mor annibynnol a hunan-gynhaliol â phosibl. Ceir perfformiad cryf wrth gyflawni'r cynllun busnes. Mae'r perfformiad yn gryf mewn llawer o feysydd a gwneir cynnydd tuag at gwrdd â thargedau'r cyngor. Cymerwyd camau sylweddol mewn moderneiddio gwasanaethau, acwrth ymgysylltu â chymunedau yn unol ag egwyddorion yDdeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru). Ceir rhai canlyniadau cadarnhaol sy'n dangos effaith y newidiadau megis mwy o gymorth i ofalwyr. Fodd bynnag, cafwyd llai o gynnydd mewn datblygu gwasanaethau i oedolion iau, ac mae angen gwerthuso effaith lawn y newid i oedolion hŷn er mwyn sicrhau nad ydynt yn agored i unrhyw risgiau diangen.

1.2. Mae'r cyngor yn ymwybodol o'r risgiau o fewn gwasanaethau plant ble mae gwelliant yn fregus. Mae angen i ansawdd y gwasanaethau wella'n barhaol. Cafwyd canlyniadau da wrth fodloni targedau perfformiad, ond bu'r broses oddatblygu gwasanaethau yn arafach mewn gwasanaethau plant, ac mae'r cyngor yn priodoli hyn i'r ffaith y gadewir amser i welliannau gael eu hymgorffori.

1.3. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi elwa ar welliannau mewn cymorth, trosolwg, a chraffu corfforaethol. Mae gallu i gyflawni cynlluniau gwella yn broblem yn y gwasanaeth, achaiff hyn ei adlewyrchu yn y diffyg cynnydd sy'n ymwneud â nifer o feysydd i'w gwella a ganfuwyd yn adroddiad y llynedd (gweler y tabl drosodd).

## 2. Yr ymateb i'r meysydd i'w gwella a nodwyd y llynedd

| Meysydd i'w gwella a ganfuwyd | Cynnydd yn 2014 – 2015 |
|---|---|
| Sicrhau bod y broses o ailfodelu gwasanaeth cymorth i deuluoedd a gwasanaeth i blant ag anableddau yn gweithredu'n llawn gan werthuso canlyniadau. | Caiff y broses o ailfodelu'r gwasanaethau cymorth i blant ei datblygu. Gwnaed cynnydd mewn ymgynghori, cwmpasu a threialu'r gwasanaeth i blant anabl. |
| Adolygu a datblygu'r broses o drawsnewid gwasanaethau i oedolion iau. | Dim cynnydd– yn ôl y cyngor, mae hwn yn ganolbwynt i un o'r camau gweithredu ar gyfer 2015-2016. |
| Cynyddu'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, a lleihau lleoliadau y tu allan i'r ardal. | Mae angen rhywfaint o gynnydd mewn perthynas â'r gwaith datblygu parhaus. |
| Cryfhau dadansoddiad o'r farchnad a'r galw i gyfrannu at luniogwaith comisiynu a chynllunio ariannol. | Ychydig o gynnydd oherwydd gallu cyfyngedig, ac mae'n parhau i fod yn faes i'w wella. |
| Cryfhau trefniadau gyda gwasanaethau yn y gymuned er mwyn casglu data sy'n ymwneud ag anghenion a mynediad. | Dim cynnydd. |
| Cwblhau asesiadau craidd o fewn amserlen statudol. | Wedi gwella–o 72% y llynedd i 78% yn erbyn cyfartaledd yng Nghymru o 81%. |
| Monitro canlyniadau ac ansawdd gwasanaethau a gomisiynwyd. | Ychydig o gynnydd. |
| Dewis lleoliad iblant sy'n derbyn gofal. | Rhywfaint o gynnydd, ond nid yw wedi'iddatblygu'n llawn eto – cynnydd yn nifer y lleoliadau gofal maeth. |
| Sefydlu amrywiaeth dda o wasanaethau cymorth i blant a theuluoedd yn y gymuned. | Ar y gweill – perthynas strategol wedi'i datblygu. |
| Pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion. | Rhywfaint o gynnydd, a phenodwyd cydgysylltydd pontio. |
| Datblygu fframwaith monitro ansawdd ar draws y gwasanaethau i oedolion a phlant. | Gwelliant drwy sefydlu fframwaith sicrhau ansawdd corfforaethol. |
| Codi ymwybyddiaeth a gwella arferionsy'n ymwneud â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. | Gwnaed cynnydd – darparwyd sesiynau hyfforddi i staff ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol. |
| Cymeradwyo a gweithredu Strategaeth Rianta Gorfforaethol. | Rhywfaint o gynnydd drwy benodi Rheolwr Gwasanaeth –Rhianta Corfforaethol a Phartneriaethau, ond mae angen gwneud gwaith pellach i weithredu'r strategaeth. |

| | |
|---|---|
| Newid sylweddol yng nghyflymder y broses o drawsnewid y gwasanaeth. | Cynnydd sylweddol mewn gwasanaethau i oedolion, ond mae'n arafach ymysg gwasanaethau eraill. |

## 3. Ymweliadau ac arolygiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn

3.1. Mae ymweliadau safle yn rhoi cyfle i AGGCC siarad â'r bobl sy'n derbyn gwasanaethau, eu teuluoedd a'r staff sy'n rheoli ac yn gweithio yn y gwasanaethau. Yn ystod 2014-2015, cynhaliwyd ymweliadau safle â:

- Un Pwynt MynediadRhanbarthol

## 4. Meysydd y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arnynt y flwyddyn nesaf

4.1. Canfuwyd nifer o feysydd penodol i'w gwella yn yr adroddiad hwn. Trafodir cynnydd y cyngor wrth ymdrin â'r rhain gyda'r cyngor mewn cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd dros y flwyddyn i ddod. Y meysydd penodol i edrych arnynt yw:

- Effaith y newidiadau ar oedolion
- Moderneiddio gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu
- Cydweithio a chyllidebau ar y cyd ym maes iechyd meddwl
- Gwelliannau mewn gwasanaethau plant
- Ystod o leoliadau i blant sy'n derbyn gofal

## 5. Cynllun arolygu ac adolygu AGGCC ar gyfer 2015-2016

- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref
- Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau i bobl ag anableddau dysgu
- Adolygiad cenedlaethol o gynllunio ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

## 6. I ba raddau mae’r profiadau a’r canlyniadau ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn gwella eu lles?

**Oedolion**

Trosolwg

6.1. Ar ddiwedd y flwyddyn,roedd y cyngor yn cefnogillai o bobl yn y gymuned dros 65mlwydd oed. Dyma’r un patrwm ag a welwyd yn genedlaethol, a disgynnodd y ffigur yn Ynys Môn o 884 i 821. Cynyddodd y canran o gynlluniau gofal cymwys a adolygwyd yn ystod y flwyddyn,ac roedd yn uwch na’r cyfartaledd yng Nghymru (92% o’i gymharu â chyfartaledd Cymru o 80%),er y bu i’r cyngor mewn gwirionedd adolygu cynlluniau gofal llai o bobl,sy’n adlewyrchu gostyngiad yn nifer y pobl a gefnogir. Mae angen gwerthuso effaith y newidiadau hyn ar bobl ymhellach, ac mae hwn yn faes y bydd AGGCC yn edrych arno gyda’r cyngor.

6.2. Cynyddodd canran yr atgyfeiriadau amddiffyn oedolion ble rheolwyd risg o 89% i 92%, yn erbyn cyfartaledd yng Nghymru o 96%. Mae hwn yn faes anodwyd ar y pwyllgor craffu, ac esboniodd y gwasanaeth fod y perfformiad hwn o ganlyniad i unigolion â gallu yn penderfynu bod mewn sefyllfa ble na ellir rheoli risgiau yn llwyddiannus. Newidiodd y Cydgysylltydd Amddiffyn Oedolion yn ystod y flwyddyn.Mae’r cyngor yn parhau i ymatebidrefniadau diogelu oedolion, ac mae’n bwriadu sefydlu uned ddiogelu i gynnwys pob ffrwd gwaith sy’n ymwneud ag ansawdd gwasanaethau, risg a diogelu yn y flwyddyn i ddod.

6.3. Mae’r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) yn darparu fframwaith gyfreithiol i amddiffyn pobl sy’n byw mewn cartrefi gofal ac ysbytai sy’n agored i niwed oherwydd diffyg gallu meddyliol. Derbynioddy cyngor gynnydd yn nifer y ceisiadau iawdurdodiTrefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddido ganlyniad i ddyfarniad Gorllewin Swydd Gaer. O’r 172 o geisiadau, cwblhawyd 41 o’r asesiadau. Yn debyg igynghorau eraill, ni chwblhawyd yr asesiadau o fewn yr amserlen ddisgwyliedig. Ymatebodd y cyngor i’r cynnydd hwn yn y galw drwy hyfforddi pedwar asesydd i gynnal yr asesiadau.

6.4. Nod gwasanaethau oedolion y cyngor yw cefnogi pobl i fod yn annibynnol ac mor hunan-gynhaliol â phosibl, gan eu galluogi i ddatblygu atebion cymaint â phosibl o fewn adnoddau’r gymuned. Enghraifft o ble mae’r cyngor wedi galluogi cymunedau i gynnal gwasanaethau lleol yw’r fenter gymdeithasol a sefydlwyd i reoli Canolfan Hamdden Biwmares. Ymateb arloesol yw’r fenter gymdeithasol hon sy’n cynnwys y gymuned a’r trydydd sector er mwyn sicrhau bod y ganolfan yn aros ar agor er budd y bobl leol.

6.5. Bob blwyddyn, mae’r cyngor wedi parhau i allanoli ei ddarpariaeth o ofal cartref. Ym mis Rhagfyr 2014,rhoddodd y cyngor 41.9% o oriau drwy ddarpariaeth fewnol, ac roedd hwn yn 81% yn 2009-10. Darparodd y datblygiad hwn yn y farchnad arbedion effeithlonrwydd, marchnad gofal cymdeithasol gryfach, a mwy o ddewis i bobl. Mae hyn yn hyrwyddo nod y cyngor o gyflawni annibyniaeth, gweithio’n effeithiol mewn partneriaeth,a chael yr adnoddau i lunio atebion creadigol er mwyn i bobl aros yn eu cymuned. Canfu arolygiad blynyddol AGGCC o wasanaethau cartref y cyngor fod ansawdd bywyd y rhai sy’n defnyddio’r gwasanaeth yn dda iawn, a bod pobl yn hapus iawn â’r gwasanaeth. Gwelsom ei fod yn cael ei redeg yn dda ac yn effeithlon, ac yn sicrhau gwelliant parhaus. Mae’r ddarpariaeth fewnol yn bwysig i bobl gan ei bod yn cael ei defnyddio’n bennaf i ddarparu pecynnau ailalluogi dwys yn y tymor byr.

6.6. Ymgynghorodd y cyngor â phobl yn Ynys Môn ym mis Rhagfyr 2013 yn ‘Eich Bywyd, Eich Dewis’. Yn dilyn yr ymgynghoriad, datblygodd y cyngor gynllun gweithredu mewn ymateb i’r wybodaeth. Cymryd camau gweithredu parthed taliadau uniongyrchol oedd un o’r meysydd yr oedd angen i’r cyngor ymateb iddo. Gweithiodd y cyngor gyda Menter Môn er mwyn comisiynu’r Ganolfan Cydweithredol Cymrui werthuso dewisiadau ar gyfer taliadau uniongyrchol. Rhan o weledigaeth strategol y cyngor erbyn hyn yw cael cymorth dan gyfarwyddyd y dinesydd yn ganolbwynt i’r gymuned yn Ynys Môn, ac mae’r cyngor yn bwriadu defnyddio’r egwyddor ar draws cymunedau a chanolfannau lleol.

6.7. Nid yw’r maes moderneiddio gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu wedi datblygu yn ystod y flwyddyn oherwydd materion yn ymwneud âchapasiti. Nid oes gan y cyngor y gallu i gomisiynu a monitro gwasanaethau a ddarperir i bobl ag anableddau dysgu, ac mae hwn yn parhau i fod yn faes i’w wella. Yn y gwasanaeth iechyd meddwl, mae’r cyngor wedi comisiynu gwerthusiad allanol ar gydweithio a chyllidebau ar y cydâ’r bwrdd iechyd, ac mae hwn yn faes i AGGCC edrych arno.

**Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol (oedolion)**

**Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar**

6.8. Bydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn ymestyn y ddarpariaeth o daliadau uniongyrchol. Yn ystod y flwyddyn, mae’r cyngor wedi dyblu nifer y bobl sy’n defnyddio taliadau uniongyrchol o 30 i 60. Mae hyn yn golygu bod mwy o bobl yn cyflawni eu canlyniadau lles mewn dull sy’n gwella eu gallu i ganfod y gofal a’r cymorth sy’n addas ar eu cyfer drwy gael mwy o ddewis, hyblygrwydd a rheolaeth i gadw eu hannibynniaeth.

6.9. Mae’r cynllun ailalluogi bellach wedi’i brif ffrydio’n llwyr, gyda 500 o bobl yn derbyn gwasanaeth yn ystod y flwyddyn a 40% yn gadael y gwasanaeth heb fod angen pecyn gofal parhaus. Mae’r cyngor yn bwriadu cynyddu annibyniaeth ymhellach drwy ddatblygu canolfannau cymunedol sy’n darparu cysylltiadau ar draws gwasanaethau a’r gymuned, gan roi cyfleoedd i bobl fod yn gyfrifol am eu lles a’u hannibyniaeth.

6.10. Mae cefnogi gofalwyr yn rhan allweddol o gael gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy. Bu i’r cyngor wella perfforiad yn y maes hwn ymhellach drwy ganfod gofalwyr cudd. Canfuwyd mwy o ofalwyr (cynnydd o 733 i 912), a chynigiwyd asesiad o’u hanghenion. Mae nifer y gofalwyr a gefnogir gan y cyngor wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, a darparwyd gwasanaeth i 500 ohonynt. Yn ystod y flwyddyn,gwelwyd datblygiad mewn gwasanaethau gwybodaeth a chyngor, darpariaeth seibiant ychwanegol, a phrosiectau mewn partneriaeth â Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr, sydd hefyd yn darparu hyfforddiant i ofalwyr. Cafodd y cynllun rhanu cartref Crossroads arian ychwanegol gan y gronfa gofal canolraddol.

**Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth**

6.11. Mae’r Un Pwynt Mynediadyn enghraifft o’r cyngor yn gweithredu ei nod o alluogi pobli ddatblygu eu hatebion eu hunain a gweithio mewn partneriaeth er mwyn datblygu adnoddau cymunedol.Rhoddodd hefyd y cyfle i ddatblygu arfer yn unol â’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru). Ychwanega’r datblygiad at y trefniadau presennol, ac mae’n galluogi unigolion i gael y cyngor a’r wybodaeth sydd eu hangen arnynt. Mae’r Un Pwynt Mynediad yn darparu man cyswllt amlwg er mwyn atgyfeirio i’r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, ac ystyrir ei fod yn ymdrin yn effeithiol â chyfanswm yr atgyfeiriadau,ganddarparu cyngor a chymorth profiadol a hysbys. Caiff unigolion eu cefnogi’n briodol ac yn amserol o ganlyniad i’r datblygiad hwn. Datblygodd yrUn Pwynt Mynediadddull o ddangos y ffordd i’r trydydd sector at adnoddau ac atebion yn y gymuned, ac mae wedi hyrwyddo gallu cymunedau i fodloni anghenion. Dim ond nifer fechan o bobl a fanteisiodd ar y gwasanaeth hwn ar y cychwyn, ond gellir cyflawni buddiannau sylweddol os caiff y gwasanaeth a’r adnoddau cymunedol eu datblygu ymhellach a’u meithrin yn llwyddiannus.

6.12. Mae’r Un Pwynt Mynediad wedi defnyddio’r ddogfen asesu integredig‘What Matters’ ers mis Hydref 2014.Cafodd canlyniadau’r asesiadau hyn eu monitro gan yr uwch-swyddog ar ddyletswydd, gan arwain at brosesu a darparu gwasanaethau yn gyflymach yn y

gymuned, gan olygu bod pobl hŷn yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn fwy amserol. Roedd cyfradd yr oedi mewn trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth dros 75 oed yn uwch eleni ond yn sylweddol is na'r cyfartaledd yng Nghymru.

**Meysydd o gynnydd**

- Ymgysylltu â chymunedau
- Trawsnewid gwasanaethau
- Nifer ygofalwyr a gefnogir

**Meysydd i'w gwella**

- Gwerthuso effaith moderneiddio gwasanaethau
- Moderneiddio gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu
- Comisiynu a monitro gwasanaethau

**<u>Plant a phobl ifanc</u>**

**Trosolwg**

6.13. Mae'r canlyniadau mewn gwasanaethau plant wrth fodloni targedau perfformiad yn dda; fodd bynnag, mae gwella ansawdd ymarfer o fewn y gwasanaeth yn parhau i fod yn fregus.

6.14. Nid yw gwasanaethau plant yn gwneud llawer o ddefnydd o wefan y cyngor er mwyn cysylltu â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, ac nid yw'r wybodaeth arniwedi'i diweddaru. Derbyniodd y cyngor nifer cymharol uchel a chynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau, ac roedd canran y rhai nad oeddynt yn symud ymlaen i gael eu dyrannu yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (50% o'i gymharu â 19%). Ceir cynnydd hefyd yng nghanran yr atgyfeiriadau nad ydynt yn symud o gael eu dyrannui gael eu hasesu hefyd flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae tuedd flwyddyn ar ôl blwyddyn lle mae nifer yr atgyfeiriadau'n cynyddu a nifer yr asesiadau'n gostwng.

6.15. Perfformiodd y cyngor yn dda o ran yr amser mae'n ei gymryd i reoli atgyfeiriadau, gan wneud penderfyniad ar bron bob atgyfeiriad o fewn un diwrnod. Gostyngodd y gyfradd ail-atgyfeirio dros y pedair mlynedd diwethaf i 18% o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 21%. Mae

perfformiad y cyngor i gwblhau asesiadau cychwynnol ar amser yn dda (95% o'i gymharu a chyfartaledd yng Nghymru o 76%), ac yn ystod yr asesiadau hyn roedd y ganran ble gwelwyd y plentyn ar ei ben ei hun yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (64% o'i gymharu â 45%). Mae perfformiad yn yr amser mae'n ei gymryd i gwblhau asesiadau craidd wedi gwella,ond mae'n parhau i fod yn is na'r cyfartaledd (o 72% y llynedd i 78%,yn erbyn cyfartaledd yng Nghymru o 82%).

6.16. Perfformiodd y cyngor yn dda, gan gynnal 98% o gynadleddau amddiffyn plant ar amser yn erbyn cyfartaledd Cymru o 93%. Gwelwyd gwelliant ym mherfformiad cynnal grwpiau craidd dros y tair blynedd diwethaf, a bellach mae'n uwch na chyfartaledd Cymru (95% o'i gymharu â chyfartaledd yng Nghymru o 91%).Mae gan bennaeth y gwasanaethau plant rôl arweiniol ar ddiogelu o fewn y gwasanaethau corfforaethol a chymdeithasol. Rhan o'r gwaith hwn fydd uno swyddogion diogelu oedolion a phlant mewn un uned gyda'r nod o gryfhau'r gwasanaeth.

6.17. Gwnaeth adolygiad estynedig o arfer plant ystyried un achos a gwelwyd methiannau sylweddol mewn arfer aml-asiantaeth gwasanaethau plant hyd at fis Ebrill 2013, gyda diffyg cyfrifoldeb rhwng unigolion a thimau a rhoi gormod o gyfrifoldeb ar weithwyr cymorth. Nid oedd y cyngor wedi gweithredu prosesau asesu ac amddiffyn plant yn llawn, na gweithredu'r fframwaith gyfreithiol gywir. Ni welwyd y sefydliad yn ymateb, gwrando na'n dysgu yn sgil ypryderon a fynegwyd gan swyddogion allweddol megis y swyddog adolygu annibynnol a'r cydgysylltydd amddiffyn plant. Er mwyn hybu dysgu a rhoi sicrwydd ynglŷn ag arfer presennol, bu i'r cyngor adolygu ei arfer ym mis Medi 2014 a chanfod yr angen i gwblhau asesiadau craidd ac asesiadau rhianta, goruchwylio a rheoli risg yn gyson, gwaith proffesiynol cryfach rhwng gwasanaethau plant ac oedolion, gweithio yn y fframwaith gyfreithiol gywir, a datblygu sgiliau a phrofiad y gweithlu.

6.18. Mae'n amlwg bod angen gwella'r broses o wneud penderfyniadau ac atebolrwydd, ac mae cynllun gweithredu i wella arfer mewn gwasanaethau plant ar gael; mae'r gwasanaeth yn adrodd yn ôl i'r uwch-dîm arwainyn y cyngor amgynnydd mae'n ei wneud. Mae'r cyngor yn ymwybodol bod angen gwella gwasanaethau plant yn sylweddol, ac mae wedi cyflogi ymgynghorwyr i roi cymorth annibynnol er mwyngwerthuso'r cynnydd a wnaed a pharodrwydd y cyngor i gael newid pellach. Gofynnwyd i'r Tîm Cymorth Annibynnol, a oedd yn cyfrannu ar ddechrau'r broses o wella'r gwasanaethau, i gynnal adolygiad datblygu er mwyn llywio'r gwasanaethau.

6.19. Mae'r cyngor hefyd wedi cyflogiymgynghorwyr i adolygu arfer, prosesau a systemau, a chael hyfforddwr i arwain y broses o ddatblygu dysgu ac

arfer, ac i gefnogi ei weithlu. Bu'r cymorth hwn yn un parhaus dros y tair blynedd diwethaf, ac mae'n cyfrannu at hyfforddi a chefnogi'r gweithlu. Canfu adolygiad annibynnol diweddar gan ymgynghorydd allanol arall rai enghreifftiau o arfer da a gwelliannau mewn cyfarfodydd cynllunio cyfreithiol ac arfer goruchwylio,gyda trefniadau wedi'u sefydlu i reoli anghydfod. Nododd yr ymgynghorydd y gwelwyd gwelliant yn yr archwiliad hwn mewn ffordd na welwyd o'r blaen.

6.20. Cyflawnwyd gwelliannau drwy ddefnyddio prosesau rheoli risg a llywodraethu y cyngor, ond mae angen iddo barhau i fod yn wyliadwrus. Nododd y cyngor fod y fframwaith sicrhau ansawdd wedi'i weithredu'n llawn mewn gwasanaethau plant,a chynhelir archwiliadau rheolaidd i ysgogi gwella ansawdd.Caiff archwiliadau allanol hefyd effaith gadarnhaol ar ansawdd arfer. Mae'r gwaith archwilio a sicrhau ansawdd yn canfod yr angen i wella ansawdd, gwneud penderfyniadau, ac atebolrwydd, ac mae hwn yn parhau i fod yn faes i'w wella.

6.21. Mae'r cyngor yn parhau i nodi trefniadau comisiynu strategol fel maes i'w wella, ond nid oes digon o staff â'r gallu i gyflenwi ei gynlluniau comisiynu yn gyson.


**Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol**

**Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar**

6.22. Mae'r cyngor wedi parhau i gynnal ac arwain y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoeddgyda Chyngor Gwynedd. Mae'rgwasanaeth hwnyn darparu cymorth dwys ac integredig i deuluoedd, rhieni, a gofalwyr sy'n cael anawsterau sylweddol oherwydd camdrin sylweddau ac alcohol, gan alluogi rhieni i newid eu hymddygiad mewn ffordd a fydd yn gwella eu gallu i fagu plant.Mae'r gwasanaeth wedi bod yn derbyn atgyfeiriadau ers mis Mai 2014, a gall roi cymorth i hyd at 25 o achosion y flwyddyn. Ceir tystiolaeth gychwynnol sy'n awgrymu bod y gwasanaethyn effeithiol, a chynhelir gwerthusiad ohono yn ystod 2015-2016.

6.23. Mae gwasanaethau plant yn cymryd mwy o ran ac yn cael mwy o ddylanwad ar gynllunio gwasanaethau ataliol, drwy gymryd rhan yn y broses o gynllunio'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntafa'r Bartneriaeth i Blant a Phobl Ifanc.Mae cymryd rhan yn y broses o adolygu'r Tîm o Amgylch y Teuluyn alinio'r gwasanaeth a ddarperir acyn cyfrannu at ddatblygu'r strategaeth cymorth i deuluoedd.

**Plant sy’n derbyn gofal**




**Nifer y plant sy’n derbyn gofal ar 31 Mawrth**

| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 87 | 85 | 92 | 81 | 75 | 77 | 81 |

6.24. Mae cyfradd y plant sy’n derbyn gofal, ac eithrio’r rhai ar y gofrestr amddiffyn plant, wedi aros yn gyson yn Ynys Môn dros y saith mlynedd diwethaf ac islaw’r gyfradd yng Nghymru. Nododd y cyngor gynnydd yn nifer y plant sy’n derbyn gofal, a hwn oedd yr uchaf ers nifer o flynyddoedd, sef 91 ar ddiwedd mis Mawrth 2015.

6.25. Nod y cyngor yw bod y plant sy’n derbyn gofal yn byw arYnys Môn neu mor agos â phosiblati er mwyn elwa ar ystod lawn o wasanaethau a chadw cysylltiad â theulu, ffrindiau a’u cymuned leol.Fodd bynnag, caiff 27% o blant sy’n derbyn gofal eu lleoli y tu allan i Ynys Môn, mewn lleoliadau parhaol gyda gofalwyr maeth annibynnol yn bennaf, a chaiff 5% ohonynt eu lleoli mewn lleoliadau preswyl y tu allan i’r sir.Mae hwn yn faes i’w wella.

6.26. Ceir perfformiad cadarn parthed rheoli achosion plant sy’n derbyn gofal, yn arbennig o ran ymweliadau statudol, cwblhau cynlluniau addysg bersonol, ac adolygiadau plant sy’n derbyn gofal yn amserol. Mae gan bron bob un sy’n gadael gofal ymgynghorydd personol. Fodd bynnag, canran isel o gynlluniau llwybrsydd wedi’u sefydlu o’i gymharu â chyfartaledd Cymru (78% o’i gymharu â 91%).

6.27. Gwelwyd enghreifftiau yn yr arolygiad maethu ym mis Ionawr 2015 o rywfaint o arfer gofal plant da. Gallai plant fod yn fwyfwy hyderus y gwrandewir ar eu barn, ond nid oedd gan y Swyddog Adolygu Annibynol allu digonol i gyfarfod â'r plant cyn eu hadolygiad. Gwelwyd bod y tîm o staff yn ymrwymedig, yn hyderus, yn weithgar ac yn optimistig, gan gefnogi gofalwyr maeth i safon uchel. Mynegwyd siom gan rai gofalwyr maeth am y cymorth a gawsant gan y cyngor, a gobeithio caiff prif swyddog amser llawn ei benodi i wella'r sefyllfa hon. Gwelodd yr arolygydd fod y rheolwyr yn ymwybodol iawn o'r diffygion yn y gwasanaeth a'u bod yn bwriadu cynnwys gofalwyr maeth a staff yn y broses o ddatblygu'r gwasanaeth, a gwnaed cynnydd ers hynny.

6.28. Mae cynllunio sefydlogrwydd y cyngor wedi gwella,gyda phum gorchymyn mabwysiadu yn y flwyddyn, sy'n gynnydd o ddau ers y flwyddyn flaenorol, a phum gorchymyngwarchodaeth arbennig o'i gymharu â phedwar y flwyddyn flaenorol. Mae angen gwella sgiliau ac arbenigedd yn y gwaith hwn, ac mae'r cyngor wedi penodi gweithiwrsefydlogrwydd i gynorthwyo gyda'r broses o ddod o hyd i drefniadau teuluol amgen a pharhaol.

**Meysydd o gynnydd**

- Perfformiad o ran dangosyddion perfformiad
- Penodi staff rheoli allweddol
- Cynllunio sefydlogrwydd

**Meysydd i'w gwella**

- Ansawdd y gwaith wrth wneud penderfyniadau ac atebolrwydd
- Datblygu gweithlu
- Defnyddio gwefan a datblygu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn unol â'r ddeddf
- Gallu a chyflenwi wrth gomisiynu
- Ystod o leoliadau i blant sy'n derbyn gofal

**7. Pa mor dda mae arweinyddiaeth, llywodraethiad a chyfeiriad y cyngor yn hyrwyddo gwelliant mewn canlyniadau a lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth**

7.1. Bu i'r gwasanaethau cymdeithasol elwa ar welliannau mewn cymorth corfforaethol megis gwell systemau sicrhau ansawdd a gwybodaeth ariannol. Bu newidiadau yn y dulliau rheoli o fewn y gwasanaethau cymdeithasol, a dechreuodd Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion newydd ym mis Mehefin 2014,gan uno'r unedgofal cymdeithasol i oedolion â'r uned ddarparu. Fodd bynnag, nid oes gan y gwasanaeth ddigon o allu a chymorth corfforaethol mewn comisiynu a chaffael.

7.2. Bu i'rdulliau trosolwg achraffuwella gyda gwybodaeth fwy effeithlon a hygyrch ar gael. Mae aelodau newydd wedi datblygu gwybodaeth am eu swyddogaeth ac yn ei deall gyda chymorth Medrwn Môn. Bu gwelliant amlwg hefyd mewn rheoli sesiynau herio gwasanaethau, gydag aelodau a swyddogion yn sicrhau bod proses werthuso risg fwy cadarn a gwell ar gael.

7.3. Bu i Bartneriaeth Ynys Môn a Gwynedd (Bwrdd Iechyd Lleol) wneud cynnydd yn ei chynllun strategol tair blynedd drwy gydweithio a chanfod tair prif flaenoriaeth ar y cyd. Y blaenoriaethau yw pobl hŷn, datblygu teuluoedd gwydn, ac adfywio cymunedau/cymuned cynaliadwy.

7.4. Ceir cymorth corfforaethol sylweddol ar gyfer datblygiadau a gynlluniwyd mewn gwasanaethau i oedolion. Trawsnewid gofal cymdeithasol i oedolion hŷn yw prif flaenoriaeth gorfforaetholy cyngor amy blynyddoedd i ddod. Yn 2015-2016, bydd y cyngor yn datblygu dwy bartneriaeth gofal ychwanegol ac yn datblygu'r Un Pwynt Mynediad a gwasanaethau cymunedol drwy fodel canolfannau cymunedol.Mae'r cyngor hefyd yn bwriadu datblygu gwasanaethau ailalluogi a dementia a gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu ar y cyd gyda'r bwrdd iechyd. Ar ôl gwneud gwaith ymgysylltu sylweddol â'r gymuned, a chyda cymorth gwleidyddol, penderfynodd y cyngor werthu un o'i gartrefi gofal, sef Gareglwyd.

7.5. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn gofyn am y gallu i ddeall a datblygu ymatebion cymunedol i fodloni anghenion unigolion, yn hytrach nag atgyfeirio ac asesu gwasanaethau yn y dull traddodiadol,a bu'r cyngor yn gweithio er mwyn gweithredu'r newidiadau hyn. Gweithiodd swyddogion yn galed yn ystod y gwaith ymgynghori 'dweud eich dweud' yn 2014 er mwyn ymgysylltu â chymunedau ynghylch datblygiadau gofal ychwanegol yn Amlwch, Llangefni ade'r Ynys. Mae'r cyngor yn gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg mewn gwasanaethau i oedolion er mwyn ymgysylltu â phobl.Esbonir ei agwedd at ymgysylltu ar ei wefan, ac

enghraifft dda o hynny yw'r ymgysylltu presennol ynghylch dyfodol cartref gofal Haulfre,sy'n darparu amserlen eglur ar gyfer gwahanol fathau o ymgysylltu a'r cyfleoedd i bobl a chymunedau fynegi barn a bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

7.6. Roedd gwell sefydlogrwydd yn y gweithlu drwy benodi pobl i swyddi rheoli allweddol, ond ceir materion o hyd ynghylch gallu i gyflawni gwelliant yn arbennig ym maes gwybodaeth ariannol ar gyfer cynllunio a thrawsnewid gwasanaethau. Y cyngor, ynghyd ag un arall, oedd yr ail orau yng Ngwobrau'r Cyngor Gofal ar gyfer datblygu gweithlu cynaliadwy yn eu prosiect i sefydlogi a datblygu'r gweithlu, eu gwaith adolygu dulliau recriwtio a chadw, eu datblygiad proffesiynol, a'u hyfforddiant rheoli.

7.7. Mae'r amser ymateb i gwynion wedi gwella ers i drefniadau newydd gael eu gweithredu ym mis Awst 2014, ond erys yn faes i'w wella. Lluniodd y cyngor adroddiad blynyddol sy'n nodi cwynion a chanmoliaethau, a defnyddiwyd hwn i ganfod themâu ac amser ymateb. Mae'r adroddiad yn nodi gostyngiad yn nifer y cwynion ac yn awgrymu mai'r rheswm dros hyn ywbod y gwasanaeth yn gwrando ac yn datrys pryderon yn gynharach. Derbyniodd gwasanaethau i oedolion 20 o gwynion yn ystod y flwyddyn, sy'n ostyngiad o 29y flwyddyn flaenorol. Trafodwyd yr holl gwynion yng ngham un yn amserol, ac roedd 65% o'r ymatebion ysgrifenedig ar amser.Roedd y gyfran fwyaf o gwynion yn ymwneud â gwasanaethau i bobl hŷn. Gwelwyd gostyngiad yn nifer y cwynion mewn gwasanaethau plant;derbyniwyd 25 cwyn o'i gymharu â 31 y flwyddyn flaenorol, ac roedd 70% o'r ymatebion ysgrifenedig cam un ar amser. Roedd y gyfran uchaf o gwynion yn ymwneud â'r gwasanaeth ymyriadau teuluol.

**Meysydd o gynnydd**

- Cymorth corfforaethol
- Trosolwg a chraffu
- Ymgysylltu â phobl

**Meysydd i'w gwella**

- Comisiynu
- Amser ymateb i gwynion

# Ynys Môn

THE ISLE OF
# Anglesey



## Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd

# Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol 2014-15

## Annual Director's Report on the Effectiveness of

# Social Care Services 2014-15

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

cyngormon
ioacc

@cyngormon
@angleseycouncil

## Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **1.** | **Cyflwyniad y Cyfarwyddwr** | 3 – 4 |
| **2.** | **Gwasanaethau Oedolion** | |
| | Cyflwyniad | 5 |
| | Meysydd cyflawni a chynnydd 2014/15 | 6 – 14 |
| | Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer 2015/16 | 15 – 16 |
| | Tueddiadau/Themâu Perfformiad ar gyfer y tair blynedd diwethaf 2012—2015 | 17 |
| | Dolenni Electronig | 18 |
| **3.** | **Gwasanaethau Plant** | |
| | Cyflwyniad | 19 |
| | Meysydd cyflawni a chynnydd 2014/15 | 20 - 25 |
| | Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer 2015/16 | 26 - 27 |
| | Tueddiadau/Themâu Perfformiad ar gyfer y tair blynedd diwethaf 2012—2015 | 28 |
| | Dolenni Electronig | 29 |
| **4.** | **Adolygu Perfformiad** | 30 |
| **5.** | **Sampl o Berfformiad y Gwasanaethau Oedolion dros y tair blynedd diwethaf** | 31 - 37 |
| **6.** | **Sampl o Berfformiad y Gwasanaethau Oedolion dros y tair blynedd diwethaf** | 38 - 42 |
| **7.** | **Gwybodaeth Ariannol** | 43 – 46 |
| **8.** | **Gwobryo Staff 2014** | 47 |
| **9.** | **Geirfa a Gwybodaeth Gyswllt** | 48 |

# Cyflwyniad y Cyfarwyddwr

Bydd adroddiad blynyddol eleni yn rhoi gwybodaeth am sut y bu i Gyngor Sir Ynys Môn gwrdd â'i ofynion statudol yng nghyswllt perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol a bydd yn ystyried y wybodaeth hon. Mae hefyd yn canolbwyntio ar ein parodrwydd i gyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a ddaw i rym 1 Ebrill 2016. Bydd bod yn barod ar gyfer y ddeddf yn thema trwy'r adroddiad. Byddwn yn adolygu ein cynnydd a'n perfformiad dros gyfnod amser fymryn yn hirach i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gadarn o'r cyd-destun diwylliannol sy'n sail i'n hymddygiad a'n harfer. Cyflwynir perfformiad dros y tair blynedd diwethaf sy'n caniatáu i ni, gyda'n gilydd, adnabod lle gwreiddiwyd perfformiad da a lle mae angen rhagor o sylw. Mae ein taith gwella wedi symud yn ei blaen yn gyflym er 2012. Rydym wedi bod yn glir o'r angen i flaenoriaethu o gofio bod llawer i'w gyflawni a bod cydnabod mai cyfyng oedd yr adnoddau i hwyluso unrhyw newidiadau. Mae'n briodol ein bod yn nodi ein bod bellach mewn lle gwell ac mewn sefyllfa i fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu.

Mae gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn llwyddiannus yn flaenoriaeth ddatganedig i Lywodraeth Cymru gan ei bod yn gosod sylfaen ar gyfer sut y byddir yn cynllunio a chyflawni gofal cymdeithasol a lles yn y dyfodol. Mae'n newid yr hyn y gall ac y dylai'r cyhoedd ei ddisgwyl o ofal cymdeithasol a sut y byddir yn sicrhau bod y cyfryw ddarpariaeth ar gael. Mae'r Ddeddf yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar yr unigolyn i gymryd rheolaeth ac yn creu mwy o ddisgwyliad bod gwasanaethau'n fwy ymatebol ac yn fwy cyson â'i gilydd. Er mai "Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant" yw enw'r Ddeddf, rhaid i'w chylch gorchwyl gynnwys yr Awdurdod yn ei gyfanrwydd a'r holl asiantaethau sydd, gyda'i gilydd, yn rhan o'r clytwaith cynllunio a chyflawni ar gyfer gofal cymdeithasol. Mae'r Ddeddf yn pwysleisio pwysigrwydd cryfhau arfer ataliol ac, wrth wneud hynny, osgoi'r angen am ddarpariaeth fwy costus ac ymwthiol. Fodd bynnag, lle mae angen gwasanaethau, dylai'r ddarpariaeth gael ei chyfarwyddo gan yr unigolyn a'i chysoni'n gywir ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Ddeddf yn cael ei chyflwyno ar adeg pan fo adnoddau cyhoeddus a phreifat dan bwysau a'r cyfnod o lymder yn debygol o barhau. Mae hyn yn golygu bod cyflwyno'r newidiadau gofynnol yn dod â risgiau a chyfrifoldebau ychwanegol. Ein her yw cyflwyno newid heb wneud i oedolion a phlant bregus orfod wynebu risgiau mwy a diangen a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael, boed iddynt fod yn rhai ariannol neu'n amser ac arbenigedd pobl.

Credaf y bydd Adroddiad Blynyddol eleni yn dangos sut y mae'r rhaglen waith yr ydym wedi'i mabwysiadu, fel y'i hymgorfforir yn y Cynllun Corfforaethol, wedi cynorthwyo gyda'r rhaglen weithredu effeithiol ar gyfer y Ddeddf. Mae blaenoriaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlwg iawn yn y Cynllun Corfforaethol ac rydym yn hyderus bod y Cyngor ar y trywydd iawn i gyflawni o fewn yr amserlen a nodwyd (2013 - 17).

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gweld mwy o sefydlogrwydd o fewn trefniadau staffio yn sgil ailstrwythuro corfforaethol yn 2013/14. Dechreuodd Alwyn Jones yn ei swydd fel Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion yn ystod mis Mehefin 2014, gan ddod â gofal cymdeithasol a'r uned

ddarparu ynghyd. Mae'r newidiadau a gyflwynwyd wedi hwyluso gwaith cysoni pellach rhwng y gwasanaethau plant ac oedolion gyda chydymrwymiad i ddarparu gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae gweithredu yn ôl themâu fel hyn wedi cryfhau arfer gan ostwng gwaith gweithredu'n ôl ymatebion materion sengl yn seiliedig ar gyflwyno angen, a chaniatáu i staff weithio ar draws ffiniau tîm ac ymateb yn fwy cyfannol i angen unigolion a theuluoedd.

Fel Pennaeth y Gwasanaethau Plant, mae Anwen Huws wedi cymryd y rôl arweiniol ar ddiogelu yn y Strwythur Corfforaethol a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r newidiadau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn yn caniatáu ar gyfer mwy o gyfleoedd ar gyfer cyd-ddysgu yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn bwysicach, yn gorfforaethol ac fel partneriaeth.

Digwyddiad dymunol, wedi cyfnod o darfu sylweddol, yw bod yr awdurdod wedi llwyddo i benodi gweithwyr datblygu'r gweithlu gyda chefnogaeth arian grant y Rhaglen Waith Datblygu Gofal Cymdeithasol. Mae hwn yn ategu'r buddsoddiad a wneir i'w staff gan yr Awdurdod Lleol. Mae hefyd yn cyfrannu at isadeiledd sydd wedi'i gryfhau ac a fydd yn cynnal a chyfrannu at welliant parhaol.

Rydym hefyd wedi bod yn frwdfrydig dros ragor o ddatblygiadau yn y gymuned ar draws y gwasanaethau plant ac oedolion. Mae dwyn cymunedau i mewn yn arfer sydd wedi'i hen wreiddio mewn gofal cymdeithasol oedolion ac mae gwaith tebyg hefyd yn cael ei gyflwyno yn y gwasanaethau plant. Yn seiliedig ar yr adborth cadarnhaol a ddaeth i law gan gymunedau, mae'r rhaglen "Lleisiau Lleol", a sefydlwyd mewn cydweithrediad â'r Trydydd Sector, bellach wedi'i fabwysiadu ar draws y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Bydd cynnal y drafodaeth "Beth sy'n Bwysig" gyda chynrychiolwyr y gymuned yn gymorth i lunio darpariaeth ar gyfer cymunedau gan ymgorffori pob adnodd sydd ar gael yn seiliedig ar gydwybodaeth.

Dengys y ddau ddull gweithredu a ddisgrifir sut mae'r gwasanaeth a'r awdurdod yn gweithredu'n rhesymol i gwrdd â'r newidiadau diwylliannol a sefydliadol sy'n ofynnol i sicrhau llwyfan ystyrlon ar gyfer gweithredu'r ddeddf yn llwyddiannus.

Mae cynnydd wedi'i gynnal a'i gryfhau gyda'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae'r Rhaglen Trawsnewid Oedolion wedi cyflawni targedau allweddol yn llwyddiannus. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y Gwasanaethau Plant o fewn dewis lleoliadau, sefydlogrwydd y gwasanaeth maethu ac, unwaith eto, mae wedi cynnal perfformiad.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Cyngor wedi bwrw ymlaen yn llwyddiannus gyda rhaglenni gwaith pwysig fydd, gyda'i gilydd, yn cael effaith ar ddarpariaeth Gofal Cymdeithasol a sefydlogrwydd y gweithlu. Cafodd "Siarter Rhagoriaeth y Gwasanaeth Cwsmeriaid" ei lansio fel rhaglen gorfforaethol yn ystod mis Rhagfyr. At hyn, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo gweithredu'r rhaglen Gweithio'n Ddoethach (mis Mawrth) ac wedi dechrau gweithredu'r opsiwn y cytunwyd arno ar gyfer "Statws Sengl".

Ar y llwyfan cadarnhaol hwn yr wyf yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol eleni.

**Gwen Carrington**
**Cyfarwyddwr Cymuned**.



## Gwasanaethau Oedolion - Cyflwyniad



**Alwyn Rhys Jones, Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion**

**Mae grid tystiolaeth gofal cymdeithasol oedolion a'r adroddiad perfformiad yn sylfaen i'r crynodeb hwn ac mae modd cael copïau electronig ohonynt ar ddiwedd yr adroddiad hwn.**

Nodau cyffredin ein gwasanaeth yw:

- Cynorthwyo ein dinasyddion i fod yn annibynnol ac mor hunangynhaliol â bo modd
- Galluogi ein dinasyddion i ddatblygu atebion i'w hanghenion gofal cymdeithasol cymaint â bo modd o fewn ein hadnoddau cymunedol;
- Gweithio'n effeithiol gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i ddatblygu atebion galluogi a chreadigol ar gyfer ein dinasyddion yn ein cymunedau;
- Sicrhau cymuned ddiogel i'n dinasyddion a bod ein hoedolion bregus yn cael cefnogaeth ddiogel;
- Cefnogi ein gweithlu i gyflawni gwasanaethau gofal cymdeithasol cynaliadwy i'n dinasyddion yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Rydym yn parhau i gredu bod gofyn i weledigaeth ein gwasanaeth fod yn uchelgeisiol a chreadigol er mwyn:

- Rhoi cymorth i'n dinasyddion y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt i aros yn eu cartrefi eu hunain yn ein cymuned;
- Datblygu a chynnal ystod eang o wasanaethau cymunedol o ansawdd uchel;
- Hyrwyddo sgyrsiau parchus gyda'n dinasyddion i roi iddynt lais a rheolaeth dros eu lles ei hunain;
- Hyrwyddo cymuned gymdeithasol ac economaidd gynhwysol i'n dinasyddion;
- Cefnogi oedolion i wneud y mwyaf o fanteision cyflogaeth;
- Cydnabod bod gan oedolion swyddogaethau gwahanol a chymhleth i'w cyflawni (gweithiwr, rhiant, gwirfoddolwr, gofalwr, model rôl i eraill) gyda chyfrifoldebau cymdeithasol gwahanol - sydd i gyd yn cael effaith ar y ffordd y maent yn byw ac ar eu dewisiadau o ran iechyd;
- Cydnabod bod lles meddyliol iach yr un mor bwysig â lles corfforol;
- Parhau i ganolbwyntio'n rhagweithiol ar wasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar yn ein timau gofal cymdeithasol ac yn allanol gyda'n partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol;
- Mewn cyfnod o lymder, cynnal y defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

## Gwasanaethau Oedolion – Meysydd cyflawni a chynnydd 2014/15

Eleni cafwyd newidiadau sylfaenol ar draws ein darpariaeth gwasanaeth. Ym mis Mehefin, roeddem yn falch o benodi Pennaeth y Gofal Cymdeithasol Oedolion i gynnal momentwm ein rhaglen trawsnewid a llunio mwy ar ein gweledigaeth strategol.

Rydym yn falch o lwyddiannau ein gweithlu profiadol yn ystod 2014/15 wrth gynorthwyo'r Uwch-dîm Rheoli i weithredu ein blaenoriaethau allweddol.

Eleni rydym wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â'n dinasyddion sydd â diddordeb yn ein rhaglen trawsnewid gwasanaethau. Er mwyn cynorthwyo gyda'r broses hon, rydym wedi cwblhau gwaith adolygu ein taflenni gwybodaeth, a gwaith darparu safle gwe ac eiriolaeth er mwyn sicrhau bod ein dinasyddion yn ymwybodol o'r gofal a'r gefnogaeth sydd ar gael yn lleol. Rydym yn arbennig o falch o'n "hymgysylltiad newydd ag adran pobl hŷn" ar ein gwefan. Bydd ymrwymiad y gwasanaethau i ymgysylltu hefyd yn cael ei atgyfnerthu trwy greu rôl newydd sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu ac ymgynghori.  At hyn, byddwn yn blaenoriaethu llwybrau gwybodaeth, cyngor a chymorth yn unol â gofynion Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.  Mae modd gweld ein gwaith paratoi ar gyfer y newid deddfwriaethol fel a ganlyn:-

| Swyddogaeth | Cynnydd ac enghreifftiau |
|---|---|
| **Hyrwyddo lles pobl y mae arnynt angen gofal a chefnogaeth a gofalwyr y mae arnynt angen cefnogaeth.** | Er 1 Hydref 2014, caiff cyfeiriadau eu cwblhau gan staff ar ddogfennau'r Fframwaith Asesu Integredig. Mae'r sgwrs '*Beth sy'n Bwysig'* yn ffordd newydd o gasglu gwybodaeth a chaiff y templed hwn ei ddefnyddio ledled Gogledd Cymru. Y nod yw sicrhau y gweithredir y broses asesu ac y cymerir rhan ynddi gyda'r person yn cael ei roi wrth galon y broses.<br><br>Enghraifft arall yw ein cynnydd a'n datblygiad da gyda thai gofal ychwanegol a'n hymdrechion i gasglu barn ein dinasyddion. Daeth dros 750 o ymatebion i law yn sgil un ymgynghoriad. Mae hyn i'w briodoli i'r ymrwymiad i gasglu barn ein cymuned a pharodrwydd a dymuniad ein dinasyddion i gymryd rhan.<br><br>Rydym hefyd wedi sefydlu grwpiau tasg allweddol i yrru ymlaen gweithredoedd ar gyfer themâu allweddol a nodwyd e.e. Grwpiau tasg Seiriol.<br><br>Mae rhywfaint o'r ffrwd gwaith o'r prosiect gofalwyr wedi arwain at ganlyniadau ardderchog i ofalwyr ac wedi nodi mwy o ofalwyr cudd. Bydd y prosiectau hyn yn parhau yn 2015/16 |

| | |
|---|---|
| **Sicrhau neu drefnu ar gyfer darparu gwasanaethau ataliol.** | Mae datblygu gwasanaethau Ailalluogi yn rhan fawr o wella canlyniadau ar gyfer unigolion y mae angen cefnogaeth arnynt i gynnal eu hannibyniaeth. Mae gan y gwasanaethau hyn gyfraniad hanfodol wrth greu modelau o wasanaethau cynaliadwy ac mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn sylfaen i hyn. Mae datblygu hybiau cymunedol a gwreiddio'r syniad o les, dewis a llais trwy'r gymuned wrth galon ein meddylfryd. Ymdrechwn i ddatblygu gwasanaethau cefnogi i wella ataliaeth drwyddi draw ac ym mhob cyfnod y byddwn yn cyflawni gwasanaethau. |
| **Hyrwyddo mentrau cymdeithasol, canolfannau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad y defnyddiwr, a'r trydydd sector wrth ddarparu yn eu meysydd gofal a chefnogaeth a chefnogaeth i ofalwyr.** | Fel rhan o'r prif SPOA (Pwynt Mynediad Sengl), mae Medrwn Môn yn datblygu elfen 'Trydydd Sector' SPOA i roi sylw i ymholiadau cyfeirio lefel isel a chanolig y Trydydd Sector. Mae hyn yn hyrwyddo annibyniaeth a'r egwyddor o ganfod atebion yn y cymunedau. Mae hwn yn bwynt canolog ar gyfer holl ymholiadau'r Trydydd Sector ac yn cefnogi'r gwaith o adnabod galw am wasanaeth.<br><br>Rydym yn gyrru'r cynllun gweithredu taliadau uniongyrchol yn ei flaen ac wedi gweld nifer ein cleientiaid sy'n derbyn taliadau uniongyrchol yn dyblu o 30 i 60 eleni - cynnydd o 100%.<br><br>Mae menter gymdeithasol wedi'i sefydlu i reoli Canolfan Hamdden Biwmares. Mae'r fenter gymdeithasol yn ymateb arloesol i sicrhau bod y Ganolfan yn aros yn agored er lles y bobl leol. Dengys y ffaith bod gwaith rheoli'r ganolfan yn cael ei 'hallanoli' wir gydweithrediad rhwng y Cyngor Sir, y trydydd sector a'r gymuned. |
| **Darparu cefnogaeth a chyngor** | Cwblhaodd y gwasanaeth adolygiad o daflenni gwybodaeth sydd newydd eu cyhoeddi. Mae'r gwasanaeth yn parhau i weithio gyda Thîm Datblygu canolog y We i gyhoeddi'r holl daflenni ar wefan y Cyngor. Mae'r gwasanaeth wedi adolygu tudalennau gwe'r gwasanaeth ac wedi diweddaru gwybodaeth yn unol â gwaith trawsnewid y gwasanaeth oedolion e.e. trefniadau SPOA diwygiedig. |
| **Diogelu Oedolion** | Rydym wedi sefydlu Bwrdd Diogelu Oedolion ar y Cyd gyda Chyngor Gwynedd. Rydym hefyd wedi sefydlu uned ddiogelu i yrru ymlaen ein gwaith gofal cymdeithasol oedolion. Bydd hyn yn gwella ein trefniadau diogelu a'n trefniadau sicrhau ansawdd a rhoi ein strategaeth ar waith er mwyn symud ymlaen. Mae canran y cyfeiriadau |

| | |
|---|---|
| | Amddiffyn Oedolion Bregus (POVA) a gwblhawyd lle mae'r risg wedi'i rheoli wedi gwella o ffigwr o 88.90% y llynedd i dros 90%.<br><br>Rydym wedi sicrhau bod sesiynau hyfforddi ar Alluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid wedi'u darparu i staff ar draws y gweithlu gofal Cymdeithasol. Fel rhan o'r rhaglen datblygu a hyfforddiant parhaus hyn, mae pedwar Gweithiwr Cymdeithasol wedi'u hyfforddi yn ymarferwyr cymeradwy i gynnal asesiadau Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid. Bu i hyn wella capasiti i ymateb i fwy o alw gan i ni dderbyn dros 172 o gyfeiriadau Colli Rhyddid, gyda chant o'r rhain yn cael eu neilltuo ar gyfer eu hasesu a 41 o asesiadau wedi'u cwblhau hyd yn hyn. |
| **Trefniadau Partneriaeth** | Cynhaliwyd tri gweithdy gyda rhanddeiliaid allweddol staff iechyd, gofal cymdeithasol y trydydd sector a'r sector annibynnol. Bu i'r gweithdai yma ein cynorthwyo i ddatblygu blaenoriaethau a Rhaglen Waith ar gyfer integreiddio iechyd a gwasanaethau Gofal Iechyd.<br><br>Rydym wedi comisiynu ymgynghorydd allanol i werthuso gwaith sefydlu cyfleoedd 'gweithio ar y cyd a chyllidebau cyfun' gydag iechyd. Mae hyn yn adeiladu ar ein trefniadau llywodraethu sydd newydd eu sefydlu gydag iechyd lle bydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn diffinio gweithio mewn Iechyd Meddwl yn y dyfodol. |
| **Gwasanaethau Cwynion ac Eiriolaeth** | O fis Ebrill 2015 ymlaen byddwn yn ail-gomisiynu gwasanaethau eirioli ar draws gofal cymdeithasol oedolion yn unol â'r manylion eiriolaeth ac egwyddorion allweddol y ddeddfwriaeth hon. Rydym wedi rhoi trefn gwyno newydd ar waith yn unol â rheoliad diwygiedig Cymru, ac wedi cyflwyno adroddiadau monitro i gyfarfodydd Rheoli chwarterol. |

- Rydym wedi cynnal cynnydd cadarnhaol wrth drawsffurfio gwasanaethau. Ailalluogi, Broceriaeth a'r Rhestr Gyfraddau yw'r prosiectau sydd wedi'u cwblhau hyd yn hyn gan wireddu arbedion o dros £1m hyd yn hyn.

**Mae menter gymdeithasol wedi'i sefydlu i reoli Canolfan Hamdden Bwmares. Dengys y ffaith bod gwaith rheoli'r ganolfan yn cael ei 'hallanoli' wir gydweithrediad rhwng y Cyngor Sir, y trydydd sector a'r gymuned. Mae gweithio mewn partneriaeth agos fel hyn wedi arwain at £140,000 o arian i gynnal y Ganolfan dros y blynyddoedd i ddod, gydag arbediad blynyddol o £85,000 dros y tair blynedd. Y fantais allweddol i'n cymuned yw nifer gynyddol y cyfranogwyr sy'n cael mynediad at y gwasanaeth hwn a rhaglen amrywiol o weithgareddau i'n pobl hŷn.**

- Fel rhan o'n Prosiect Gwasanaethau Dementia a'r ffrydiau gwaith Cefnogaeth dan Gyfarwyddyd y Dinesydd rydym wedi sefydlu Grŵp Cynllunio amlasiantaethol dan y rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru ac wedi gweithio i sefydlu Gwasanaethau Dementia newydd.

- Mae rheolwr prosiect wedi'i benodi i hwyluso gwaith datblygu SPOA y gwasanaethau oedolion, gan gynnwys hunanasesiad 'oedi ac adolygu' a gynhaliwyd mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol i werthuso cynnydd. Rydym hefyd wedi gwneud datblygiadau cadarnhaol wrth sicrhau fod ein trefniadau SPOA yn rhan o brif ffrwd gofal cymdeithasol oedolion. Yr hyn sy'n llwyddiant arbennig yw datblygiad elfen SPOA y 'Trydydd Sector' i roi sylw i ymholiadau cyfeirio lefel isel a chanolig.

- Rydym wedi gweithio ar y cyd gydag awdurdodau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatblygu'r Fframwaith Asesu Integredig newydd.

- Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ffurfioli ein trefniadau gweithio trwy sefydlu Bwrdd Cyflawni Integredig a memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer y gwasanaeth iechyd meddwl. Nod allweddol y Bwrdd Cyflawni Integredig fydd gwerthuso fframweithiau cyllidebau cyfun i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o adnoddau. O'r herwydd, mae effaith y Bwrdd Cyflawni Integredig hyd yn hyn wedi dangos trefniadau gweithio ar y cyd cadarnhaol.

- Mae gwerthuso gwaith gweithredu'r gwasanaeth Ailalluogi yn cadarnhau ei fod yn cyflawni ar ei amcanion allweddol o hyrwyddo annibyniaeth ac yn cyflawni fy enillion ariannol gyda gostyngiad mewn oriau gofal cartref a gomisiynwyd. Mewn oes o lymder, mae'r cynllun trawsnewid hwn wedi nodi arbediad blynyddol amcanol o £231,318.

- Rydym wedi parhau i gynyddu cynaliadwyedd y farchnad a dewis trwy allanoli rhagor o'n darpariaeth gofal cartref fewnol. Gwnaed gwaith sylweddol i lunio marchnad gofal cartref ar yr ynys.  Isod nodir y newid hwn mewn darpariaeth gwasanaeth:-

| Dyddiad | Mewnol | Allanol |
|---|---|---|
| **2009/10** | 81% | 18.6% |
| **Mawrth 2012** | 65% | 35% |
| **Mawrth 2013** | 60% | 40% |
| **Mawrth 2014** | 47% | 53% |
| **Rhagfyr 2014** | 41.9% | 58.1% |

- Hyd at fis Rhagfyr 2014, cyflawnodd y gwasanaeth gofal cartref mewnol 41.9% o'r holl oriau gofal cartref a ariennir gan y cyngor, gyda'r sector annibynnol yn cyflawni 58.1%.  Mae'r gwasanaeth mewnol wedi symud i roi gofal tymor byr/ail-alluogi, ond mae'n parhau i gyflawni rhyw gymaint o ofal tymor hir i oddeutu 75.8% o'i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'r

gwasanaeth mewnol yn cyflawni cyfanswm o 2,858 o oriau'r wythnos tra bo'r sector annibynnol yn cyflawni oddeutu 3,963 o oriau a gomisiynwyd gan yr Awdurdod Lleol.

- Mae'r gwasanaeth wedi parhau i ailfodelu cefnogaeth sydd ar gael i bobl hŷn. Darparwyd adnoddau mwy cymunedol i gefnogi gwelliant mewn lles, gwasanaethau ataliol a gostwng achosion lle mae modd osgoi mynd i'r ysbyty. Yn sgil hyn mae lefelau oedi wrth drosglwyddo gofal wedi aros yn isel ac yn is na chyfartaledd Cymru.

- Tra bo nifer y bobl hŷn a gefnogir yn y gymuned wedi aros yn debyg, mae nifer y bobl hŷn a gefnogir mewn cartrefi gofal wedi parhau i ostwng yn gyson,

- Yn ein rhaglen waith anabledd dysgu, byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu mentrau creadigol ac arloesol ar y cyd gyda'n darparwyr trydydd sector a phreifat. Fel rhan o'n hasesiad o angen, bu i ni gomisiynu Canolfan Cydweithredol Cymru i werthuso cyfleoedd posib i sefydlu mentrau cymdeithasol i Ganolfan Byron, Gerddi Haulfre a Thaliadau Uniongyrchol. Rydym hefyd yn falch o fod wedi penodi 'Cydlynydd Trawsnewidiol' i hwyluso trefniadau gweithio ar y cyd cadarnhaol a didrafferth rhwng gwasanaethau plant ac oedolion. Gyda threfniadau prosiect bellach yn eu lle rhwng gwasanaethau plant ac oedolion, rydym yn hyderus y gallwn lwyddo i yrru'r agenda hwn yn ei flaen fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer 2015/16.

- Bu i ni gomisiynu gwerthusiad allanol o'r opsiynau cyflawni Taliadau Uniongyrchol sydd ar gael i'n cymunedau, gan gytuno ar argymhellion allweddol penodol a gweithredu ar y cyfryw argymhellion. Rydym yn falch o gael adrodd ein bod wedi gweld nifer **y bobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol yn dyblu** yn ystod 2014/15. Ein gweledigaeth strategol yw cael Cefnogaeth dan Gyfarwyddyd y Dinesydd wrth galon ein cymuned a'n bwriad yw rhoi'r egwyddor hon ar waith ar draws ein cymunedau a'n hybiau cymunedol.

- Rydym wedi ymdrechu i greu gwasanaethau cymunedol ac yn falch o gael adrodd y cytunwyd ar y meini prawf cymhwysedd a modelu ar gyfer tai gofal ychwanegol. Rydym wedi gwrando ar yr hyn y mae ein dinasyddion yn ei ffafrio, sef datblygu llety 'Gofal Ychwanegol' fel dewis posib arall i ofal preswyl. Rydym hefyd yn y broses o ddatblygu dull gweithredu gwasanaeth a dargedir yn ardal Seiriol / Menai sydd ar gael i'n dinasyddion sydd ag anghenion tai a chefnogaeth lefel ganolig i uchel. Eleni, mae ymgynghori, ymgysylltu a chyd-gynhyrchu wedi bod yn thema trwy ein rhaglen drawsnewidiol er mwyn hyrwyddo'n gweledigaeth o les cymunedol.

- Yn sgil ymgynghoriad lleol a gwerthusiad o opsiynau cychwynnol ym mis Gorffennaf 2014, cytunodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor werthu Garreglwyd. Cytunodd 65.7% o'r bobl yr ymgynghorwyd â nhw y dylid gwerthu Garreglwyd gyda gwasanaethau dementia'r dewis ddefnydd ar ei gyfer. Rydym yn rhagweld y byddwn wedi llwyddo i drosglwyddo'r cartref erbyn mis Awst 2015.

- Rydym wedi cytuno ar fersiwn derfynol o'r Strategaeth Gofalwyr ac wedi dechrau gweithio ar roi Cynllun Gweithredu tair blynedd ar waith. Mae canran y gofalwyr y cynigiwyd iddynt asesiad neu adolygiad o'u cynllun gofal wedi cynyddu i dros y raddfa a dargedwyd, sef 92% - mae hyn yn llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 85%. Mae canran gofalwyr

oedolion a gafodd eu hasesu neu eu hailasesu ac y rhoddwyd iddynt wasanaeth yn eu haeddiant eu hunain hefyd wedi cynyddu'n sylweddol o 63.80% i dros 96%.

- Rydym yn parhau i ymateb yn effeithiol i honiadau o gam-drin ac esgeulustod. Mae swydd reoli newydd sy'n canolbwyntio ar ddiogelu ac archwiliadau ar draws gwasanaethau plant ac oedolion wedi'i sefydlu i yrru ein hymdrechion ymlaen a chodi ymwybyddiaeth o warchod oedolion bregus. Mae gwaith Bwrdd Diogelu Gwynedd a Môn yn parhau i fwrw ymlaen yn gadarnhaol, gan ein rhoi mewn sefyllfa gref i ymateb i ddisgwyliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

- Rydym wedi hwyluso 'gweithio'n ddoethach' trwy brynu gliniaduron i'n gweithwyr cymdeithasol gan roi mwy o gyfleoedd iddynt gael mynediad ar lein at wasanaethau ar gyfer asesiadau lefel isel, cyfeiriadau cychwynnol, cyngor ac arweiniad cynnar.

- Rydym wedi cynnal perfformiad da yn lleol ar draws y gyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol cenedlaethol ac o fewn ein fframwaith rheoli perfformiad lleol. Cyflawnwyd hyn o fewn dyraniad cyllidebol is a thrwy barhau i gyflawni strategaeth effeithlonrwydd heriol y cyngor.

- Rydym wedi cynnal a datblygu ein perthynas gadarnhaol gyda'n haelodau etholedig.

| Beth wnaethom ni addo'i wneud? | Wnaethom ni hyn? |
|---|---|
| **Ymateb i Angen** | |
| Cwblhau gwaith adolygu taflenni gwybodaeth sydd newydd eu cyhoeddi ac adolygu trefniadau a gwybodaeth gyfredol yn cynnwys yr ystod o bwyntiau gwybodaeth a datblygu ein tudalennau gwe. | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Sicrhau bod ein trefniadau SPOA yn rhan o'r brif ffrwd gyda'r Bwrdd Iechyd | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Rhoi trefniadau Fframwaith Asesu Integredig newydd ar waith ar y cyd gydag Iechyd a rhoi hyfforddiant amlddisgyblaethol i staff iechyd a gofal cymdeithasol | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Cwblhau'r adolygiad yr ydym wedi'i ddechrau o'n bwriadau comisiynu mewn perthynas â gwasanaethau eiriolaeth. | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Parhau i werthuso effeithiolrwydd y model Ailalluogi Derbyn. | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i anghenion gwybodaeth, cyngor ac anghenion defnyddwyr y gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol yn sgil y gweithdy '*Eich Bywyd, Eich Dewis'* a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2013. | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Cytuno ar fodel gofal a chymhwysedd ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Sicrhau cymeradwyaeth ffurfiol y cyngor i fwrw ymlaen gyda thri chyfleuster Tai Gofal Ychwanegol yn Amlwch, Llangefni a de'r Ynys. | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Ymgysylltu'n lleol yng nghyswllt anghenion gofal a llety ar draws yr Ynys. | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith mewn ymateb i'r argymhellion yn yr Adolygiad Cefnogi Pobl o'r contract i ddarparu Gwasanaeth warden mewn tai gwarchod. | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Dechrau adolygiad sylweddol o wasanaethau anableddau dysgu ar y cyd gyda phartneriaid. | ✗ Ar ei hôl hi |
| Dechrau gwaith ar y Gwasanaeth Prosiect Dementia a ffrydiau gwaith â blaenoriaeth y Gefnogaeth dan Gyfarwyddyd y Dinesydd dan y Rhaglen Trawsnewid. | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| **Diogelu** | |
| Cynnal archwiliadau rheolaidd o achosion ffeil yng nghyswllt arfer diogelu o fewn fframwaith sicrhau ansawdd ein gwasanaeth esblygol. | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Adolygu a chryfhau ein trefniadau ar gyfer ymateb i geisiadau am awdurdod yng nghyswllt trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid, yn enwedig felly ar gyfer y bobl fregus hynny nad oes ganddynt y gallu na chefnogaeth teulu mewn cartrefi gofal a chyfleusterau byw â chefnogaeth. | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |

| Rheoli Adnoddau | |
|---|---|
| Datblygu perthynas weithio effeithiol gydag Uned Datblygu'r Gweithlu y mae eu rheolwr llinell bellach yn yr Adain Adnoddau Dynol Corfforaethol a hyfforddi. | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Parhau i sicrhau cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar draws gweithlu'r gofal cymdeithasol, defnyddwyr a gofalwyr yn unol â'r blaenoriaethau yn ein Cynlluniau Trawsnewid. | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Parhau i weithio gyda phartneriaid i ddarparu cyfleoedd hyfforddi Fframwaith Cymwysterau a Chredyd i gryfhau mwy ar weithlu gofal cymdeithasol cymwys. | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Rhoi ar waith yn llwyr y Rhaglen Gryfhau sydd newydd ei lansio i Weithwyr Cymdeithasol sydd newydd gymhwyso dan faner fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus (CPEL) y Cyngor. | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Parhau i weithio ar y cyd a chynnal ein partneriaethau ffurfiol cyfredol mewn perthynas â Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol. | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Parhau i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o adnoddau a chyfrannu at raglen arbedion y cyngor (targed arbedion ariannol o £1,360,660 yn ystod 2014/15). | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| **Comisiynu a Phartneriaethau** | |
| Parhau i ddatblygu bwriadau gwasanaeth dan y Prosiect Llety a Gofal Lefel Uwch dan y Rhaglen Trawsnewid ar gyfer Pobl Hŷn. | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Cadarnhau bwriadau comisiynu mewn perthynas â Chartref Preswyl Garreglwyd. | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Dechrau gwaith ar adolygiad cynhwysfawr o wasanaethau anableddau dysgu. | ✗ Ar ei hôl hi |
| Sefydlu trefniadau Rheoli Prosiect ffurfiol i gefnogi datblygu gwasanaeth Cefnogi Pobl â Dementia dan y Rhaglen Trawsnewid. | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Datblygu trefniadau Rheoli Prosiect ffurfiol i gefnogi gwaith datblygu Cefnogaeth dan Gyfarwyddyd y Dinesydd. | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Cytuno ar fersiwn derfynol y Strategaeth Gofalwyr a dechrau rhoi'r Cynllun Gweithredu tair blynedd ar waith | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Rhoi Cytundeb Fframwaith Cyn-leoliad Preswyl Gogledd Gymru ar waith gyda darparwyr gofal nyrsio a phreswyl ym Môn ac ailddechrau'r fforwm Darparwyr Gofal Nyrsio a Phreswyl. | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |

| | |
|---|---|
| Rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith mewn ymateb i'r argymhellion yn yr adolygiad Cefnogi Pobl o wasanaethau warden mewn cynlluniau tai gwarchod. . | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Datblygu rhaglen o flaenoriaethau ar gyfer cyflawni gwasanaethau mwy integredig gydag Iechyd dan faner y Bwrdd Cyflawni Gwasanaeth ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| **Rheoli Busnes a Pherfformiad** | |
| Datblygu Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad ar draws yr Adran i wella'r gwaith canolbwyntio ar fonitro ansawdd gwasanaethau. | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Cryfhau trefniadau mewn Cefnogi Busnes i liniaru'r risg sy'n gysylltiedig gyda'n gallu i ymateb i geisiadau cydymffurfio â data diogelu mewn amserlenni statudol | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Parhau i fonitro effeithlonrwydd ein trefniadau mewn ymateb i gwynion a'u datrys a dysgu'r gwersi i wella'n barhaus ansawdd ein gwasanaethau. | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Rhoi'r Cynllun Gwella a luniwyd ar waith mewn ymateb i'r argymhellion yn yr adolygiad allanol o'n systemau gwybodaeth. | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Rhoi gliniaduron i Weithwyr Cymdeithasol rheng flaen i gwblhau ffurflenni a bwydo gwybodaeth i mewn i RAISE pan fyddant allan yn y maes | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Parhau i weithio gyda'r Adran TGCh wrth flaenoriaethu a bwrw ymlaen gyda gwaith ar ddatblygu, disodli a gweithredu systemau TGCh. | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| **Arweinyddiaeth a Chefnogaeth Gorfforaethol a Gwleidyddol** | |
| Datblygu cysylltiadau effeithiol rhwng Pennaeth newydd Gwasanaethau Oedolion a deiliaid portffolio allweddol a sgriwtini corfforaethol | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Parhau i ymgysylltu ag aelodau trwy drefnu sesiynau gwybodaeth ar bynciau allweddol. | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Egluro mwy ar lefelau a chyfyngiadau o ran cyfrifoldebau sydd wedi'u dirprwyo ac sydd yn mynd law yn llaw â gweithredu system lejer ariannol newydd y Cyngor yn llwyr. | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Cryfhau mwy ar sgriwtini corfforaethol a gwleidyddol yng nghyswllt gofal cymdeithasol oedolion o fewn fframwaith sgriwtini/perfformiad. | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |





## Gwasanaethau Oedolion – Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer 2015/16

**Yn y tabl isod, rydym yn amlinellu meysydd allweddol eraill ar gyfer cyflawni cynnydd eleni:**

| |
|---|
| **Ymateb i Angen** |
| Paratoi ac adolygu pa mor barod ydym i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. |
| Parhau i ddatblygu ein strategaeth i ailfodelu ystod a dewis o lety a gwasanaethau cefnogi i Bobl Hŷn a sicrhau cymeradwyaeth ffurfiol y Cyngor i fwrw ymlaen gyda dau gyfleuster tai gofal ychwanegol yn Amlwch a de'r ynys |
| Parhau i fwrw ymlaen gyda'n gwaith cadarnhaol o ran ymgysylltu, ymgynghori a chyd-gynhyrchu ar draws ein cymuned. |
| Gyrru ein hadolygiad o wasanaethau anableddau dysgu ymlaen ar y cyd gyda phartneriaid. |
| Gwireddu ac adolygu'r rhaglen waith a Dogfennau Gweithredu Prosiectau. |
| **Diogelu** |
| Archwilio ffeiliau achos yn rheolaidd yng nghyswllt arfer diogelu o fewn fframwaith sicrhau ansawdd ein Gwasanaeth. |
| Datblygu mwy ar ein fframwaith sicrhau ansawdd a sefydlu trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer gwasanaethau oedolion |
| Bwrw ymlaen gyda rhoi'r cynllun Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid ar waith. |
| Sefydlu uned ddiogelu i ymgorffori'r holl ffrydiau gwaith sy'n berthnasol i ansawdd gwasanaethau, risg a diogelu. |
| **Hyrwyddo Lles, Annibyniaeth a Sefydlogrwydd** |
| Byddwn yn dysgu o'r model cefnogi cymunedol a sefydlwyd yn Ward Seiriol ac yn datblygu Hybiau Cymunedol ar draws y cymunedau a fydd yn cefnogi'r integreiddio rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol a grwpiau cymunedol. |
| Parhau i weithredu'r bwriadau comisiynu ar gyfer dyfodol Gwasanaethau Cefnogi Pobl Hŷn sy'n gysylltiedig â Thai ac a nodir yn Strategaeth Comisiynu Cefnogi Pobl. |

| |
|---|
| **Comisiynu a Phartneriaethau** |
| Gyrru ein hadolygiad o wasanaethau anableddau dysgu ymlaen ar y cyd gyda phartneriaid. |
| Datblygu ein bwriadau comisiynu ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â sicrhau gwasanaethau eiriolaeth annibynnol priodol i gwrdd ag anghenion ar draws gwasanaethau oedolion. |
| **Rheoli Adnoddau** |
| Paratoi ein gweithlu ar gyfer rhoi'r fframwaith deddfwriaethol gofal cymdeithasol yng Nghymru (fframwaith newydd) ar waith |
| Parhau i weithio'n gydweithredol a chynnal ein partneriaethau ffurfiol cyfredol mewn perthynas â Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol. |
| Parhau i foderneiddio a gyrru ein cynllun arbedion ymlaen i sicrhau y cyflawnir darpariaeth gofal cymdeithasol oedolion cynaliadwy yn y dyfodol. |
| **Rheoli Busnes a Pherfformiad** |
| Datblygu Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad ar draws yr Adran i wella'r gwaith canolbwyntio ar fonitro ansawdd gwasanaethau. |
| Parhau i gydweithio gyda phartneriaid yng Nghanolfan Gydweithredol Systemau Cymru wrth sicrhau system wybodaeth newydd yn lle'r system DRAIG/RAISE. |
| Gwireddu'r rhaglen fonitro contractau gyda'n darparwyr allanol ar draws y sector preifat a'r trydydd sector. |
| **Arweinyddiaeth a Chefnogaeth Gorfforaethol a Gwleidyddol** |
| Parhau i adeiladau ar ein cysylltiadau effeithiol gyda'r deiliaid portffolio allweddol a sgriwtini Corfforaethol. |



**Gwasanaethau Oedolion: Tueddiadau/Themâu Perfformiad ar gyfer y tair blynedd diwethaf 2012--2015**

Dros y tair blynedd diwethaf rydym wedi sefydlu gweledigaeth newydd i'n gwasanaeth gyda'r nod cyffredin o alluogi a chefnogi oedolion ar yr Ynys i arwain bywyd annibynnol. Fodd bynnag, nid sefydlu'r weledigaeth hon yn unig oedd ein nod ond gwireddu ein bwriad a'i roi ar waith trwy drawsnewid gofal cymdeithasol oedolion ar yr Ynys.  Mae'r Cyngor wedi ymgeisio i roi darlun ac arweinyddiaeth gorfforaethol, gadarn ar gyfer ein gwasanaeth. Gydag ethol cyngor newydd i'n cymuned, fe'n cynorthwywyd nid yn unig i yrru ein cynllun trawsnewid ymlaen ond, yn hanfodol, bu gwelliant yn ein perthynas ag aelodau etholedig.  Mae modd gweld hyn trwy'r gwasanaeth gydag ardaloedd allweddol yn cael eu hyrwyddo gan ein haelodau etholedig er lles ein dinasyddion.

Rydym wedi gweld symud o fod yn ddibynnol ar ofal preswyl i ddefnyddio darpariaeth gymunedol wrth sefydlu cefnogaeth/hybiau cymunedol a modelau tai gwarchod ychwanegol. Rydym yn falch o'r llwyddiant hwn, yn enwedig felly, yn y modd y mae llais a dewis y dinesydd wedi'u hwyluso trwy ystod o weithgareddau ymgysylltu deinamig. Mae hyn wedi ein cynorthwyo hefyd i sicrhau ein bod yn datblygu gwasanaethau ataliol cymunedol sydd wedi'u targedu ac sy'n gymesur, yn seiliedig ar farn, anghenion a dymuniadau ein dinasyddion e.e. Heneiddio'n Dda.  Er mwyn ategu'r symud hwn mewn darpariaeth gwasanaeth, rydym wedi cael canlyniadau cadarnhaol wrth allanoli ein darpariaeth gofal cartref a phreswyl.  Rydym wedi gweithio'n agos gyda darparwyr preifat a'r trydydd sector i ddatblygu darpariaeth arall yn ein cymuned a meithrin partneriaethau newydd ar yr Ynys. Yn unol â'r newidiadau hyn, rydym wedi rhoi hwb i'n darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol amlasiantaethol ac wedi elwa o ddatblygiad cadarnhaol a graddol y gwasanaethau gofal lefel uwch a SPOA gyda'r gwasanaeth iechyd.  Fodd bynnag, rydym wedi sicrhau bod ein gwaith o ganolbwyntio ar ddiogelu wedi aros yn ganolog i'n gwaith 'beunyddiol' a welwyd trwy'r gwelliannau parhaus yn ein gallu i reoli'r risg mewn achosion o amddiffyn oedolion bregus (POVA) yn llwyddiannus a'r cynnydd sylweddol mewn cyfeiriadau Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DOLS) a ddaeth i law.

Mae ein Cyngor yn parhau i yrru'r newidiadau cadarnhaol ymlaen ar draws ein darpariaeth a'n swyddogaethau gwasanaeth trwy gynnal cynnydd ar ein hagenda trawsnewid. Fel rhan o'r daith newid hon, rydym wedi ymgysylltu'n gydgynhyrchiol â'n dinasyddion er mwyn caniatáu i'w lleisiau lunio gwasanaethau ein cymuned.  Rydym wedi cael llwyddiannau trwy wrando ar leisiau ein dinasyddion, rhoi'r cynllun gweithredu ar waith i'n gofalwyr a gwneud cynnydd cadarnhaol yn ein trefniant o gydweithio gyda rhanddeiliaid allweddol.  Fodd bynnag, yn ystod 2015-16 rydym yn canolbwyntio ar yrru'r cynllun gweithredu yn ei flaen yng nghyswllt gwreiddio trefniadau sicrhau ansawdd ar draws gofal cymdeithasol oedolion a datblygu ein gwasanaeth i gwrdd ag anghenion ein hoedolion ifancaf. Yn sgil ein gwaith cynllunio a gwerthuso eleni, rydym bellach mewn lle da ac yn awyddus i symud ymlaen gyda'r cynlluniau hyn yn gydweithredol. Yn gryno, rydym wedi cyflawni nodau allweddol eleni ac rydym mewn lle da i roi'r fframwaith deddfwriaethol newydd ar waith ym mis Ebrill 2016.

**Gwasanaethau Oedolion – Dolenni Electronig**

Cliciwch YMA i gael at Wybodaeth am Berfformiad Gwasanaethau Oedolion 2014/15

Cliciwch YMA i gael at Gridiau Tystiolaeth Gwasanaethau Oedolion 2014/15


# Gwasanaethau Plant - Cyflwyniad



**Anwen Huws, Pennaeth y Gwasanaethau Plant**

**Mae grid tystiolaeth gofal cymdeithasol plant a'r adroddiad perfformiad yn sylfaen i'r crynodeb hwn ac mae modd cael copïau electronig ohonynt ar ddiwedd yr adroddiad hwn.**

Rydym yn credu mewn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant yr ydym yn darparu gwasanaeth iddynt. Yn hyn o beth, credwn y cawn ein barnu, nid yn unig yn ôl yr hyn yr ydym yn ei wneud ond hefyd yn ôl yr effaith yr ydym yn ei chael ar y canlyniadau i blant. Yn sgil ein hymyriadau, bydd disgwyl y bydd plant a phobl ifanc yn:-



## Gwasanaethau Plant – Meysydd cyflawni a chynnydd 2014/15

Mae awydd gwirioneddol ym Môn i wneud y gorau y gallwn i'r plant a'r teuluoedd yr ydym yn gweithio gyda nhw. Er mai symud yn gyflym gyda'n cynllun trawsnewid eleni oedd ein bwriad, roeddem yn sylweddoli bod angen gwneud hynny mewn modd oedd yn ddiogel a chynaliadwy. Cryfhawyd y farn hon ymhellach gyda chanlyniadau Arolygiaeth Arolygwyr Gwasanaeth Gofal a Chymdeithasol Cymru (AGGCC) 'Arolygu diogelu a chynllunio gofal plant sy'n derbyn gofal a gadawyr gofal sy'n dangos ymddygiad diamddiffyn neu beryglus'. Er i'r adroddiad hwn nodi nifer o feysydd o arfer da, nodai hefyd bod angen i'r Awdurdod Lleol gryfhau'r cynnydd y mae wedi'i wneud. O'r herwydd, eleni canolbwyntiwyd ar gryfhau ac adeiladu ar y gwelliannau a gyflawnwyd. Isod ceir trosolwg o'n datblygiadau a'n llwyddiannau yn y 12 mis diwethaf:

**Rydym wedi ymgymryd i:**

- Wreiddio ein Fframwaith Sicrhau Ansawdd ymhellach, sy'n tystio i'r gwelliant mewn arfer a hyder proffesiynol.
- Mae'r trefniadau pwynt cyswllt cyntaf wedi sefydlogi gyda gwelliannau sylweddol wrth ddarparu ymatebion amserol.
- Wedi cynnal a chryfhau llwyddiannau ein perfformiad. Dangosyddion Perfformiad yn gyffredinol yn gyson â dangosyddion Cynghorau eraill neu ar y blaen iddynt.
- Wedi cynnal lefelau rhesymol o lwythi achos gwaith cymdeithasol
- Wedi datblygu ein Gwasanaethau gyda dau Swyddog Rhiantu wedi'u recriwtio i gefnogi capasiti rhiantu a sgiliau mewn teuluoedd.
- Penodiad Rheolwr Gwasanaeth Rhiantu Corfforaethol a Phartneriaethau parhaol a newydd wedi'i sicrhau, yn arwain rhaglen gynhwysfawr o welliannau yn ein gwasanaeth maethu.
- Penodiad Rheolwyr Tîm parhaol a newydd wedi'i sicrhau.
- Swyddog Recriwtio Maethu wedi'i benodi. Targedau recriwtio maethu wedi'u cyrraedd.
- 10 gofalwr maeth newydd wedi'u recriwtio erbyn mis Rhagfyr 2014 fel rhan o'n hymgyrch recriwtio uchelgeisiol i sicrhau bod gennym ddewis o leoliadau yn lleol ac y ceir cyfatebu.

- Gwybodaeth ac arbenigedd mewn Mabwysiadu, Maethu Preifat, Gorchmynion Gwarchodaeth Arbennig a Chynllunio ar gyfer Sefydlogrwydd wedi'i wella trwy benodi Ymgynghorydd Gwaith Cymdeithasol.
- Mewn partneriaeth â gofalwyr maeth, wedi adolygu ein fframwaith Tâl am Sgiliau ac wedi llwyddo i sicrhau rhagor o arian i gynyddu tâl sgiliau i ofalwyr maeth.
- Mewn ymateb i newidiadau deddfwriaethol, gwaith Llys Teulu wedi'i gwblhau [Amlinelliad o'r Gyfraith Gyhoeddus (PLO)] o fewn amserlen 26 wythnos drom iawn ac, felly, yn osgoi oedi wrth ddiogelu lles tymor hir plant.
- Ar y cyd â Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr, wedi cyflawni gwasanaeth integredig i Blant ag anableddau a'u teuluoedd.
- Gwasanaethau Cefnogi i Blant anabl wedi'u hailfodelu er mwyn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau mwy cadarnhaol i blant.
- Bydd Gweithiwr Cymdeithasol a Chydlynydd Trawsnewid yn gweithio o Ysgol Y Bont i roi cefnogaeth well i blant anabl a'u teuluoedd yn ystod cyfnodau pontio allweddol yn eu bywyd.
- Wedi gweithio gyda Chyngor Gwynedd a'r partneriaid i gyflawni Gwasanaeth Integredig Cefnogi'r Teulu effeithiol yng Ngwynedd/Môn.
- Wedi rheoli gwasanaethau o fewn y gyllideb er bod gwariant ar blant y pen ym Môn yn is na chyfartaledd Cymru. Bu i ni gwrdd â'n targed arbedion yn llawn (14/15)
- Wedi parhau i gymryd rhan weithgar yn agenda Cymru Gyfan i wella gwaith cyflawni gwasanaethau cymdeithasol trwy weithio'n gydweithredol.
- Wedi gweithio ar y cyd â'n ffrindiau yng Ngogledd Cymru i gyflawni Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol.
- Wedi gweithio gyda'n partneriaid i wella'r pwyslais ar amddiffyn rhag cam-fanteisio'n rhywiol, masnachu plant a phlant sydd ar goll o ofal neu gartref.

Gostyngiad o 32% mewn achosion o darfu mewn lleoliadau plant

**Eir ar drywydd y dasg o wella perfformiad gwasanaethau plant yn frwdfrydig o fewn yr awdurdod, a hynny gan weithlu brwdfrydig ac ymrwymedig. Cam cyntaf ein taith gwella oedd cymryd pob cam angenrheidiol i wella perfformiad mewn meysydd allweddol – asesu a rheoli gofal, wrth hefyd gynnal perfformiad da ar draws y bwrdd.**

**Tra bo hyn wedi arwain at welliannau mewn nifer o feysydd arfer, nid yw'r newidiadau hyn wedi rhoi sylw llawn i rai o'r materion sylfaenol sy'n ymwneud â thrawsnewid gwaith cyflawni Gwasanaethau Plant ym Môn ar raddfa fawr.**

Mae angen i wasanaethau'r dyfodol fod yn gynaliadwy a chaiff hyn ei efelychu yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Llywodraeth Cymru. Mae angen i ni ddatblygu dull gweithredu gwahanol ac wrth galon hwn bydd:-

- Gweithwyr cymdeithasol yn gweithio'n rhagweithiol gyda theuluoedd i reoli risg – treulio mwy o amser yn gweithio ochr yn ochr â theuluoedd i'w cynorthwyo i newid fel bod y teulu'n lle diogel i'w plant.

- I deuluoedd lle na fydd hyn yn bosib, cymerir camau amserol i warchod Plant a rhoi sefydlogrwydd.

- Gwella gwasanaethau cefnogi i deuluoedd (yn ymarferol ac yn therapiwtig) ac, felly, yn cynhyrchu cylch bendithiol o wasanaethau gwell i blant a'u teuluoedd. Yn benodol, bydd buddsoddiad yn cael ei dargedu at roi cefnogaeth ddwys a chyflym pan fydd y teulu'n torri i lawr gyda'r nod o gadw'r teulu gyda'i gilydd. Ein nod yw cael gwasanaeth o weithwyr wedi'u hyfforddi sy'n gallu gweithredu methodolegau ymyrryd gyda theuluoedd a all newid ymddygiad a chynorthwyo i reoli risg o amryfal lefelau. Y nod fydd gostwng niferoedd y plant sy'n derbyn gofal a chefnogi teuluoedd mewn argyfwng.

- Ailstrwythuro ac ail-lunio systemau gwaith fel eu bod yn berthnasol, yn seiliedig ar wybodaeth, yn hyblyg ac yn ddefnyddiol i ymarferwyr.

Yn seiliedig ar y cynnydd amlwg hwn ac effaith ac ymrwymiad ein staff ar draws y gwasanaeth, mae'n glir y gallwn barhau i addasu a thrawsnewid.

> "Rwyf yn llwyr gymeradwyo dyhead a bwriad y tîm rheoli gwasanaethau plant i barhau i adeiladu ar ein cryfderau a sicrhau ansawdd ar draws pob rhan o daith y plentyn neu'r person ifanc trwy'r gwasanaeth."
>
> Gwen Carrington – Cyfarwyddwr Cymuned
>
> ∞∞∞



| Beth wnaethom ni addo'i wneud yn 2014-15 ? | Wnaethom ni hyn? |
|---|---|
| **Ymateb i Angen** | |
| Ad-drefnu ein tîm pwynt cyswllt cyntaf | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Cynnal a chryfhau perfformiad a gafwyd yn ystod 2013/14 yng nghyswllt meysydd arfer allweddol a sicrhau y byddir yn ymateb yn dda ac yn amserol i anghenion plant, pan fo'r plant yn gymwys. | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Gwella ansawdd a phrydlondeb asesiadau craidd. | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Gweithredu ein Gwasanaeth Cefnogi'r Teulu diwygiedig | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Astudiaeth ar y Posibiliadau - Gwasanaethau ymyl gofal | ✗ Ar ei hôl hi |
| **Diogelu** | |
| Cynnal a chryfhau'r perfformiad a gafwyd yn ystod 2013-14 yng nghyswllt Dangosyddion Perfformiad allweddol sy'n sicrhau y bydd gan blant gynlluniau amddiffyn da a chyfredol sy'n sicrhau y byddir yn diwallu eu hanghenion | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Bod â systemau yn eu lle i sicrhau y caiff plant sy'n rhan o drefniadau maethu preifat eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth lle bynnag y bo'n bosib a'u bod yn cael cefnogaeth a gwarchodaeth brydlon sy'n cydymffurfio â'r Polisi Cenedlaethol a'r Canllawiau a'r Rheoliadau Statudol. | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Gweithredu'r Gwasanaeth Diogelu Pobl - gan gwmpasu gwaith amddiffyn plant ac oedolion | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Cydlynu gwaith rhoi'r Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol ar waith. | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Penderfynu a ydym yn mabwysiadu'r Hyb Diogelu Amlasiantaethol (MASH) ym Môn – fel rhagflaenydd i bwynt mynediad sengl ar gyfer yr holl gyfeiriadau yng nghyswllt Plant mewn Angen a Phlant mewn Risg | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |

| **Hyrwyddo Lles, Annibyniaeth a Sefydlogrwydd** | |
|---|---|
| Bydd plant Môn sy'n derbyn Gofal yn cael cefnogaeth i fyw ym Môn neu cyn agosed i Fôn â bo modd | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Bydd plant Môn sy'n derbyn Gofal yn cael cefnogaeth i allu byw mewn teulu ar ryw adeg yn ystod eu plentyndod lle bynnag a phryd bynnag y bo'n bosib | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| Cymeradwyo ein Strategaeth Rhiantu Corfforaethol a rhoi hyfforddiant i aelodau ar eu rôl fel Rhiant Corfforaethol. | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Codi nifer y lleoliadau maethu mewnol ddeg cartref erbyn mis Rhagfyr 2014 a deg ychwanegol erbyn mis Rhagfyr 2015, felly, yn gostwng ein gwariant ar leoliadau maethu trydydd parti. | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| **Comisiynu a Phartneriaethau** | |
| Parhau i ddylanwadu ar waith datblygu rhannau allweddol o gefnogaeth effeithiol i deuluoedd ar draws y continwwm angen – o atal i risg uchel - gan gynnwys sefydlu model lles plant eglur a threfnus sy'n gosod cyfrifoldebau ar gyfer gwasanaethau dwys, ataliol ac sydd wedi'u targedu; ac sydd ym mherchenogaeth yr holl staff a phartneriaid eraill ac sy'n ddealladwy iddynt. | × Ar ei hôl hi |
| Datblygu trefniadau dwys i roi cymorth i deuluoedd fel bod y gobeithion o sicrhau canlyniadau da i blant mewn teuluoedd mewn argyfwng yn gwella, a hynny lle mae pryder yng nghylch diogelwch y plant ac amheuaeth ynghylch sefydlogrwydd y lleoliad. | × Ar ei hôl hi |
| Ailfodelu'r gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anableddau i greu gwasanaeth sy'n canolbwyntio'n well ac y mae modd ei wireddu o fewn adnoddau cyfredol ac sy'n cael ei gydnabod gan blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr fel un sy'n cwrdd â'u hanghenion. | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Gweithio gyda Chyngor Gwynedd a'r partneriaid i wireddu Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (yr IFSS) trwy gydweithredu. | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |

| | |
|---|---|
| **Rheoli Adnoddau** | |
| Cynnal sefydlogrwydd staffio | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Gwella cyfraddau salwch staff | ✓ Ar waith/yn unol â'r amserlen |
| Rheoli o fewn y gyllideb – gostwng dibyniaeth ar leoliadau trydydd parti | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |
| **Rheoli Busnes a Pherfformiad** | |
| Parhau i weithredu'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd yn llwyr | ✓ Wedi'i gwblhau /ei gyflawni |

## Gwasanaethau Plant – Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer 2015/16

**Eleni, rydym wedi ymrwymo i weithio tuag at gwblhau'r isod:**

| **Ymateb i Angen** |
|---|
| Bwrdd Rhaglen Trawsnewid wedi'i sefydlu a phrosiectau wedi'u mandadu i wella gwaith cyflawni gwasanaethau plant statudol erbyn mis Mawrth 2017. |
| Cryfhau a chynnal perfformiad a gafwyd yn ystod 2014/15 mewn perthynas â meysydd arfer allweddol sy'n sicrhau y byddir yn ymateb yn dda ac yn amserol i anghenion plant, pan fo'r plant yn gymwys. Byddwn yn canolbwyntio ar wella ansawdd a phrydlondeb asesiadau craidd. |
| Dadlau i sicrhau adnoddau i gynnal Dadansoddiad Strategol o effaith datblygiadau economaidd mawr megis Wylfa Newydd a 'Land and Lakes' ar ddiogelu, y gweithlu a galwadau ar wasanaethau gofal cymdeithasol. |
| Gweithio gyda'r Bwrdd Prosiect i gynllunio ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant - a chyfrannu'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol at y gwaith paratoi. |
| **Diogelu** |
| Cynnal a chryfhau'r perfformiad a gafwyd yn ystod 2013-14 yng nghyswllt Dangosyddion Perfformiad allweddol sy'n sicrhau y bydd gan blant gynlluniau amddiffyn da a chyfredol sy'n sicrhau y byddir yn diwallu eu hanghenion. |
| Gweithio gyda'n partneriaid i amddiffyn plant rhag camfantais rywiol, cael eu masnachu a bod ar goll o ofal neu o gartref. |
| Mewnosod Uned Diogelu Pobl - dod â Swyddogion Diogelu Plant ac oedolion ynghyd a chydlynu gwaith rhoi Cynllun Diogelu Corfforaethol ar waith. |
| **Hyrwyddo Lles, Annibyniaeth a Sefydlogrwydd** |
| Bydd plant Môn sy'n derbyn Gofal yn cael cefnogaeth i fyw ym Môn neu cyn agosed i Fôn â bo modd. I wneud hyn, byddwn yn parhau i gynyddu nifer y lleoliadau maethu mewnol ddeg cartref erbyn mis Rhagfyr 2015 a deg arall erbyn mis Rhagfyr 2016. |
| Cymeradwyo ein Strategaeth Rhiantu Corfforaethol a rhoi hyfforddiant i aelodau ar eu rôl fel Rhiant Corfforaethol. Mae'n cynnwys adolygu 'Strategaeth Lleoli' ddiwygiedig a'i gweithredu. |
| Rhoi cefnogaeth briodol fel bod modd i bobl ifanc sy'n gadael gofal neu bobl ifanc ag anableddau sy'n agosáu at fod yn oedolion gael dewisiadau byw gwell er mwyn datblygu sgiliau bywyd, gan gynnwys mynediad at wasanaethau cyffredinol a chymunedol, cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth. |
| Gweithio gydag asiantaethau i ddatblygu gwasanaeth ymateb cynnar wedi'i gyd-lunio i'r plant hynny ag anableddau sydd dan 5 oed yn ardal Caergybi. |

| |
|---|
| Mae pob Plentyn sy'n Derbyn Gofal yn cael cynnig eiriolaeth yn awtomatig. |
| **Comisiynu a Phartneriaethau** |
| Parhau i ddylanwadu ar waith datblygu rhannau allweddol o gefnogaeth effeithiol i deuluoedd ar draws y continwwm angen – o atal i risg uchel. |
| Cryfhau ein hagweddau at ddwyn defnyddwyr gwasanaeth i mewn ac ymgysylltu â nhw yn y ffordd y byddwn yn cynllunio a chyflawni gwasanaethau. |
| Ailfodelu toriadau byr i blant a phobl ifanc ag anableddau o ran cyflawni gwasanaeth a chaffael effeithiol. |
| Gwella ein trefniadau comisiynu a chefnogi busnes a byddwn wedi cwblhau gwaith ailstrwythuro'r gwasanaethau cefnogi canolog yn y 'Gwasanaethau Canolog'. |
| **Rheoli Adnoddau** |
| Gwneud y defnydd gorau o'n staff. Cadw trosiant a lefel salwch staff ar lefel resymol. |
| Paratoi ar gyfer system wybodaeth newydd. Cynllun Gweithredu i gefnogi gwaith disodli'r system TG RAISE gyfredol yn 2016. |
| **Rheoli Busnes a Pherfformiad** |
| Parhau i weithredu'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd yn llwyr - gan ddatblygu ynddo'r Fframwaith Perfformiad a Sicrhau Ansawdd ar gyfer y Gwasanaeth Maethu. |



## Gwasanaethau Plant - Tueddiadau/Themâu Perfformiad ar gyfer y tair blynedd diwethaf 2012--2015

- Gwelliant cyson mewn swyddogaethau cyfeirio ac asesu. Dengys dangosyddion perfformiad gynnydd o un flwyddyn i'r llall wrth ymateb i ymholiadau/cyfeiriadau o fewn pedair awr ar hugain, gan ostwng cyfeiriadau a'r amser a gymerwyd i gwblhau Asesiadau Cychwynnol. Bellach, mae'r perfformiad cystal â pherfformiad y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol yng Nghymru ac yn well nag o.

- Rhoddwyd llawer o sylw i wella gwaith rheoli trwy gyfraddau ymateb cynt a chynllunio ac adolygiadau gofal gwell. Daeth hyn yn sgil rheolwyr yn rhoi mwy o sylw, prosesau gwell, hyfforddiant gwaith cymdeithasol ac adnoddau, yn cynnwys cynyddu nifer y staff yn y tîm rheng flaen.

- Gwell defnydd o drefniadau rheoli perfformiad ac arfer yn seiliedig ar dystiolaeth i wreiddio'r gwelliannau ac ymdrechu i gael rhagoriaeth. Mae'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd yn parhau i lunio arfer a dysgu sefydliadol.

- Buddsoddi yn y Gweithlu Gofal Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod gennym i gyd y sgiliau a'r capasiti ar gyfer y dyfodol.

- Gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anableddau wedi'u datblygu ac yn rhoi gwasanaeth mwy disgybledig sy'n rheoli pryderon amddiffyn plant ac y mae modd ei wireddu o fewn adnoddau cyfredol ac sy'n cael ei gydnabod gan blant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr fel un sy'n diwallu anghenion.

- Gwelliant mewn darparu sefydlogrwydd lleoliadau a gostyngiad mewn achosion o darfu mewn lleoliadau. Mae deg yn rhagor o ofalwyr maeth wedi'u cymeradwyo yn ystod 2014-15. Mae 40% o'r plant sy'n derbyn gofal yn parhau i gael eu lleoli gydag Asiantaethau Maethu Annibynnol. Fodd bynnag, fe wnaethom gwireddu gostyngiadau yn y gwasanaeth a brynir gan asiantaethau allanol ac yn y costau cysylltiedig.

- Galwadau cynyddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf - Cysylltiadau, Cyfeiriadau, Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a Phlant sy'n Derbyn Gofal. Er gwaethaf cynnydd mewn galw a disgwyliadau rydym wedi llwyddo i aros o fewn y gyllideb a ddyrannwyd i ni tra hefyd yn cwrdd â'n targedau arbedion.



## Gwasanaethau Plant – Dolenni Electronig

Cliciwch YMA i gael at wybodaeth am Berfformiad Gwasanaethau Plant 2014/15

Cliciwch YMA i gael at Gridiau Tystiolaeth Gwasanaethau Plant 2014/15

## Adolygu Perfformiad


Wedi'u cynnwys isod mae rhai o'r tueddiadau perfformio allweddol dros y tair blynedd diwethaf, gan amlinellu lle mae perfformiad da bellach wedi'i wreiddio a lle mae gofyn am ragor o ymdrech. Erys heriau yng nghyswllt adnoddau sydd ar gael i gefnogi newid a gwelliant parhaus. Fodd bynnag, rydym bellach mewn sefyllfa lle rydym yn glir lle mae angen i ni flaenoriaethu ein hymdrechion.

Yn 2015/16 byddwn yn wynebu heriau newydd ac ychwanegol yn sgil y newidiadau arfaethedig yn y gwaith casglu setiau data. Fodd bynnag, bydd y rhain yn rhoi i ni'r cyfle i ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau yn unol â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Rydym yn falch ein bod wedi gallu cynnal lefelau perfformio rhesymol tra hefyd yn ymgymryd ag agenda Trawsnewidiol ac uchelgeisiol yn ein gwasanaethau oedolion.

## Sampl o Berfformiad y Gwasanaethau Oedolion dros y tair blynedd diwethaf

### SCA/001 (NS1): Graddfa achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol yn ôl 1,000 poblogaeth dros 75 neu hŷn
### Targed Dangosydd Perfformiad - Nifer isel




| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Anglesey | 2.53 | 0.55 | 1.63 |
| Welsh average | 4.57 | 4.7 | |
| Anglesey Target | 1.2 | 1.75 | 1.5 |


| | | | |
|---|---|---|---|
| **Chwartel Cymru** | Canol | Uchaf | Uchaf |

<u>Yr hanes y tu ôl i'r perfformiad:</u>

Rydym yn darparu asesiadau a gweithwyr cymdeithasol yn yr ysbyty aciwt i oedolion wrth iddynt baratoi i adael trwy bartneriaeth gyda Chyngor Gwynedd Council. Mae'r tîm yn yr ysbyty yn cynnwys ymarferwyr gwaith cymdeithasol ac aseswyr gofal.

Rhwng mis Ebrill 2014 a diwedd mis Mawrth 2015 bu 12 achos lle bu oedi wrth drosglwyddo am resymau gofal cymdeithasol. Mae hyn yn arwain at sgôr o 1.63 yn y dangosydd perfformiad, sydd fymryn yn uwch na'n targed o 1.50. Er hynny, mae hyn yn dal i fod yn sylweddol well na chyfartaledd Cymru yn 13/14, sef 4.70.

**SCA/002a: Graddfa'r bobl hŷn (oed 65 neu hŷn): A gefnogir yn y gymuned yn ôl 1,000 poplogaeth dros 65 neu hŷn ar 31 Mawrth**
**Targed Dangosydd Perfformiad - Nifer isel**
**(Yn genedlaethol - Nifer uchel)**




| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Anglesey | 58.94 | 54.41 | 49.46 |
| Welsh average | 77.53 | 74.48 | |
| Anglesey Target | 83 | 55 | 55 |

| **Chwartel Cymru** | Canol | Isaf | Isaf |
|---|---|---|---|

Yr hanes y tu ôl i'r perfformiad:

Mae ein perfformiad ddiwrnod y cyfrifiad (31 Mawrth) yng nghyswllt graddfa'r bobl hŷn yr ydym yn eu cefnogi yn y gymuned wedi gostwng yn sylweddol yn erbyn poblogaeth sy'n gynyddol fynd yn hŷn. Mae ein bwriad yn efelychu bwriad a pholisi cenedlaethol ond mae ar raddfa gyflymach. Yr un yw'r sefyllfa wrth feincnodi ag Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru.

Dyma ffactorau sy'n cyfrannu at hyn:


• Mae cyflwyno model Ailalluogi Derbyn wedi parhau i gael effaith gadarnhaol – yn galluogi unigolion i aros y tu allan i'r system ofal yn hirach;

•Mae ein strategaeth o rannu gwybodaeth, cyfeirio ac ymrymuso yn ein pwyntiau mynediad (yn hytrach na thynnu pobl i mewn i'r system) yn cael effaith gadarnhaol ar nifer yr oedolion sy'n derbyn gwasanaeth gennym.

•Mae'r rhaglen waith â blaenoriaeth o adolygu ein hymyriadau â phobl hŷn ar lefelau sylweddol a chritigol (sydd yn unol â'n meini prawf cymhwysedd sydd wedi'u cyhoeddi) wedi arwain at lai o bobl ag anghenion lefel is yn cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd.

**SCC/002b (NS2): Graddfa'r bobl hŷn (oed 65 neu hŷn): Y mae'r Awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal yn ôl 1,000 poplogaeth dros 65 neu hŷn ar 31 Mawrth**

**Targed Dangosydd Perfformiad - Nifer isel**




| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Anglesey | 27.72 | 25.3 | 23.28 |
| Welsh average | 20.79 | 20.04 | |
| Anglesey Target | 23 | 23 | 23 |


| Chwartel Cymru | Isaf | Isaf | Isaf |
|---|---|---|---|

Yr hanes y tu ôl i'r perfformiad:

Mae ein strategaeth Gofal canolraddol o ddefnyddio gwelyau gofal canolraddol mewn cartref gofal preswyl yn cefnogi model ail-alluogi o drosglwyddo unigolion yn ôl gartref i'r gymuned ac yn osgoi gorddibyniaeth ar dderbyn pobl i ofal tymor hir. Mae cyflwyno'r model ail-alluogi derbyn yn cael effaith gadarnhaol hefyd ar gynnal annibyniaeth pobl ac atal achosion amhriodol o dderbyn pobl i ofal preswyl tymor hir.

Dros y tair blynedd diwethaf bu gwelliant addawol yn ein perfformiad lleol. Ar 31/03/2015 roedd cyfanswm o 386 o ddefnyddwyr 65 oed a hŷn yn cael eu cefnogi mewn cartrefi Gofal. Roedd hyn yn ostyngiad o 25 o ddefnyddwyr ar gyfanswm y rhai oedd yn derbyn gwasanaeth hyd at 31/03/2014.

## SCA/007: Canran y cleientiaid sydd â chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylid fod wedi adolygu eu cynlluniau gofal, a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn
## Targed Dangosydd Perfformiad - Nifer uchel




| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Anglesey | 82.82 | 87.86 | 92.17 |
| Welsh average | 80.9 | 81.1 | |
| Anglesey Target | 80 | 84 | 85 |


| | | | |
|---|---|---|---|
| **Chwartel Cymru** | Canol | Uchaf | Uchaf |

Yr hanes y tu ôl i’r perfformiad:

Yn ystod y flwyddyn aeth heibio cwblhawyd 895 o’r 971 o adolygiadau yr oedd eu disgwyl (92.17%). Mae hyn yn welliant ar berfformiad y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae’n debygol o’n rhoi mewn sefyllfa gref yn genedlaethol gan ei fod yn sylweddol uwch na pherfformiad cyfartalog Cymru yn 13/14.

Mae rhestr o adolygiadau sy’n disgwyl eu cynnal wedi’i throsglwyddo i’r arweinyddion tîm iddynt roi sylw iddi a gweithredu arni.

**SCA/018a: Canran gofalwyr oedolion y cynigiwyd iddynt asesiad neu adolygiad o'u hanghenion yn eu haeddiant eu hunain yn ystod y flwyddyn**
**Targed Dangosydd Perfformiad - Nifer uchel**





| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Anglesey | 81.7 | 91.3 | 92.9 |
| Welsh average | 86.8 | 85.8 | |
| Anglesey Target | 77 | 85 | 92 |

| **Chwartel Cymru** | Isaf | Canol | Canol |
|---|---|---|---|

<u>Yr hanes y tu ôl i'r perfformiad:</u>

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio cynigiwyd i 92.9% o ofalwyr anffurfiol oedolion asesiad neu adolygiad o'u hanghenion yn eu haeddiant eu hunain. Mae hyn fymryn yn uwch na'n perfformiad yn 13/14, sef 91.3% a chyfartaledd Cymru yn 13/14, sef 85.8%.

**SCA/018b: Canran gofalwyr oedolion a gafodd asesiad neu adolygiad o'u hanghenion yn eu haeddiant eu hunain yn ystod y flwyddyn**
**Targed Dangosydd Perfformiad - Nifer uchel**




| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Anglesey | 75 | 63.2 | 57.1 |
| Welsh average | 38.7 | 39.4 | |
| Anglesey Target | 80 | 85 | 70 |


| **Chwartel Cymru** | Uchaf | Uchaf | Uchaf |
|---|---|---|---|

<u>Yr hanes y tu ôl i'r perfformiad:</u>

Yn ystod y flwyddyn aeth heibio, derbyniodd 57.1% o ofalwyr y cynigiwyd asesiad iddynt y cyfryw asesiad. Mae hyn yn is na pherfformiad 13/14, sef 63.2% ond yn sylweddol uwch na chyfartaledd 13/14, sef 39.4% sydd, unwaith eto, yn debygol o'n rhoi yn chwartel uchaf Cymru.

Gofynnodd cyfanswm o 564 am asesiad neu adolygiad a chafodd 92% (521) o'r rhain eu hasesu. Mae 43 yn disgwyl cael eu hasesu neu eu hadolygu. At y rhain, rhaid cyfrifo yn y dangosydd perfformiad hwn 348 cleient ychwanegol a wrthododd asesiad. Mae'r cleientiaid ychwanegol hyn yn rhoi'r argraff anghywir o berfformiad isel yn y Dangosydd Perfformiad Allweddol hwn pan nad oes gan yr adran reolaeth dros faint o ofalwyr sy'n gwrthod asesiad.

**SCA/019: Canran y cyfeiriadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd lle mae'r risg wedi'i reoli**
**Targed Dangosydd Perfformiad - Nifer uchel**




| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Anglesey | 92.78 | 88.9 | 91.92 |
| Welsh average | 91.84 | 94.45 | |
| Anglesey Target | 97 | 95 | 90 |

| **Chwartel Cymru** | Canol | Isaf | Isaf |
|---|---|---|---|


<u>Yr hanes y tu ôl i’r perfformiad:</u>

Mae’n ddyletswydd arnom i weithio gyda phartneriaid ac eraill i amddiffyn ein hunigolion mwyaf bregus. Amddiffyn ein hunigolion mwyaf bregus yw busnes craidd y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae’n hanfodol bod gennym strwythurau a systemau effeithiol yn eu lle i amddiffyn y mwyaf bregus. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y strwythurau a’r systemau hyn yn gynaliadwy ac yn rhoi diogelu wrth galon gweithio mewn partneriaeth ar draws y sector cyhoeddus ac, yn wir, y sector gofal yn gyffredinol.

Yn ystod y flwyddyn, roedd 91.92% o’r holl gyfeiriadau amddiffyn oedolion yr oeddem wedi’u derbyn wedi tystio bod y risg wedi’i rheoli. Mae hyn fymryn yn uwch na pherfformiad y flwyddyn flaenorol, sef 88.9%

Wrth ddadansoddi’r ffigyrau y tu ôl i’r perfformiad dangosir nifer fechan o bobl fregus yn dewis peidio mynd â’u sefyllfa lawr y lôn gyfreithiol.

## Sampl o Berfformiad y Gwasanaethau Plant dros y tair blynedd diwethaf





| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Môn | 8.75 | 7.79 | 3.41 |
| Wales | 9.40 | 8.30 | |
| Môn's Target | 8.00 | 8.00 | 8.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Chwartel Cymru** | Canol | Uchaf | Uchaf |

<u>Yr hanes y tu ôl i'r perfformiad:</u>

Mae sefydlogrwydd lleoliadau yn fater allweddol os ydym am gael canlyniadau cadarnhaol i'n plant sy'n derbyn gofal. Er gwaethaf heriau cronfa gyfyng o ofalwyr maeth, rydym yn falch o'r gwelliannau yng nghyswllt y dangosydd hwn ar gyfer 2013-14 a 2014-15; gan weld gwelliant o 55% eleni.

**SCC/011a: Canran yr asesiadau cychwynnol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle mae'r plentyn wedi'i weld gan weithiwr cymdeithasol**





| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Môn | 89.81 | 91.63 | 95.89 |
| Wales | 75.40 | 78.90 | |
| Môn's Target | 90.00 | 90.00 | 100.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Chwartel Cymru** | Uchaf | **Gorau** | Uchaf |

Yr hanes y tu ôl i'r perfformiad:

Mae gweld pob plentyn yn ystod yr asesiad cychwynnol yn holl bwysig i'n gwasanaeth. Rydym, yn barhaus, wedi arwain y maes yn hyn o beth ac ar gyfer 2013-14 bu i ni ddangos y perfformiad gorau yng Nghymru. Unwaith eto, rydym wedi gwella ar y canlyniad ar gyfer 2014-15.

**SCC/010: Canran y cyfeiriadau sy'n ailgyfeiriadau o fewn 12 mis - Mae Isel yn well**





| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Môn | 25.02 | 18.87 | 18.11 |
| Wales | 27.00 | 22.20 | |
| Môn's Target | 26.00 | 23.00 | 20.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Chwartel Cymru** | Canol | Uchaf | Uchaf |

Yr hanes y tu ôl i'r perfformiad:

Er gwaethaf cynnydd o dros 35% yn nifer y cyfeiriadau a gyfeiriwyd at ein gwasanaeth, mae ein graddfa ailgyfeirio wedi gwella o un flwyddyn i'r llall, gyda pherfformiad 2013-14 yn cyrraedd y statws chwartel uchaf. Wrth i'n perfformiad yn 2014-15 wella rhagor, ein nod yw cynnal y statws chwartel uchaf hwn.  Mae hyn yn dangos gwell perfformiad o ran gwneud penderfyniadau ac ymyriadau gyda theuluoedd.





| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Môn | 80.37 | 90.86 | 94.77 |
| Wales | 73.10 | 71.90 | |
| Môn's Target | 85.00 | 85.00 | 85.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Chwartel Cymru** | Canol | **Gorau** | Uchaf |

<u>Yr hanes y tu ôl i'r perfformiad:</u>

Yn 2014-15, mae ein perfformiad yng nghyswllt cwblhau Asesiadau Cychwynnol o fewn saith diwrnod gwaith i dderbyn y cyfeiriad wedi gwella o dros 17% er 2012-13. Yn sgil ein canlyniad yn 2013-14, roeddem ymhlith yr awdurdodau yng Nghymru oedd yn perfformio orau a chyda'r gwelliant pellach hwn yn 2014-15, ein bwriad yw cynnal y safle hwn. Mae'r gwelliant yn dangos ein gallu i wneud penderfyniadau amserol yng nghyswllt plant mewn angen a sicrhau y ceir yr oedi lleiaf posib wrth sicrhau y caiff eu hanghenion eu diwallu. Wrth eu cysylltu â dangosyddion eraill megis y raddfa ailgyfeirio a'r graddfeydd gwneud penderfyniadau, mae'n dangos gwelliant sylweddol yn **ein gwasanaeth ymateb cychwynnol.**




| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Môn | 80.49 | 71.68 | 77.88 |
| Wales | 76.60 | 81.20 | |
| Môn's Target | 75.00 | 75.00 | 85.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Chwartel Cymru** | Canol | Isaf | Isaf |

Yr hanes y tu ôl i'r perfformiad:

Yn hanesyddol, mae perfformiad Ynys Môn yng nghyswllt asesiadau craidd o fewn amserlen wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru. Cyn 2012-13 roeddem ymhlith y gwaethaf yng Nghymru. Yn 2012-13, bu i ni gyrraedd y chwartel canol, ond mae'r lefel hon o berfformiad wedi bod yn anodd ei chynnal. Rydym yn falch y cafwyd gwelliant o 8% ar safle 2013-14 ac rydym wedi ymrwymo'n llwyr i wneud gwelliannau pellach yn 2015-16. Rydym wedi gweld 30% o welliant er 2012-13 yn yr asesiadau craidd hynny a gwblhawyd y tu allan i'r amserlen yn 2014-15. Rydym hefyd yn cydnabod gan fod ein niferoedd yn fach, o ganlyniad , bydd dirywiad bychan mewn perfformiad yn cael mwy o effaith ar y sefyllfa gyffredinol o gymharu ag awdurdodau mwy.


## Gwybodaeth Ariannol

Bu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol gwrdd â'r gofynion cyllidol ar gyfer y flwyddyn. Yn sicr mi fydd y pwysau'n cynyddu ar gyfer 2015/16. Mae'r arbedion wedi eu hadnabod ac i'r cwrdd trwy barhau a gweithredu'r cynlluniau a gytunwyd 2014/15.

Mae'r deuddeg mis diwethaf wedi parhau i herio gwaith cyflawni gwasanaeth oherwydd pwysau sylweddol a pharhaus ar y gyllideb. Byddir yn wynebu heriau yn y dyfodol oherwydd y pwysau ariannol dros gyfnod o amser, pwysau demograffig a disgwyliadau cynyddol.


| Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Cyllideb 2014/15<br>£'000 | Gwirioneddol 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau Plant** | 6,508 | 6,240 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | |
| **- Pobl Hŷn** | 6,204 | 6,130 |
| **- Anableddau Corfforol** | 1,557 | 1,393 |
| **- Anabledd Dysgu** | 4,978 | 5,241 |
| **- Iechyd Meddwl** | 1,713 | 1,834 |
| **Gwasanaethau Cefnogi** | 647 | 630 |
| **Uned Ddarparu**<br>**(Gofal Môn / Gwasanaethau Eraill)** | 7,418 | 7,200 |
| **Gwasanaethau Eraill** | 145 | 133 |
| **CYFANSWM** | 29,171 | 28,801 |

**£126m Cyllideb Net y Cyngor (yn ôl Gwasanaeth 2014/15)**





- Cyllideb o £126 miliwn. Caiff 25% o gyllideb y Cyngor ei wario ar Ofal Cymdeithasol (6% Gwasanaethau Plant & 19% Gwasanaethau Oedolion)
- £1,613,000 oedd arbedion 2014/15 ar gyfer Gofal Cymdeithasol, sef gostyngiad o 5.34% yn erbyn cyllideb y flwyddyn flaenorol (2013/2014) o £30,205,000 - swm a gyflawnwyd gan y gwasanaeth yn llwyr.
- Nodwyd arbedion o £591,000 ar gyfer 2015/16, sef gostyngiad o 2.07% yn erbyn cyllideb y flwyddyn flaenorol (2014/2015) o £28,617,000

**£124m Cyllideb Net y Cyngor (yn ôl Gwasanaeth 2015/16)**



## Gwariant Alldro Refeniw y pen o'r boblogaeth ar Wasanaethau Cymdeithasol, 2013-14

Mae'r tabl isod, fel y cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cadarnhau mai Cyngor Sir Ynys Môn sydd â'r gwariant isaf refeniw alldro y pen o'r boblogaeth ar Wasanaethau Cymdeithasol, ar draws Cymru yn 2013-14.




Ffynhonnell: Perfformiad Gwasanaethau Awdurdodau Lleol 2013-14

Llywodraeth Cymru, Chwefror 2015

**Gwobrwyo Staff 2014**










**Gyda'r cloc o'r chwith top:**

**Gwobr 'Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig' -** Enillydd - Llinos Parry, Swyddog Recriwtio a Marchnata – Tîm Lleoli Plant; Lis Williams, Swyddog Rheoli Gwybodaeth (ar y Rhestr Fer); Tîm Pwynt Mynediad Sengl, Gwasanaethau Oedolion (ar y Rhestr Fer).

**Gwobr 'Proffesiynol a chael ei Redeg yn Dda'** - Vicky Jones, Cynorthwy-ydd Personol y Cyfarwyddwr Cymuned (ar y Rhestr Fer).

**Gwobr 'Gwerthfawrogi a Datblygu ein Pobl'** – Grŵp Dysgwyr Cymraeg Cyngor Sir Ynys Môn (ar y Rhestr Fer).

**Gwobr 'Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned'** - Janice Burnell, Cydlynydd y Gwasanaethau Plant (ar y Rhestr Fer).

## Geirfa a Gwybodaeth Gyswllt

**Geirfa**

**I cael mynediad i'r Geirfa cliciwch yma**

**Gwybodaeth Gyswllt**

Pe byddech yn dymuno rhagor o wybodaeth am unrhyw agwedd o'r adroddiad hwn, a fyddech cystal â chysylltu â:

Mrs Emma Edwards,

Rheolwraig Cefnogi Busnes,

Cyngor Sir Ynys Môn,

Swyddfeydd y Sir,

Llangefni,

Ynys Môn,

LL77 7TW.

Rhif Ffôn: 01248 751887

E-bost: ejess@anglesey.gov.uk

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar ffurfiau eraill wrth ofyn amdanynt (e.e. print bras, Braille neu glywedol)**.

| | |
|---|---|
| **Adroddiad:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 1af Rhagfyr 2015 |
| **Awdur:** | Anwen Huws<br>Pennaeth Gwasanaeth |
| **Pwnc:** | Adolygiad Achos penodol<br><br>Rhoi cyfle i'r aelodau dderbyn diweddariad gan y Panel Sgriwtini a benodwyd i graffu camau gweithredu a chynnydd y gwasanaeth yn dilyn adolygiad trylwyr gan y Pennaeth Gwasanaeth i'r ymarfer yn achos Plentyn A. |

**1. Crynodeb Gweithredol**

1.1 Penderfynodd Barnwr yn yr Uchel Lys fod y Cyngor wedi gweithredu'n anghyfreithlon wrth barhau gyda chyfnod cartrefu plentyn yn groes i ddymuniadau ei fam. Nododd y Barnwr ym mharagraff 37 y trawsgrifiad ei fod yn rhoi caniatâd i gyhoeddi'r trawsgrifiad. Roedd y Barnwr yn awyddus i sicrhau y caiff gwersi eu dysgu.

1.2 Cynhaliodd y Pennaeth Gwasanaeth adolygiad o'r achos trwy archwilio cofnodion y Gwasanaeth Plant, cofnodion cyfreithiol, a chyfweliadau gyda staff perthnasol. Adroddwyd am ganfyddiadau'r adolygiad hwn i:

i) Prif Weithredwr
ii) Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
iii) Panel Rhiant Corfforaethol
iv) AGGCC
v) HHJ Jones
vi) Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

1.3 Yn unol â chais y Pwyllgor Sgriwtini a thrafodaeth gyda'r Cynghorydd Meirion Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini, penderfynwyd sefydlu Panel i graffu ymateb y gwasanaeth i'r materion sy'n deillio o ymwneud y gwasanaeth ag achos y plentyn penodol a chynnydd y gwasanaeth yn erbyn y Cynllun Gweithredu.

2. **Pwyntiau Dysgu a nodwyd yn yr Adolygiad**

2.1 Fe wnaeth yr adolygiad adnabod enghreifftiau o arfer dda ynghyd â rhai meysydd lle gellid gwella ymarfer, a gwneir yr argymhellion a ganlyn. Roedd y rhain yn ffurfio'r sail i'r cynllun gweithredu :-

2.1.1 Dylai'r holl achosion o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant gael asesiad craidd ac asesiad risg buan; sy'n canolbwyntio ar y rhesymau am eu cofrestru a'r capasiti i wella rhiantu er mwyn lleihau'r risg.

2.1.2 Bydd y Gwasanaethau Plant yn ystyried y manteision o benodi mentor asesu am gyfnod i wella eu hymarfer asesu.

2.1.3 Dylai’r Gwasanaethau Plant ddarparu hyfforddiant goruchwyliaeth a mentora i’r holl Reolwyr Tîm ac Uwch Ymarferwyr.

2.1.4 Dylai’r Gwasanaethau Plant adolygu fformat cyfredol yr asesiad craidd.

2.1.5 Dylid adolygu fframwaith perfformiad y Gwasanaethau Plant i gynnwys amserlenni ar gyfer cwblhau asesiadau rhiantu.

2.1.6 Dylai Bwrdd Cyflawni Lleol y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant ystyried rhaglen o waith er mwyn hybu dull rhagweithiol ac integredig o ddiogelu plant lle mae gan y rhieni anhwylder iechyd meddwl.

2.1.7 Dylai Bwrdd Cyflawni Lleol y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant ystyried sicrhau bod yr holl asiantaethau yn cael eu hyfforddi/yn ymwybodol o’r teclynnau risg a ddefnyddir gan y Gwasanaethau Plant.

2.1.8 Dylai’r Gwasanaethau Plant wella sgiliau eu staff trwy hyfforddiant, mentora a goruchwyliaeth fel y gallant gyflawni eu dyletswyddau tuag at blant mewn gofal, gyda ffocws clir ar gyflawni deilliannau da trwy ymarfer ar y cyd yn effeithiol.

2.1.9 Dylai Bwrdd Cyflawni Lleol y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant sicrhau bod cynadleddau achos a chynlluniau amddiffyn plant yn canolbwyntio ar ostwng y risg, a gwerthuso model arwyddion diogelwch.

2.1.10 Dylai’r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant ystyried mabwysiadu polisi amddiffyn deuol i’r plant hynny sydd mewn gofal ac y mae eu henwau ar y gofrestr amddiffyn.

2.1.11 Dylai’r Gwasanaethau Plant:

i) Gynnal archwiliad o gronolegau
ii) Darparu hyfforddiant i’r holl Weithwyr Cymdeithasol ar sut i gadw a defnyddio cronolegau.
iii) Sicrhau y cyflwynir cronoleg i bob cynhadledd a/neu adolygiad.

2.1.12 Dylai’r Gwasanaethau Plant:

i) Ddarparu hyfforddiant i’r holl staff ar Egwyddorion a darpariaethau Deddf Plant 1989.
ii) Cynnal digwyddiad dysgu i ystyried sut ydym yn cymhwyso’r Ddeddf i achosion Adran 20.
iii) Cynnal digwyddiadau dysgu ar yr egwyddorion o weithio mewn partneriaeth gyda phlant a’u teuluoedd.

2.1.13 Bydd y Gwasanaethau Plant yn datblygu ei wybodaeth ar gyfer plant a'u teuluoedd i gynnwys canllawiau ynghylch bod mewn gofal i blant a'u teuluoedd.

2.1.14 Dylid sefydlu Cytundeb Gwasanaeth rhwng y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaethau Cyfreithiol sy'n nodi rolau, cyfrifoldebau a chynllun dirprwyo.

2.1.15 Dylai'r Gwasanaethau Plant sicrhau bod dau fater gweithredol sydd wedi'u hadnabod yn derbyn ymateb priodol.

## 3. Panel Sgriwtini – 25 Gorffennaf 2015

3.1 Aelodau'r Panel oedd y Cynghorydd Llinos Medi Huws, y Cynghorydd Lewis Davies a'r Cynghorydd Gwilym Jones.

3.2 Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau graffu'r adroddiad a baratowyd gan y Pennaeth Gwasanaeth. Nodwyd fod yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno hefyd i'r:

- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Panel Rhiant Corfforaethol
- Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Y Barnwr
- Gareth Jones

Roedd yr Aelodau'n fodlon fod y gwasanaeth wedi adolygu'r mater ac wedi adnabod gwersi i'w dysgu. Roedd yr aelodau'n fodlon eu bod wedi derbyn gwybodaeth a'u bod wedi profi trwy graffu fod y Gwasanaeth wedi gweithredu, neu yn gweithredu yn ôl y cynllun gweithredu.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** |
| **Dyddiad:** | **1 Rhagfyr, 2015** |
| **Pwnc:** | **Panel Canlyniad Sgriwtini: Gwaredu Asedau – ADRODDIAD TERFYNOL** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd J Arwel Roberts** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dim yn berthnasol** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Panel Canlyniad Sgriwtini o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol dan ofal: Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini Dros Dro**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Dim yn berthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1. CEFNDIR**

1.1 Tra'n ystyried adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Dros Dro ar fonitro cyllideb 2014/15, bu i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol[1] benderfynu sefydlu panel i edrych ar yr agwedd tuag at gael gwared o'r portfolio mân-ddaliadau ac asedau eraill. Mynegwyd pryderon yn neilltuol am y broses o werthu asedau – gan gyfeirio'n benodol at y ffaith nad oedd yr Awdurdod efallai'n gwerthu asedau'n ddigon cyflym;

1.2 Cychwynnodd y Panel ar ei waith ddechrau mis Gorffennaf, 2015. Y bu oedi sylweddol cyn i'r Panel gynnull am y tro cyntaf oherwydd cyfuniad o ffactorau gwahanol. Gwelwyd yr angen i ohirio dau gyfarfod o'r Panel a oedd wedi'u rhaglennu i'w cynnal ar 13/10/14 a 18/12/15 oherwydd nifer sylweddol o ymddiheuriadau. Teg dweud i absenoldeb salwch yn yr Uned Gwasanaethau Democrataidd hefyd ddylanwadu ar yr amserlen a chynnydd gyda'r ffrwd gwaith hwn.

**2. METHODOLEG, SGÔP AC AMCANION**

2.1 **<u>Methodoleg</u>** – 'roedd yr adolygiad wedi'i strwythuro'n unol â fframwaith polisi'r Awdurdod[2] a oedd yn cynnwys ddatblygu cynllun prosiect sgriwtini gan ddefnyddio rhai elfennau'r methodoleg Rheoli Prosiect *PRINCE 2* er mwyn atgyfnerthu cadernid i strwythur yr adolygiad gan y Panel. Cafwyd cyfanswm o 9 cyfarfod o'r Panel dros gyfnod o 4 mis (Gorffennaf – Tachwedd, 2015);

[1] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Medi, 2014
[2] Y Llawlyfr Sgriwtini i Aelodau

2.2 **Mewnbynnau** - cafwyd mewnbynnau gan y swyddogion a ganlyn yn ystod yr adolygiad:

- Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo);
- Prif Swyddog Prisio;
- Pennaeth Swyddogaeth (Trawsnewid);
- Rheolydd Trawsnewid Asedau Corfforaethol;
- Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adain 151 Dros Dro;
- Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg;
- Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau.

2.3 **Sgôp ac Amcanion** – aeth y Panel ati i edrych mewn mwy o fanylder ar drefniadau gwaredu asedau'r Cyngor drwy ganolbwyntio ar:

- Drefniadau cyfredol yr Awdurdod o waredu asedau;
- Adolygu Rhaglen Ddatblygu 5 mlynedd Mân-ddaliadau'r Cyngor (o Haf, 2016 ymlaen);
- Achos Busnes Gweithio'n Gallach: darnau perthnasol i waredu asedau;
- Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft ar gyfer Tiroedd ac Adeiladau.

2.4 **Aelodaeth y Panel:**

- Cyng R Meirion Jones (Cadeirydd), Llinos Medi Huws, Jim Evans a Raymond Jones;
- Dewi R Williams, Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo);
- T Dylan Edwards, Prif Swyddog Prisio;
- Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini Dros Dro.

2.5 **Sylwadau Ychwanegol gan y Panel:** wrth adlewrychu'n ôl ar daith y 4 mis diwethaf, nododd Aelodau'r Panel rai sylwadau'n eu cyfarfod olaf (11/11/15):

- Er yn llawn gwerthfawrogi fod yna gryn ddyblygu rhwng cynnwys cofnodion cyfarfodydd y Panel a'r adroddiad terfynol, 'roedd hi'n ddymuniad clir gan yr Aelodau Etholedig i'w cynnwys fel atodiad i'r adroddiad pan y cyhoeddir ef ar safle we'r Cyngor ddiwedd y flwyddyn galendr. Nododd yr Aelodau mai'r tro hwn yn unig y dylid gweithredu yn y modd hwn er mwyn amlygu'r llwyth gwaith a thystioli'n uniongyrchol gwerth ychwanegol y swyddogaeth Sgriwtini i brosesau gwneud penderfyniadau a datblygu polisi'r Cyngor;
- Dylai'r adroddiad amgaeedig gan y Panel Sgriwtini Gwaredu Asedau osod sylfaen a chynsail i batrwm gwaith, mewnbynnau a fformat cyflwyno adroddiadau terfynol ar gyfer paneli sgriwtini eraill y Cyngor i'r dyfodol;
- 'Roedd bwriad gan y Panel i ail ymgynnull ymhen 9 mis (Medi, 2016) er mwyn monitro cynnydd gyda'r gwaith o ddiwygio'r Ddogfen Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau a hefyd edrych ar y Rhaglen Ddatblygu ar gyfer Mân-ddaliadau'r Cyngor.

## 3. CASGLIADAU AC ARGYMELLION YR ADRODDIAD

Daeth y Panel i 6 prif gasgliad:

**3.1 CASGLIAD 1:** Yr angen i sicrhau Dogfen Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau cyfredol fel sylfaen gadarn i waith y Cyngor;

**3.2 CASGLIAD 2:** Pwysigrwydd sicrhau trefn o adrodd rheolaidd gan y Swyddogaeth Gyllid ar ddyledion rhenti a materion cysylltiedig;

**3.3 CASGLIAD 3:** Yr angen i sicrhau estyniad i'r Rhaglen Ddatblygu ar gyfer yr ystad Mân-ddaliadau ym merchnogaeth y Cyngor;

**3.4 CASGLIAD 4:** Cydnad cyfraniad elfennau asedau'r ffrwd gwaith Gweithio'n Gallach at waredu asedau;

**3.5 CASGLIAD 5:** Yr angen am graffu cyn-penderfyniad ar y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft ar gyfer Tiroedd ac Adeiladau (cyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith);

**3.6 CASGLIAD 6:** Archwiliad o restr eiddo/asedau'r Awdurdod i graffu gweithrediad y Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau.

**Mae'r Adroddiad Terfynol ynghlwm (ATODIAD 1) yn manylu ar ystyriaethau a sylwadau'r Panel ynghyd â'r 25 argymhelliad unigol a gytunwyd gan y Panel.**

## 4. AMSERLEN AR GYFER Y CERRIG MILLTIR YN WEDDILL I'R BROSES

| DYDDIAD | CARREG FILLTIR |
|---|---|
| 14/12/15 | **Pwyllgor Gwaith** – derbyn yr Adroddiad Terfynol gydag argymhelliad i gymeradwyo'r 6 prif gasgliad a'r 25 argymhelliad unigol. |
| Diwedd Rhagfyr, 2015 | **Cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol** – ar safle we'r Cyngor. |

## 5. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (rhiant bwyllgor):

**5.1 Gymeradwyo'r Adroddiad Terfynol ynghyd â'i 6 prif gasgliad a'r 25 argymhelliad unigol;**

**5.2 Gytuno i gyflwyno'r Adroddiad Terfynol er cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr, 2015;**

**5.3 Gynnwys cofnodion holl gyfarfodydd y Panel Canlyniad Sgriwtini fel atodiad i'r Adroddiad Terfynol pan y cyhoeddir efo ar safle we'r Cyngor ddiwedd y flwyddyn galendr a hynny am y tro hwn yn unig;**

**5.4 Gymeradwyo i'r Adroddiad Terfynol hwn osod sylfaen a chynsail i batrwm**

| |
|---|
| **gwaith, mewnbynnau a fformat cyflwyno adroddiadau terfynol ar gyfer paneli sgriwtini eraill y Cyngor i'r dyfodol;**<br>**5.5 Nodi bwriad y Panel i ail ymgynnull ymhen 9 mis (Medi, 2016) er mwyn monitro cynnydd gyda'r gwaith o ddiwygio'r Ddogfen Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau a hefyd edrych ar y Rhaglen Ddatblygu ar gyfer Mân-ddaliadau'r Cyngor.** |
| |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Dim yn berthnasol. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Fel yr amlinellir yn y Rheolau Gweithdrefn Sgriwtini sy'n gynwysiedig yng Nghyfansoddiad y Cyngor. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydy. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Dim yn hysbys. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Terfynol y Panel Canlyniad Sgriwtini gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn ei gyfarfod ar 23/11/15 a chyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:<br>i. Derbyn cynnwys yr adroddiad gan y Panel Canlyniad Sgriwtini. Nodi argymhelliad 6.1 a chefnogi'r Aelodau i ddod i benderfyniad ynglŷn â pha baneli fyddai angen bod yn rhai tasg |

| | | |
|---|---|---|
| | | a gorffen a pha rai'n rhai parhaol;<br>ii. **CASGLIAD 1**: derbyn yr angen i sicrhau Dogfen Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau a oedd yn gyfredol;<br>iii. **CASGLIAD 2**: byddai sicrhau trefn o adrodd rheolaidd gan y Swyddogaeth Gyllid ar ddyledion rhenti a materion cysylltiedig yn derbyn sylw fel rhan o raglen waith gan swyddogion;<br>iv. **CASGLIAD 3**: cydnabod i estyniad i'r Rhaglen Ddatblygu ar gyfer yr ystad Mân-ddaliadau gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 20/07/15;<br>v. **CASGLIAD 4**: nodi sylwadau'r Panel ar y ffrwd gwaith Gweithio'n Gallach;<br>vi. **CASGLIAD 5**: nodi sylwadau'r Panel Sgriwtini ar y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft ar gyfer Tiroedd ac Adeiladau;<br>vii. **CASGLIAD 6**: byddai'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn edrych ar y ffordd orau i adrodd i Aelodau i'r dyfodol ar waredu asedau. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151**<br>(mandadol) | Cyfranodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Adain 151 Dros Dro a'r Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau i Gyfarfod 6 y Panel Canlyniad Sgriwtini (cynhaliwyd ar 29/09/15) ac ymgynghorwyd â hwynt ar gynnwys adroddiad drafft y Panel. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro**<br>(mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dim yn berthnasol. |
| **5** | **Eiddo** | 'Roedd y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) a'r Prif Swyddog Prisio'n aelodau craidd y Panel Canlyniad Sgriwtini. Ymgynghorwyd â'r Gwasanaeth ar gynnwys adroddiad drafft y Panel ac adlewyrchwyd eu sylwadau yn Adroddiad Terfynol y Panel. |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Dim sylwadau. |
| **7** | **Sgriwtini** | Tra'n ystyried adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/A151 Dros Dro ar fonitro'r gyllideb refeniw, bu'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (01/09/14) sefydlu'r Panel Canlyniad Sgriwtini hwn i edrych ar yr agwedd at gael gwared o'r portffolio mân- |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddaliadau ac asedau eraill. Mynegwyd pryderon yn neilltuol am y broses o werthu asedau – gan gyfeirio'n benodol at y ffaith nad oedd yr Awdurdod efallai'n gwerthu asedau'n ddigon cyflym. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Dim yn berthnasol. |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Bu yna ymdrechion sylweddol aflwyddiannus ar ran y Panel Sgriwtini i geisio mewnbwn arbenigol, allanol a di-duedd ar fersiwn gyfredol Dogfen Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau'r Cyngor (cyfeirir at baragraff 3.3.1 o'r Aroddiad Terfynol). |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Dim yn berthnasol. |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Dim yn berthnasol. |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Dim yn berthnasol. |
| **4** | **Amgylcheddol** | Dim yn berthnasol. |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Dim yn berthnasol. |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Dim yn berthnasol. |
| **7** | **Arall** | Dim yn berthnasol. |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Panel Canlyniad Sgriwtini: Gwaredu Asedau – Adroddiad Terfynol. |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Cadeirydd y Panel Canlyniad Sgriwtini d/o Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini Dros Dro, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW. |

**ATODIAD 1**

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI: GWAREDU ASEDAU
# <u>ADRODDIAD TERFYNOL</u>

SCRUTINY

*"It has been identified that a poor fit between service requirements and the property asset from which it is delivered is a risk to the Authority. If the asset does not support service delivery it will detract from the Council's services to its citizens"*

*[Public Sector Asset Management Guide to Best Practice]*

Uned Sgriwtini Corfforaethol

Tachwedd, 2015

# Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r canlynol sydd wedi rhoi o'u hamser yn ystod yr adolygiad hwn. Gwelwyd eu ymgysylltu, cyfranogiad a chyfraniadau llawn yn hwyluso'r dasg dan sylw ac o ganlyniad yn ei gwneud yn bosibl i'r Panel gwblhau'r gwerthusiad oddi mewn i'r amserlen. Hoffem hefyd gydnabod y ffaith i ni gael mynediad pen agored i'r holl ffynonellau data, llenyddiaeth a dogfennau perthnasol ac o ganlyniad yn galluogi adolyiad llawn a chynhwysfawr o elfennau allweddol prosesau a gweithdrefnau gwaredu asedau'r Cyngor:

- Dewi R Williams, Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo);
- T Dylan Edwards, Prif Swyddog Prisio;
- Chris Staddon, Rheolydd Trawsnewid Asedau Corfforaethol;
- Richard Micklewright, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adain 151 Dros Dro;
- Bethan Hughes Owen, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg;
- Geraint H Jones, Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau.

## Pam mae hyn yn bwysig



Cynghorydd R Meirion Jones

# Cyflwyniad gan Gadeirydd y Panel

'Rydym oll fel Aelodau a Swyddogion, 'rwy'n siwr, yn gweld pwysigrwydd i'n hasedau a sut maent yn rhan o'r drefn i gyflwyno gwasanaethau.

Cyfeiriaf at y dyfyniad ar dudalen flaen yr adroddiad hwn. Gwnaethom fel Panel Canlyniad Sgriwtini: Gwaredu Asedau, gyda chymorth Swyddogion, ein gorau i wyntyllu gwahanol agweddau'r dyfyniad ac wedi'r dadansoddiad manwl 'rydym yn cyflwyno ein darganfyddiadau yn gasgliadau ac argymhellion. Gobeithiaf fod ein gwaith am gael ei dderbyn gan y Pwyllgor Gwaith i gynorthwyo efo symud Cyngor Sir Ynys Môn yn ei flaen.

Credaf ein bod wedi gwneud gwaith defnyddiol sy'n berthnasol i'r Cynllun Corfforaethol. Wrth ganolbwyntio ar Gwsmeriaid, Dinasyddion a Bro mae'r Cyngor yn addo "… archwilio ansawdd yr adeiladau y mae cwsmeriaid yn derbyn eu gwasanaethau ynddynt, gan anelu at gyrraedd safon gyson ar draws y Cyngor sy'n cyflwyno'r ddelwedd gywir ar gyfer y gwasanaethau sydd ar gael…"[1]

Mae Adroddiad Blynyddol Sgriwtini (Mai, 2015) yn cyfeirio at Adroddiad Williams a'r gofyn am .."gydnabod pwysigrwydd a gwerth gwaith craffu wrth wella gwasanaethau i bobl a sefydliadau…" Gwna Adroddiad Williams nifer o ddatganiadau cefnogol i'r drefn graffu gan gynnwys "Rhaid i sefydliadau ystyried craffu fel buddsoddiad i sicrhau gwelliannau ac arbedion yn y dyfodol." Gobeithio bod ein gwaith yn y mater drwy'r adroddiad hwn yn cyfrannu at y "gwerth gwaith" a'r "gwelliannau" hynny.

Fel Cadeirydd, mae'n galonogol derbyn sylw positif a chadarnhaol gan Swyddog ar waith y Panel a hynny cyn diwedd y gwaith a chyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol! Dywedwyd bod gwaith y Panel wedi bod yn sbardun i ail gychwyn trefn o gyfarfodydd rheolaidd rhwng Swyddogion Eiddo a Chyllid (gweler Argymhelliad 2.4).

'Rydym fel Panel wedi dod i'r casgliad fod gennym swyddogion sy'n gwneud gwaith mewn ffordd gydwybodol a phroffesiynol ac 'rydym yn ymddiried yn eu gallu a'u proffesiynoldeb.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i Aelodau'r Panel am eu cyfraniadau mewn amser, ymroddiad a sylwadau ac i Swyddog y Panel am ei gwaith trylwyr ac amserol.

[1] Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn 2013-2017

# Mynegai o'r Cynnwys

Diolchiadau
Cyflwyniad gan Gadeirydd y Panel

Tudalen / *Page*

1. **Crynodeb Gweithredol** **5**

**ADRODDIAD LLAWN Y PANEL**

2. **Cefndir** **10**
3. **Methodoleg, Sgôp ac Amcanion** **10**
4. **Casgliadau** **12**
5. **Argymhellion** **17**
6. **Llyfryddiaeth / Papurau Cefndir** **21**

**Atodiad**
Cylch Gorchwyl: Panel Canlyniad Sgriwtini **ATODIAD 1**

# 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1 **Amcanion a Sgôp yr Adolygiad**

Edrych mewn mwy o fanylder ar drefniadau gwaredu asedau'r Cyngor gyda'r deilliannau isod wedi'u datgan gan y Panel i gefnogi eu gwerthusiad:

i. Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau diwygiedig i'r Cyngor;
ii. Sicrhau trefn o adrodd rheolaidd gan y Swyddogaeth Gyllid ar ddyledion rhenti a materion cysylltiedig;
iii. Argymell y Cyngor i ymestyn y Rhaglen Ddatblygu Mân-ddaliadau am flwyddyn ychwanegol (gan ddod i derfyn ym Mawrth, 2017);
iv. Craffu cyn-penderfyniad ar y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft ar gyfer Tiroedd ac Adeiladau (cyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith).

1.2 **Methodoleg/Tystiolaeth/Mewnbynnau a ystyriwyd**

Gwelwyd yr adolygiad wedi'i strwythuro'n unol â'r fframwaith polisi'n gynwysiedig yn y Llawlyfr Sgriwtini Aelodau. 'Roedd hyn yn cynnwys cynllun prosiect sgriwtini gan ddefnyddio rhai elfennau'r methodoleg Rheoli Prosiect (*PRINCE2*) er mwyn atgyfnerthu cadernid i strwythur yr adolygiad gan y Panel. Cafwyd cyfanswm o 9 cyfarfod o'r Panel dros gyfnod o 4 mis (rhwng Gorffennaf – Tachwedd, 2015).

1.3 **Aelodaeth y Panel Canlyniad Sgriwtini**

- Cynghorydd R Meirion Jones (Cadeirydd);
- Cynghorydd Llinos Medi Huws[2];
- Cynghorydd Jim Evans;
- Cynghorydd Raymond Jones;
- Dewi Williams, Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo);
- T Dylan Edwards, Prif Swyddog Prisio;
- Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini Corfforaethol Dros Dro.

1.4 **Casgliadau**

**CASGLIAD 1:** Yr angen i sicrhau Dogfen Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau cyfredol fel sylfaen gadarn i waith y Cyngor.

**CASGLIAD 2**: Pwysigrwydd sicrhau trefn o adrodd rheolaidd gan y Swyddogaeth Gyllid ar ddyledion rhenti a materion cysylltiedig.

**CASGLIAD 3**: Yr angen i sicrhau estyniad i'r Rhaglen Ddatblygu ar gyfer yr ystad Mân-ddaliadau ym merchnogaeth y Cyngor.

**CASGLIAD 4:** Cydnabod cyfraniad elfennau asedau'r ffrwd gwaith Gweithio'n Gallach at waredu asedau.

**CASGLIAD 5**: Yr angen am graffu cyn-penderfyniad ar y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft ar gyfer Tiroedd ac Adeiladau (cyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith).

**CASGLIAD 6:** Archwiliad o restr eiddo/asedau'r Awdurdod i graffu gweithrediad y Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau

[2] Wedi cymryd lle'r Cyng Peter Rogers.

## 1.5 Argymhellion

Mae'r Panel yn argymell y canlynol i'r Pwyllgor Gwaith:

| |
|---|
| **Yr angen i sicrhau Dogfen Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau cyfredol fel sylfaen gadarn i waith y Cyngor** |

| ADRAN Y POLISI | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| Gwaredu Asedau a Gosod Asedau | Diwygio Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau'r Cyngor:<br>• I adlewyrchu strwythur newydd y Penaethiaid Gwasanaeth;<br>• Trothwyon ariannol a dulliau marchnata a gwaredu (i adlewyrchu ymarfer cyfredol y farchnad) – er symleiddio a safoni'r broses. |
| Prynu Eiddo | Diwygio'r Polisi i adlewyrchu'r ffaith nad oedd yr angen yn bodoli bellach i gyflwyno manylion yr holl eiddo a brynwyd fel gwybodaeth i'r Pwyllgor Gwaith |
| ---------------------------- | Sicrhau'r pris a'r gwerth gorau wrth waredu asedau fel mater o drefn gan ddefnyddio barn broffesiynol. |
| Gwaredu Asedau, Gosod Asedau, Prynu Eiddo | Diwygio elfennau canlynol y Ddogfen Bolisi mewn modd fyddai'n sicrhau taro cyd-bwysedd rhwng galluogi swyddogion i weithredu ar sail eu barn proffesiynol a sicrhau'r pris gorau i'r Cyngor:<br>• Trothwyon ariannol;<br>• Adlewyrchu ymarfer cyfredol wrth geisio gwaredu eiddo |
| Gwaredu Asedau, Gosod Asedau, Rheoli Les/Eiddo | O ystyried yr angen i barhau bellach gyda'r ymarfer o sicrhau mewnbwn gan Aelodau Lleol ar faterion gwaredu eiddo, dylid ail ddiffinio mewnbwn yr Aelodau i'r dyfodol gyda'r amcan o rannu gwybodaeth yn unig ar ddecrhrau'r broses (yn hytrach nag ymgynghori). Y rhannu gwybodaeth i ddigwydd drwy ebost. |
| Trosglwyddo Asedau | • Ail ddrafftio Adran 7 y ddogfen er mwyn sicrhau cysondeb gyda gweddill y Ddogfen Bolisi a hefyd creu datganiad haws i'w ddilyn/gyfathrebu gan ddefnyddio dogfennau Wrecsam fel canllaw ynghyd â ffurflenni yn nogfenaeth Sir Fflint;<br>• Nodi bod yna achosion penodol gyda gwaredu rhai asedau ee rhaglen drawsnewid addysg ble oedd angen sicrhau gwerth y farchnad er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol. |
| ---------------------------- | Sicrhau clirdeb yn y ddogfen ar y cerrig milltir ac amserlenni wrth waredu asedau unigol. |

**2. Pwysigrwydd sicrhau trefn o adrodd rheolaidd gan y Swyddogaeth Gyllid ar ddyledion rhenti a materion cysylltiedig**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| **2.1** | Cyflwyno Debyd Uniongyrchol fel y dull talu ar gyfer unrhyw denantiaethau/brydlesi newydd (i'w dalu mis ymlaen llaw) gan weithredu o 1 Tachwedd, 2015. |
| **2.2** | Ceisio gosod taliad Debyd Uniongyrchol mewn unrhyw sefyllfaoedd ble byddai'n rhaid i'r Cyngor ad-ennill dyled gan denant. |
| **2.3** | Ceisio dwyn perswâd ar denantiaid cyfredol y Cyngor i drosglwyddo i Ddebyd Uniongyrchol gyn gynted â phosibl. |
| **2.4** | Nodi i waith y Panel Canlyniad Sgriwtini hwn fod yn sbardun i ail gychwyn trefn o gyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddogion Eiddo a Chyllid (amcan: sianel gyfathrebu a llif amserol o wybodaeth). 'Roedd angen sicrhau parhad yn y cyfarfodydd hyn ar sail pob 4/6 wythnos dros y cyfnod nesaf. |
| **2.5** | Symud ymlaen i sicrhau cyswllt electroneg rhwng systemau Eiddo a Chyllid (Technology Forge a Civica) gyn gynted â phosibl. |
| **2.6** | Cyflwyno adroddiad ar ddyledion rhenti tenantiaethau mân-ddaliadau i'r Swyddog Adain 151 fel mater o flaenoriaeth. |
| **2.7** | Ystyried y priodoldeb o gyflwyno prosiect gwario i arbed gyda golwg ar ddatblygu trefniadau hunan-gyllidol ar gyfer taliadau gwasanaeth eiddo (*"service charges"*) tenantiaid. |
| **2.8** | Sicrhau llif gwybodaeth rheolaidd rhwng Cyllid ac Eiddo ar ddyledion rhenti er sicrhau gweithredu amserol gan yr Awdurdod i ad-ennill. |
| **2.9** | Cyflwyno trefn ffurfiol, rheolaidd o adrodd ar ddyledion i Aelodau Etholedig ee chwarterol. |

**3. Yr angen i sicrhau estyniad i'r Rhaglen Ddatblygu ar gyfer yr ystad Mân-ddaliadau ym merchnogaeth y Cyngor**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| **3.1** | Yn sgîl y gwelliant sylweddol yng nghyflwr yr asedau, peidio ag adolygu'r elfen Mân-ddaliadau eto ar hyn gan ystyried y priodoldeb o ail ymweld â'r maes yn ystod Haf, 2016. |
| **3.2** | Gwahodd y Gwasanaeth Eiddo i gyflwyno cynllun datblygu Mân-ddaliadau am y cyfnod y tu hwnt i'r Rhaglen gyfredol – gyda'r amcan o alluogi'r portffolio asedau hwn i wireddu ei lawn botensial. |
| **3.3** | Gofyn i Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymell y canlynol i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 20 Gorffennaf, 2015[3]:<br>• Sicrhau estyniad blwyddyn i'r Rhaglen Ddatblygu Mân-ddaliadau i alluogi'r rhaglen i wireddu'n gyflawn;<br>• Yr angen i gyflwyno cynllun datblygu tymor canol i'r portffolio Mân-ddaliadau (amcan: gwireddu llawn botensial y portffolio). |

[3] Eisoes wedi'i weithredu oherwydd amserlen cyflwyno'r eitem er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith (20/07/15)

**4. Cydnabod cyfraniad elfennau asedau'r ffrwd gwaith Gweithio'n Gallach at waredu asedau**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| 4.1 | Cadarnhau'r pwysigrwydd o sicrhau prisiant cyfredol ar gyfer asedau. |
| 4.2 | Yr angen i sicrhau bod yr holl wybodaeth i law (hy gwerthusiad opsiynau wedi'i gostio) wrth gyflwyno argymhellion i Aelodau i waredu unrhyw asedau. |
| 4.3 | Yr angen i gadw mewn cof y penderfyniadau posibl gan y Cyngor ar drawsnewid gwasanaethau dros y cyfnod nesaf er mwyn sicrhau penderfyniadau cydlynus ac osgoi colli cyfleoedd (osgoi gwneud penderfyniadau unigol heb ystyriaeth i'r darlun ehangach). |
| 4.4 | Cadarnhau'r angen i gyflymu'r broses o waredu ased pan fo'r penderfyniad wedi'i wneud nad oedd defnydd iddo bellach. |
| 4.5 | Nodi y byddai Parc Mownt yn rhan sylweddol o wireddu'r Prosiect Gweithio'n Gallach ac i raddau helaeth yn brawf o lwyddiant/ effeithiolrwydd y gwaith cyfan – gyda photential i greu incwm sylweddol i'r Awdurdod. |

**5. Yr angen am graffu cyn-penderfyniad ar y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft ar gyfer Tiroedd ac Adeiladau (cyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith)**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| **5.1** | Pwysleisio mewn modd fwy amlwg arwyddocâd neges y dyfyniad isod gan y *RICS*:<br>*"It has been identified that a poor fit between service requirements and the property asset from which it is delivered is a risk to the Authority. If the asset does not support service delivery it will detract from the Council's services to its citizens."*<br>(*Public Sector Asset Management Guide to Best Practice*). |
| **5.2** | Cryfhau ymhellach y Model Strategaeth Ased (tudalen 13 y Cynllun) er mwyn:<br>• Sicrhau atebolrwydd – wrth i wasanaethau graffu ac herio'n barhaus yr angen i gadw llawer o'u hasedau (trwy'r Grŵp Corfforaethol ar gyfer Asedau);<br>• Sicrhau clirdeb – parthed rôl a chyfraniad craffu i'r model (swyddogaethau craffu cyn-penderfyniad a galw mewn);<br>• Amrediad y modelau ar gyfer pob ased – ychwanegu model cadw a chynnal yr ased yn ei ffurf gyfredol at yr amrediad opsiynau i'w hystyried. |
| **5.3** | **<u>Atodiad 2</u>**: Angen cryfhau'r berthynas rhwng y Grŵp Asedau Corfforaethol a'r 2 Fwrdd Trawsnewid arfaethedig (trwy'r trefniadau llywodraethu). |
| **5.4** | **<u>Gyrrwr Allweddol 2: Gwireddu Arbedion</u>**<br>• Adolygu'r wybodaeth yn gynwysiedig yn fersiwn gyfredol y Cynllun er sicrhau cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf yn y fersiwn fyddai gerbron y Pwyllgor Gwaith (amcan: sicrhau Cynllun Rheoli Asedau mor gyfredol (*future proof)* â phosibl);<br>• Angen pwysleisio'r amcan o facsimeiddio adnoddau yn sgîl gwerthiant asedau yn ogystal â lleihad yn nifer yr asedau ym merchnogaeth y |

| | |
|---|---|
| | Cyngor;<br>• Ychwanegu gwasanaethau hamdden/treftadaeth/ieuenctid at y rhestr o wasanaethau fydd yn flaenoriaeth i'w trawsnewid (er sicrhau'r rhestr fwyaf gyfredol);<br>• Arall eirio brawddeg olaf y datganiad – i bwysleisio fod yna asedau eraill o eiddo'r Cyngor gyda'r potensial i wireddu arbedion effeithiolrwydd ychwanegol (hy asedau a oedd o bosibl y tu allan i'r strategaeth arbedion effeithiolrwydd cyfredol). |
| **5.5** | **Gyrrwr Allweddol 3: Darparu Gwasanaethau i'r Dyfodol**<br>• Angen hefyd ystyried yr egwyddor y gallai rhai asedau gynhyrchu incwm wrth eu cadw'n ogystal â thrwy waredu. Angen gofyn cwestiwn – a oedd yn gwneud synnwyr busnes i gadw neu waredu ased?<br>• Pwysleisio'r angen i gwblhau gwerthusiad opsiynau pan yn ystyried yr egwyddor o ddatblygu unedau masnachol fel eu bod yn cynhyrchu incwm i'r Awdurdod;<br>• Atgyfnerthu'r cyswllt i dechnoleg – fel galluogwr. Nodwyd hefyd yr angen am fuddsoddiad yn y maes hwnnw. |
| **5.6** | **Gyrrwr Allweddol 4: Lleihau Ymrwymiadau Cynnal a Chadw**<br>• Angen pwysleisio gwerth ariannol yr ôl-groniad cyfredol yng nghostau cynnal a chadw stoc asedau'r Cyngor (£18m ar hyn o bryd);<br>• Ystyried y priodoldeb o ddatblygu elfen ychwanegol i'r Cynllun Rheoli Asedau (ysgolion) – anogaeth ar gyrff llywodraethol a chymdeithasau athrawon/rhieni ysgolion/cymunedau i gymryd cyfrifoldeb am gostau a threfniadau gwaith cynnal a chadw ysgolion a hynny oddi mewn i drothwyon clir. |

**Nid oedd unrhyw argymhellion gan y Panel Canlyniad Sgriwtini ar Gasgliad 6: Archwiliad o restr eiddo/asedau'r Awdurdod i graffu gweithrediad y Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau.**

| **6.Mater Cyffredinol** |
|---|

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| **6.1** | Penderfynu pa baneli canlyniad sgriwtini oedd angen bod yn rhai tasg a gorffen a pha baneli yn rhai parhaol. Dylid ystyried y priodoldeb o gadarnhau statws y Panel Gwaredu Asedau fel un parhaol. |

# ADRODDIAD LLAWN Y PANEL

## 2. CEFNDIR

2.1 Tra'n ystyried adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Dros Dro ar fonitro cyllideb 2014/15, bu i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol[4] benderfynu sefydlu panel i edrych ar yr agwedd tuag at gael gwared o'r portffolio mân-ddaliadau ac asedau eraill. Mynegwyd pryderon yn neilltuol am y broses o werthu asedau – gan gyfeirio'n benodol at y ffaith nad oedd yr Awdurdod efallai'n gwerthu asedau'n ddigon cyflym.

2.2 Y bu oedi sylweddol cyn i'r Panel Canlyniad Sgriwtini gynnull am y tro cyntaf oherwydd cyfuniad o ffactorau gwahanol. Gwelwyd yr angen i ohirio dau gyfarfod o'r Panel a oedd wedi'u rhaglennu i'w cynnal ar 13/10/14 a 18/12/14 oherwydd nifer sylweddol o ymddiheuriadau. Teg dweud i absenoldeb salwch yn yr Uned Gwasanaethau Democrataidd hefyd ddylanwadu ar yr amserlen a chynnydd gyda'r ffrwd gwaith hwn. Bu i'r Panel gychwyn ar ei waith ddechrau mis Gorffennaf, 2015.

## 3. METHODOLEG, SGÔP AC AMCANION

3.1 **Aelodaeth y Panel Canlyniad Sgriwtini**

- Cynghorydd R Meirion Jones (Cadeirydd);
- Cynghorydd Llinos Medi Huws[5];
- Cynghorydd Jim Evans;
- Cynghorydd Raymond Jones;
- Dewi Williams, Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo);
- T Dylan Edwards, Prif Swyddog Prisio;
- Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini Corfforaethol Dros Dro.

3.2 **Amcanion a Sgôp yr Adolygiad**

Edrych mewn mwy o fanylder ar drefniadau gwaredu asedau'r Cyngor gyda'r deilliannau isod wedi'u datgan gan y Panel i gefnogi eu gwerthusiad:

i. Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau diwygiedig i'r Cyngor;
ii. Sicrhau trefn o adrodd rheolaidd gan y Swyddogaeth Gyllid ar ddyledion rhenti a materion cysylltiedig;
iii. Argymell y Cyngor i ymestyn y Rhaglen Ddatblygu Mân-ddaliadau am flwyddyn ychwanegol (gan ddod i derfyn ym Mawrth, 2017);
iv. Craffu cyn-penderfyniad ar y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft ar gyfer Tiroedd ac Adeiladau (cyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith).

Mae manylion llawn amcanion, sgôp a deilliannau'r Adolygiad yn y Cylch Gorchwyl a fabwysiadwyd gan y Panel (**ATODIAD 1**).

3.3 **Methodoleg/Tystiolaeth/Mewnbynnau a ystyriwyd**

3.3.1 **Methodoleg/Tystiolaeth** : bu i'r Adolygiad gael ei strwythuro'n unol â fframwaith polisi'r Awdurdod[6]. 'Roedd hyn yn cynnwys ddatblygu cynllun prosiect sgriwtini gan ddefnyddio rhai elfennau methodoleg Rheoli Prosiect (*PRINCE2*) er mwyn atgyfnerthu cadernid i strwythur yr

[4] Pwyllgor Sgriwtini Corffaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Medi, 2014.
[5] Wedi cymryd lle'r Cyng Peter Rogers.
[6] Y Llawlyfr Sgriwtini Aelodau.

adolygiad gan y Panel. Cafwyd cyfanswm o 9 cyfarfod o'r Panel dros gyfnod o 4 mis (rhwng Gorffennaf – Tachwedd, 2015) - gan weithio i'r Atodlen canlynol:

**ATODLEN WAITH: PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI [ASEDAU]**

| CYFARFOD | MATERION YN DERBYN FFOCWS | TYSTIOLAETH WRTH LAW |
|---|---|---|
| 1 | Cylch gorchwyl, cynllun prosiect a gosod y cyd-destun; olrhain y Panel drwy'r Ddogfen Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. | Dogfen Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau'r Cyngor |
| 2 | Ystyriaeth bellach o'r cylch gorchwyl, y cynllun prosiect a chytundeb ar gwestiynau/llinellau i'w dilyn/cyfeiriad yr Adolygiad Sgriwtini. | Dogfen Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau'r Cyngor |
| 3 | Ystyriaeth fanwl o Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau'r Cyngor, cytuno'r ffordd ymlaen parthed mewnbwn allanol, arbenigol. | Dogfen Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau'r Cyngor |
| 4 | Ymchwilio rhestr y Cyngor o eiddo/asedau i'w gwaredu, cyd-ystyriaeth o sylwadau'r Panel ar Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau'r Cyngor gyda'r Pennaeth Gwasanaeth/Prif Swyddog Prisio. | Rhestr eiddo/asedau'r Cyngor |
| 5 | Cyfraniad y Prosiect Gweithio'n Gallach i waredu asedau. | Cynllun Busnes Llawn: Gweithio'n Gallach (darnau perthnasol i waredu asedau – tud11 - 14) |
| 6 | Cyd-drafodaeth gyda swyddogion Eiddo a Chyllid ar faterion rheoli dyledion rhenti, crynhoi darganfyddiadau'r Panel parthed ei ymchwiliad o'r ddogfen Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau a'r Prosiect Gweithio'n Gallach. | Dogfen Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau'r Cyngor |
| 7 | Craffu cyn-penderfyniad ar y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft ar gyfer Tiroedd ac Adeiladau (cyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith). | Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft ar gyfer Tiroedd ac Adeiladau |
| 8 | Adroddiad drafft 1 y Panel, tynnu casgliadau a chytuno ar argymhellion. | Dim yn berthnasol |
| 9 | Cytuno adroddiad terfynol y Panel Canlyniad Sgriwtini. | Dim yn berthnasol |

Mae'r holl ddogfennau a wnaed adolygiad pen bwrdd ohonynt wedi'u rhestru yn Adran 6: **Llyfryddiaeth** o'r adroddiad hwn.

3.3.2 **Mewnbynnau**: Yn ystod yr Adolygiad, cafwyd mewnbynnau gan y swyddogion a ganlyn:

- Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo);
- Prif Swyddog Prisio;
- Pennaeth Swyddogaeth (Trawsnewid);
- Rheolydd Trawsnewid Asedau Corfforaethol;

- Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adain 151 Dros Dro;
- Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg;
- Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau.

3.3.3 **Maincnodi/Barn Annibynnol**: Bu i'r Panel gwblhau gwaith maincnodi pen bwrdd ar un elfen o'i Adolygiad sef ymarfer Trosglwyddo Asedau (Adran 7: Dogfen Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau'r Cyngor). Derbyniwyd gwybodaeth gan 4 o'r 5 Awdurdod Lleol arall yng Ngogledd Cymru. Yn ogystal, bu yna ymdrechion sylweddol ar ran y Panel Sgriwtini i geisio mewnbwn arbenigol, allanol a di-duedd ar fersiwn gyfredol Dogfen Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau'r Cyngor drwy 2 ffynhonnell. Y cyntaf drwy Brifysgolion Aberystwyth ac Harper Adams gan ddod i'r casgliad nad oeddent yn cynnig gwasanaeth cynghori, arbenigol yn y maes polisiau/gweithdrefnau rheoli asedau. Yr ail oedd y *Royal Institute of Chartered Surveyors* (RICS – corff proffesiynol y syrfewyr[7]). Cyflwynwyd brîff amlinellol i'r corff proffesiynol i wahodd diddordeb i gwblhau'r gwaith. Yn sgîl ystyriaeth gychwynnol drwy'r RICS, daethpwyd i'r casgliad y byddai cost sylweddol wrth gomisiynu'r gwaith a hynny heb yr adnoddau ariannol i'w gyllido. Mynegwyd consyrn hefyd ynglŷn â'r egwyddor o wahodd barn gan asiantwyr allanol a oedd o bosibl gyda diddordeb breintiedig.

# 4. CASGLIADAU

CASGLIAD 1**: Yr angen i sicrhau Dogfen Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau cyfredol fel sylfaen gadarn i waith y Cyngor**

Cafodd y Ddogfen Bolisi[8] ystyriaeth fanwl yn holl gyfarfodydd y Panel gyda'r amcanion canlynol mewn golwg:

i. Cael golwg ffresh, annibynnol ar y trefniadau (gan ystyried y posibilrwydd o geisio barn arbenigol, allanol);
ii. Adlewyrchu arfer da, cyfredol;
iii. Sicrhau'r pris gorau wrth waredu asedau (ee gwerthu).

Bu i'r Panel Sgriwtini'n edrych mewn manylder ar yr holl agweddau rheoli asedau'n y ddogfen sef – gwaredu a gosod asedau, rheolaeth brydles/eiddo, dyledion rhenti, prynu eiddo a throsglwyddo asedau. Cafwyd cyd-drafodaeth hefyd gyda swyddogion y Gwasanaeth (Cyfarfodydd 1, 4 a 6 y Panel) er mwyn galluogi'r Panel i gytuno argymhellion. Datblygwyd matrics drwy gydol y broses adolygu i grynhoi sylwadau ac argymhellion.

Sylwadau'r Panel

- 'Roedd rhai eithriadau i sgôp y Polisi sef - ystad mân-ddaliadau'r Cyngor, ystad David Hughes ac unrhyw dir ble 'roedd y Cyngor ei hunan yn bartner mewn datblygiad arfaethedig ee darpariaeth tai cymdeithasol;
- Nodwyd i ran sylweddol o weithrediad y Polisi gael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth a oedd wedi'i ysgrifennu i adlewyrchu

[7] 'Roedd swyddogaeth Eiddo'r Cyngor hefyd yn rhan o'r RICS
[8] Dogfen Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau (Mawrth, 2012).

strwythur Penaethiaid Gwasanaeth blaenorol y Cyngor. Mater er penderfyniad y Pwyllgor Gwaith fyddai unrhyw wirio o'r Polisi;

- Yr angen am glirdeb amserlen gan Benaethiaid Gwasanaeth wrth fynegi diddordeb mewn eiddo a oedd dros ben;
- Yr angen i edrych ar y darlun ehangach a'r effaith ar gymunedau wrth waredu asedau (trosglwyddo/gwerthu) ee ysgolion. Nodwyd hefyd yr oedi allai godi'n sgîl cymhlethdodau cyfreithiol;
- Arwyddocâd clirdeb parthed y gweithdrefnau cyfredol pan yn ystyried addasrwydd a/neu cyfyngiadau llecynnau tir er defnydd unrhyw ddatblygiadau newydd gan yr Awdurdod;
- Ymddengys i'r Ddogfen Bolisi bellach fod allan o ddyddiad ac angen ei diweddaru gyda fformat ac arddull Adran 7 y ddogfen (Trosglwyddo Asedau) yn wahanol iawn i'r gweddill.

<u>CASGLIAD 2</u>: **Pwysigrwydd sicrhau trefn o adrodd rheolaidd gan y Swyddogaeth Gyllid ar ddyledion rhenti a materion cysylltiedig**

Cafwyd cyd-drafodaeth gyda swyddogion Eiddo a Chyllid yng nghyfarfod 6 y Panel[9] ar faterion rheoli dyledion rhenti (Rhan 5: Dogfen Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau). Rhoddwyd sylw i 3 mater yn benodol a oedd wedi codi'n ystod trafodaethau'r Panel:

<u>MATER ALLWEDDOL 1:</u> **Casglu rhenti i ddigwydd fel mater o drefn drwy Ddebyd Uniongyrchol**

<u>Sylwadau'r Panel</u>:

- Cadarnhawyd mai drwy Ddebyd Uniongyrchol (DU) oedd y dull mwyaf effeithiol i'r Cyngor o gasglu incwm ('roedd y dull hwn yn galluogi'r Cyngor i gael rheolaeth uniongyrchol dros y symiau i'w casglu). 'Roedd y gallu bellach gan y Cyngor i gynnig Debyd Uniongyrchol drwy Civica ac y dylid symud ymlaen i geisio trosglwyddo gymaint o denantiaid â phosibl i DU ee ystyried y priodoldeb o gynnwys amod i'r perwyl hwn mewn tenantiaethau newydd;
- Cyfeiriwyd at y trefniadau casglu incwm unigryw gan yr Uned Eiddo ar gyfer tenantiaid y mân-ddaliadau – anfonebu ar sail 6 misol mewn dyled. 'Roedd rôl cadw golwg ar y sefyllfa gan y Swyddog Adran 151 a hefyd sicrhau y cesglir yr incwm sy'n ddyledus i'r Cyngor.

<u>MATER ALLWEDDOL 2</u>**: Y Swyddogaeth Gyllid i sicrhau gwybodaeth gywir, amserol i'r Uned Eiddo ar y gwahanol elfennau o reolaeth eiddo'r Cyngor ee codi anfonebau rhent, dyledion rhent ayyb**

<u>Sylwadau'r Panel</u>:

- Pwysleisiwyd arwyddocâd sianeli cyfathrebu effeithiol, rheolaidd rhwng swyddogion Eiddo a Chyllid er sicrhau gweithredu angenrheidiol i ddileu ôl-ddyledion mewn modd amserol;
- Yr angen i geisio cyswllt electroneg rhwng systemau'r 2 Wasanaeth (Technology Forge a Civica) a hynny i gymryd lle systemau papur er rhannu gwybodaeth angenrheidiol;

[9] Panel Canlyniad Sgriwtini: Gwaredu Asedau a gynhaliwyd ar 29 Medi, 2015.

- Angen sicrhau argaeledd gwybodaeth gan yr Uned Eiddo ynglŷn ag unrhyw ddyledion gan denantiaid mân-ddaliadau;
- Cyflwynwyd trefn blaendal ("*deposit*") ar gyfer tenantiaethau newydd 3 blynedd yn ôl ond 'roedd yn anodd mesur amlder y Cyngor yn gwneud defnydd o flaendal i gyllido newid i eiddo – gan nad oedd llawer o denantiaethau wedi dod i ben yn ystod y cyfnod hwnnw.

MATER ALLWEDDOL 3**: Sicrhau trefn reolaidd o adrodd gan y Swyddogaeth Gyllid ar ddyledion rhenti**

Sylwadau'r Panel:

- Nodwyd i'r system Civica alluogi mynediad gan swyddogion Cyllid ac Eiddo i adroddiadau ar ddyledion rhenti. 'Roedd modd yn ogystal i'r Gwasanaeth Cyllid ddarparu adroddiadau i'r Gwasanaeth Eiddo;
- 'Roedd trefn fewnol o gynnal cyfarfodydd pob 2 wythnos yn y Gwasanaeth Cyllid gyda'r amcan o fonitro casgliad dyledion ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Nodwyd trefn "*adhoc*" o adrodd ar ddyledion i Aelodau Etholedig.

CASGLIAD 3: **Yr angen i sicrhau estyniad i'r Rhaglen Ddatblygu ar gyfer yr Ystad Mân-ddaliadau ym merchnogaeth y Cyngor**

Rhoddwyd cyflwyniad i gyfarfod cyntaf y Panel[10] gan y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) a'r Prif Swyddog Prisio ar yr adolygiad wnaed o'r rhaglen mân-ddaliadau.

Sylwadau'r Panel:

- 'Roedd egwyddor bwysig o gwmpas yr angen i gynnal safon yr ystad mân-ddaliadau a sicrhau mynediad at adnoddau wedi'u clustnodi i bwrpas rhaglen cynnal a chadw;
- Yr angen i ystyried y priodoldeb o gynnig amcanion diwygiedig ar gyfer yr ystad Mân-ddaliadau am y cyfnod y tu hwnt i'r rhaglen uwchraddio gyfredol (fel rhan o'r Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth);
- Angen mantoli'r cyfrifon a sicrhau rhaglen gynaliadwy i'r dyfodol – amcangyfrifwyd y byddai'r rhaglen oddeutu £1m yn fyr ar ddiwedd 2015/16;
- Byddai estyniad blwyddyn ychwanegol (2016/17) yn galluogi'r Cyngor i fantoli'r cyfrifon.

Yn sgîl ystyriaeth bellach yng nghyfarfod 2 y Panel[11], nodwyd gyda balchder y cynnydd hyd yma gyda'r Rhaglen Ddatblygu 5 mlynedd yn y maes Mân-ddaliadau gan bwysleisio'r angen i adael y rhaglen gymryd ei gwrs ac i'r portffolio asedau gyrraedd ei lawn botensial i'r dyfodol. Nodwyd nad oedd diben felly cwmpasu'r agwedd hon o'r portffolio asedau yn sgôp cyfredol y Panel Canlyniad Sgriwtini.

CASGLIAD 4: **Cydnabod cyfraniad elfennau asedau'r ffrwd gwaith Gweithio'n Gallach at waredu asedau**

[10] Panel Canlyniad Sgriwtini: Gwaredu Asedau a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf, 2015.
[11] Panel Canlyniad Sgriwtini: Gwaredu Asedau a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf, 2015.

Bu ystyriaeth i gyfraniad y prosiect Gweithio'n Gallach i waredu asedau yng nghyfarfod 5 y Panel[12].

Sylwadau'r Panel:

- Her sylweddol i'r Awdurdod – adnoddau annigonol i gynnal yr holl o bortffolio asedau cyfredol y Cyngor. 'Roedd nifer o'r asedau angen gwariant sylweddol i'w huwchraddio, nifer nad oeddent yn addas i bwrpas a chost gyfredol rhedeg adeiladau o'u cau oddeutu £175k;
- Byddai ail-fodelu prif swyddfa'r Cyngor yn caniatau'r Awdurdod i ryddau/waredu asedau mewn lleoliadau eraill yn Llangefni;
- 'Roedd cost ynghlwm wrth gynnal adeiladau gweigion gyda chais gan y Panel am wybodaeth i fod ar gael o'r costau fesul adeilad (yn wag);
- Angen clirdeb o gwmpas yr amserlen ar gyfer gwaredu Penyrorsedd;
- Arwyddocâd o sicrhau prisiant cyfredol ar gyfer asedau ar y pwynt y gwnaed penderfyniad i'w gwared. Her i'r Cyngor – sut y byddai modd glynu wrth yr egwyddor hon gyda phwysau cynyddol ar adnoddau staffio mewnol;
- Yr angen i sicrhau bod yr holl wybodaeth i law (hy gwerthusiad opsiynau wedi'i gostio) wrth gyflwyno argymhellion i Aelodau i waredu unrhyw asedau ee Penyrorsedd, Neuadd y Sir;
- Yr angen i gadw mewn cof y penderfyniadau posibl gan y Cyngor ar drawsnewid gwasanaethau dros y cyfnod nesaf gyda'r amcan o sicrhau penderfyniadau cydlynus ac osgoi colli cyfleoedd (osgoi gwneud penderfyniadau unigol heb ystyriaeth i'r darlun ehangach).

| |
|---|
| CASGLIAD 5: **Yr angen am graffu cyn-penderfyniad ar y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft ar gyfer Tiroedd ac Adeiladau (cyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith)** |

Cafwyd cyd-drafodaeth gyda swyddogion Trawsnewid ac Eiddo yng nghyfarfod 7 y Panel[13] ar y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft a hynny cyn cyflwyno'r ddogfen gerbron y Pwyllgor Gwaith (30 Tachwedd, 2015). Er sicrhau ychwanegu gwerth i'r broses graffu cyn-penderfyniad, bu i'r Panel ganolbwyntio ei ffocws ar graffu'r egwyddorion a oedd yn sail i'r Cynllun (sef y gyrrwyr allweddol):

- Gyrrwr Allweddol 1: y Cynllun Corfforaethol (2013/17)
- Gyrrwr Allweddol 2: Gwireddu Arbedion
- Gyrrwr Allweddol 3: Darparu Gwasanaethau i'r Dyfodol
- Gyrrwr Allweddol 4: Lleihau Ymrymiadau Cynnal a Chadw.

Sylwadau'r Panel:

- Nifer o ffeithiau'n y Cynllun a oedd angen eu diweddaru ee amseroedd agor rhai gwasanaethau, ychwanegu strwythur diwygiedig y byrddau trawsnewid a rhaglenni trawsnewid cyfredol y Cyngor;

[12] Panel Canlyniad Sgriwtini: Gwaredu Asedau a gynhaliwyd ar 10 Medi, 2015.
[13] Panel Canlyniad Sgriwtini: Gwaredu Asedau a gynhaliwyd ar 8 Hydref, 2015.

- Ail-ddylunio'r cynllun gweithredu (rhan 2 y Cynllun) i nodi amserlen ar gyfer adolygu/ail ymweld â'r pwyntiau gweithredu unigol (oddi mewn i gyd-destun y fframwaith adolygu blynyddol);
- Arwyddocâd sicrhau datblygu polisi effeithiolrwydd ynni a fyddai'n bwydo mewn i'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol.

| CASGLIAD 6: **Archwiliad o restr eiddo/asedau'r Awdurdod i graffu gweithrediad y Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau** |
| --- |

Rhannwyd gydag aelodau'r Panel restr gyfredol yr holl asedau a oedd yn destun gwaredu gan y Cyngor (gan gynnwys Mân-ddaliadau ac Ymddiriedolaeth David Hughes) i alluogi trafodaeth ystyrlon yng nghyfarfod cyntaf y Panel Sgriwtini[14] (cynhaliwyd ar 1 Gorffennaf, 2015).
Bu i Aelodau'r Panel edrych ymhellach ar y rhestr honno yng nghyfarfod 4 y Panel[15].

Sylwadau'r Panel:

- Angen am glirdeb am unrhyw bolisi gan y Cyngor ar gyfer gwerthu darnau o Barciau/Stadau Diwydiannol;
- Yr angen am glirdeb yn y ddogfen parthed y gwahaniaeth rhwng les a throsglwyddiad ased;
- A oedd gan y Cyngor fan canolog i gofnodi penderfyniadau i beidio â gwerthu ased penodol? A oedd yr Aelod Portffolio'n rhan o'r broses honno?
- A oedd gan yr Awdurdod feini prawf wrth benderfynu ar hyd les?

[14] Panel Canlyniad Sgriwtini: Gwaredu Asedau a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf, 2015.
[15] Panel Canlyniad Sgriwtini: Gwaredu Asedau a gynhaliwyd ar 1 Medi, 2015.

# 5. ARGYMHELLION

Cyflwyno'r argymhellion canlynol er cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith:

**Yr angen i sicrhau Dogfen Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau cyfredol fel sylfaen gadarn i waith y Cyngor**

**1.**

| ADRAN Y POLISI | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| Gwaredu Asedau a Gosod Asedau | Diwygio Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau'r Cyngor:<br>• I adlewyrchu strwythur newydd y Penaethiaid Gwasanaeth;<br>• Trothwyon ariannol a dulliau marchnata a gwaredu (i adlewyrchu ymarfer cyfredol y farchnad) – er symleiddio a safoni'r broses. |
| Prynu Eiddo | Diwygio'r Polisi i adlewyrchu'r ffaith nad oedd yr angen yn bodoli bellach i gyflwyno manylion yr holl eiddo a brynwyd fel gwybodaeth i'r Pwyllgor Gwaith |
| --------------------------- | Sicrhau'r pris a'r gwerth gorau wrth waredu asedau fel mater o drefn gan ddefnyddio barn broffesiynol. |
| Gwaredu Asedau, Gosod Asedau, Prynu Eiddo | Diwygio elfennau canlynol y Ddogfen Bolisi mewn modd fyddai'n sicrhau taro cyd-bwysedd rhwng galluogi swyddogion i weithredu ar sail eu barn proffesiynol a sicrhau'r pris gorau i'r Cyngor:<br>• Trothwyon ariannol;<br>• Adlewyrchu ymarfer cyfredol wrth geisio gwaredu eiddo |
| Gwaredu Asedau, Gosod Asedau, Rheoli Les/Eiddo | O ystyried yr angen i barhau bellach gyda'r ymarfer o sicrhau mewnbwn gan Aelodau Lleol ar faterion gwaredu eiddo, dylid ail ddiffinio mewnbwn yr Aelodau i'r dyfodol gyda'r amcan o rannu gwybodaeth yn unig ar ddecrhrau'r broses (yn hytrach nag ymgynghori). Y rhannu gwybodaeth i ddigwydd drwy ebost. |
| Trosglwyddo Asedau | • Ail ddrafftio Adran 7 y ddogfen er mwyn sicrhau cysondeb gyda gweddill y Ddogfen Bolisi a hefyd creu datganiad haws i'w ddilyn/gyfathrebu gan ddefnyddio dogfennau Wrecsam fel canllaw ynghyd â ffurflenni yn nogfenaeth Sir Fflint;<br>• Nodi bod yna achosion penodol gyda gwaredu rhai asedau ee rhaglen drawsnewid addysg ble oedd angen sicrhau gwerth y farchnad er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol. |
| --------------------------- | Sicrhau clirdeb yn y ddogfen ar y cerrig milltir ac amserlenni wrth waredu asedau unigol. |

**2. Pwysigrwydd sicrhau trefn o adrodd rheolaidd gan y Swyddogaeth Gyllid ar ddyledion rhenti a materion cysylltiedig**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| **2.1** | Cyflwyno Debyd Uniongyrchol fel y dull talu ar gyfer unrhyw denantiaethau/brydlesi newydd (i'w dalu mis ymlaen llaw) gan weithredu o 1 Tachwedd, 2015. |
| **2.2** | Ceisio gosod taliad Debyd Uniongyrchol mewn unrhyw sefyllfaoedd ble byddai'n rhaid i'r Cyngor ad-ennill dyled gan denant. |
| **2.3** | Ceisio dwyn perswâd ar denantiaid cyfredol y Cyngor i drosglwyddo i Ddebyd Uniongyrchol gyn gynted â phosibl. |
| **2.4** | Nodi i waith y Panel Canlyniad Sgriwtini hwn fod yn sbardun i ail gychwyn trefn o gyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddogion Eiddo a Chyllid (amcan: sianel gyfathrebu a llif amserol o wybodaeth). 'Roedd angen sicrhau parhad yn y cyfarfodydd hyn ar sail pob 4/6 wythnos dros y cyfnod nesaf. |
| **2.5** | Symud ymlaen i sicrhau cyswllt electroneg rhwng systemau Eiddo a Chyllid (Technology Forge a Civica) gyn gynted â phosibl. |
| **2.6** | Cyflwyno adroddiad ar ddyledion rhenti tenantiaethau mân-ddaliadau i'r Swyddog Adain 151 fel mater o flaenoriaeth. |
| **2.7** | Ystyried y priodoldeb o gyflwyno prosiect gwario i arbed gyda golwg ar ddatblygu trefniadau hunan-gyllidol ar gyfer taliadau gwasanaeth eiddo (*"service charges"*) tenantiaid. |
| **2.8** | Sicrhau llif gwybodaeth rheolaidd rhwng Cyllid ac Eiddo ar ddyledion rhenti er sicrhau gweithredu amserol gan yr Awdurdod i ad-ennill. |
| **2.9** | Cyflwyno trefn ffurfiol, rheolaidd o adrodd ar ddyledion i Aelodau Etholedig ee chwarterol. |

**3. Yr angen i sicrhau estyniad i'r Rhaglen Ddatblygu ar gyfer yr ystad Mân-ddaliadau ym merchnogaeth y Cyngor**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| **3.1** | Yn sgîl y gwelliant sylweddol yng nghyflwr yr asedau, peidio ag adolygu'r elfen Mân-ddaliadau eto ar hyn gan ystyried y priodoldeb o ail ymweld â'r maes yn ystod Haf, 2016. |
| **3.2** | Gwahodd y Gwasanaeth Eiddo i gyflwyno cynllun datblygu Mân-ddaliadau am y cyfnod y tu hwnt i'r Rhaglen gyfredol – gyda'r amcan o alluogi'r portffolio asedau hwn i wireddu ei lawn botensial. |
| **3.3** | Gofyn i Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymell y canlynol i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 20 Gorffennaf, 2015[16]:<br>• Sicrhau estyniad blwyddyn i'r Rhaglen Ddatblygu Mân-ddaliadau i alluogi'r rhaglen i wireddu'n gyflawn;<br>• Yr angen i gyflwyno cynllun datblygu tymor canol i'r portffolio Mân-ddaliadau (amcan: gwireddu llawn botensial y portffolio). |

[16] Eisoes wedi'i weithredu oherwydd amserlen cyflwyno'r eitem er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith (20/07/15)

**4. Cydnabod cyfraniad elfennau asedau'r ffrwd gwaith Gweithio'n Gallach at waredu asedau**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| 4.1 | Cadarnhau'r pwysigrwydd o sicrhau prisiant cyfredol ar gyfer asedau. |
| 4.2 | Yr angen i sicrhau bod yr holl wybodaeth i law (hy gwerthusiad opsiynau wedi'i gostio) wrth gyflwyno argymhellion i Aelodau i waredu unrhyw asedau. |
| 4.3 | Yr angen i gadw mewn côf y penderfyniadau posibl gan y Cyngor ar drawsnewid gwasanaethau dros y cyfnod nesaf er mwyn sicrhau penderfyniadau cydlynus ac osgoi colli cyfleoedd (osgoi gwneud penderfyniadau unigol heb ystyriaeth i'r darlun ehangach). |
| 4.4 | Cadarnhau'r angen i gyflymu'r broses o waredu ased pan fo'r penderfyniad wedi'i wneud nad oedd defnydd iddo bellach. |
| 4.5 | Nodi y byddai Parc Mownt yn rhan sylweddol o wireddu'r Prosiect Gweithio'n Gallach ac i raddau helaeth yn brawf o lwyddiant/ effeithiolrwydd y gwaith cyfan – gyda photential i greu incwm sylweddol i'r Awdurdod. |

**5. Yr angen am graffu cyn-penderfyniad ar y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft ar gyfer Tiroedd ac Adeiladau (cyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith)**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| **5.1** | Pwysleisio mewn modd fwy amlwg arwyddocâd neges y dyfyniad isod gan y *RICS*:<br>*"It has been identified that a poor fit between service requirements and the property asset from which it is delivered is a risk to the Authority. If the asset does not support service delivery it will detract from the Council's services to its citizens."*<br>(*Public Sector Asset Management Guide to Best Practice*). |
| **5.2** | Cryfhau ymhellach y Model Strategaeth Ased (tudalen 13 y Cynllun) er mwyn:<br>• Sicrhau atebolrwydd – wrth i wasanaethau graffu ac herio'n barhaus yr angen i gadw llawer o'u hasedau (trwy'r Grŵp Corfforaethol ar gyfer Asedau);<br>• Sicrhau clirdeb – parthed rôl a chyfraniad craffu i'r model (swyddogaethau craffu cyn-penderfyniad a galw mewn);<br>• Amrediad y modelau ar gyfer pob ased – ychwanegu model cadw a chynnal yr ased yn ei ffurf gyfredol at yr amrediad opsiynau i'w hystyried. |
| **5.3** | **Atodiad 2**: Angen cryfhau'r berthynas rhwng y Grŵp Asedau Corfforaethol a'r 2 Fwrdd Trawsnewid arfaethedig (trwy'r trefniadau llywodraethu). |
| **5.4** | **Gyrrwr Allweddol 2: Gwireddu Arbedion**<br>• Adolygu'r wybodaeth yn gynwysiedig yn fersiwn gyfredol y Cynllun er sicrhau cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf yn y fersiwn fyddai gerbron y Pwyllgor Gwaith (amcan: sicrhau Cynllun Rheoli Asedau mor gyfredol (*future proof)* â phosibl);<br>• Angen pwysleisio'r amcan o facsimeiddio adnoddau yn sgîl gwerthiant asedau yn ogystal â lleihad yn nifer yr asedau ym merchnogaeth y |

| | |
|---|---|
| | Cyngor;<br>• Ychwanegu gwasanaethau hamdden/treftadaeth/ieuenctid at y rhestr o wasanaethau fydd yn flaenoriaeth i'w trawsnewid (er sicrhau'r rhestr fwyaf gyfredol);<br>• Arall eirio brawddeg olaf y datganiad – i bwysleisio fod yna asedau eraill o eiddo'r Cyngor gyda'r potensial i wireddu arbedion effeithiolrwydd ychwanegol (hy asedau a oedd o bosibl y tu allan i'r strategaeth arbedion effeithiolrwydd cyfredol). |
| **5.5** | **Gyrrwr Allweddol 3: Darparu Gwasanaethau i'r Dyfodol**<br>• Angen hefyd ystyried yr egwyddor y gallai rhai asedau gynhyrchu incwm wrth eu cadw'n ogystal â thrwy waredu. Angen gofyn cwestiwn – a oedd yn gwneud synnwyr busnes i gadw neu waredu ased?<br>• Pwysleisio'r angen i gwblhau gwerthusiad opsiynau pan yn ystyried yr egwyddor o ddatblygu unedau masnachol fel eu bod yn cynhyrchu incwm i'r Awdurdod;<br>• Atgyfnerthu'r cyswllt i dechnoleg – fel galluogwr. Nodwyd hefyd yr angen am fuddsoddiad yn y maes hwnnw. |
| **5.6** | **Gyrrwr Allweddol 4: Lleihau Ymrwymiadau Cynnal a Chadw**<br>• Angen pwysleisio gwerth ariannol yr ôl-groniad cyfredol yng nghostau cynnal a chadw stoc asedau'r Cyngor (£18m ar hyn o bryd);<br>• Ystyried y priodoldeb o ddatblygu elfen ychwanegol i'r Cynllun Rheoli Asedau (ysgolion) – anogaeth ar gyrff llywodraethol a chymdeithasau athrawon/rhieni ysgolion/cymunedau i gymryd cyfrifoldeb am gostau a threfniadau gwaith cynnal a chadw ysgolion a hynny oddi mewn i drothwyon clir. |

**Nid oedd unrhyw argymhellion gan y Panel Canlyniad Sgriwtini ar Gasgliad 6: Archwiliad o restr eiddo/asedau'r Awdurdod i graffu gweithrediad y Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau.**

**6.Mater Cyffredinol**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| **6.1** | Penderfynu pa baneli canlyniad sgriwtini oedd angen bod yn rhai tasg a gorffen a pha baneli yn rhai parhaol. Dylid ystyried y priodoldeb o gadarnhau statws y Panel Gwaredu Asedau fel un parhaol. |

# 6. PAPURAU CEFNDIR/LLYFRYDDIAETH

6.1 Dogfen Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau'r Cyngor [Mawrth, 2012]
6.2 Rhestr eiddo/asedau cyfredol yr Awdurdod [Fersiwn Awst, 2015]
6.3 Achos Busnes Llawn: Gweithio'n Gallach (darnau perthnasol i waredu asedau) [Fersiwn 3.4, 29 Medi, 2014]
6.4 Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft y Cyngor (Tiroedd ac Adeiladau) 2015/2020 [Fersiwn 7, Chwefror, 2015]
6.5 Polisi Gosod am Rent is na Gwerth y Farchnad [Cyngor Gwynedd]
6.6 Polisi Gwaredu Eiddo [Cyngor Gwynedd]
6.7 Strategaeth a Pholisi Caffael Eiddo [Cyngor Gwynedd]
6.8 Polisi Gwaredu a Phrynu Asedau / Strategaeth a Chynllun Gwireddu [Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, 2012]
6.9 Cyfarwyddiadau Polisi: Trosglwyddo Asedau (cymunedol) [Cyngor Sir y Fflint]
6.10 Polisi Trosglwyddo Asedau [Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam]
6.11 Cofnodion cyfarfodydd y Panel Canlyniad Sgriwtini:

- Cyfarfod 1 – 01/07/15
- Cyfarfod 2 – 08/07/15
- Cyfarfod 3 – 28/07/15
- Cyfarfod 4 – 01/09/15
- Cyfarfod 5 – 10/09/15
- Cyfarfod 6 – 29/09/15
- Cyfarfod 7 – 08/10/15
- Cyfarfod 8 – 03/11/15
- Cyfarfod 9 – 11/11/15

Fersiwn 6
Dyddiedig: 11/11/15

**ATODIAD 1**

# CYLCH GORCHWYL
# PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI: GWAREDU ASEDAU

Mae'r ddogfen Cylch Gorchwyl hon (CG) yn gosod allan y trefniadau gweithio a ffiniau gwaith y Panel Canlyniad Sgriwtini: Gwaredu Asedau, sydd newydd ei sefydlu.

## 1. CEFNDIR/CYD-DESTUN

1.1 Gwelwyd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 01/09/14 yn ystyried adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog 151 Dros Dro ar fonitro'r gyllideb: cyllideb refeniw Chwarter 1: 2014/15. Yn ystod y drafodaeth, bu i'r Pwyllgor Sgriwtini benderfynu fel a ganlyn:

- Bod Panel Canlyniad Sgriwtini'n cael ei sefydlu i edrych ar yr agwedd tuag at gael gwared o'r portffolio mân-ddaliadau ac asedau eraill;
- Aelodaeth y Panel i gynnwys - Cyng R Meirion Jones, Jim Evans, Llinos Medi Huws[1], Lewis Davies a Raymond Jones.

## 2. RÔL, PWRPAS A SGÔP

Bydd rôl y Panel Canlyniad Sgriwtini'n cynnwys edrych mewn mwy o fanylder ar:

- Drefniadau cyfredol yr Awdurdod o gael gwared ag asedau;
- Adolygu Rhaglen Ddatblygu 5 mlynedd Mân-ddaliadau'r Cyngor (o Haf, 2016 ymlaen);
- Achos Busnes Gweithio'n Gallach: darnau perthnasol i waredu asedau;
- Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ar gyfer Tir ac Adeiladau.

Gwneir hyn trwy edrych mewn mwy o fanylder ar:

i. Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau cyfredol y Cyngor er mwyn sicrhau bod y Polisi'n:
   - Galluogi'r Awdurdod i waredu eiddo'n effeithiol ac effeithlon;
   - Cael ei weithredu.

ii. Restr eiddo/asedau'r Awdurdod i graffu gweithrediad y Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau;

iii. Gyfraniad y Prosiect Gweithio'n Gallach i waredu asedau gan roi ystyriaeth benodol i'r gyrrwyr allweddol canlynol ar gyfer gweithredu Gweithio'n Gallach;
   - Cau adeiladau;
   - Llety gyda chyfyngiadau arnynt.

iv. Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol y Cyngor (Tiroedd ac Adeiladau) er sicrhau craffu cyn-penderfyniad a hynny cyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith.

**CANLYNIADAU A DDYMUNIR:**

- Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau diwygiedig i'r Cyngor;
- Sicrhau trefn o adrodd rheolaidd gan y Swyddogaeth Gyllid ar ddyledion rhenti;
- Argymell y Cyngor i ymestyn y rhaglen ddatblygu Mân-ddaliadau am flwyddyn ychwanegol (terfynu Mawrth, 2017);
- Craffu cyn-penderfyniad ar y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft ar gyfer Tiroedd ac Adeiladau (cyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith).

[1] Wedi cymryd lle'r Cyng Peter Rogers.

## 3. AELODAETH

Bydd aelodaeth graidd[2] y Panel yn cynnwys:

**3.1 Aelodaeth – Aelodau Etholedig**:

- Cynghorydd R Meirion Jones;
- Cynghorydd Llinos Medi Huws;
- Cynghorydd Jim Evans;
- Cynghorydd Raymond Jones.

.

**3.2 Aelodaeth – Swyddogion**:

- Dewi Williams, Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo);
- T Dylan Edwards, Prif Swyddog Prisio;
- Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini Dros Dro.

Mae'n debygol y bydd gwaith y Panel yn golygu y bydd angen i Aelodau Etholedig eraill (ee o'r Pwyllgor Gwaith) a/neu Swyddogion o feysydd Gwasanaeth eraill fynychu'r Panel.

## 4. CADEIRIO

Yn ei gyfarfod cyntaf, bydd y Panel yn ethol Aelod i gadeirio.

## 5. AMLDER CYFARFODYDD A CHWORWM

5.1 **Amlder Cyfarfodydd** – Sefydlwyd y Panel Canlyniad Sgriwtini i gwblhau darn penodol o waith ar ran y rhiant bwyllgor, y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (cyfeirir at baragraff 2, uchod). I'r perwyl hwnnw, rhagwelir y bydd angen trefnu cyfres **o 9 cyfarfod**[3] dros **y 6 mis** nesaf, i'w cynnal yn fisol;

5.2 **Cworwm** – ni fydd hyn yn berthynasol i'r Paneli Sgriwtini a sefydlwyd gan yr Awdurdod Lleol.

## 6. COFNODION CYFARFODYDD A THREFNIADAU ADRODD

6.1 Bydd yr Uned Sgriwtini'n coladu a dosbarthu papurau wrth baratoi ar gyfer pob cyfarfod a bydd yn darparu cofnod o gyfarfodydd y Panel;

6.2 Bydd yr Uned Sgriwtini'n paratoi adroddiad drafft o waith y Panel – er cymeradwyaeth gan Aelodau Etholedig a Swyddogion yr Awdurdod Lleol.

## 7. AMSERLEN

Bydd ffiniau amser i waith y Panel Sgriwtini ac anelir at baratoi ei adroddiad terfynol ym mis Tachwedd, 2015.

Anwen Davies
Rheolwr Sgriwtini Dros Dro
Gorffennaf, 2015

TOR_outcomepaneldebt2015cymv4
(diwyg. 29/07/15)

---

[2] Yn sgîl trafodaeth gyda Chadeirydd y Panel, penderfynwyd na fyddai'r Cyng Lewis Davies yn cyfrannu at waith y Panel Canlyniad Sgriwtini hwn.

[3] I'w adolygu'n barhaus trwy gydol yr adolygiad.

**ATODIAD / *APPENDIX 1***

**ATODLEN CYFARFODYDD: PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI [GWAREDU ASEDAU] /**
***SCHEDULE OF MEETINGS: SCRUTINY OUTCOME PANEL [DISPOSAL OF ASSETS]***

| **CYFARFOD / *MEETING*** | **DYDDIAD / *DATE*** | **LLEOLIAD / *VENUE*** | **RHAGLEN / *AGENDA*** |
|---|---|---|---|
| **1** | 01/07/15 [10.00 – 12.00yp/*pm*] | Ystafell Gyfarfod Eiddo / *Property Conference Room* | CG, Cynllun Prosiect a gosod y cyd-destun / *TOR, Project Plan & setting the scene.* |
| **2** | 08/07/15 [12.30 – 2.00yp/*pm*] | Ystafell Gyfarfod Cynllunio / *Planning Meeting Room* | • Ystyriaeth bellach o'r CG, Cynllun Prosiect a chytundeb ar gwestiynau/llinellau i'w dilyn/cyfeiriad yr Adolygiad Sgriwtini / *Further consideration of TOR, Project Plan and agreements around lines of enquiry/questions to pursue/direction of Scrutiny Review.* |
| **3** | 28/07/15 [10.00 – 12.00yp/*pm*] | Ystafell Gynhadledd Eiddo/ *Property Conference Room* | • Ystyriaeth fanwl o Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau'r Cyngor / *Detailed consideration of the Council's Asset Management Policy & Procedures;*<br>• Cytuno'r ffordd ymlaen parthed mewnbwn allanol, arbenigol / *Agree way forward regarding external, expert advice;*<br>• Ystyriaeth bellach o'r CG a'r Cynllun Prosiect / *Further consideration of TOR & Project Plan.* |
| **4** | 01/09/15 [10.30yb/*am* – 12.30yp/*pm*] | Ystafell Gynhadledd Eiddo/ *Property Conference Room* | • Ymchwilio rhestr y Cyngor o eiddo/asedau i'w gwaredu / *Examination of the Council's list of properties/ assets* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *to be disposed;*<br>• Cyd-ystyriaeth o sylwadau'r Panel ar Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau'r Cyngor gyda'r Pennaeth Gwasanaeth/ Prif Swyddog Prisio / *Joint consideration of Panel's observations on the Asset Management Policy & Procedures with the HOS/Principal Valuation Officer.* |
| **5** | 10/09/15 [11.30yb/*am* – 1.30yp/*pm*] | Ystafell Bwyllgor 1 / *Committee Room 1* | Cyfraniad y Prosiect Gweithio'n Gallach i waredu asedau / *Contribution made by the Smarter Working Project to the disposal of assets.* |
| **6** | 29/09/15 [10.00yb/*am* – 12.30yp/*pm*] | Ystafell / *Room* 1003 | • Cyd-drafodaeth gyda swyddogion Eiddo a Chyllid ar faterion rheoli dyledion rhenti / *Joint discussion with Property & Finance officers on rent arrear issues;*<br>• Crynhoi darganfyddiadau'r Panel parthed ei ymchwiliad o'r ddogfen Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau a'r Prosiect Gweithio'n Gallach/ *Summarise Panel findings in relation to its examination of the Asset Management Policy & Procedures and Smarter Working Project.* |
| **7** | 08/10/15 [11.30yb/*am* – 1.30yp/*pm*] | Ystafell / *Room* 1003 | Craffu cyn-penderfyniad ar y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ar gyfer Tiroedd ac Adeiladau (cyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith) / *Pre-decision scrutiny of the Corporate Asset Management Plan for Land & Buildings (prior to consideration by the Executive).* |
| **8** | 03/11/15 [9.00 – 10.30yb/*am]* | Ystafell / *Room* 1003 | Adroddiad drafft y Panel, tynnu casgliadau a chytuno ar argymhellion / *Draft Panel Report,* |

Tudalen 189

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *draw conclusions and agree recommendations.* |
| **9** | 11/11/15<br>[9.00 – 10.00yb/*am*] | Ystafell Bwyllgor 1 / *Committee Room 1* | Cytuno Adroddiad Terfynol y Panel Canlyniad Sgriwtini / *Sign-off Final Panel Report.* |

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cadeirydd: Y Cynghorydd R Meirion Jones
Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Gwilym O Jones

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o fis Mai, 2015 hyd at fis Mai, 2016. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Anwen Davies (Rheolwr Sgriwtini Dros Dro)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad /Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar bob rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriadau**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd**<br>• **Rhaglen Waith - Adolygiad** | | | |
| **6 Gorffennaf 2015** | Enwebiad i'r Panel Rhiant Corfforaethol. | Enwebu un aelod i'r Panel sy'n sicrhau bod gwasanaethau i blant a phobl ifanc mewn gofal o safon uchel | Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp |
| | Trefniadau'r Awdurdod Lleol i Gefnogi Diogelu Plant – Swyddfa Archwilio Cymru | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Perfformiad Blynyddol - Drafft (Cynllun Gwella ) 2014/15 | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Matrics Cyllideb Gyfalaf 2016/17 | Monitro perfformiad | |
| | Monitro Perfformiad – Sgorfwrdd Corfforaethol CH4 2014/15:<br>• SCA/018b (Gofalwyr oedolion);<br>• LCL/004 (Deunyddiau llyfrgell a fenthyciwyd);<br>• LCS/002b (Ymweliadau i ganolfannau chwaraeon/hamdden). | Monitro perfformiad | |
| | Blaen Raglen Waith | Trefniadau sgriwtini effeithiol | |
| | | | |
| **17 Medi 2015** | Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2014/15 | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp |
| | Cerdyn Sgorio Corfforaethol CH1 2015/16 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Refeniw CH1 2015/16 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Cyfalaf CH1 2015/16 | Monitro perfformiad | |



[Fersiwn 8 @ 19/11/15]

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad /Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar bob rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriadau**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd**<br>• **Rhaglen Waith - Adolygiad** | | | |
| | Cyllideb 2016/17 – Cynllun Ymgynghori | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Moderneiddio Ysgolion – Ymgynghoriad Ffurfiol Ardal Rhosyr | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Paneli Canlyniad Sgriwtini Effeithiol – Datganiad Sefyllfa ac argymhellion | Trefniadau sgriwtini effeithiol | |
| | Blaen Raglen Waith | Trefniadau sgriwtini effeithiol | |
| | | | |
| **16 Tachwedd 2015** | Opsiynau Cyllideb cychwynnol: 2016/17 | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Bwyllgor 1 / 3yp |
| | Blaen Raglen Waith | Trefniadau sgriwtini effeithiol | |
| | | | |
| **1 Rhagfyr 2015** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol CH2 2015/16 | Monitro perfformiad | Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp |
| | Adroddiad Monitro Refeniw CH2 2015/16 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Cyfalaf CH2 2015/16 | Monitro perfformiad | |
| | Rheoli Pobl:<br>A. Montro Perfformiad – Sgorfwrdd Corfforaethol:<br>• Absenoldeb salwch – cyfartaledd diwrnodau/shifftiau gwaith a gollwyd;<br>• Salwch tymor byr – cyfartaledd diwrnodau/shifftiau gwaith a gollwyd;<br>• Salwch tymor hir – cyfartaledd diwrnodau/shifftiau gwaith a gollwyd;<br>• Canran y cyfweliadau RTW a | Monitro perfformiad | |

Tudalen 193

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad /Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar bob rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriadau**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd**<br>• **Rhaglen Waith - Adolygiad** | | | |
| | gynhaliwyd;<br>• Nifer y gweithwyr yn cyrraedd pwynt sy'n sbardun i Gyfarfod Adolygu Presenoldeb (ARM);<br>• Canran y PDRs a gwblhawyd i amser.<br>B. Panel Canlyniad Sgriwtini: Adolygiad Rheolaeth Absenoldeb Salwch Adroddiad cynnydd. | | |
| | Adroddiad Blynyddol Perfformiad Llyfrgelloedd | Monitro perfformiad | |
| | Gwerthusiad Blynyddol AGGCC o'r Gwasanaethau Cymdeithasol (2014/15) | Monitro perfformiad | |
| | Sgriwtini o achos Gwasanaethau Plant penodol – Adroddiad Panel ac argymhellion | Adolygiad Sgriwtini/Ychwanegu gwerth | |
| | Panel Canlyniad Sgriwtini: Gwaredu Asedau – Adroddiad Terfynol ac argymhellion | Adolyiad Sgriwtini/Gwerth ychwanegol | |
| | Blaen Raglen Waith | Trefniadau sgriwtini effeithiol | |
| | | | |
| **1 Chwefror 2016** | Ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus ar Gyllideb 2016/17 y Pwyllgor Gwaith | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Bwyllgor 1 / 3yp |
| | Panel Canlyniad Sgriwtini: Arbedion Effeithiolrwydd [2015/16] – Adroddiad Terfynol ac argymhellion | Adolygiad Sgriwtini/Gwerth ychwanegol | |

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad /Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar bob rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriadau**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd**<br>• **Rhaglen Waith - Adolygiad** | | | |
| | Paneli Canlyniad Sgriwtini Effeithiol – Datganiad Sefyllfa ac argymhellion | Trefniadau sgriwtini effeithiol | |
| | Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd [i'w gadarnhau] | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Gwasanaethau Iechyd Meddwl | Sgriwtini o drefniadau cyfredol | |
| | Paneli Canlyniad Sgriwtini: Diogelu Corfforaethol, Gofalwyr Anffurfiol a Gosod Tai'r Awdurdod Lleol – sgôp/cylch gorchwyl/ aelodaeth | Trefniadau sgriwtini effeithiol | |
| | Blaen Raglen Waith | Trefniadau sgriwtini effeithiol | |
| | | | |
| **14 Mawrth 2016** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol CH3 2015/16 | Monitro perfformiad | Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp |
| | Adroddiad Monitro Refeniw CH3 2015/16 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Cyfalaf CH3 2015/16 | Monitro perfformiad | |
| | Cofrestr Risgiau Corfforaethol | Monitro perfformiad | |
| | Panel Canlyniad Sgriwtini: Rheoli Dyledion – Adroddiad Terfynol ac argymhellion | Adolygiad Sgriwtini/Gwerth ychwanegol | |
| | Blaen Raglen Waith | Trefniadau sgriwtini effeithiol | |
| | | | |
| **11 Ebrill 2016** | Gwasanaethau Anableddau Dysgu – trawsnewid | Sgriwtini o drefniadau cyfredol | Ystafell Bwyllgor 1 / 3yp |
| | Trefniadau Ôl-ofal (Gwasanaethau Plant) | Sgriwtini o drefniadau cyfredol | |
| | Blaen Raglen Waith | Trefniadau sgriwtini effeithiol | |
| | | | |

This page is intentionally left blank